# RHYBUDD O GYFARFOD

***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***

***Jonathan Cawley***
***Prif Weithredwr***
***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***
***Penrhyndeudraeth***
***Gwynedd LL48 6LF***
***Ffôn: (01766) 770274***
***E-bost: parc@eryri.llyw.cymru***

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 29 Ebrill 2026 |
| **Amser:** | 10.00 y.b. |
| **Man Cyfarfod:** | Swyddfa'r Parc Cenedlaethol,<br>Penrhyndeudraeth a thrwy Zoom |

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod***
***15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig***

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd***
*Y Cynghorwyr: Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths,*
*Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen,*
*Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts,*
*Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy***
*Y Cynghorwyr: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru***
*Rhys Evans, Salamatu Fada, Tim Jones,*
*Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas.*

# R H A G L E N


| | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd** | |
| 2. | **Diweddariad Corfforaethol**<br>Cyflwyno diweddariad gan y Prif Weithredwr. (Copi yma) | 4 - 8 |
| 3. | **Hawl i'r Cyhoedd Holi**<br>Mae'r Awdurdod wedi clustnodi hyd at 20 munud ar ddechrau ei gyfarfod i roi cyfle i aelodau o'r cyhoedd ofyn cwestiynau penodol sy'n ymwneud â gwaith yr Awdurdod (ac eithrio ceisiadau cynllunio) sy'n berthnasol i ddyletswyddau a phwrpasau'r Parc.<br>Rhaid cyflwyno'r cwestiynau'n ysgrifenedig (drwy'r post neu e-bost) i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol o leiaf 7 niwrnod cyn y cyfarfod. | |
| 4. | **Datgan Diddordeb**<br>Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb yn unrhyw eitem gan aelod neu swyddog. | |
| 5. | **Cofnodion**<br>Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2026 fel rhai cywir. (Copi yma) | 9 - 13 |
| 6. | **Materion er gwybodaeth sy'n codi o'r cofnodion** | |
| 7. | **Taflen Weithredu**<br>Cyflwyno'r Daflen Weithredu, er gwybodaeth a phenderfyniad. (Copi yma) | 14 - 15 |
| 8. | **Amserlen Cyfarfodydd 2026/27**<br>Cyflwyno Amserlen o Gyfarfodydd ar gyfer y cyfnod 2026-27. (Copi yma) | 16 |
| 9. | **Cynllun Gweithredu Adfer Natur Eryri**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Cadwraeth, Coed & Amaeth (Copi yma) | 17 - 46 |
| 10. | **Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Ymgysylltu Cymunedol (Copi yma) | 47 - 88 |
| 11. | **Datganiad Cyfrifon 2023/24**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid (Copi yma) | 89 - 201 |
| 12. | **Adroddiad ISA 260**<br>Cyflwyno adroddiad gan Rachel Freitag, Archwilio Cymru (Copi yma) | 202 - 232 |

13. **Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth** 233 - 242
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer (Copi yma)

14. **Polisi Datgelu Cyfrinachol (Seinio Rhybudd)** 243 - 249
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer (Copi yma)

15. **Llythyr Grant Strategol** 250 - 255
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr. (Copi yma)

16. **Rhaglen Waith Gorfforaethol 2026-27 (Drafft)** 256 - 279
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)

17. **Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025-26 ar y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol** 280 - 286
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer (Copi yma)

18. **Adroddiadau'r Gweithgor Aelodau** 287 - 293
Cyflwyno adroddiadau cyfarfodydd y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 21 Ionawr a 25 Chwefror 2026

19. **Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill**
Derbyn adroddiadau llafar gan Aelodau am unrhyw gyfarfodydd sefydliadau eraill y buont ynddynt yn ddiweddar fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

**Eitem Rhif 2**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod |
| **DYDDIAD** | 29 Ebrill 2026 |
| **TEITL** | Diweddariad y Prif Weithredwr |
| **ADRODDIAD GAN** | Prif Weithredwr |
| **PWRPAS** | Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am unrhyw faterion allweddol sydd wedi codi ers y cyfarfod diwethaf |

**1. CYFLWYNIAD**

**2.** Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am rai o'r materion strategol a chorfforaethol allweddol sydd wedi codi ers ein cyfarfod diwethaf ar y 4ydd o Chwefror.

**3. MATERION CENEDLAETHOL:**

**4. Ystâd Natur Cymru**

5. Yn dilyn cymeradwyaeth y Senedd o'r Mesur Amgylcheddol (Egwyddorion, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) ddiwedd mis Chwefror, lansiodd Llywodraeth Cymru Ystâd Natur Cymru ym mis Mawrth 2026. Daeth y fenter hon â rhai o berchnogion tir mawr Cymru ynghyd â'r 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol. Nod y fenter hon yw adeiladu ar Fesur yr Amgylchedd, a gweithio tuag at dargedau natur cenedlaethol 30x30. Ynghyd ag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Eryri, Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro, mae Ystâd Natur Cymru hefyd yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Dŵr Cymru. Nod y grŵp yw cyflawni newid amgylcheddol ar raddfa fawr trwy gydlynu ymdrechion na fydd sefydliadau unigol o bosibl yn gallu eu cyflawni ar eu pen eu hunain.

6. Mae hwn yn faes cymhleth sydd o arwyddocâd gwirioneddol i waith yr Awdurdod hwn a byddaf fi, ynghyd â chydweithwyr, yn ymdrechu i roi gwybod i'r Aelodau am y cynnydd.

**7. Tirweddau Cymru Landscape Wales (TCLW) - Grŵp Tasg a Gorffen Annibynnol ar wella effeithlonrwydd a moderneiddio cyrff Tirweddau Dynodedig:**

8. Nid oes unrhyw ddiweddariad pellach ar hyn o bryd ynghylch gwaith y grŵp uchod, a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau unwaith y'i derbynnir.

**9. Gwella Llywodraethu ac Atebolrwydd Aelodau ym Mharciau Cenedlaethol Cymru**

10. Mae’r gwaith hwn, o dan arweiniad Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'r 3 APC yng Nghymru, bellach wedi'i gwblhau. Byddaf yn ymdrechu i gael cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru i gyflwyno'r canfyddiadau i'r Aelodau mewn cyfarfod o'r Gweithgor yn y dyfodol. Mae'r gallu i wneud hyn wedi'i ohirio gan gyfyngiadau'r cyfnod cyn yr etholiad.

**11. MATERION RHANBARTHOL**

12. **Cyd-bwyllgor Corfforaethol (CC) Gogledd Cymru**

13. Rwy'n ymwybodol nad oes llawer o ddiweddariadau wedi cael eu rhoi i'r Bwrdd ar faterion sy'n ymwneud â'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol (CC), er gwaethaf sefydlu'r CC dros 3 blynedd yn ôl bellach. Felly, byddaf yn ymdrechu i ddefnyddio'r diweddariad rheolaidd hwn i'r Awdurdod i roi diweddariad byr i'r Aelodau ar rai o'r materion allweddol sy'n dod i'r amlwg o waith y CC.

14. Er mwyn eich atgoffa, efallai y bydd yr Aelodau’n cofio bod y CC yn gorff corfforaethol rhanbarthol a sefydlwyd i wella cydweithio a chynllunio strategol ledled Gogledd Cymru. Mae’n dwyn ynghyd chwe Awdurdod Lleol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i fynd i’r afael â blaenoriaethau rhanbarthol allweddol. Mae gan y Pwyllgor Cynghori Cenedlaethol ei staff a’i gyfansoddiad ei hun ac mae’n cynnull prif Bwyllgor a 3 Is-bwyllgor – y CC canolog ei hun, yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol, yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol a’r Is-bwyllgor Llesiant Economaidd. Yn y pen draw, rôl y CC yw cynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol, Cynllun Trafnidiaeth Strategol a hyrwyddo a gwella llesiant economaidd rhanbarth Gogledd Cymru.

15. Fel Prif Weithredwr Eryri, rwy'n mynychu'r prif CC ynghyd â'r Cynghorydd Edgar Owen yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd yr Awdurdod, ac mae ein hawliau pleidleisio ar y grŵp hwn wedi'u cyfyngu i faterion cynllunio strategol yn unig. Mae'r Aelodau eraill yn cynnwys Arweinwyr y 6 Chyngor yng Ngogledd Cymru (ynghyd â chefnogaeth gan y 6 Prif Weithredwyr) ac mae'r pwyllgor hwn yn cyfarfod 6 gwaith y flwyddyn.

16. Mae’r Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau, Keira Sweenie, yn mynychu'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol, ynghyd â'r Cynghorydd Edgar Owen neu'r Cynghorydd Elwyn Edwards (Fel Cadeirydd yr Awdurdod / Cadeirydd Cynllunio). Rydym wedi cael ein cyfethol fel Aelodau heb bleidlais ar y pwyllgor Trafnidiaeth Strategol a Llesiant Economaidd. Mae penderfyniad diweddar yn cyfyngu ein haelodaeth ar y ddau grŵp olaf hynny i Aelodau yn unig (dim swyddogion), ac mae'r Cynghorydd Edgar Owen wedi bod yn mynychu'r rhain.

17. <u>Pwyllgor Canolog CC:</u>

18. Fel diweddariad ar fusnes yn ystod y flwyddyn galendr hon (o fis Ionawr ymlaen) – mae'r prif fusnes wedi cynnwys gosod y gyllideb a'r ardoll ar awdurdodau cyfansoddol, adolygu sefyllfa refeniw a chyfalaf y Cyd-bwyllgor Corfforaethol, a chymeradwyo eitemau sydd wedi dod o'r is-bwyllgorau (Cytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Strategol, adroddiad ar y Gronfa Trafnidiaeth Strategol, Cronfa Partneriaeth Arloesi Gogledd Cymru). Yng Nghyfarfod y CC y mis diwethaf, penododd y Pwyllgor Hedd Vaughan-Evans i rôl Cyfarwyddwr Portffolio ar gyfer CC Corfforaethol Gogledd Cymru. Roeddwn i'n rhan o'r panel cyfweld mewn perthynas â hyn, ddechrau'r mis.

19. <u>Y CC – Diweddariadau Cynllunio Strategol, Trafnidiaeth Strategol a Llesiant Economaidd</u>

20. Is-bwyllgor Trafnidiaeth: –

- Rhoddwyd cyflwyniad gan Drafnidiaeth Cymru (TC) ar ei ddatblygiad ers 2015 ac ar fasnachfraint bysiau. Cytunwyd y byddai TC yn darparu amserlenni ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd, y broses gymeradwyo y cytunwyd arni a Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth gydag Awdurdodau Lleol a threfniadau ariannu ar gyfer yr is-bwyllgor.
- Penderfynwyd argymell bod y Prif Gyngor yn cyfethol aelod o Barc Cenedlaethol Eryri ar yr is-bwyllgor (aelod heb bleidlais).
- Trafodwyd a derbyniwyd yr adroddiad diweddaru chwe-misol.

21. Is-bwyllgor Cynllunio:
    - Cynhaliwyd cyfarfod anffurfiol wyneb yn wyneb ar 09/03/24. Trafodwyd y camau nesaf ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol (CDS). Cafwyd trafodaethau cychwynnol ynghylch y prif bynciau ffocws e.e. tai, gwastraff, trafnidiaeth, llifogydd, hinsawdd gyda'r bwriad o greu gweledigaeth ar gyfer y cynllun.
    - Cydnabuwyd y dylai aelodau / cynghorwyr o bob Awdurdod fod yn ymwybodol o gynnydd y Cynllun Datblygu Strategol a chael y cyfle i gyfrannu at y gwaith. Croesewir hyn a bydd swyddogion yn adrodd ymhellach ac yn ceisio barn aelodau pan fydd yn amserol gwneud hynny.
    - Tynnwyd sylw at y ffaith y cysylltir â’r timau Polisi Cynllunio yn fuan i ddarparu gwybodaeth a fydd yn rhan o’r sylfaen dystiolaeth.

22. Is-bwyllgor Economaidd a Llesiant:
    - Materion o ddiddordeb sy'n berthnasol i Eryri: - Rhoddwyd cymeradwyaeth amodol i'r achos busnes amlinellol ar gyfer Prosiect Canolfan Arloesi, Busnes a Sgiliau Trawsfynydd. Gwnaed cysylltiad cynnar â swyddogion cynllunio o fewn yr Awdurdod a rhoddwyd cyngor cyn cyflwyno cais.

**23. MATERION LLEOL:**

**24. Recriwtio Staff**

25. <u>Gweithwyr newydd yn ymuno a gweithwyr yn gadael:</u>

26. Ers y cyfarfod diwethaf ym mis Chwefror, mae'r staff canlynol wedi dechrau cael eu cyflogi gan yr Awdurdod: Sharon Thomas, Cynorthwyydd Canolfan Groeso Betws-y-coed; Lona Mason, Goruchwyliwr, Canolfan Groeso Aberdyfi; Gary Jones, Cynorthwyydd Maes Parcio; Carys Tecwyn, Cynorthwyydd Canolfan Groeso Beddgelert; Fiona Evans, Cynorthwyydd Canolfan Groeso Betws-y-coed, Elain Iorwerth, Swyddog Croeso ac Ymgysylltu'r Ysgwrn; Sion Owen, Cynorthwyydd Canolfan Groeso Beddgelert; Ioan Roberts, Betws-y-coed; Cynorthwyydd Canolfan Groeso; a Siwan Owen, Swyddog Cymorth Cadwraeth, Coetiroedd ac Amaeth. Ar ran yr Awdurdod, hoffwn eu croesawu i gyd i'r Awdurdod a dymuno pob llwyddiant iddynt yn eu rolau priodol.

27. Hoffwn hefyd ddiolch i'r staff canlynol sydd wedi gadael yr Awdurdod ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod ym mis Chwefror am eu cyfraniad at waith yr Awdurdod: Michael Downey, Plas Tan y Bwlch Cogydd, Arwel Elias, Swyddog Pobl Ifanc; ac Elen Jones, Swyddog Cymorth Cadwraeth, Coetiroedd ac Amaeth.

28. Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol

29. Cafodd rhestr fer o ymgeiswyr eu dethol i gael eu cyfweld gan banel a drefnwyd (ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn) ar gyfer y 15fed o Ebrill. Gobeithir y bydd rhywun wedi cael eu penodi i’r swydd erbyn y cyfarfod hwn o’r Awdurdod. Rwy'n ddiolchgar i'r Aelodau am fod yn hyblyg gyda'u dyddiaduron i fynychu'r cyfarfodydd hyn er mwyn i'r Awdurdod recriwtio cyn gynted â phosibl.

**30. Cais Loteri Plas Tan y Bwlch**

31. Mae'r cais grant hwn gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (CTLC) yn mynd rhagddo'n dda diolch i’r gwaith gan y Cyfarwyddwr Rheoli Tir, ynghyd â'r ymgynghorwyr penodedig Donald Insall Associates. Rwy'n falch iawn o allu adrodd bod yr ail Ddatganiad o Ddiddordeb, yn seiliedig ar y cynnig oriel, bellach wedi derbyn cymeradwyaeth gan swyddogion CTLC. Cyflwynir cais am gyllid 'cyfnod datblygu' erbyn mis Awst os bydd y ffigurau'n dangos bod y prosiect yn gynaliadwy'n ariannol. Derbyniodd yr Aelodau ddiweddariad ar Ddiwrnod Datblygu'r Aelodau'r mis diwethaf, felly mae'r rhan fwyaf o'r Aelodau bellach wedi gweld dyluniadau a syniadau sy'n dod i'r amlwg. Darperir diweddariad pellach i'r Aelodau yng Ngweithgor mis Mai, ynghyd â chais ffurfiol am gymeradwyaeth ffurfiol i gyflwyno'r cais yng Nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Mehefin.

32. Mae cyfathrebu yn elfen allweddol o'r gwaith hwn, a byddwn yn sicrhau bod y Bwrdd, yr holl staff a'r gymuned leol (ac o bosibl yn ehangach) a rhanddeiliaid eraill yn cael y wybodaeth ddiweddaraf cyn y’i cyflwynir. Bydd y diweddariadau hyn yn sesiynau ar gyfer darparu gwybodaeth yn hytrach nag yn ymgynghoriad llawn.

**33. Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol – Cysylltiadau Tirwedd**

34. Mae Cysylltiadau Tirwedd yn gronfa gymharol newydd o fewn strwythur Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, sydd ar gael ar gyfer prosiectau ar raddfa tirwedd mewn tirweddau dynodedig ledled y DU.

35. Mae'r cais yn cael ei ddatblygu gan Goed Cadw ar thema coedwigoedd glaw tymherus Eryri, gydag amrywiaeth o bartneriaid gan gynnwys APCE, Plantlife, RSPB a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

36. Bydd y cais yn canolbwyntio ar dri o ardaloedd dalgylch, y Fawddach, y Ddwyryd a’r Glaslyn. Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda Choed Cadw i sicrhau bod synergeddau â chais Plas Tan y Bwlch yn ategu ei gilydd, yn hytrach na chystadlu.

37. Cyflwynir y cais ar gyfer y cyfnod datblygu ym mis Mai 2026. Cyflwynir adroddiad llawn i'r Awdurdod ym mis Mehefin 2026.

38. **Y Sycamore Gap**

39. Fe wnaeth 15 Awdurdod Parciau Cenedlaethol y DU, ynghyd â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gymryd rhan mewn prosiect partneriaeth i blannu coeden a gymerwyd o doriadau a gymerwyd o’r goeden ‘Sycamore Gap’ a gafodd ei thorri i lawr yn anghyfreithlon 2 flynedd yn ôl.

40. Mae'r toriadau hyn o’r goeden enwog hon yn Northumberland yn dynodi gweithred gyffredin o stiwardiaeth amgylcheddol ym mhob un o’r 15 o Barciau Cenedlaethol y DU. Fe gynhyrchodd y weithred o blannu’r goeden gyhoeddusrwydd sylweddol yn y cyfryngau a'r wasg, ac rwy'n ddiolchgar i'r Cynghorydd Edgar Owen, y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd a'r Cynghorydd Elfed Roberts a gymerodd ran yn y gwaith o blannu’r sycamorwydden yn Eryri yn Yr Ysgwrn y mis diwethaf.

**41. Archwilio Cymru – Cynaliadwyedd Ariannol**

42. Derbyniwyd Adroddiad Drafft ar Gynaliadwyedd Ariannol yr Awdurdod y mis diwethaf, yn dilyn ymarfer casglu gwybodaeth a chyfres o gyfweliadau yn gynharach yn y flwyddyn. Rydym wedi darparu rhai mân sylwadau ar yr Adroddiad Drafft a byddwn yn cyflwyno'r fersiwn derfynol i'r Aelodau unwaith y bydd wedi'i dderbyn.

**43. Archwilio Mewnol**

44. Mae adroddiadau archwilio mewnol ar reoli prosiectau a Phlas Tan y Bwlch wedi dod i law yn ddiweddar, a byddant yn cael eu hadrodd i'r Aelodau yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

**45. Pen-blwydd Eryri yn 75**

46. Mae'r Awdurdod wedi llwyddo i sicrhau grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i helpu i gefnogi Gŵyl Eryri - gŵyl a gynhelir yn Yr Ysgwrn i ddathlu'r pen-blwydd hwn a hyrwyddo gwaith y Parc Cenedlaethol.

47. Mae dyddiad bellach wedi'i gadarnhau ar gyfer y digwyddiad yn y DU sy'n dathlu'r 4 Parc Cenedlaethol cyntaf yn y DU (Dartmoor, Ardal y Llynnoedd, y Peak District ac Eryri) – fe'i cynhelir yn y Peak District ar y 15fed o Orffennaf. Byddaf yn darparu mwy o fanylion i'r Aelodau wrth iddynt ddod i'r amlwg.

48. Yn olaf, mae'r llyfr rydyn ni'n ei gynhyrchu gyda'r cyhoeddwyr, Y Lolfa, i goffáu'r pen-blwydd yn mynd rhagddo'n dda - diolch i waith caled Gwen Aeron Edwards ein Swyddog Cyfathrebu. Disgwylir y bydd hwn yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin.

49. **Cynhadledd Diwedd Prosiect – Cynllun LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd, Prifysgol Bangor, 13-15 Ebrill 2026**

50. Cynhaliwyd y gynhadledd uchod ym Mhrifysgol Bangor mis yma – a roedd yn un llwyddianus iawn, gyda dros 100 yn mynychu ac adborth cadarnhaol iawn. Fel y gwyddoch mae'r prosiect yma gyda blwyddyn o'r 9 mlynedd i fynd cyn cyrraedd y diwedd, a felly roedd pwyslais mawr ar gwaddol y prosiect a'r camau nesaf sydd ei hangen ar ôl 2027.

51. **Safon Ansawdd Cyflogwr Gweladwy Gwell yr Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNIB)**

52. Rwy'n falch o gyhoeddi for yr Awdurdod wedi ennill Safon Ansawdd Cyflogwr Gweladwy Gwell yr RNIB yn ddiweddar. Mae yma yn feincnod i sefydliadau ddod yn wirioneddol gynhwysol i bobl ddall a phobl â golwg rhannol, gan sicrhau prosesau recriwtio hygyrch, addasiadau cefnogol i'r gweithle (fel technoleg), cyfleoedd gyrfa cyfartal, ac ymwybyddiaeth staff o golli golwg, gan helpu cwmnïau i ddenu a chadw talent â nam golwg trwy gael gwared ar rwystrau a phrofi eu hymrwymiad i amrywiaeth.

**53. ARGYMHELLIAD**

54. Bod yr Aelodau'n nodi'r adroddiad diweddaru ar faterion strategol ers ein cyfarfod diwethaf a chodi unrhyw gwestiynau neu faterion perthnasol.

**COFNODION**
**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
DYDD MERCHER 4 CHWEFROR 2026
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol

***YN BRESENNOL:***

**Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorwyr Edgar Wyn Owen (Cadeirydd), Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

**Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Rhys Evans, Salamatu Fada, Tim Jones, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas;

**Swyddogion**
Jonathan Cawley, Iwan Jones, Keira Sweenie, Naomi Jones, Dewi Aeron Morgan, Sian Owen, Rhys Owen, Eifion Jones.

Cyhoeddodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd y byddai'r cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu, ac y byddai ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Louise Hughes.

2. **Diweddariad Corfforaethol**

*Cyflwynwyd* diweddariad ysgrifenedig gan y Prif Weithredwr yn nodi rhai o'r materion allweddol oedd wedi codi er cyfarfod diwethaf yr Awdurdod.

*Adroddwyd* ymhellach:

- y byddai diweddariad pellach ar Blas Tan y Bwlch yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod Gweithgor Aelodau 25 Chwefror, a byddai'r Diwrnod Datblygu Aelodau (i'w gynnal ar 13 Mawrth) yn canolbwyntio ar ddatblygiadau'r Plas;
- y byddai diweddariad pellach ar Bartneriaeth Tirwedd y Carneddau yng nghyfarfod Gweithgor Aelodau 25 Chwefror;
- bod Cynhadledd NPUK (Parciau Cenedlaethol y Deyrnas Unedig) yn cael ei chynnal rhwng 16 a 18 Medi 2026 ym Macdonald Aviemore Resort, Aviemore, ym Mharc Cenedlaethol Cairngorms. Dau swyddog a dau aelod fyddai'n mynychu fel arfer, a byddai'r Cadeirydd ac yntau'n edrych ar bwy allai fynd;
- bod yr Awdurdod wedi ei wahodd i gyflwyno cais am arian tanwariant diwedd y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru. Nid oedd yn wybyddus faint o arian oedd ar gael, ond roedd cais sylweddol wedi ei gyflwyno a byddai'n rhaid ei wario cyn diwedd mis Mawrth.

*Nodwyd*:
- bod yr Aelodau wedi gwerthfawrogi cael y diweddariad ar ffurf ysgrifenedig;
- bod adran gynllunio'r Awdurdod bellach yn llawn o ran staff yn dilyn penodiad Uwch Swyddog Cynllunio yn ddiweddar;
- bod rhagor o arian wedi ei dderbyn ar gyfer Ffermio Bro, a bod hyn wedi galluogi:
    - creu dwy swydd ychwanegol a olygai byddai 5 swyddog ac un swyddog gweinyddol yn gweithio i Ffermio Bro;
    - dosbarthu £100,000 pellach (uwchben yr arian cyflogi) i'r cynllun;
- ei fod wedi'i benderfynu na fyddai unrhyw ddatblygiadau ar ganolfannau croeso Beddgelert nac Aberdyfi yn y tymor byr oherwydd bod y cyfleoedd yn gyfyng yno; bod yna gyfle i wneud pethau mawr yng nghanolfan Betws-y-coed yn y tymor canolig ond nad oedd y capasiti i wneud hynny ar hyn o bryd ond ein bod mewn sefyllfa i ddatblygu y siop/ganolfan ym Mhen-y-pass dros y Gaeaf.

3. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**

Ni dderbyniwyd cwestiwn gan y cyhoedd.

4. **Datgan Diddordeb**

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

5. **Cofnodion**

*Cyflwynwyd* cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2025.

*Mabwysiadwyd* y cofnodion, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

6. **Materion er gwybodaeth sy'n codi o'r cofnodion**

Ni chodwyd unrhyw fater o'r cofnodion.

7. **Taflen Weithredu**

*Cyflwynwyd* y Daflen Weithredu gan y Prif Weithredwr.
*Adroddwyd*:
- na fu unrhyw ddatblygiad ar y materion ar y daflen weithredu ers y cyfarfod diwethaf a dylent barhau ar y daflen am y tro.

*Argymhellwyd***:** cadw'r ddwy eitem ar y Daflen.

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr Argymhelliad**.**

8. **Cyllideb yr Awdurdod a'r Ardollau ar Awdurdodau Cyfansoddol am 2026/2027**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid.

Rhoddwyd trosolwg o'r sefyllfa ac *adroddwyd*:
- bod y sefyllfa lawer yn well nag a ragwelwyd ond byddai diffyg sylfaenol yn parhau;
- bod 3% wedi'i gosod ar gyfer cynnydd cyflogau yn 2026/27;
- bod cynnydd sylweddol mewn incwm yn cael ei ragweld.

*Argymhellwyd*: –

(i) Cymeradwyo cyllideb refeniw a chyfalaf Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar

gyfer 2026/27, fel y'i cyflwynir yn yr atodiadau dilynol

(ii) Cymeradwyo'r ardollau ar yr awdurdodau bilio, fel nodir yn rhan 6.3 o'r adroddiad.

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr argymhelliad.

9. **Strategaeth Cyfalaf 2026/2027**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid yn darparu trosolwg lefel-uchel o'r modd yr oedd gwariant cyfalaf, cyllido cyfalaf a gweithgarwch rheoli'r trysorlys yn cefnogi darparu gwasanaethau'r Parc Cenedlaethol.

*Argymhellwyd*: –

(i) Nodi nad oes bwriad i fenthyca arian at ddibenion cyfalaf, ond mae'r cyfyngiadau isod yn cael eu hargymell ar lefel ddarbodus fel mesur rhagofalus rhag ofn bydd argyfwng neu fod angen gwariant ar fyr rybudd.

(ii) Cymeradwyo dim newid yn:

a. y Cyfyngiad Benthyca Awdurdodedig o £500,000 ar gyfer 2026/27, a Ffin Weithredol o £100,000, a

b. dim cyfyngiad ar gyfran y llog sy'n daladwy ar gyfradd amrywiol.

(iii) Mabwysiadu'r Strategaeth Benthyca Cyfalaf ar gyfer 2026/27 fel yr amlinellir ym mharagraff 3.3 yr adroddiad, a nodi'r cynnwys sy'n ymwneud â'r Cod Darbodus (gweler y tablau o dan baragraffau 2.2, 3.3 a 7.1 o'r adroddiad).

(iv) Mabwysiadu'r Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2026/27 fel yr amlinellir ym mharagraffau 3.5-3.14 yr adroddiad, a nodi'r sefydliadau a restrir ym mharagraff 3.7.

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr argymhelliad.

10. **Cynllun Grant CANI (Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig)**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth yn rhoi trosolwg o ddau brosiect oedd wedi derbyn grantiau o dan y Cynllun Grant CANI, sef:

(i) Y goeden iawn yn y lle iawn;

(ii) Ffermio adfywiol.

*Adroddwyd*:

- ar fwriadau, goblygiadau a risgiau'r ddau gynllun;
- bod Llywodraeth Cymru wedi cynnig llai o amser i wireddu'r cynllun nag a obeithiwyd ei gael ond bod trafodaethau wedi dechrau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i geisio ymestyn yr amser hyd Fawrth 2029;
- bod y gallu i recriwtio personau addas yn peri peth pryder, ac y byddai methu â recriwtio'n gosod pwysau ychwanegol ar y tîm presennol, a oedd eisoes dan bwysau llwyth gwaith;
- mai risg arall oedd gallu dechrau'r cynllun ond methu â'i gwblhau, a methu hawlio'r cyllid yn ôl o'r herwydd;
- bod gweithio trwy raglen Taliadau Gwledig Cymru (TGC) yn anodd, yn ddi-wyneb ac araf;
- bod y tîm yn hyderus am y cynlluniau ac yn awyddus i fynd amdanynt.

*Nodwyd*:

- mewn ymateb i gwestiwn a oedd yna rywbeth gwahanol gellid ei wneud i gynyddu'r siawns o recriwtio rhywun yn llwyddiannus dywedwyd:
    - o ran y cynllun, "Y goeden iawn yn y lle iawn", bod RSPB yn mynd i ariannu rhan o'r cynllun ar gyfer dalgylch Wnion, a bod swyddog rhan-amser gyda'r Parc am gynyddu ei oriau gwaith ac yn awyddus i fod yn rhan o'r cynllun; ac o ran swydd Rheolwr Prosiect fod yna aelodau o staff oedd ar gytundebau byrdymor a oedd yn dod i ben yn y dyfodol agos a bod opsiwn yno i ymestyn eu cytundebau i'r cynllun;
    - gallai'r cynllun, "Ffermio adfywiol" fod yn fwy anodd: roedd yn faes newydd ac arbenigol ac yr oedd recriwtio ar ei gyfer yn achosi peth pryder, ond bod rhai aelodau o staff oedd yn gweithio ar Ffermio Bro yn ystyried y posibilrwydd ohonynt newid drosodd i'r cynllun newydd;
- rhai sefydliadau (e.e. Prifysgol Bangor) y gellid cysylltu â nhw i weld a oedd ganddynt bobl a fyddai â diddordeb a'r sgiliau i weithio ar y cynlluniau;
- bod y ffigyrau a roddwyd yn cynnwys costau staff, a bod y costau hynny'n cyfrif at ryw draean o gyfanswm y costau;
- bod y cynllun, "Y goeden iawn yn y lle iawn", yn cynnwys cael gwared â choed duon o ardaloedd SoDdGA (e.e. Waun y griafolen), tynnu coed coniffer oedd yn dod i ddiwedd eu hoes ac ail-blannu rhywbeth mwy addas a brodorol, a gwaith gwneud coed hynafol yn fwy hyfyw yn erbyn newid hinsawdd;
- bod arian wedi ei neilltuo yng nghynllun "Ffermio adfywiol" i gyflogi ymgynghorwyr arbenigol;
- bod arian yn y cynllun i ehangu meithrinfeydd y Parc a bod y Parc eisoes yn prynu cynnyrch o feithrinfeydd allanol.

*Argymhellwyd*: – I dderbyn y cynnig o'r ddau brosiect OND i fod yn wyliadwrus o system hawlio TGC.

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr argymhelliad.

11. **Cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau**

*Cyflwynwyd* cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2025 er gwybodaeth.

*Penderfynwyd* **nodi'r** cofnodion.

12. **Cofnodion y Cyd-weithgor Lleol**

*Cyflwynwyd* cofnodion y Cyd-weithgor Lleol a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2025.

*Penderfynwyd* **nodi'r** cofnodion.

13. **Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill**

*Adroddwyd*:

- bod Delyth Lloyd wedi mynychu cyfarfod o Grŵp Rhanddeiliaid Trawsfynydd, a bod Elfed Powell Roberts wedi ei ethol yn Gadeirydd y Grŵp yn y cyfarfod;
- bod Tim Jones wedi mynychu cyfarfod o'r Fforwm Mynediad, a thrafodwyd rheoli gwersylla gwyllt a dringo Crib Goch.

Cyhoeddwyd bod bwriad trefnu taith gerdded / rhedeg dan ofal Arwel Ellis ac Ioan Gwilym lle byddai unigolion yn dechrau eu taith o leoedd gwahanol yn Eryri (Cadair Idris, Yr Wyddfa ayyb), pob un yn cario darn o jig-so, ac yn cyfarfod tua'r un amser ym Mhlas Tan y Bwlch a gosod yr holl ddarnau jig-so at ei gilydd.

Cyhoeddwyd bod Tom Ellis, cyn-aelod o'r Awdurdod, wedi colli ei gymar yn ddiweddar, ac estynnwyd cydymdeimladau ato yn ei golled.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11:00**

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## CYFARFOD YR AWDURDOD – 11.06.2025

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 18. **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/25** | Y Prif Weithredwr i gyflwyno adroddiad diweddaru ar y protocol enwebu Aelodau gan Awdurdodau lleol | | PW | | |

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## CYFARFOD YR AWDURDOD – 10.09.2025

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 13. **Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) 2025/26 – 2028/29** | Y Prif Weithredwr i gyflwyno ffigyrau ar "Faint llai o arian mae'r Awdurdod wedi derbyn gan Lywodraeth Cymru yn y deg mlynedd diwethaf?" | | PW | | |

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI NATIONAL PARK AUTHORITY** Amserlen / Timetable 2026/2027

| | | | 2026 | | | | | | | 2027 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYFARFOD** | **DYDD** | **AMSER** | **MEH** | **GOR** | **AWST** | **MEDI** | **HYD** | **TACH** | **RHAG** | **ION** | **CHWE** | **MAW** | **EBR** | **MAI** | **MEH** | **DAY** | **TIME** | **MEETING** |
| **AWDURDOD** | MER | 10.00 | CCB 10 AGM | | | 23 | | | 9 | | 3 | | 28 | | CCB 9 AGM | WED | 10.00 | **AUTHORITY** |
| **PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU** | MER | 10.00 | | 15 | | | | 11 | | | | 3 | | | | WED | 10.00 | **PERFORMANCE & RESOURCES COMMITTEE** |
| **PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD** | MER | 10.00 | 24 | | | 9 | 14 | 25 | | 20 | 17 | 17 | 14 | | 23 | WED | 10.00 | **PLANNING & ACCESS COMMITTEE** |
| **PWYLLGOR SAFONAU** | GWE | pm | | | | | 2 | | | | | 19 | | | | FRI | pm | **STANDARDS COMMITTEE** |
| **PANELI YMWELD Y GOGLEDD A'R DE** | MER | am | | 1 | | 16 | 21 | | 2 | 27 | 24 | | 7 | 19 | | WED | am | **NORTHERN AND SOUTHERN INSPECTION PANELS** |
| **BWRDD PLAS TAN Y BWLCH** | MER | am/pm | (10) | | | (23) | | | | | (3) | | (28) | | (9) | WED | am/pm | **PLAS TAN Y BWLCH BOARD** |
| **GWEITHGOR AELODAU** | MER | am/pm | 24 | | | 9 | 14 | 25 | | 20 | 17 | 17 | 14 | | 23 | WED | am/pm | **MEMBERS' WORKING GROUP** |
| **CYD-WEITHGOR LLEOL** | GWE | am | | | | | | 27 | | | | 5 | | | | FRI | am | **LOCAL JOINT WORKING GROUP** |
| **DIWRNOD DATBLYGU AELODAU** | GWE | am/pm | 19 | | | | | | | | | 12 | | | 18 | FRI | am/pm | **MEMBER DEVELOPMENT DAY** |
| **SEMINAR AELODAU TIRWEDDAU DYNODEDIG CYMRU (*Parc Cenedlaethol Bannau* )** | | | | 8-9 | | | | | | | | | | | | | | **DESIGNATED LANDSCAPES WALES MEMBERS' SEMINAR (*Bannau National Park* )** |
| **CYNHADLEDD PARCIAU CENEDLAETHOL Y DG** | | | | | | 16-18 | | | | | | | | | | | | **NATIONAL PARKS UK CONFERENCE** |
| **EUROPARC** | | | | | | | | | | | | | | | | | | **EUROPARC** |
| **CYFARFOD** | **DYDD** | **AMSER** | **JUNE** | **JUL** | **AUG** | **SEPT** | **OCT** | **NOV** | **DEC** | **JAN** | **FEB** | **MAR** | **APR** | **MAY** | **JUNE** | **DAY** | **TIME** | **MEETING** |

**Eitem Rhif 9**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod |
| **DYDDIAD** | 29 Ebrill 2026 |
| **TEITL** | **Cynllun Gweithredu Adfer Natur Eryri (CGAN)** |
| **ADRODDIAD GAN** | Swyddog Bioamrywiaeth |
| **PWRPAS** | Cyflwyno fersiwn ddrafft olaf o'r Cynllun |

## 1. CEFNDIR

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod greu Cynllun Adfer Natur sydd yn cyd-fynd â Chynllun Adfer Natur Cymru yn ogystal â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd, 2016 (Cymru).

Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur (CGAN) yn gynllun strategol ar gyfer adfer yr amgylchedd naturiol. Mae CGAN Eryri yn ddogfen sydd wedi ei hanelu at hyrwyddo bioamrywiaeth ac ecosystemau o fewn y Parc Cenedlaethol trwy gydweithio gyda chymunedau lleol. Mae'n disodli'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth flaenorol ac yn cyd-fynd â galwadau rhyngwladol am adferiad byd natur, yn ogystal â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, polisïau, a thargedau byd-eang. Mae hefyd yn cyd-fynd â'r datganiadau Argyfwng Hinsawdd ac Argyfwng Natur a gyhoeddwyd yn 2019 a 2021 yn y drefn honno. Bydd yn rhoi man cychwyn ar sut i ymateb ac addasu i bwysau ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Mae'n crynhoi'r canlyniadau dymunol ar gyfer adfer byd natur mewn polisi a deddfwriaeth ac yn amlinellu'r camau i'w cymryd i gyflawni'r amcanion hyn o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.

Mae'r CGAN yn cynnwys:

- Cefndir i'r Cynllun
- Trosolwg o fioamrywiaeth a chynefinoedd Eryri
- Y pwysau allweddol sydd yn effeithio ar fioamrywiaeth yn Eryri
- Cynllun Gweithredu Cyffredinol ar gyfer Eryri hyd at 2031
- Trosolwg o ffyrdd gall grwpiau, sefydliadau, busnesau ac unigolion helpu i adfer natur.

Mae'r CGAN yn ddogfen ddeinamig er mwyn sicrhau gall newidiadau gael eu gweithredu yn ôl yr angen. Mae'n galluogi i ni ymateb i ddatblygiadau mewn polisïau a thargedau wrth i'r hinsawdd newid. Mae nod y CGAN - "Cynyddu amrywiaeth a helaethrwydd byd natur a gwella gwytnwch ecolegol ledled Eryri" - yn cyd-fynd â nod Cynllun Eryri ac yn plethu'r ddau gynllun gyda'i gilydd. Mae'r Cynllun Gweithredu Cyffredinol yn dilyn strwythur Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ac yn eistedd o dan yr amcanion y maent wedi'u gosod. Mae nodau Cynllun Gweithredu Eryri yn cyd-fynd â chynllun gweithredu Llywodraeth Cymru, ond ar raddfa leol yn Eryri.

Mae disgwyl i'r ddogfen yma weithredu fel sylfaen i weithredu adfer natur yn Eryri. Mae bwriad i greu grwpiau tasg penodol unwaith eto eleni ar y cyd gyda phartneriaid Partneriaeth Natur Eryri, sydd yn ffocysu ar greu proffiliau cynefinoedd ar gyfer Eryri. Bydd y proffiliau yma ar gael fel atodiadau unigol i'r ddogfen sylfaenol yma, ac yn cynnwys manylion am rywogaethau o flaenoriaeth ar gyfer y cynefinoedd yno yn ogystal â chynlyn gweithredu ar gyfer bob cynefin penodol.

Mae'r ddogfen wedi derbyn adborth cyhoeddus, adborth gan yr Aelodau, adborth gan bartneriaid Partneriaeth Natur Eryri a gan grŵp tasg gafodd ei benodi er mwyn datblygu'r CGAN gyda mewnbwn arbenigwyr o feysydd gwahanol.

## 2. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

Bydd y ddogfen yma yn rhoi gwell ffocws ar waith a blaenoriaethau'r Awdurdod wrth ymateb i'r argyfwng colli bioamrywiaeth, yn cefnogi ceisiadau grant a chyllid ac yn rhoi cyfeiriad i unigolion, gwirfoddolwyr a rhanddeiliad o'r trywydd tuag at adferiad natur yn Eryri.

Bydd y cynlluniau gweithredu datblygwyd o'r proffiliau cynefinoedd yn rhoi trosolwg o'r sefyllfa bresennol, a'r weledigaeth ar gyfer y sefyllfa bydd y cynefin a'i rhywogaethau perthnasol ynddi o fewn pump a 10 mlynedd. Bydd hyn yn hanfodol ar gyfer lywio prosiectau a rheoli adnoddau er mwyn cyrraedd ein targedau.

Mae'r ddogfen yn cael ei ddatblygu yn fewnol gan y tîm bioamrywiaeth sydd yn cael ei ariannu gan gyllid Llywodraeth Cymru. Yn gyfredol mae cyllid digonol i gynnal yr adnodd staff a chyllid gweithredu i fyny at ddiwedd Mawrth 2027.

## 3. ARGYMHELLIAD:

Bod yr Aelodau'n trafod y fersiwn ddiweddaraf o'r Cynllun ar gyfer ei gyflwyno a'i fabwysiadu.

## 4. PAPURAU CEFNDIROL:

Drafft (V8) o'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur



# Cynllun Gweithredu Adfer Natur Eryri

2026-2031

PARTNERIAETH NATUR
ERYRI
NATURE PARTNERSHIP

PARC CENEDLAETHOL
ERYRI
NATIONAL PARK

# Cynnwys

**Rhagair** .......... **2**

**1. Rhagarweiniad** .......... **3**

1.1 Beth yw Bioamrywiaeth? .......... 3

1.2 Beth yw Cynllun Gweithredu Adfer Natur? .......... 4

1.3 Ar gyfer pwy mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur? .......... 4

**2. Bioamrywiaeth yn Eryri** .......... **5**

2.1 Cynefinoedd .......... 5

2.2 Rhywogaethau .......... 8

2.3 Dirywiad Bioamrywiaeth .......... 9

**3. Pwysau Allweddol sy'n Effeithio ar Fioamrywiaeth yn Eryri** .......... **11**

**4. Cynllun Gweithredu Eryri** .......... **13**

4.1 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru .......... 13

4.2 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Eryri .......... 13

4.3 Cynllun Gweithredu Cyffredinol .......... 15

4.4 Sut gallwch chi gymryd rhan? .......... 18

**5. Cyflawni a monitro** .......... **24**

5.1 Cyflawni .......... 24

5.2 Monitro .......... 24



## Rhagair

Harddwch naturiol eithriadol Eryri sy'n ei wneud yn wirioneddol unigryw. Mae cydweithrediad Awdurdod y Parc Cenedlaethol ag eraill i helpu i gyflawni rheolaeth tir sy'n gyfeillgar i natur nid yn unig yn gwella bywydau ei drigolion ond hefyd yn denu miloedd o ymwelwyr bob blwyddyn. Fodd bynnag, yng Nghymru a ledled y byd, mae dirywiad brawychus mewn bioamrywiaeth.

Mae'r Cynllun hwn yn cymryd i ystyriaeth y dylanwadau strategol a chyfreithiol amrywiol sydd ar gael i'r Awdurdod gyda'r nod o wyrdroi'r dirywiad hwn. Mae'n amlinellu camau gweithredu hanfodol ar gyfer hybu adferiad byd natur drwy roi blaenoriaeth i fioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau, gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol, a chymryd mesurau penodol ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau.

Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn fan lle gall newidiadau cadarnhaol sylweddol ddigwydd ac sydd yn digwydd. Mae llawer o gyfleoedd ar gyfer adfer natur yn y Parc Cenedlaethol yn cynnwys ecosystemau a chynefinoedd cymharol fawr, yn helaeth ac o ansawdd uchel. Fodd bynnag, mae'r heriau'n rhy fawr i unrhyw un o asiantaethau'r llywodraeth, sefydliad anllywodraethol, cymuned, neu dirfeddiannwr fynd i'r afael â nhw ar eu pen eu hunain. Mae cyflawni adferiad natur ystyrlon ar raddfa fawr yn gofyn am gydweithio ar draws ffiniau daearyddol, defnyddiau tir amrywiol, sy'n cynnwys nifer o bobl, ac yn aml dros flynyddoedd neu hyd yn oed genedlaethau. Mae hyn yn golygu bod angen cyfranogiad yr holl bartneriaid a rhanddeiliaid, gan gydweithio. Y dull cynhwysol hwn ar raddfa tirwedd o adfer byd natur yw dyhead y Cynllun hwn, sy'n cynnwys ystyried pob math o diroedd, gwrando ar bob llais a grymuso pawb i wneud gwahaniaeth.



# 1. Rhagarweiniad

## 1.1 Beth yw Bioamrywiaeth?

Mae bioamrywiaeth, sy'n fyr am 'amrywiaeth biolegol', yn cyfeirio at amrywiaeth ac amrywioldeb bywyd ar y Ddaear. Mae'n cwmpasu'r holl organebau byw, yr ecosystemau y maent yn rhan ohonynt, a'r amrywiaeth genetig o fewn rhywogaethau. Mae bioamrywiaeth yn cyfeirio at dri phrif gysyniad:

- **Amrywiaeth Rhywogaeth**: Mae hyn i gyd yn ymwneud â'r gwahanol fathau o bethau byw. Po fwyaf o fathau o anifeiliaid, planhigion, ffyngau a micro-organebau sydd gennym, y mwyaf yw amrywiaeth y rhywogaethau.
- **Amrywiaeth Genetig:** O fewn pob rhywogaeth, mae amrywiaeth o wahaniaethau genetig. Y cyfuniad unigryw o enynnau sy'n gwneud unigolion o fewn rhywogaeth ychydig yn wahanol i'w gilydd, gan leihau'r siawns o fewnfridio a namau genetig. Mae amrywiaeth genetig yn hollbwysig oherwydd ei fod yn helpu rhywogaethau i addasu i newidiadau yn eu hamgylchedd ac esblygu dros amser.
- **Amrywiaeth Ecosystemau:** Mae ecosystem yn cael ei ffurfio o gymunedau o organebau byw, sy'n rhyngweithio â'u hamgylcheddau ffisegol a chemegol. Gallant fod mor fach â phwll neu mor fawr â choedwig law. Mae amrywiaeth ecosystemau yn ymwneud â'r gwahanol fathau o amgylcheddau ar y Ddaear. Po fwyaf o ecosystemau y gallwn eu cynnal, y mwyaf yw amrywiaeth yr ecosystemau.

Mae bioamrywiaeth yn hanfodol am sawl rheswm. Mae sefydlogrwydd ecosystemau yn aml yn gofyn am lefelau uchel o fioamrywiaeth, lle mae nifer o rywogaethau gwahanol yn cynnal rolau gwahanol sy'n cadw'r ecosystemau mewn cydbwysedd. Mae hyn hefyd yn gwneud yr ecosystem yn fwy gwydn, gan y bydd mwy o fioamrywiaeth yn helpu ecosystemau i 'adlamu'n ôl' rhag aflonyddwch fel tanau gwyllt, llifogydd neu glefydau. Os yw un rhywogaeth yn agored i niwed, gall eraill gamu i mewn i lenwi'r bwlch. Mae cynnydd mewn bioamrywiaeth yn hanfodol i fodolaeth bywyd dynol, gan ddarparpui llawer o bethau sydd eu hangen arnom, megis bwyd, meddyginiaeth, dŵr glân ac aer. Yn ogystal â chyfoethogi ein bywydau trwy gynnig harddwch, rhyfeddod, ac ysbrydoliaeth, mae ganddo hefyd gysylltiad dwfn â llawer o'n diwylliannau a'n traddodiadau.

Fodd bynnag, mae bioamrywiaeth dan fygythiad ledled y byd ar hyn o bryd oherwydd gweithgareddau dynol fel datgoedwigo, llygredd, gorbysgota a newid yn yr hinsawdd. Mae effaith dynol fel hyn eisoes wedi lleihau gwytnwch ein hecosystemau yma yn Eryri a bydd yn parhau i wneud hynny os nad yw'r camau deddfwriaeth cywir yn eu lle. Bydd ecosystemau sydd â gwytnwch sylweddol llai yn ei chael hi'n anodd addasu, gwrthsefyll, ac adlamu o straen ychwanegol. O ganlyniad, gall eu cyflwr ddirywio ymhellach, sy'n amharu ar eu gallu i ddarparu'r gwasanaethau hanfodol sydd eu hangen er mwyn i fywyd ffynnu. Mae ymdrechion cadwraeth yn hanfodol i warchod bioamrywiaeth er lles y blaned a chenedlaethau'r dyfodol.






## 1.2 Beth yw Cynllun Gweithredu Adfer Natur?

Yn fyr, mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur (CGAN) yn gynllun strategol ar gyfer adfer yr amgylchedd naturiol. Mae CGAN Eryri yn ddogfen sydd wedi ei hanelu at hyrwyddo bioamrywiaeth ac ecosystemau o fewn y Parc Cenedlaethol trwy gydweithio gyda chymunedau lleol. Mae'n disodli'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth flaenorol ac yn cyd-fynd â galwadau rhyngwladol am adferiad byd natur, yn ogystal â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, polisïau, a thargedau byd-eang. Mae hefyd yn cyd-fynd â'r datganiadau Argyfwng Hinsawdd ac Argyfwng Natur a gyhoeddwyd yn 2019 a 2021 yn y drefn honno. Bydd yn rhoi man cychwyn ar sut i ymateb ac addasu i bwysau ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Mae'n crynhoi'r canlyniadau dymunol ar gyfer adfer byd natur mewn polisi a deddfwriaeth ac yn amlinellu'r camau i'w cymryd i gyflawni'r amcanion hyn o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Gallwch ddod o hyd i ragor o fanylion am y ddeddfwriaeth a'r polisïau perthnasol yn atodiad 1 y ddogfen hon.

## 1.3 Ar gyfer pwy mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur?

Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur wedi'i gynllunio i fod ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwella a diogelu byd natur. Mae hyn yn cynnwys unigolion, grwpiau cymunedol, ysgolion, tirfeddianwyr, rheolwyr tir, awdurdodau lleol a rhanbarthol, busnesau, a sefydliadau dielw. Prif nod CGAN Eryri yw annog mentrau sy'n gwarchod, yn cadw, ac yn gwella byd natur, er budd pobl a'r amgylchedd yn ein cymunedau lleol a thu hwnt. Mae'r CGAN hwn yn cwmpasu'r ardal o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, a rennir rhwng Cynghorau Sir Gwynedd a Chonwy.

Mae Partneriaeth Natur Gwynedd wrthi'n datblygu CGAN Gwynedd a Thirwedd Cenedlaethol Llŷn. Mae CGAN Conwy wedi'i ffurfio fel rhan o Bionet a gellir ei weld yma.

Am syniadau ac ysbrydoliaeth ar sut y gallwch chi helpu i gyflawni CGAN Eryri, gweler adran 4.4 Sut Gallwch Chi Gymryd Rhan.





## 2. Bioamrywiaeth yn Eryri

Mae natur yn bodoli o'n cwmpas ym mhobman, boed yn ddant y llew yn egino ar hyd palmant yn y dref neu'n goedwigoedd glaw tymherus toreithiog a gydnabyddir yn swyddogol fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae pob agwedd ar natur yn chwarae rhan ym mioamrywiaeth Eryri, ac mae unrhyw ymdrech i warchod y cysylltiadau ecolegol o fewn y Parc Cenedlaethol yn cyfrannu at ddygnwch ecosystemau am genedlaethau i ddod.



## 2.1 Cynefinoedd

Mae gan Barc Cenedlaethol Eryri ystod amrywiol o gynefinoedd oherwydd ei ddaeareg, topograffeg a hinsawdd amrywiol. O fewn ardal ddaearyddol gymharol gryno, mae amrywiaeth eang o dirweddau yn Eryri. Mae'r amrywiaeth hwn yn cynnal llu o rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid, gan elwa ar yr hinsawdd dymherus a llaith y mae patrymau tywydd yr Iwerydd yn dylanwadu arni, gan feithrin bodolaeth miloedd o rywogaethau. I adlewyrchu hyn, mae Eryri yn cynnwys 107 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), 21 Gwarchodfa Natur Genedlaethol a thri safle RAMSAR.

Mae Eryri yn adnabyddus am ei thiroedd mynyddig, sy'n cynnwys 9 cadwyn o fynyddoedd gwahanol sy'n cynnal amrywiaeth o gynefinoedd ucheldir gan gynnwys llethrau creigiog, sgri, rhostir a glaswelltiroedd yr ucheldir. Mae'r Wyddfa yn unig yn denu dros 600,000 o ymwelwyr y flwyddyn, gan wneud twristiaeth gynaliadwy yn un o'r strategaethau hanfodol ar gyfer gwarchod y cynefinoedd ucheldir hyn fel y gall cenedlaethau'r dyfodol eu mwynhau. Mae'r cynefinoedd hyn yn bwysig i rywogaethau sydd wedi addasu i amodau heriol uchder uwch, fel Lili'r Wyddfa a Mwyalchen y Mynydd.

Tra mai copaon eiconig Eryri yw'r peth cyntaf y mae llawer yn ei ddarlunio wrth feddwl am y Parc Cenedlaethol, mae'r coedwigoedd a'r coetiroedd sydd o'n cwmpas yn cyfrif am 16% o arwynebedd y Parc Cenedlaethol. Mae ein coetiroedd yn hynod o bwysig, gan ddarparu cartref i lawer o rywogaethau gan gynnwys ffyngau, adar ac amffibiaid yn ogystal â ni fel bodau dynol. Gallant helpu i leihau effeithiau llifogydd, yn gwella ein lles ac ansawdd aer ac yn chwarae rhan mewn cyfran fawr o'r fytholeg a'r diwylliant a geir yn yr ardal. Mae Eryri hefyd yn gartref i Goedwigoedd Glaw Tymherus o bwysigrwydd rhyngwladol sy'n fath unigryw o ecosystem coedwig a geir mewn ardaloedd gyda thymheredd mwyn a glawiad uchel trwy gydol y flwyddyn. Maent yn gynefinoedd pwysig sy'n gartref i amrywiaeth gyfoethog o rywogaethau gan gynnwys mwsoglau a chennau.



Mae Eryri wedi'i chroesi gan afonydd ac yn frith o lynnoedd niferus. Mae'n gartref i lyn naturiol mwyaf Cymru, Llyn Tegid, ac amrywiaeth o infertebratau dyfrol, mamaliaid lled-ddyfrol, rhywogaethau adar a rhywogaethau fel misglod perlog yr afon, llygod dŵr a glas y dorlan. Mae'r cynefinoedd dŵr croyw hyn hefyd yn darparu mannau magu ar gyfer pysgod fel y brithyll a'r eog.

Gellir dod o hyd i weundiroedd helaeth ledled ucheldiroedd ac iseldiroedd Eryri, sy'n cynnwys rhostir, glaswelltir asidig a mawndiroedd. Mae mawndiroedd yn arbennig o bwysig gan eu bod yn gartref i lu o rywogaethau yn ogystal â bod yn storfa garbon anhygoel. Mae 52% o gyfanswm carbon pridd Eryri yn cael ei storio yn ein mawndiroedd, sy'n eu gwneud yn hynod o bwysig ar gyfer mynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd. Mae'r gweundiroedd yn cynnal nifer o wahanol rywogaethau gan gynnwys ymlusgiaid, trychfilod, adar a bryoffytau. Mae'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (NPAP) yn gynllun 5 mlynedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n ymroddedig i adfer mawndiroedd yng Nghymru, ac mae'n mynd i'r afael ag argyfyngau Natur a Hinsawdd drwy wella cadernid ecosystemau.

Mae ardal arfordirol Eryri yn cynnwys 74 milltir o draethau tywodlyd, glannau creigiog ac aberoedd. Mae aberoedd Dyfi (rhan o Warchodfa UNESCO Biosffer Dyfi) a'r Fawddach yn rannau annatod o arfordir Eryri. Yn ogystal, mae'r system twyni tywod ym Morfa Harlech yn sefyll allan fel un o systemau twyni pwysicaf Prydain. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnal amrywiaeth o rywogaethau adar, mamaliaid morol, infertebratau morol, ac maent yn bwysig ar gyfer rhywogaethau sy'n benodol i dwyni fel môr-hesgen a gwenyn mwyngloddio.

Cynefin sy'n cael ei ystyried yn llai aml sydd yr un mor bwysig ag unrhyw gynefin arall yw tywyllwch. Mae Eryri yn warchodfa Awyr Dywyll, ardal ddynodedig a ddyfarnwyd gan y Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol ar gyfer ardaloedd heb unrhyw lygredd golau neu ychydig iawn o lygredd golau. Mae Eryri yn cael ei hystyried fel yn un o'r lleoedd tywyllaf sy'n weddill yn Ne Prydain, ac o ganlyniad mae'n bwysig i amrywiaeth o rywogaethau nosol fel tylluanod ac ystlumod, ond hefyd i adar a physgod mudol gan eu bod yn defnyddio ffynonellau golau naturiol i lywio.

Nid yw cynefinoedd Eryri yn gyfyngedig i dirweddau naturiol yn unig. Mae tirweddau adeiledig lle mae pobl yn byw ac yn gweithio (fel tai, ysgolion, eglwysi, adeiladau masnachol, diwydiannol a fferm) hefyd yn darparu cynefinoedd hanfodol ar gyfer rhywogaethau synanthropig (sy'n byw mewn adeiladau) fel gwenoliaid duon ac ystlumod.

Mae ymdrechion cadwraeth o fewn Parc Cenedlaethol Eryri yn anelu at warchod a gwella'r cynefinoedd hyn, gan sicrhau cadwraeth ei threftadaeth naturiol a chysylltiadau agos â'n hiaith a'n diwylliant. Mae'r ystod amrywiol o ecosystemau a thirweddau o fewn y Parc Cenedlaethol yn cyfrannu at ei statws fel ardal o bwysigrwydd bioamrywiaeth ac ecolegol uchel. Mae rhestr lawn o'r mathau o gynefinoedd i'w gweld yn yr atodiad a fydd wedyn yn cael ei dilyn gan ychwanegu proffiliau cynefinoedd unigol a fydd yn cael eu datblygu ar y cyd gyda Partneriaeth Natur Eryri yn 2026 a 2027.

Mae ymdrechion i warchod a gwella bioamrywiaeth rhywogaethau ym Mharc Cenedlaethol Eryri yn mynd rhagddynt yn barhaus. Nod mentrau cadwraeth yw gwarchod y cynefinoedd sy'n cynnal y rhywogaethau hyn, rheoli rhywogaethau ymledol, a monitro poblogaethau bywyd gwyllt. Un enghraifft yw Prosiect Coedwig Law Geltaidd LIFE, prosiect mawr sy'n canolbwyntio ar adfer coetiroedd derw hynafol yn raddol, rheoli rhywogaethau ymledol a defnyddio pori cadwraeth i adfer safleoedd. Yn ogystal a hyn, mae Cynllun Ffermio Bro yn darparu mecanwaith hanfodol i ffermwyr a rheolwyr tir weithio tuag at brosesau rheoli tir cynaliadwy o fewn y Parc Cenedlaethol. Gellir dod o hyd i restr o brosiectau a chynlluniau o fewn Parc Cenedlaethol Eryri yn yr Atodiad.

Mae bioamrywiaeth Eryri yn cyfrannu at ei harwyddocâd fel ardal naturiol warchodedig ac yn atyniad i ecodwristiaeth a phobl sy'n mwynhau'r awyr agored. Un o'r dulliau allweddol i hybu bioamrywiaeth a gwytnwch ecolegol Eryri yw trwy ddefnyddio dull ar raddfa tirwedd. Agwedd lle mae cynefinoedd yn Eryri yn fwy, yn well ac yn fwy cysylltiedig yn seiliedig ar Egwyddorion Lawton.

- **Mwy**

  – Cynyddu maint (lle yn bosib) safleoedd rydym eisoes yn gwybod fod ganddynt lefelau uchel o fioamrywiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ac unrhyw gynefinoedd cyfoethog o rywogaethau sy'n hysbys i ni. Bydd hyn yn rhoi mwy o le i boblogaethau ffynnu.

  – Grymuso a hwyluso ffermwyr a rheolwyr tir i gynyddu maint y cynefin o safon lle bo modd ledled Eryri

- **Gwell**

  – Gwella rheolaeth y safleoedd pwysig hyn a chymryd camau i'w hamddiffyn ymhellach. Bydd hyn yn sicrhau bod gwahanol rywogaethau yn cael yr adnoddau gwahanol sydd eu hangen i ffynnu.

- **Mwy Cysylltiedig**

  – Gwneud cysylltiadau rhwng cynefinoedd drwy ddefnyddio 'cerrig camu' i greu ardaloedd o gynefinoedd digon mawr ac mewn cyflwr digon da i gynnal poblogaethau lleol o rywogaethau.

  – Lleihau'r siawns o greu safleoedd darniog, ynysig, gyda llai o fioamrywiaeth rhyngddynt.

  – Mae cysylltiadau fel gwrychoedd, afonydd, coetiroedd a dolydd yn hwyluso symudiad rhywogaethau ar draws tirweddau Eryri.

  – Gwneud lleoedd ar gyfer natur, dim bwys pa mor fach, a hynny ym mhobman (gerddi, ymylon ffyrdd, parciau, mynwentydd, a mwy).



Oherwydd natur gymhleth a deinamig ecosystemau, gall asesu eu gwytnwch fod yn heriol. Mae fframwaith i fesur ac asesu cydnerthedd ecosystemau wedi'i ddatblygu gan Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n dibynnu ar bum nodwedd allweddol:

- Amrywiaeth
- Maint
- Cyflwr
- Cysylltedd
- [eraill] Agweddau ar wytnwch ecosystemau

**Gwydnwch ecolegol** = gallu ecosystem i ymateb i aflonyddwch neu newid mawr trwy wrthsefyll difrod ac adfer.

Gelwir hyn yn fframwaith DECCA. Bydd DECCA yn rhoi mesur safonol i ni i werthuso gwytnwch ecosystemau yn Eryri.

Mae gwydnwch ecolegol yn hanfodol ar gyfer cynnal ecosystemau iach ac addasu i amodau newidiol. Creu Eryri Fwy, Gwell, a Mwy Cysylltiedig yw'r allwedd i wella a diogelu'r gwytnwch hwn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Un ffordd o weithio tuag at greu Eryri Mwy, Gwell a Mwy Cysylltiedig yw trwy ddatblygu Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn (REGau). Mae REGau yn gysyniad cymharol newydd sy'n ystyried rheoli ecosystemau ar raddfa tirwedd, gan ystyried safbwyntiau gwahanol randdeiliaid. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Cyfoeth Cenedlaethol Cymru.

## 2.2 Rhywogaethau

Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn adnabyddus am ei fioamrywiaeth gyfoethog ac amrywiol o rywogaethau, diolch i'w dirweddau a'i gynefinoedd amrywiol. Mae'r Parc Cenedlaethol yn gartref i amrywiaeth eang o rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid, gan gynnwys rhai sy'n brin ac yn eiconig. Rhywogaethau â blaenoriaeth yw'r rhai sy'n cael eu hystyried yn y perygl mwyaf ac sy'n rhywogaethau a dargedir ar gyfer ymdrechion cadwraeth.



**Adar:** Mae Eryri yn gartref i amrywiaeth o rywogaethau adar, yn amrywio o rai cyffredin fel robin goch a titw tomos las i rywogaethau mwy arbenigol fel y frân goesgoch, mwyalchen y mynydd, boda tinwyn, barcud coch, gwennol ddu ac amrywiol dylluanod. Mae'r Parc Cenedlaethol hefyd yn bwysig i adar mudol, ac mae ei gynefinoedd amrywiol yn ei wneud yn lleoliad ardderchog ar gyfer mannau gorffwys a bwydo yn ogystal ag ar gyfer gwylio adar.



**Mamaliaid:** Mae gwahanol rywogaethau mamaliaid yn byw yn y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys dyfrgi, carw, carlwm, bele'r coed a phathew, ac afancod yw ein newydd-ddyfodiaid diweddaraf. Yn ogystal, mae llawer o rywogaethau o ystlumod yn bresenoldeb nodedig mewn rhai rhannau o Eryri.



**Anifeiliaid heb asgwrn cefn:** Mae cynefinoedd amrywiol Eryri yn cynnal amrywiaeth eang o infertebratau, gan gynnwys glöynnod byw, gwyfynod, gweision y neidr, a mursennod. Gellir dod o hyd i rai rhywogaethau prin ac arbenigol yn ecosystemau unigryw'r Parc Cenedlaethol.



**Planhigion:** Mae gan Eryri amrywiaeth o rywogaethau planhigion, o flodau mynydd i fflora'r coetir. Mae lili'r Wyddfa (*Gagea serotina*) yn rhywogaeth eiconig, ac mae'r Parc Cenedlaethol hefyd yn gartref i amryw o blanhigion lled-ddyfrol, planhigion alpaidd a rhedyn. Mae cnwp-fwsogl y gors yn rhywogaeth sy'n cael ei hystyried yn 'ffosil byw' a geir yma yn Eryri, er mai niferoedd isel iawn sydd yma ar hyn o bryd yn bennaf oherwydd colli cynefinoedd rhostir.



**Cennau a bryoffytau:** Mae hinsawdd laith a thymherus Eryri yn darparu cynefin perffaith i lu o gennau a bryoffytau (mwsoglau a llysiau'r afu) o fewn y cynefin coedwigoedd glaw tymherus sydd dal i fodoli.



**Ffyngau:** Mae coetiroedd a glaswelltiroedd heb eu gwella/lled-naturiol o ansawdd da yn Eryri yn darparu amodau addas ar gyfer amrywiaeth o ffyngau, gan gynnwys y rhywogaeth eiconig amanita'r gwybed eiconig a llu o rywogaethau capiau cwyr lliwgar.



**Ymlusgiaid ac Amffibiaid:** Mae rhostiroedd a glaswelltiroedd Eryri yn gartref i ymlusgiaid fel y fadfall a'r wiber. Gall amffibiaid, fel llyffantod a madfallod, fod yn arbennig o niferus yn ardaloedd helaeth o wlypdir Eryri.

**Bywyd dyfrol:** Mae afonydd a llynnoedd y Parc Cenedlaethol yn gynefinoedd hanfodol ar gyfer rhywogaethau pysgod megis y brithyll a'r eog, sy'n dibynnu ar systemau dŵr croyw glân sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.



Mae rhestr lawn o rywogaethau â blaenoriaeth gan gynnwys rhywogaethau Adran 7 a'r rhai a fynegir fel blaenoriaeth gan bartneriaid i'w gweld yn yr atodiad. Bydd y rhywogaethau â blaenoriaeth perthnasol hynny yn cael eu cynnwys yn y proffiliau cynefinoedd unigol.



## 2.3 Dirywiad Bioamrywiaeth

Mae colli bioamrywiaeth wedi dod yn bryder cynyddol yn fyd-eang. Yn ôl yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN), mae tua 28% o rywogaethau a werthuswyd yn wynebu bygythiad o ddiflannu ar hyn o bryd. Mae'r duedd frawychus hon yn deillio'n bennaf o ddinistrio cynefinoedd a achosir gan weithredoedd dynol megis datgoedwigo, trefoli ac ehangu amaethyddol. Mae pwysau ychwanegol fel rhywogaethau ymledol, twristiaeth anghynaliadwy, llygredd a newid yn yr hinsawdd yn cyflwyno heriau pellach i fioamrywiaeth fyd-eang. Yn anffodus, nid yw'r sefyllfa yma yn Eryri yn eithriad.

Mae Adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2023 Cymru yn amlygu pa mor unigryw a bregus yw bioamrywiaeth Cymru, gan arddangos rhywogaethau fel Chwilen yr Wyddfa a Lili'r Wyddfa, sydd mewn cyd-destun Prydeinig yn unigryw i Eryri. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn nodi tueddiadau sy'n ymwneud â cholli bioamrywiaeth. Mae Mynegai Cyflawnder Bioamrywiaeth Cymru yn sefyll ar 37%, sy'n dangos newid a lleihad sylweddol yn helaethrwydd a chymysgedd rhywogaethau, sydd ymhlith yr isaf yn fyd-eang. Mae gan y dirywiad hwn mewn bioamrywiaeth ôl-effeithiau ar les dynol, gan gynnwys effeithiau ar iechyd, costau addasu, a cholli gwasanaethau ecosystem.

Y wennol ddu yw'r rhywogaeth sy'n dirywio gyflymaf yng Nghymru ar ôl gostwng **76%** ers 1995.

Ochr yn ochr â hyn, canfu astudiaeth gwaelodlin a gynhaliwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru mai dim ond 20% o'r holl safleoedd gwarchodedig yng Nghymru sydd mewn cyflwr ffafriol a 50% yn anhysbys. Yn Eryri, mae 27.3% o nodweddion safleoedd gwarchodedig mewn cyflwr ffafriol, tra bod 24.3% mewn cyflwr anffafriol a statws cyflwr 48.3% yn anhysbys. Mae bylchau gwybodaeth fel y rhain yn dangos bod angen gwneud mwy trwy fonitro ar y cyd a gweithredu cadwraethol wedi'i dargedu i sicrhau gwytnwch y safleoedd hyn a'r cynefinoedd cyfagos. Mae llenwi'r bylchau gwybodaeth hyn yn rhan o'r gwaith mae Consortiwm Natur Gogledd Cymru yn ceisio'i gyflawni, gan weithio gyda nifer o bartneriaid gan gynnwys Partneriaeth Natur Eryri, Parc Cenedlaethol Eryri, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru, Partneriaeth Natur Leol Gwynedd, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Coedlannau a'r RSPB i enwi ond rhai. Mae rhagor o wybodaeth am Gonsortiwm Natur Gogledd Cymru ar gael yn yr atodiadau.

Yn ogystal, mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) a luniwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn 2020 yn trafod pwysigrwydd byw fel un – lle mae llesiant pobl a'r blaned yn bodoli ochr yn ochr â'i gilydd ac yn ategu ei gilydd. Mae hyn yn cydblethu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodo a Deddf yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru, fel y mae'r cynllun hwn. Tra bod bioamrywiaeth yng Nghymru yn prinhau ar raddfa frawychus, mae ein dyfodol yn cael ei gefnogi gan ddeddfwriaeth sy'n canolbwyntio ar natur, gan gynnwys targed 30x30 y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, ac mae gennym brosesau a sefydlwyd yn flaenorol sy'n hwyluso gwneud penderfyniadau cydweithredol a phartneriaethau ledled Eryri a ledled Cymru.

Mae ymdrechion i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth ar y gweill, gyda mentrau fel Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd yng Nghymru yn anelu at adfer mawndiroedd sydd wedi diraddio, ac sy'n chwarae rhan hanfodol mewn dal a storio carbon a lliniaru llifogydd.

Mae ymdrechion i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth ar y gweill, gyda mentrau fel Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd yng Nghymru yn anelu at adfer mawndiroedd sydd wedi diraddio, ac sy'n chwarae rhan hanfodol mewn dal a storio carbon a lliniaru llifogydd. Enghraifft arall yw Strategaeth Coed a Choetiroedd Eryri sydd ar waith i gynghori cynllunwyr, tirfeddianwyr, rheolwyr tir a rhanddeiliaid ar reoli coed a choetiroedd yn Eryri. Yn ogystal, mae cynllun Ffermio Bro yn blaenoriaethu cyflawni prosiectau cydweithredol ar draws nifer o ffermydd, gan adeiladu cefnogaeth ar gyfer ecosystemau gwydn a busnesau fferm gwydn.

Mae mentrau i reoli rhywogaethau fel geifr a cheirw hefyd yn chwarae rhan bwysig mewn cadwraeth fel modd o sicrhau aildyfiant naturiol coed a lleihau gorboblogi rhywogaethau. Mae amddiffyn ac adfer systemau naturiol iach yn hanfodol, nid yn unig i natur ond hefyd i gymdeithas ddynol.

Er bod arferion cadwraeth llwyddiannus i'w defnyddio, mae'r adroddiad yn pwysleisio'r angen am ymdrechion cynyddol ym maes cadwraeth ac adfer, ochr yn ochr â mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi colli bioamrywiaeth. Mae cyfranogiad y gymdeithas gyfan yn hollbwysig, fel y dangosir gan gefnogaeth y cyhoedd i fentrau gwarchod ac adfer byd natur yng Nghymru a'r DU. Mae angen cymryd mwy o ran yn y dyfodol mewn casglu data a monitro rhywogaethau a chynefinoedd o fewn y Parc Cenedlaethol i sicrhau gwaelodlin ar gyfer cyflwr bioamrywiaeth yn Eryri.

> **"**Rhwng 1970 a 2013, prinhaodd **56%** o rywogaethau'r DU. O'r bron i 8,000 o rywogaethau a aseswyd gan ddefnyddio meini prawf modern, mae **15%** dan fygythiad o ddiflannu. Mae hyn yn awgrymu ein bod ni ymhlith y gwledydd sydd wedi lleihau fwyaf o ran natur yn y byd.**"**



## 3. Pwysau Allweddol sy'n Effeithio ar Fioamrywiaeth yn Eryri

- **Newid Hinsawdd:** Gall newidiadau mewn patrymau hinsawdd gael effeithiau amrywiol ar Barciau Cenedlaethol, gan gynnwys newidiadau mewn tymheredd, gwlybaniaeth, ac amlder digwyddiadau tywydd eithafol. Gall y newidiadau hyn effeithio ar ecosystemau, cynefinoedd bywyd gwyllt, rhywogaethau (yn enwedig rhywogaethau ar gyrion eu hamrediadau hinsoddol megis rhywogaethau arctig-alpaidd) ac adnoddau dŵr.

- **Datblygiad:** Gall y galw am brosiectau seilwaith a thai arwain at ddatgysylltu cynefinoedd ac effeithio'n negyddol ar y dirwedd naturiol, mae deunyddiau a dewis goleuadau yn gallu ychwanegu at yr effeithiau negyddol.  Yn ogystal â methu â chydnabod y potensial ar gyfer creu cynefinoedd o fewn datblygiadau newydd a allai ddarparu ar gyfer nifer o rywogaethau adar synanthropig..

- **Rhywogaethau anfrodorol ymledol (INNS):** Gall rhywogaethau anfrodorol ymledol (fel *Rhododendron ponticum*) effeithio'n negyddol ar ein hamgylchedd trwy drechu rhywogaethau brodorol, cyflwyno clefydau, newid swyddogaeth yr ecosystem, a chroesi gyda rhywogaethau brodorol. Mae diffyg ymwybyddiaeth a mesurau bioddiogelwch yn rheswm allweddol dros wasgariad INNS.

- **Plâu a Chlefydau:** Gall plâu a chlefydau fel clefyd coed ynn a phytophthora gael effaith negyddol ar gynefinoedd ac amharu ar weithrediad yr ecosystem trwy golli rhywogaethau, gan arwain at don o effeithiau negyddol ar rywogaethau eraill fel cen a ffyngau. Gall diffyg ymwybyddiaeth o fioddiogelwch a gwasgariad Rhywogaethau Anfrodorol Ymledol chwarae rhan mewn lledaeniad clefydau.

- **Twristiaeth anghynaliadwy:** Mae Parciau Cenedlaethol yn aml yn wynebu'r her o reoli niferoedd cynyddol ymwelwyr. Gall niferoedd uchel o dwristiaid arwain at faterion fel dirywio cynefinoedd, erydiad pridd, tarfu ar fywyd gwyllt a mwy o bwysau ar isadeiledd lleol (systemau dŵr a dŵr gwastraff). Mae cydbwyso buddion economaidd twristiaeth ag ymdrechion cadwraeth yn her gyffredin.

- **Rheoli Coetiroedd:** Troswyd cyfran helaeth o goetir brodorol i blannu coed conwydd o'r 1950au, ac rydym bellach yn rheoli effeithiau diffyg coetiroedd llydanddail sydd wedi hen sefydlu yn Eryri. Bydd Strategaeth Coed a Choetiroedd Eryri yn chwarae rhan allweddol wrth fynd i'r afael â cholled bioamrywiaeth coedtiroedd, cynllunio rheolaeth ar draws y Parc Cenedlaethol cyfan, gan weithio tuag at dirweddau mwy gwydn a chwrdd â nodau storio carbon tra'n cadw'r cysylltiadau diwylliannol a hanesyddol gyda'n coed a'n coetiroedd.

- **Rheoli tir yn ddwys:** Gall llai o fioamrywiaeth a chynhyrchiant ecolegol ddeillio o arferion rheoli tir dwys. Mae rhai o'r effeithiau negyddol o ganlyniad i ddatblygiadau tai/diwydiannol, chwarela, gorbori/tanbori, mwy o ddefnydd o wrtaith, llygredd dŵr/ lefelau uwch o ffosffad a dirywiad pridd.

- **Llygredd:** Mae pob math o lygredd yn aml yn cael effaith andwyol ar ecosystemau. Gallai'r hyn sy'n aml yn ymddangos fel newid bach i ni fod yn niweidiol i rai rhywogaethau. Er enghraifft, gall mwy o olau artiffisial yn y nos yn ein hawyr a'n dyfrffyrdd effeithio'n negyddol ar rywogaethau o ystlumod, infertebratau a physgod. Yn ogystal, gall cynnydd mewn nitrogen yn ein dyfrffyrdd a'n priddoedd gael effaith negyddol ar dyfiant cennau, ffyngau a blodau gwyllt.

- **Rheoli Dŵr/newid hydrolegol:** Mae rheoli dŵr yn gynaliadwy yn hanfodol ar gyfer cadwraeth amgylcheddol a chwrdd ag anghenion cymunedau lleol. Gall materion fel llygredd dŵr, gor-echdynnu, croniadau, camlesi, a newidiadau mewn patrymau gwlybaniaeth effeithio ar adnoddau dŵr a'r ecosystemau sy'n dibynnu ar fynediad i ddŵr glân a geomorffoleg statws uchel yn y Parc Cenedlaethol.

- **Diffyg cydweithio:** Mae rheoli Parc Cenedlaethol yn effeithiol yn aml yn gofyn am gydweithio ymhlith rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys asiantaethau'r llywodraeth, cymunedau lleol, a sefydliadau cadwraeth. Mae sicrhau strwythurau llywodraethu effeithiol ac ymgysylltiad cymunedol yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor y Parc Cenedlaethol.

Trwy weithredu cyfuniad o strategaethau gan gynnwys adfer cynefinoedd ar raddfa eang/ tirwedd, rheoli rhywogaethau anfrodorol ymledol, a chydweithio'n effeithiol gyda phartneriaid a thirfeddianwyr, bydd Parc Cenedlaethol Eryri yn cynllunio i ddelio'n effeithiol ac yn addasu i'r pwysau allweddol sy'n effeithio ar ei fioamrywiaeth. Yn y pen draw, bydd yn sicrhau cadwraeth hirdymor ei ecosystemau a'i rywogaethau unigryw.



# 4. Cynllun Gweithredu Eryri

## 4.1 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru

Oherwydd y golled barhaus mewn bioamrywiaeth yn fyd-eang, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu a rhyddhau ei Chynllun Gweithredu Adfer Natur i Gymru. Mae'r cynllun hwn ar gyfer pawb yng Nghymru ac mae'n amlinellu chwe phrif amcan gyda'r nod o roi terfyn ar y dirywiad mewn bioamrywiaeth:

- Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth yn y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel.
- Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well
- Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy gwydn drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd
- Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd.
- Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n monitro o wytnwch ecolegol.
- Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion

Mae'r amcanion hyn yn gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n mynd law yn llaw â'r hyn y mae'r CGAN yn ceisio'i gyflawni. (Gweler Atodiad 1 am ragor o wybodaeth am bolisi a deddfwriaeth.)



## 4.2 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Eryri

Mae CGAN Eryri yn amlinellu'r amcanion hyn a osodwyd gan Lywodraeth Cymru mewn cyd-destun lleol, gan dynnu ar flaenoriaethau penodol o fewn Eryri. Tra nad oes gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri reolaeth uniongyrchol dros y mwyafrif helaeth o'r tir o fewn ei ffiniau, gall ddylanwadu ar benderfyniadau cynllunio ar gyfer adeiladau er mwyn hybu ymwybyddiaeth a mesurau creu cynefinoedd. Yn ogystal, trwy weithio gyda'r cyhoedd, rheolwyr tir, awdurdodau lleol a'n partneriaid ym Mhartneriaeth Natur Eryri, anelwn at gyrraedd prif nod cynhwysfawr CGAN Eryri: **Cynyddu amrywiaeth a helaethrwydd byd natur a gwella gwytnwch ecolegol ledled Eryri.**

Er mwyn datblygu'r cynllun hwn sefydlwyd Grŵp Tasg yn dilyn cyfarfod Partneriaeth Natur Eryri ym mis Mai 2024. Mae'r Grŵp Tasg yn cynnwys cynrychiolwyr o wahanol sefydliadau partner. Ystyriodd y Grŵp Tasg ddau Gynllun Gweithredu gwahanol: roedd y Cynllun Gweithredu cyntaf yn dilyn chwe amcan sylfaenol CGAN Cymru, a'r ail oedd templed CGAN drafft ar gyfer y Tirweddau Dynodedig a fydd, unwaith y caiff ei ddatblygu a'i gwblhau, yn rhan o ddogfen a elwir ar hyn o bryd yn "Tirweddau Dynodedig: Canllawiau Swyddogion er Budd Natur" i'w chwblhau ym mis Mawrth 2025. Penderfynwyd dilyn y chwe amcan sylfaenol a nodir yn CGAN Cymru, ond bydd y Grŵp Tasg yn edrych eto ar CGAN Eryri os bydd Llywodraeth Cymru'n penderfynu annog mabwysiadu dilyn templed CGAN y Tirweddau Dynoedig a/neu ei fersiwn diwygiedig o CGAN Cymru pan gaiff ei gyhoeddi. Caiff camau gweithredu eu mesur drwy nodau SMART a ddatblygir gyda phartneriaid allweddol yn 2026.

Bydd y CGAN yn addasu yn unol ag unrhyw newidiadau mewn polisi, deddfwriaeth, cyllid, gwybodaeth newydd ac ymchwil. Bydd adolygiad llawn o'r cynllun yn cael ei gynnal yn 2030.

## 4.3 Cynllun Gweithredu Cyffredinol

| Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth yn y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel |
|---|
| **Gweithredu** |
| Parhau i chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu, cefnogi a chodi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth Eryri o fewn cymunedau. |
| Cydweithio â'r sector cyhoeddus a phreifat i ymgorffori bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau. |
| Hyrwyddo presenoldeb Parc Cenedlaethol Eryri a phartneriaid ar-lein i gyrraedd mwy o bobl am ein gweithgareddau adfer natur a sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch ac yn gynhwysol. |
| Gwneud holl ddata CGAN yn hygyrch ac yn ddealladwy i helpu i lywio penderfyniadau integredig, gan gynnwys o fewn ein strwythurau llywodraethu ein hunain. |
| Cefnogi cysylltiad byd natur a throsglwyddo gwybodaeth i helpu i fabwysiadu arferion buddiol, lleihau arferion niweidiol, a gwella llesiant. |
| Ymgysylltu a chefnogi bioamrywiaeth mewn cymunedau trwy gysylltiadau diwylliannol â'u hardaloedd lleol, e.e. mae enwau caeau, creigiau a chopaon yn aml yn adlewyrchu'r hyn sy'n tyfu yno. |

| Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well |
|---|
| **Gweithredu** |
| Diweddaru rhestr rhywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth (CGBLI) cyfredol APC Eryri a datblygu dangosyddion priodol i fesur helaethrwydd a hyfywedd poblogaethau rhywogaethau â blaenoriaeth. |
| Defnyddio Systemau Gwybodaeth daearyddol (GIS) i gofnodi dosbarthiad rhywogaethau ac amlygu meysydd ffocws. |
| Arolygu a monitro rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf yn Eryri er mwyn llywio ymdrechion cadwraeth a rheolaeth. |
| Darparu gwybodaeth a chefnogaeth i ffermwyr, tirfeddianwyr, rheolwyr tir, perchnogion tai a datblygwyr ar y ffordd orau o warchod a gwella bioamrywiaeth. |
| Hwyluso ac annog partneriaeth weithio agos rhwng y sectorau cadwraeth ac amaethyddiaeth, gan i berthnasau gwell esgor ar ganlyniadau gwell. |
| Hwyluso perthnasau gwaith gydag amaeth-ecolegwyr i fapio cynefinoedd fferm a chynorthwyo i ddarparu cyngor ac arweiniad i ffermwyr. |
| Gweithio gyda chymunedau a'r cyhoedd i godi ymwybyddiaeth i helpu i leihau erydiad a sathru ar rywogaethau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PRoW). |

| Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy gwydn drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd |
|---|
| **Gweithredu** |
| Darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar ffermwyr, rheolwyr tir a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i wneud penderfyniadau gwybodus am wydnwch ecolegol, rheoli safleoedd cynaliadwy hirdymor a chysylltedd ar draws tirweddau i helpu i sicrhau hyfywedd eu daliadau tir yn y dyfodol. |
| Cefnogi partneriaethau lleol sy'n dymuno datblygu a chyflawni unrhyw brosiectau sy'n bodloni amcanion CGAN Cymru. |
| Defnyddio atebion mwy cynaliadwy, seiliedig ar natur, fel adfer gwlyptiroedd a chynyddu nifer y glaswelltiroedd bioamrywiol. |
| Cyflawni Strategaeth Coed a Choetiroedd Eryri i integreiddio mwy o goed cynhenid i'r dirwedd er mwyn cynyddu bioamrywiaeth ac adeiladu ar berthynas ffermio a chymunedau. |
| Cyflawni Strategaeth Mawndiroedd Eryri i adfer mawndiroedd storio carbon uchel, cynyddu rheolaeth gynaliadwy ar fawndiroedd yr iseldir a mawndiroedd corsiog a helpu i sicrhau adferiad mawndiroedd. |
| Ceisio cefnogi Cyfoeth Naturiol Cymru i adolygu cyflwr safleoedd gwarchodedig er mwyn hwyluso rheolaeth effeithiol. |
| Cyfrannu at y targed Bioamrywiaeth Fyd-eang o ddiogelu a rheoli o leiaf 30% o'n ffynonellau tir a dŵr croyw yn effeithiol erbyn 2030. |
| Chwilio am gyfleoedd i weithio'n agos gyda ffermwyr ar raddfa tirwedd i gyflawni elfen gydweithredol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. |

| Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd |
|---|
| **Gweithredu** |
| Cefnogi a gweithio gyda chymunedau amryfal, gan gynnwys ffermwyr a Grwpiau Gweithredu Lleol, i helpu i fynd i'r afael â rhywogaethau anfrodorol ymledol, plâu a chlefydau ac yn enwedig rhywogaethau anfrodorol. |
| Nodi a mynd i'r afael â phwysau a chyfleoedd penodol ar gyfer rhywogaethau ar gyfer rhywogaethau o fewn y Parc Cenedlaethol a datblygu dangosyddion allweddol ar gyfer adrodd a monitro'r pwysau a nodwyd. |
| Defnyddio pwysigrwydd y dull 'coed cywir yn y lle cywir' ym mhob prosiect sefydlu coed. |

| Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n monitro o wytnwch ecolegol |
|---|
| **Gweithredu** |
| Nodi bylchau yn ein gwybodaeth/tystiolaeth trwy goladu prosiectau a rhaglenni'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol gan bartneriaid Partneriaeth Natur Eryri, megis mentrau cydweithredol aml-berchnogaeth tir a rhaglenni cymunedol. |
| Gweithio gyda phartneriaid i ddefnyddio rhwydwaith ecolegol a chreu mapiau rhywogaethau penodol i lywio penderfyniadau cynllunio a pholisi y dyfodol |
| Cefnogi partneriaid Partneriaeth Natur Eryri mewn ymchwil a chasglu data sy'n cynorthwyo adfer natur. |
| Defnyddio fframwaith DECCA i safoni'r holl arolygu, monitro ac adrodd yn y Parc Cenedlaethol i gynorthwyo gwell cyfathrebu a chydweithio rhwng partneri-aid. |
| Buddsoddi mewn addysg a hyfforddiant i unigolion i alluogi arolygon ecolegol a rhywogaethau cymwys. |
| Cefnogi prosiectau cofnodi gwyddoniaeth y bobl lleol ac annog ysgolion/cymunedau lleol i gymryd rhan. |
| Casglu a choladu data o bolisïau a strategaethau perthnasol i lywio penderfyniadau (fel SoNaRR, Adroddiad Cyflwr y Parc, datganiadau ardal, a Strategaeth Goed Eryri). |
| Datblygu dangosyddion priodol i fonitro cynnydd y Cynllun Gweithredu. |
| Gweithio ochr yn ochr â Cofnod i ddarparu dulliau cofnodi hawdd ac effeithiol i bartneriaid ar gyfer monitro cynefinoedd e.e. monitro trwy ddefnyddio lluniau o bwynt sefydlog. |

| Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion |
|---|
| **Gweithredu** |
| Sefydlu Partneriaeth Natur Leol gadarn ac effeithiol i wasanaethu fel pont rhwng partneriaid cyflawni lleol a chenedlaethol a Llywodraeth Cymru. |
| Cydweithio'n agos gyda Phartneriaethau Natur Lleol eraill i wneud y mwyaf o effeithiolrwydd ac effaith prosiectau o ran amcanion CGAN Eryri. |
| Cysylltu CGAN Eryri â chynlluniau ariannu'r Llywodraeth i gynyddu'r gweithredu ar gyfer natur (fel SFS, NNF, INRS ac ati). |
| Cysylltu CGAN Eryri gyda chyfleoedd ariannu preifat i gynyddu gweithredu dros natur (fel mentrau cyllid gwyrdd, buddsoddiadau busnes ac ati) |
| Mesur ac amlygu anghenion gallu staff i gydlynu a gweithredu amcanion CGAN Eryri. |



## 4.4 Sut gallwch chi gymryd rhan?

Mae'r prosiectau a'r gweithgareddau sy'n cael eu cydlynu gan Bartneriaeth Natur Eryri a'n partneriaid o fewn Parc Cenedlaethol Eryri yn gwella ein natur yma yn Eryri, yn ogystal â gwella lles y bobl yn ein cymunedau a'r rhai sy'n ymweld. Dros y blynyddoedd nesaf, byddwn yn ychwanegu astudiaethau achos at yr adran hon i helpu i ysbrydoli pawb i gymryd rhan a chynorthwyo adferiad byd natur.

Mae llawer o'n prosiectau o fewn Parc Cenedlaethol Eryri yn dibynnu ar gyfraniad pobl fel chi, sy'n barod i helpu mewn unrhyw ffordd y gallant. Boed hynny trwy wirfoddoli neu wneud eich gardd yn fwy hygyrch i fywyd gwyllt, gall pawb helpu i wella byd natur mewn rhyw ffordd! Gobeithiwn y bydd yr adran hon yn rhoi ychydig o ysbrydoliaeth ac arweiniad i bobl Eryri a thu hwnt sydd am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i natur yn eu hardal a helpu i gyflawni Cynllun Gweithredu Eryri. P'un a ydych chi'n unigolyn, yn grŵp cymunedol, yn fusnes neu'n ymwelydd – mae gan bob un ohonom y pŵer i wneud gwahaniaeth ac ysgogi eraill i ymuno â'r daith.



### 4.4.1 Unigolion

Gall pawb helpu i gyfrannu at fioamrywiaeth, gall hyd yn oed y camau gweithredu lleiaf gael effaith gadarnhaol ar natur. Bydd y newidiadau a wnewch hefyd nid yn unig o fudd i natur ond i'ch llesiant chi hefyd, a gallai dechrau arni edrych yn debyg i hyn:

- Gwirfoddoli gyda grŵp cymunedol lleol
- Garddio ar gyfer bywyd gwyllt a chreu mwy o ardaloedd gwyllt yn eich gardd
- Defnyddio compost heb fawn yn eich gardd
- Cofnodi eich bywyd gwyllt lleol a chyflwyno'r data i'r ganolfan cofnodion amgylcheddol lleol (COFNOD yw Canolfan Cofnodion Amgylcheddol Lleol Gogledd Cymru).
- Cofnodi unrhyw Rywogaethau Ymledol Anfrodorol (INNS) y dewch o hyd iddynt, a'u tynnu o'ch gardd
- Ychwanegu brics neu focsys gwenoliaid duon i'ch tŷ
- Lleihau, Ailddefnyddio, Ailgylchu – yn y drefn honno!

### 4.4.2 Cymunedau

Gellir defnyddio gweithredu cymunedol i wella byd natur mewn sawl ffordd ac nid yn unig y mae o fudd i rywogaethau lleol yn eich ardal ond mae hefyd yn fuddiol i iechyd a lles pawb. Mae'n gyfle gwych i bobl leol gymdeithasu a dysgu yn ogystal â helpu bioamrywiaeth leol drwy greu mannau gwyrdd. Gallai rhai syniadau am sut y gall grŵp cymunedol weithredu a chymryd rhan ddechrau fel hyn:

- Creu gardd gymunedol, perllan, neu fan gwyrdd lleol
- Trefnu sesiynau codi sbwriel
- Creu a gosod blychau adar neu bentyrrau o foncyffion coed marw yn y parc lleol
- Gweithio gydag eglwys neu gapel lleol i wella bioamrywiaeth mewn mynwentydd
- Creu neu ymuno â Grŵp Gweithredu Lleol i dargedu Rhywogaethau Anfrodorol Ymledol (INNS) fel Jac y Neidiwr
- Creu mannau ar gyfer peillwyr a dod yn gymuned sy'n Gyfeillgar i Wenyn




### 4.4.3 Busnesau

Mae gwella bioamrywiaeth yn bosibl mewn rhyw ffordd neu'i gilydd i bob busnes, p'un a yw'n rhywbeth y byddwch yn dechrau ei ymgorffori yn eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol neu'n newidiadau a wnewch i weithrediadau presennol, mae yna bob amser ffordd i gymryd rhan a helpu byd natur. Gallai gwneud newid i'ch busnes edrych yn debyg i hyn:

- Gweithio tuag at ddod yn fusnes sero net a chymryd mesurau mwy ecogyfeillgar trwy gaffael a chynhyrchu cynnyrch.
- Codi ymwybyddiaeth staff am eich amgylchedd lleol
- Adolygu eich defnydd o olau allanol
- Ychwanegu brics neu focsys gwenoliaid duon i'ch tŷ
- Cymryd rhan mewn prosiectau bioamrywiaeth a chadwraeth - trwy gymryd rhan yn uniongyrchol neu drwy helpu gydag ariannu'r gwaith.
- Rheoli eich mannau gwyrdd yn fwy effeithiol ar gyfer bywyd gwyllt
- Targedu posibiliadau twristiaeth bywyd gwyllt lle bo modd

#### 4.4.3.1 Ffermydd

Mae cryn dipyn o dir amaethyddol (tua 80%) o fewn y Parc Cenedlaethol, sy'n gwneud ffermwyr yn gydweithredwyr allweddol ar gyfer adfer bioamrywiaeth a chreu cynefinoedd. Nid oes rhaid i'r newidiadau y gwnewch i'r modd rydych chi'n gofalu am eich tir i helpu natur ddigwydd ar raddfa fawr. Gall llawer o newidiadau i sut rydych chi'n gofalu am eich tir er budd natur fod o fudd i'ch arferion ffermio hefyd. Gallai gwneud newidiadau i'ch arferion ffermio edrych fel hyn:

- Edrych ar astudiaethau achos o ffermydd eraill a gweld beth allwch chi ei ymgorffori yn eich arferion eich hun
- Sefydlu ymylon caeau llawn blodau ar gyfer peillwyr
- Ychwanegu brics neu focsys gwenoliaid duon i'ch adeiladau
- Cyflwyno rheolaeth gylchdro ar wrychoedd
- Ymgorffori gwndwn llysieuol yn eich porfeydd
- Cyflwyno pori cylchdro lle bo modd
- Lleihau pa mor ddisglair yw golau allanol eich fferm er budd rhywogaethau nosol
- Cynyddu faint o dir pori coed (*silvopasture*) lle bo modd
- Cadw mwy o bren marw sy'n pydru mewn coetiroedd a gwrychoedd
- Ailgyfeirio cymaint o ddŵr glaw glân â phosibl o iardiau 'budr'



## 4.4.3.2 Coedwigaeth

Mae coedwigaeth yn sector allweddol arall ym Mharc Cenedlaethol Eryri sy'n chwarae rhan hanfodol mewn adferiad byd natur. Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol (PAWS) yw rhai o'r safleoedd allweddol ar gyfer targedu gwaith adfer a gallant fod yn fan cychwyn naturiol ar gyfer cynyddu bioamrywiaeth a chynyddu storio carbon. Dyma rai ffyrdd y gallai newidiadau i'ch arferion coedwigaeth gynnwys:

- Cyfeirio at Strategaeth Coed a Choetiroedd Eryri
- Sefydlu pori coetir wedi'i reoli (holwch am gyngor ar y math o bori)
- Gweithio tuag at ddileu rhywogaethau ymledol yn eich coetir
- Cael gwared ag unrhyw goed a blannwyd ar fawn dwfn
- Plannu amrywiaeth o rywogaethau coed lle bo hynny'n bosibl i gynorthwyo amrywiaeth cen a bryoffytau
- Gweithio tuag at ehangu eich coetir (chwiliwch am gyngor ar bosibiliadau)

## 4.4.4 Ysgolion

Bydd y genhedlaeth nesaf yn gyfrifol am warchod byd natur rhyw ddydd, a'n dyletswydd ni yw dysgu pwysigrwydd deall a chysylltu â byd natur iddynt. Nid oes rhaid i gysylltu addysg amgylcheddol â'r cwricwlwm presennol fod yn anodd. Mae byd natur o'n cwmpas ym mhob man, a gallai cynyddu ymgysylltiad disgyblion â'r byd naturiol ddechrau gyda rhywbeth fel hyn:

- Creu lle i fywyd gwyllt ar dir ac adeiladau'r ysgol (e.e. blychau ystlumod a gwenoliaid duon)
- Cynnal arolwg bywyd gwyllt ar dir ysgolion – gall mapio lleoliadau a chyfrif rhywogaethau gysylltu â chwricwlwm daearyddiaeth a rhifedd yn ogystal â gwyddoniaeth.
- Dod yn eco-ysgol
- Mynd â'r ystafell ddosbarth y tu allan pryd bynnag y bo modd
- Ymuno a chymryd rhan mewn gweithgareddau/digwyddiadau natur

### 4.4.5 Mannau Cychwyn

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a bwriedir ei defnyddio fel canllaw ac fel ysbrydoliaeth o bethau y gallwch eu gwneud i helpu i wella eich bioamrywiaeth leol:

**Garddio**

- Gerddi cymunedol: https://www.biodiversitywales.org.uk/Gerddi-Cymunedol-a-Phrosiectau-Tyfu
- Caru Gwenyn: https://www.biodiversitywales.org.uk/Caru-Gwenyn
- Sut i greu gwrych ar gyfer bywyd gwyllt: https://www.wildlifetrusts.org/actions/how-make-hedge-wildlife
- Garddio ar gyfer pryfetach: https://www.buglife.org.uk/get-involved/gardening-for-bugs/
- Garddio ar gyfer glöynnod byw a gwyfynnod: https://butterfly-conservation.org/how-you-can-help/get-involved/gardening
- Helpu adar a bywyd gwyllt: https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/helping-birds-and-wildlife
- Garddio er budd bywyd gwyllt: https://www.northwaleswildlifetrust.org.uk/WildlifeGardening
- Garddio er budd bywyd gwyllt: https://www.biodiversitywales.org.uk/Garddio-er-budd-Bywyd-Gwyllt

**Busnesau**

- Business for bees: https://www.pollinator.org/biz-for-bees
- Partneriaethau cadwraeth busnes: https://www.rspb.org.uk/helping-nature/what-we-do/influence-government-and-business/business-conservation-partnerships
- Llety ecogyfeillgar: https://www.hostaway.com/blog/eco-friendly-airbnb/

**Ffermydd**

- Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur: https://www.nffn.org.uk/
- Hwb ffermio Buglife: https://www.buglife.org.uk/resources/farming-hub/
- Cadwraeth Tyllan Wen: https://www.barnowltrust.org.uk/
- Ffermio ar gyfer peillwyr: https://friendsoftheearth.uk/nature/farming-bees-and-pollinators
- Porfa ar gyfer peillwyr: https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/busnes/partneriaeth-arloesi-ewrop-yng-nghymru-eip-wales/prosiectau-eip-wediu-cymeradwyo/porfa-ar
- Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru: Gofal Sylfaenol Gwyrddach - Gofal Sylfaenol Un
- Rheoli gwrychoedd: https://www.nffn.org.uk/resources/nature-friendly-hedgerow-management
- Coed Cadw – Amaeth-goedwigaeth: https://www.woodlandtrust.org.uk/plant-trees/agroforestry-benefits/
- Astudiaethau Achos Cyswllt Ffermio:
  - Hafod y Llyn Isaf: https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/ffermydd-presennol/hafod-y-llyn-isaf-0
  - Brynllech Uchaf: https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/ffermydd-presennol/brynllech-uchaf

**Coedwigaeth**

- Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd: https://fsc.org/en/blog/sustainable-forestry
- Safon coedwigaeth y DU: https://www.llyw.cymru/safon-coedwigaeth-y-du
- Dod yn ardystiedig gyda'r FSC: https://fsc.org/en/find-the-right-certification-or-licence
- Coedwigoedd sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd: https://www.forestryengland.uk/climate-resilient-forests

**Ysgolion**

- Eco-Sgolion: https://staging.keepwalestidy.cymru/eco-schools/cy/
- Rewilding childhood: https://thewildnetwork.com/
- Sut i adeiladu gwesty trychfilod: https://www.woodlandtrust.org.uk/blog/2019/09/how-to-build-a-bug-hotel/
- Garddio ysgolion RHS: https://schoolgardening.rhs.org.uk/home
- Blychau ystlumod: https://www.bats.org.uk/our-work/buildings-planning-and-development/bat-boxes/putting-up-your-box

**Ychwanegol**

- Wildlife watch: https://www.wildlifewatch.org.uk/cy
- COFNOD: https://www.cofnod.org.uk/
- Pecyn Cymorth Rhywogaethau Estron Ymledol (INNS) i gymunedau: https://www.northwaleswildlifetrust.org.uk/waren
- INNS Mapper – cofnodi rhywogaethau ymledol: https://innsmapper.org/home
- Plantlife: https://www.plantlife.org.uk
- Y Bywiadur (geiriadur Cymraeg ar rywogaethau): https://www.llennatur.cymru/Y-Bywiadur
- Gwasanaeth Natur Cenedlaethol Cymru: https://www.natureservice.wales/cy/hafan/
- PlantNet app: https://plantnet.org/en/
- Gwreiddiau Gwyllt: https://mentrauiaith.cymru/gwreiddiau-gwyllt/
- Cronfa ddata o adnoddau natur ar gael yn y Gymraeg sy'n addas ar gyfer gwahanol oedrannau: https://www.gwreiddiaugwyllt.cymru
- Cadwraeth Gwenoliaid duon: https://www.northwaleswildlifetrust.org.uk/widerlandscape/swift-conservation-project
- Cadwraeth Gwennoliaid y bondo DU ac Iwerddon: https://housemartinconservation.com/



## 5. Cyflawni a monitro

### 5.1 Cyflawni

Yn y bôn, mae cyflawni CGAN Eryri yn llwyddiannus yn dibynnu ar gydweithio effeithiol a chyson gyda phartneriaid. Mae CGAN Eryri yn disodli ac yn dilyn ymlaen o'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLl) ar gyfer Eryri. Deilliodd y CGBLl o Gonfensiwn 1992 ar Amrywiaeth Fiolegol ac roedd yn cynnwys cynlluniau gweithredu ar gyfer llawer o rywogaethau a chynefinoedd unigol. Mae'r Cynlluniau Gweithredu gwreiddiol hyn yn helpu i ddarparu sylfaen ar gyfer y CGAN hwn, fodd bynnag, bydd y ddogfen yn parhau i gael ei diweddaru a bydd mwy o weithredoedd perthnasol yn seiliedig ar ddeddfwriaeth a phwysau presennol yn cael eu cynnwys. Bydd CGAN Eryri yn parhau i fod yn addasadwy, yn barod i gael ei addasu yng ngoleuni newidiadau mewn cynefinoedd, rhywogaethau, deddfwriaeth, cyllid ac adnoddau.

Bydd Partneriaeth Natur Eryri ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn arwain ar y datblygiad ac yn goruchwylio gweithrediad a monitro'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur. Fodd bynnag, y cyfranogiad a'r cydweithrediad helaeth ymhlith y partneriaid fydd yn gyrru'r gwaith cyflawni yn ei flaen.

### 5.2 Monitro

Er mwyn monitro cynnydd CGAN Eryri, bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn casglu ac yn diweddaru'n rheolaidd restr o'r holl brosiectau a gweithgareddau sy'n cael eu cynnal sy'n cyfrannu at gyflawni CGAN yn Eryri. Bydd diweddariadau yn cael eu rhyddhau bob dwy flynedd a byddant ar gael ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Bydd monitro parhaus o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a chynhyrchu Adroddiad ar Gyflwr y Parc hefyd yn cael ei ddefnyddio i fonitro cynnydd.

**Eitem Rhif 10**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod |
| **DYDDIAD** | 29 Ebrill 2026 |
| **TEITL** | **Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol** |
| **ADRODDIAD GAN** | Swyddog Ymgysylltu Cymunedol |
| **PWRPAS** | Cyflwyno'r Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol i'w fabwysiadu gan yr Awdurdod |

## 1. CEFNDIR / CYFLWYNIAD

1.1 Mae ymgysylltu effeithiol â chymunedau'n elfen graidd o waith Parc Cenedlaethol Eryri. Nid yw'r Parc yn bodoli ar wahân i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yma. Mae'n ecosystem gymdeithasol, ddiwylliannol ac amgylcheddol sy'n dibynnu ar berthynas gadarn rhwng yr Awdurdod a'i gymunedau. Er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'r Awdurdod yn adlewyrchu gwir anghenion a dyheadau'r trigolion, mae angen fframwaith clir a chyson ar gyfer ymgysylltu.

1.2 Mae'r Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol yn gosod y sail i:

- gryfhau'r berthynas rhwng yr Awdurdod a'r cymunedau lleol
- sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu llywio gan dystiolaeth ac adborth cymunedol
- adeiladu ymddiriedaeth, tryloywder a pherchnogaeth ar y cyd a
- chreu cyfleoedd i bawb gyfrannu at ddyfodol Eryri, gan gynnwys pobl ifanc a grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

1.3 Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar y gwaith ardderchog o ymgysylltu sydd yn digwydd ar draws yr Awdurdod yn barod. Mae staff eisoes yn ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau fel rhan o'u gwaith dydd i ddydd, gyda rhai enghreifftiau o arfer dda wedi'u cynnwys yn yr atodiadau. Fodd bynnag, mae yna angen bellach i gryfhau ac uno'r ymdrechion yma drwy greu fframwaith clir, cydgysylltiedig a chynaliadwy sy'n galluogi:

- rhannu dysgu ac arfer da ar draws adrannau
- darparu adnoddau ac offer i gefnogi staff, a
- sicrhau bod pob gweithgaredd ymgysylltu yn cyfrannu at un weledigaeth gyffredin ar gyfer Eryri.

Bwriad y strategaeth yma felly yn sicrhau bod ymgysylltu'n elfen gynhenid o'n diwylliant sefydliadol ac yn rhan o'r ffordd rydym yn gweithio o ddydd i ddydd.

1.4 Mae dull strategol o ymgysylltu'n hanfodol er mwyn:

- atal dyblygu ac anghysondeb rhwng adrannau
- sicrhau bod y cyfleoedd ymgysylltu yn gynhwysol ac yn hygyrch
- gallu mesur effaith a dysgu o brofiadau

1.5 Er mwyn hwyluso gweithredu, mae cyfres o atodiadau cefnogol wedi'u cynnwys o fewn y Strategaeth. Maent yn darparu templedi, rhestrau gwirio ac enghreifftiau o arfer dda i gefnogi staff wrth gynllunio a darparu gweithgareddau ymgysylltu. Mae'r atodiadau yn sicrhau bod y Strategaeth nid yn unig yn ddogfen o egwyddorion, ond yn ddogfen ymarferol i'w defnyddio gan bawb sy'n ymgysylltu â'r gymuned.

## 2 . ADRODDIAD CYNNYDD

2.1 Ers mis Mai 2025, mae gwaith sylweddol wedi digwydd i ddatblygu'r Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol. Mae mewnbwn a chyngor wedi'i dderbyn gan ystod eang o adrannau, swyddogion ac Aelodau o fewn yr Awdurdod, gan gynnwys:

- Gwasanaethau Gweinyddol a Gwasanaeth Cwsmeriaid
- Cadwraeth, Coed ac Amaeth
- Polisi Cynllunio a Rheoli Datblygiad
- Treftadaeth Ddiwylliannol
- Gwasanaeth Wardeinio
- Cyfathrebu a Phartneriaethau
- Tîm Arweinyddiaeth
- Gweithgor Aelodau
- Aelodau Fforwm Eryri

Yn ogystal, mae Anna Jones, Arweinydd Strategol Rhagoriaeth Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu Tirweddau Cymru wedi darparu cyngor i sicrhau bod egwyddorion cynhwysiant, hygyrchedd a thegwch wedi'u hintegreiddio'n llawn.

Mae'r broses hon wedi arwain at ddogfen sy'n adlewyrchu safbwyntiau ac arbenigedd amrywiol o fewn yr Awdurdod, gan sicrhau bod y strategaeth yn berthnasol ac yn ymarferol ar draws pob maes gwaith.

2.2 Mae datblygu'r Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol yn digwydd law yn llaw â'r adolygiad o Gynllun Eryri a'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'n hanfodol i sicrhau cysondeb llawn rhwng y tair dogfen o ran yr amcanion a dulliau ymgysylltu ond hefyd defnydd iaith a therminoleg. Trwy ddefnyddio'r Strategaeth fel fframwaith gweithredu, gall yr Awdurdod sicrhau bod lleisiau cymunedol yn cael eu hystyried yn llawn, a bod yr hyn sy'n bwysig i bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Parc yn cael ei adlewyrchu'n gyson ar draws Cynllun Eryri, y Cynllun Datblygu Lleol a phob gweithgaredd ymgysylltu cysylltiedig. Bydd hyn yn cryfhau cysondeb strategol, hyrwyddo cyd-gynhyrchu effeithiol a gwneud y gorau o gyfleoedd i ymgysylltu gyda chymunedau.

## 3. PWYNTIAU ALLWEDDOL I'W NODI

3.1 Nid yw'r Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol yn ddogfen statudol, ond mae'n darparu fframwaith strategol a gweithredol i sicrhau dull cyson, teg ac effeithiol o ymgysylltu ar draws yr Awdurdod. Mae'r Strategaeth yn arf ymarferol i staff ac aelodau, ac mae'n cefnogi cyflawni'r dyletswyddau statudol presennol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Cydraddoldeb 2010, a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

3.2 Mae'r Strategaeth yn ddogfen fyw a fydd yn parhau i ddatblygu wrth i fwy o fewnbwn gael ei dderbyn gan gymunedau, partneriaid a staff. Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu cynnydd, dysgu ac anghenion newydd.

3.3 Bydd gweithredu llawn y Strategaeth yn dibynnu ar gapasiti staff, amser ac adnoddau i gydlynu'r gweithgareddau ymgysylltu.

**ARGYMHELLION**

Bod yr aelodau yn derbyn y ddogfen iddi gael ei mabwysiadu fel Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol ar gyfer yr Awdurdod

**Atodiad 1:**

# Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol Eryri

2026-2031




AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
ERYRI NATIONAL PARK AUTHORITY

eryri.llyw.cymru



## Rhagair

Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn fwy na thirwedd gwarchodedig o harddwch eithriadol – mae hefyd yn gartref ag yn le ble mae natur, diwylliant, a chymuned wedi'u cydblethu'n ddwfn. Rydym ni fel Awdurdod yn cydnabod bod ymgysylltu ystyrlon â'r cymunedau a thrigolion yn hanfodol i gynnal harddwch naturiol y Parc a'i berthnasedd i genedlaethau'r dyfodol.

Mae'r strategaeth hon yn adlewyrchu'r ymrwymiad a'r angen i amddiffyn yr hyn sy'n gwneud Eryri yn unigryw drwy ddarganfod ffyrdd o weithio gyda'n gilydd sydd wedi'u gwreiddio mewn parch, tegwch ac ymdeimlad o bwrpas. Mae'r weledigaeth yn rhoi pobl o bob oedran, cefndir a phrofiad wrth wraidd ein gwaith.

Mae ein nodau yn glir: dyfnhau perthnasoedd, creu cyfleoedd teg i gymryd rhan, a sicrhau bod pob cymuned yn teimlo'n gysylltiedig, yn cael eu clywed, ac yn cael eu gwerthfawrogi ym mywyd y Parc. Trwy gyfleoedd cyd-ddylunio a chyd-gynhyrchu, fforymau, a gweithio mewn partneriaeth rydym yn anelu at agor llwybrau ar gyfer ymgysylltu sy'n ddilys, yn gynhaliol ac yn effeithiol. Nid casgliad yw'r strategaeth hon - ond dechrau'r daith.

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Rhagymadrodd:** Terminoleg a chysyniadau allweddol | 4 |
| **Adran 1 – Pam mae ymgysylltu'n bwysig** | **7** |
| 1.1 Pwrpas, cyd-destun strategol ac amcanion | |
| 1.2 Gwerthoedd craidd yr Awdurdod ac ymgysylltu | |
| **Adran 2 – Dyfnhau ein dealltwriaeth o ymgysylltu** | **11** |
| 2.1 Beth yw ymgysylltu a pham mae ymgysylltu â'r gymuned yn bwysig? | |
| 2.2 Arfer da mewn ymgysylltu â'r gymuned | |
| 2.3 Y sbectrwm ymgysylltu | |
| 2.4 Rhanddeiliaid | |
| 2.5 Cyd-gynhyrchu | |
| 2.6 Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac ymdeimlad o berthyn | |
| 2.7 Prosiectau partneriaethol | |
| **Adran 3 – Rhoi'r ymgysylltu ar waith** | **21** |
| 3.1 Fframwaith gweithredu | |
| 3.2 Monitro a gwerthuso | |
| **Atodiadau** | **23** |
| **Atodiad 1** – 10 Egwyddor Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru | |
| **Atodiad 2 –** Trosolwg o gymunedau Eryri | |
| **Atodiad 3 –** Arfer da sefydliadol | |
| **Atodiad 4 –** Prosiectau partneriaethol | |
| **Atodiad 5** – Ystyriaethau ymgysylltu ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol | |
| **Atodiad 6 –** Adnoddau defnyddiol wrth ymgysylltu<br>1. Mapio rhanddeiliaid<br>2. Penderfynu ar y math iawn o ymgysylltu<br>3. Rhestr wirio digwyddiad ymgysylltu cymunedol<br>4. Rhestr wirio staff: Effaith ar Gydraddoldeb a'r iaith Gymraeg<br>5. Ymgysylltu o ddydd i ddydd | |


DRAFT

## Rhagymadrodd: Terminoleg a chysyniadau allweddol

Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb, mae'r strategaeth hon yn defnyddio termau penodol i ddisgrifio cymunedau, dulliau ymgysylltu, a'r egwyddorion sy'n llywio ein gwaith. Bydd darllen yr eirfa hon yn gyntaf yn helpu pob darllenydd gan gynnwys staff, partneriaid, ac aelodau o'r gymuned i ddeall yr iaith a ddefnyddir trwy gydol y strategaeth, gan sicrhau bod pawb yn rhannu dealltwriaeth gyffredin o gysyniadau allweddol.

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Trigolion / Residents** | Pobl sy'n byw yn Eryri. |
| **Cymuned/ Community** | Unrhyw grŵp o bobl sydd â rhywbeth yn gyffredin, megis lleoliad, hunaniaeth, iaith, diddordeb, neu brofiad bywyd. O fewn Eryri, gall hyn gynnwys cymunedau daearyddol, diwylliannol, cymdeithasol neu thematig sy'n gysylltiedig â'r Parc e.e.trigolion, busnesau, defnyddwyr tir, ymwelwyr, gwirfoddolwyr, ac unrhyw un sydd ag ymdeimlad o gysylltiad â'r Parc. |
| **Cynulleidfaoedd / Audiences** | Term cyffredinol sy'n cwmpasu pob grŵp sydd â diddordeb yn y Parc, megis trigolion, cymunedau, ymwelwyr, grwpiau ysgol, a gwirfoddolwyr. |
| **Grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol/ Groups that are underrepresented** | Grwpiau o bobl sydd, oherwydd eu nodweddion neu'u hamgylchiadau (er enghraifft anabledd, ethnigrwydd, rhyw, anfantais economaidd gymdeithasol, ac ati), yn bresennol mewn cyfrannau llawer is yn rhai meysydd (megis swyddi, rolau uwch, neu ymgysylltu cyhoeddus) nag y byddech yn disgwyl ar sail eu cyfran o'r boblogaeth berthnasol. Mae'r grwpiau hyn yn aml yn wynebu rhwystrau ychwanegol i gymryd rhan (strwythurol, diwylliannol, economaidd) o'i cymharu â'r mwyafrif. |
| **Cymunedau'r mwyafrif byd-eang / Global majority communities** | Defnyddir y term hwn fel dewis cadarnhaol yn lle 'lleiafrifoedd ethnig' ar gyfer bobl Ddu, Affricanaidd, Asiaidd a Brown, pobl o dreftadaeth ddeuol, y rhai sy'n frodorol i'r de byd-eang. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys tua 80% o boblogaeth y byd. |
| **Amrywiaeth/ Diversity** | Cymysgedd o wahanol bobl a'r gwerth ychwanegol sy'n dod o'u profiadau bywyd a'u safbwyntiau unigryw. |
| **Cynhwysiant/ Inclusion** | Creu diwylliant lle mae pawb yn teimlo'n gyfforddus ac yn hyderus i fod yn nhw eu hunain. Caiff pobl eu gwerthfawrogi'n gymdeithasol ac yn ddiwylliannol, gyda pharch at gryfderau unigol yn hytrach na disgwyl i bawb fod yr un fath. |
| **Cyd-greu/ Co-creation** | Gweithio mewn partneriaeth â phobl i lunio penderfyniadau a gwasanaethau ar bob cam: cynllunio, gweithredu a gwerthuso. |
| **Ymgysylltu/ Engagement** | Mae ymgysylltu yn cyfeirio at y broses eang o alluogi deialog rhwng cymunedau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Cynnwys/ Involvement** | Mae cynnwys yn broses o weithio mewn partneriaeth ag unigolion a chymunedau i lunio penderfyniadau, gwasanaethau, a gweithredoedd. Fe'i seilir ar berthnasoedd parhaus, lle mae pobl a grwpiau yn cyfrannu mewn amryw o gamau cynllunio, gweithredu, ac asesu. |
| **Cyfranogaeth / Participation** | Mae cyfranogaeth yn golygu cyfraniad gweithgar gan unigolion a chymunedau mewn gwneud penderfyniadau neu ddarparu gwasanaethau. Mae'n mynd y tu hwnt i ymgynghori i sicrhau dylanwad gwirioneddol, yn aml drwy gyd-gynhyrchu neu gyd-ddylunio. |
| **Rhanddeiliaid / Stakeholders** | Unrhyw un sydd â diddordeb mewn gweithgareddau'r Parc neu sy'n cael eu heffeithio gan weithgareddau'r Parc. |
| **Ymgynghoriad cyhoeddus / Public consultation** | Proses ffurfiol ar gyfer casglu barn ar gynigion neu bolisïau. |
| **Cyd-gynhyrchu / Co-production** | Gweithio gyda chymunedau fel partneriaid cyfartal i ddylunio atebion a gwasanaethau. |
| **Cynrychiolaeth deg / Fair representation** | Sicrhau bod pob llais, gan gynnwys grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, yn cael eu clywed. |
| **Profiad bywyd / Lived experience** | Gwybodaeth a dealltwriaeth bersonol a gaiff ei hennill drwy brofi sefyllfaoedd, heriau, neu gyd-destunau penodol. Mae'n cynnig mewnwelediadau unigryw nad ydynt bob amser yn weladwy mewn data neu bolisi. |
| **Gwerth ychwanegol / Added value** | Manteision neu effaith ychwanegol sy'n deillio o weithgareddau, partneriaethau neu gyfraniadau, megis effaith gymdeithasol neu gynnal treftadaeth ddiwylliannol. |
| **Gofalwriaeth / Custodianship** | Cyfrifoldeb pawb - staff, gwirfoddolwyr, trigolion, a chymunedau - i ofalu, amddiffyn a gwella'r Parc, gan annog cyfranogiad gweithredol. |
| **LHDTC+ / LGBTQI+** | Mae'r term LHDTC (LGBTQI) yn cyfeirio at bobl sy'n adnabod eu hunain fel Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol, Cwiar/yn cwesitynu, arywiol (asexual) neu Rhyw Rhyngddynedig (intersex). Fe'i defnyddir i gydnabod amrywiaeth o gyfeiriadau rhywiol, hunaniaethau rhywedd, a nodweddion rhyw, a sicrhau bod pob un o'r cymunedau hyn yn weladwy, yn cael eu cynnwys, ac yn cael cefnogaeth mewn polisïau, arferion ac wrth ymgysylltu â'r gymuned. |
| **Croestoriadedd/ Intersectionality** | Cydnabod y gall unigolion fod â nifer o nodweddion gwarchodedig, gan arwain at brofiadau unigryw o wahaniaethu neu anfantais. |
| **Model Cymdeithasol o Anabledd/ Social Model of Disability** | Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd (Llywodraeth Cymru) yn gwahaniaethu rhwng 'amhariad' ac 'anabledd' ac yn cydnabod bod pobl ag amhariadau yn anabl nid oherwydd eu hamariad, ond gan y rhwystrau sy'n bodoli'n aml mewn cymdeithas neu'r gweithle. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Mewnfudwyr/ Migrants** | Unigolion a anwyd y tu allan i'r DU, gan gynnwys unigolion sydd newydd gyrraedd a rhai sydd wedi bod yn bresennol am gyfnod hir. |
| **Ceiswyr lloches/ Asylum seekers** | Unigolion sydd wedi gwneud cais am loches ac yn aros am benderfyniad. |
| **Pobl yn chwilio am lloches/ People seeking sanctuary** | Unigolion sy'n chwilio am lloches neu ddioglewch, waeth beth yw eu statws mewnfudo. |
| **Ffoadur/ Refugee** | Unigolyn sydd wedi cael statws lloches a chydnabyddiaeth eu bod angen eu hamddiffyn. |
| **Tegwch/ Equity** | Darparu mynediad teg, cyfleoedd, ymdriniaeth deg, gan gydnabod y gall rhai grwpiau fod angen cymorth ychwanegol i sicrhau canlyniadau cyfartal. |
| **Nodweddion Gwarchodedig (Deddf Cydraddoldeb 2010)/ Protected characteristics (Equality Act 2010)** | Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu pobl rhag gwahaniaethu oherwydd:<br>• oedran<br>• anabledd<br>• ailbennu rhywedd<br>• priodas a phartneriaeth sifil<br>• beichiogrwydd a mamolaeth<br>• hil<br>• crefydd neu gred<br>• rhyw<br>• cyfeiriadedd rhywiol<br>Gelwir y categorïau hyn yn 'nodweddion gwarchodedig'. |

DRAFT



## **Adran 1 -** Pam mae ymgysylltu'n bwysig?

Mae'r strategaeth ymgysylltu hon yn mynd law yn llaw â chynllun rheoli Eryri, Cynllun Eryri, a Chynllun Datblygu Lleol Eryri - sy'n ddwy ddogfen arwyddocaol mewn perthynas â dyfodol Parc Cenedlaethol Eryri. Mae gan Eryri naw rhinwedd arbennig sydd wedi arwain at ddynodi ardal Eryri yn Barc Cenedlaethol yn 1951 ac mae'n ein helpu i ddeall beth ddylid ei warchod a'i wella.

Pan fydd Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn cyflawni eu pwrpasau, mae ganddynt ddyletswydd hefyd i geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn y Parciau Cenedlaethol. Rydym yn cydnabod nad ymarfer untro yw ymgysylltu ond proses barhaus sy'n bwrpasol, yn gynhwysol, yn dryloyw ac yn cael ei gwerthuso'n barhaus. Mae ein dull gweithredu yn seiliedig ar egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu cyhoeddus yng Nghymru, gan sicrhau bod pob gweithgaredd ymgysylltu wedi'i gynllunio i wneud gwahaniaeth, yn hygyrch, ac yn arwain at ddysgu a gwella. Ymhellach, wrth gyflawni dyletswyddau statudol cynllunio, mae deddfwriaeth yn sail i'r isafswm natur a'r math o ymgysylltu.

Fel Awdurdod, rydym yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau rhagorol i drigolion Eryri. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu'r dull y byddwn yn ei fabwysiadu i sicrhau bod ein gweithgareddau ymgysylltu mor effeithiol â phosibl er mwyn cyflawni ein gweledigaeth.

## 1.1 Pwrpas, cyd-destun strategol ac amcanion

Pwrpas y strategaeth hon yw creu diwylliant o gydweithrediad effeithiol rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE), a'r cymunedau, gan alluogi aelodau'r gymuned i gyfrannu'n weithgar at benderfyniadau am ddyfodol y Parc.

Mae'r strategaeth hon yn berthnasol i'r holl drigolion a chymunedau sy'n gysylltiedig ag Eryri – gan gynnwys pentrefi a threfi lleol, cymunedau Cymraeg, pobl ifanc, grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, ac ardaloedd cyfagos sydd â chysylltiadau diwylliannol ac economaidd cryf.

Mae cydlyniant cymunedol yn un o rinweddau arbennig Eryri, gyda'r ymdeimlad dwfn o hunaniaeth a pherthyn yn hanfodol i gymunedau ffynnu. Mae sefydliadau cymunedol 'angorol' yn chwarae rhan allweddol gan eu bod yn deall anghenion lleol ac yn ymrwymo'n hirdymor i'w hardaloedd. Nod y strategaeth yw cefnogi a hyrwyddo'r elfennau hyn, gan feithrin cysylltiadau cryfach rhwng y Parc Cenedlaethol, trigolion a'r cymunedau ehangach.

## Cyd-destun strategol

Bydd y strategaeth hon yn cael ei chyflwyno yng nghyd-destun nifer o strategaethau sefydliadol a lleol/cenedlaethol yn ogystal â deddfwriaeth sy'n effeithio ar gymunedau gan gynnwys:

- **Cynllun Eryri:** Cynllun rheoli statudol y Parc Cenedlaethol yn ogystal â dogfen bartneriaeth sy'n amlinellu gweledigaeth a chynllun gweithredu ar y cyd ar gyfer yr ardal.
- **Cynllun Datblygu Lleol (CDLl):** dogfen sy'n mynegi pwrpasau dibenion a dyletswyddau'r Parc mewn perthynas â pholisïau defnydd tir, cynllunio a datblygu.
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015:** sy'n ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn cydnabod bod cymunedau clos yn hanfodol i lesiant unigolion.
- **Deddf Cydraddoldeb 2010:** sy'n darparu fframwaith cyfreithiol i amddiffyn hawliau unigolion a datblygu cyfleoedd cyfartal i bawb.
- **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011:** sy'n rhoi statws swyddogol cyfartal i'r iaith Gymraeg â'r Saesneg yng Nghymru, gan sefydlu'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- **Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu Cyhoeddus yng Nghymru (2011, Llywodraeth Cymru):** sy'n darparu safon genedlaethol gydnabyddedig ar gyfer ymgysylltu ystyrlon
- **Amcanion Lles Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol:** Amcanion sydd â ffocws ar gynyddu cyfleoedd i gymunedau bregus, difreintiedig a rhai sydd heb gynrychioleth ddigonol.

DRAFT

## Amcanion ar gyfer ymgysylltu cymunedol

1. Adeiladu gallu a chapasiti cymunedol i ddylanwadu a chyfrannu at benderfyniadau.
2. Sicrhau cyfathrebu clir, pwrpasol, cynhwysol ac amserol.
3. Bod yn atebol a thryloyw ynghylch sut mae adborth yn dylanwadu ar benderfyniadau.
4. Gwella arferion ymgysylltu yn barhaus gan ddefnyddio tystiolaeth a dysgu.
5. Integreiddio cynaliadwyedd amgylcheddol i'n gweithgareddau ymgysylltu.

Yn hanfodol i'r broses, mae angen cydweithredu effeithiol ar draws holl adrannau APCE i gydlynu ymgysylltiad â'r gymuned er mwyn sicrhau cysondeb, ac osgoi dyblygu.

Er mwyn i'r gwaith fod yn gynaliadwy, rhaid iddo gael ei ymgorffori mewn gweithgareddau dyddiol, wedi'i adlewyrchu mewn strategaethau, cynlluniau gweithredu, polisïau a phrosesau'r Awdurdod. Nid yw cydlyniant cymunedol yn swydd nac yn rôl i un person neu adran - mae'n gyfrifoldeb i bawb.

Egwyddor craidd i'r gwaith o ymgysylltu yw bod **'Pob sgwrs yn cyfrif'**. Nid dim ond digwyddiadau mawr yw ymgysylltu cymunedol. Mae'n ymwneud â'r sgyrsiau a'r cysylltiadau dyddiol sy'n adeiladu ymddiriedaeth ac ymdeimlad o berchnogaeth gyda'r gymuned.

DRAFT

## Yr Iaith Gymraeg

Mae'r iaith Gymraeg yn rhan bwysig o dreftadaeth ddiwylliannol Eryri. Mae'n iaith fyw sy'n rhan annatod o fywyd bob dydd yr ardal. Felly, mae'r Awdurdod yn falch o adlewyrchu'r ardal y mae'n ei wasanaethu. Cadarnhawn bydd dwyieithrwydd wedi'i wreiddio ym mhob agwedd o waith ymgysylltu, gan sicrhau y gall pobl gyfathrebu yn eu hiaith ddewisol.

## Newid hinsawdd ac effaith amgylcheddol

Bydd ymgysylltu yn seiliedig ar ymrwymiad i gynaliadwyedd amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys lleihau ôl troed carbon ein gweithgareddau (er enghraifft, defnyddio offer digidol, lleihau teithio, a dewis deunyddiau cynaliadwy) a gwreiddio negeseuon amgylcheddol ar draws pob amcan.

Rydym yn cydnabod, er bod gan bobl Eryri ofal dwfn am natur, y gall safbwyntiau ar newid hinsawdd amrywio. Bydd ein dull yn canolbwyntio ar gynhwysiant ac ymagwedd agored, gan amlygu cynnydd cadarnhaol a chefnogi gweithredu dan arweiniad cymunedau fel bod yr ymateb i'r newid yn yr hinsawdd yn teimlo'n berthnasol ac yn bosibl i bawb.

## 1.2 Gwerthoedd craidd yr Awdurdod ac ymgysylltu

Mae ein gwerthoedd yn diffinio pwy ydym ni a'r ffyrdd yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd i amddiffyn y tirweddau arbennig yma. Maent yn llywio ein gweithredoedd, yn ysbrydoli ein hymrwymiad, ac yn siapio sut rydym yn cefnogi ein gilydd i wneud ein gorau i Eryri. Mae'r un gwerthoedd hyn hefyd yn llywio sut rydym yn ymgysylltu â'n cymunedau.

| | |
|---|---|
| **Anelu** – *Rydym yn ymdrechu i gyflawni rhagoriaeth a rhoi ein gorau dros Eryri drwy gefnogi ein gilydd pob cam o'r ffordd* | **Wrth ymgysylltu, mae hyn yn golygu ymrwymo i safonau uchel o dryloywder, tegwch a chynhwysiant. Rydym yn gweithio'n gyson ac ar y cyd ar draws pob tîm fel bod cymunedau'n profi un llais clir, cydlynol gan Awdurdod y Parc.** |
| **Parchu** – *Rydym yn annog i gyflawni ein gorau trwy greu amgylchedd cynhwysol o ddealltwriaeth a chydweithio.* | **O ran ymgysylltu, mae hyn yn golygu creu cyfleoedd i bawb gymryd rhan a chael eu clywed, gwrando'n ofalus, trin pawb ag pharch, a pharchu gwerthoedd a dewisiadau pobl.** |
| **Cymreictod** – *Rydym yn falch o'r iaith Gymraeg a rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol. Rydym yn eu gwarchod a'u gwella ar gyfer cenhedlaethau'r dyfodol.* | **Wrth ymgysylltu, mae hyn yn golygu creu dull dwyieithog a sensitif yn ddiwylliannol yn seiliedig ar ar etifeddiaeth, hunaniaeth, a phrofiadau byw cymunedau lleol.Rydym yn gwrando ar yr hyn sy'n gwneud pob lle a chymuned yn unigryw, gan adael i wybodaeth leol lywio'r hyn a wnawn.** |
| **Egni** – *Rydym yn weithlu egniol, yn unfrydol wrth wynebu heriau trwy gyfathrebu'n gadarnhaol a phroffesiynol gyda'n gilydd.* | **Wrth ymgysylltu, mae hyn yn golygu mynd at gymunedau gyda hyblygrwydd, dewrder ac yn agored, i gydweithio i ddod o hyd i atebion ac yn dysgu ar y ffordd. Rydym yn defnyddio adborth, mewnwelediad lleol a phrofiad byw i lunio ein gweithredoedd a gwella'r hyn a wnawn.** |

DRAFT

## 2.1 Beth yw ymgysylltu a pham mae'n bwysig?

Mae proses ymgysylltu effeithiol ac ystyrlon yn galluogi i berthynas gael ei sefydlu â phob aelod o'r gymuned. Wrth ymgysylltu â'r gymuned, y peth pwysicaf i anelu ato yw amgylchedd diogel, tryloyw, cefnogol a hygyrch i bawb.

Yn ôl *Llawlyfr Ymarferwyr Llywodraeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu* â'r *Cyhoedd*, mae ymgysylltu yn cryfhau democratiaeth, yn meithrin ymddiriedaeth ac yn arwain at benderfyniadau gwell.

Mae'n fwyaf ystyrlon pan:

- Mae cymunedau'n teimlo bod eu cyfraniad yn cael dylanwad gwirioneddol.
- Mae lleisiau amrywiol yn cael eu clywed, yn enwedig grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Rhoddir adborth yn agored.

## 2.2 Arfer da mewn ymgysylltu â'r gymuned

Mae ymgysylltu da yn ymwneud â gwrando, gofyn cwestiynau, annog syniadau, a chreu perthnasoedd. Bydd APCE yn:

- Bod yn glir ynghylch pwrpas ymgysylltu.
- Rheoli disgwyliadau'n onest.
- Trin pawb gyda pharch a dealltwriaeth.
- Gwerthfawrogi profiad byw fel arbenigedd.
- Bod yn hyblyg ac yn agored i ddysgu.
- Ymgysylltu gyda phwrpas a holi am farn a syniadau

**Dylai pob proses ymgysylltu ateb y pedwar cwestiwn allweddol hyn:**

1. Pam yr ydym yn ymgysylltu?
2. Pwy sydd angen bod yn rhan o'r broses?
3. Sut fydd lleisiau pobl yn dylanwadu ar y canlyniad?
4. Sut fyddwn ni'n rhoi adborth ac yn gwerthuso?

DRAFT

## Gwrando

- Gwrando ar y gymuned gyfan.
- Adnabod beth sydd ei angen ar y gymuned.
- Sylwi pwy sydd wedi'u cynnwys a phwy sydd wedi'u heithrio..
- Chwilio am leisiau newydd

## Siarad

- Gofyn cwestiynau.
- Annog sgyrsiau agored.
- Adeiladu ymddiriedaeth trwy ddeialog.

## Cefnogi

- Annog meddwl agored a chreadigrwydd.
- Cefnogi pobl i gymryd camau bach ond ystyrlon.
- Agor drysau i gyfleoedd newydd.

## Ysbrydoli

- Cyflwyno eich hun a rhannu arferion.
- Bod yn weladwy, yn weithgar ac yn hygyrch.
- Dathlu straeon am newid..

## Galluogi

- Cymunedau yw'r grym llywio..
- Cael gwared ar rwystrau i gyfranogiad..
- Darparu adnoddau, sgiliau a mynediad.

## Gweithredu

- Gall gweithredoedd bach gael effaith fawr.
- Yn gyson ac osgoi cymhlethu gormodol.
- Dathlu llwyddiannau – mawr a bach.

## Cydweithredu

- Gweithio ar draws cymunedau a grwpiau.
- Cysylltu grwpiau a meysydd gwahanol.
- Croesawu cydweithredu a chwilfrydedd.

## Rhannu

- Cyhoeddi a dangos canlyniadau.
- Cynnal gweithdai a chofnodi straeon.
- Archifo dysgu ar gyfer y dyfodol.

## Rheoli disgwyliadau

- Bod yn glir ac yn onest o'r dechrau.
- Egluro yr hyn sydd a'r pethau nad yw'n bosibl.
- Rhannu'r broses a'r amserlen yn gynnar.
- Cydnabod a ymateb i rwystredigaeth yn empathig.
- Cofio bod disgwyliadau'n newid – caiff hyn ei wirio'n rheolaidd.

DRAFT

## 2.3 Y sbectrwm ymgysylltu

Bydd dyfnder yr ymgysylltiad yn dibynnu ar yr hyn a ganlyn:

- Graddfa ac effaith penderfyniadau.
- Yr amser a'r adnoddau sydd ar gael.
- Gofynion deddfwriaethol.



| | | |
|---|---|---|
| **Cyd-gynhyrchu** | Partneriaeth gyfartal rhwng cymunedau ac APCE o'r cam dylunio i'r cam cyflawni; rhannu pŵer a chyfrifoldeb . | **Gwneud gyda** (lefel uchaf) |
| **Cyd-ddylunio** | Mae cymunedau'n siapio gwasanaethau yn seiliedig ar eu profiad byw. Mae ganddynt ddylanwad gwirioneddol ond nid ydynt yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau strategol. | **Gwneud ar gyfer** |
| **Ymgysylltu** | Gall pobl rannu barn ac efallai dylanwadu ar rai agweddau. O'i gymharu â'r cam ymgynghori isod, efallai y gall pobl ddylanwadu ar rai penderfyniadau ynghylch sut mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio neu eu darparu/cyflawni. | |
| **Ymgynghoriad** | Gofynnir am farn ond mae dylanwad yn gyfyngedig, e.e. efallai y gofynnir i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau lenwi arolygon neu fynychu cyfarfodydd, ond gellir ystyried hyn yn symbolaidd os nad oes ganddynt bŵer i ddylanwadu neu achosi newid. | **Gwneud i** (lefel isaf) |
| **Addysgu / Hysbysu** | Gwneir penderfyniadau; rhoddir gwybodaeth ar ôl hynny. Gall hyn gynnwys dweud wrth bobl pa benderfyniadau a wnaethpwyd a pham. | |
| **Gorfodaeth** | Dyma waelod y yr ysgol. Mae pobl yn dderbynwyr goddefol. | |

DRAFT

Mae ein dull gweithredu wedi'i addasu o Ysgol Cyfranogiad Arnstein [1]a chanllawiau Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru[2]. Mae'n cydnabod lefelau yn amrywio o hysbysu ac ymgynghori, hyd at gyd-ddylunio a chyd-gynhyrchu.

*Gellir dod o hyd i astudiaethau achos ar gyfer arfer da o fewn yr Awdurdod yn Atodiad 3.*

[1] *Stakeholder engagement: Learning from Arnstein's ladder and the IAP2 spectrum – Integration and Implementation Insights*

[2] https://wcva.cymru/cy/dylanwadu/ymgysylltu/

## Penderfynu pa fath o ymgysylltu sydd ei angen

Cyn dechrau prosiect neu weithgaredd, ystyriwch y cwestiynau canllaw i benderfynu ar y dull cywir. Maent yn helpu i sicrhau bod ymgysylltu yn gymesur, yn gynhwysol ac yn ystyrlon.

### 1. Cwmpas a dylanwad

- Pa benderfyniadau sy'n wirioneddol agored i'w trafod, a beth sydd y tu hwnt i'n rheolaeth?
- Pwy sydd â'r pŵer i wneud y penderfyniadau hyn?
- Beth yw cwmpas dylanwad y gymuned?

### 2.Pwy sy'n cael eu heffeithio

- Ydyn ni wedi nodi pwy fydd yn cael eu heffeithio fwyaf?
- A ydym wedi cysylltu gyda'r rhai sy'n aml wedi'u heithrio o drafodaethau?
- Pwy sy'n cael eu heffeithio fwyaf oherwydd y prosiect hwn, a ddylent gael dweud eu dweud?

### 3.Dyfnder yr ymgysylltu sy'n angenrheidiol

- A yw'r gymuned eisiau arwain, cydweithio, neu ddim ond cael ei chlywed?
- Ydyn ni eisiau i bobl gyd-greu atebion, neu ymateb i gynigion sydd eisoes wedi'u gwneud?
- A fydd y prosiect hwn yn cael effaith sylweddol ar fywydau, tir neu dreftadaeth ddiwylliannol pobl?
- A oes tensiynau, anghydraddoldebau neu faterion ymddiriedaeth sydd angen eu trin yn ofalus?
- A yw'r ymgysylltiad yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth? e.e. hysbysebu ceisiadau cynllunio, proses y Cynllun Datblygu Lleol

### 4. Parodrwydd a chapasiti

- Sut awn ni ati i ddangos ein bod wedi gwrando ac ystyried barn wrth wneud penderfyniadau?
- A oes gennym yr amser, yr adnoddau a'r perthnasoedd i gefnogi ymgysylltiad dyfnach?
- A allai rhan o'r gwaith gael ei drosglwyddo i grŵp neu arweinydd lleol?

### 5. Canlyniadau a Dysgu

- Sut fyddwn ni'n dangos bod lleisiau cymunedol wedi siapio'r canlyniad?
- Sut fyddwn ni'n diffinio ac yn mesur llwyddiant ar draws ei wahanol ffurfiau?
- A oes cyfle yma i adeiladu perthnasoedd neu ymddiriedaeth ar gyfer y dyfodol?
- A all y prosiect hwn fod yn gyfle i roi cynnig ar ddulliau mwy cyfranogol mewn ffordd risg isel?
- A ydym wedi ystyried y posibilrwydd o greu canlyniadau anfwriadol?
- Sut fyddwn ni'n monitro a dogfennu canlyniadau wrth symud ymlaen?

DRAFT

## 2.4 Rhanddeiliaid/ cysylltiadau cymunedol

Wrth weithio gyda'n cymunedau, mae'n bwysig cydnabod ein rhanddeiliaid, oherwydd fe all cydweithio â nhw gryfhau'r broses ymgysylltu. Dyma restr o rai o'n rhanddeiliaid ond wrth gwrs, bydd llawer mwy ar lefel adrannol neu'n ddibynnol ar brosiectau gwahanol.

1. Trigolion / pobl leol
2. Grwpiau cymunedol gan gynnwys grwpiau sy'n cynrychioli pobl gyda nodweddion a warchodir.
3. Cynghorau Tref a Chymuned
4. Partneriaid drwy fforymau
5. Cynrychiolwyr etholedig:
    1. 9 Cynghorydd Lleol wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd
    2. 3 Cynghorydd Lleol wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
    3. 6 aelod wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru
6. Partneriaid sector cyhoeddus
7. Asiantaethau'r Llywodraeth
8. Gwasanaethau iechyd
9. Busnesau lleol
10. Partneriaid y trydydd sector
11. Mentrau cymdeithasol
12. Partneriaethau
13. Tirfeddianwyr
14. Sefydliadau addysg a gwasanaethau ieuenctid
15. Cwmnïau Budd Cymunedol
16. Sector Tai Cymdeithasol
17. Cyfryngau
18. Grwpiau crefyddol/ ffydd
19. Sefydliadau diwylliannol a threftadaeth
20. Gwasanaethau brys / partneriaid cadernid
21. Ymwelwyr / defnyddwyr y Parc Cenedlaethol
22. Darparwyr trafnidiaeth
23. Cyrff anllywodraethol amgylcheddol nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys o dan bartneriaethau
24. Cyrff proffesiynol
25. Y sector awyr agored

DRAFFT



## 2.5 Cyd-gynhyrchu

Mae cyd-gynhyrchu yn broses sy'n creu newid. Mae'n ffordd o weithio gyda, yn hytrach na gwneud i. Mae'r term cyd-gynhyrchu yn cyfeirio at ffordd o weithio, sy'n galluogi darparwyr a derbynwyr gwasanaethau i rannu pŵer a chyfrifoldeb. Mae wedi'i adeiladu ar yr egwyddor mai'r rhai sy'n defnyddio gwasanaeth sydd yn y sefyllfa orau i helpu i'w ddylunio. Mae cyd-gynhyrchu yn fwy na dim ond ymgynghori neu hysbysu pobl am benderfyniadau. Mae'n golygu cynnwys a galluogi eu cyfranogiad i ganiatáu ar gyfer dyfodol mwy effeithiol, effeithlon a chynaliadwy.

Mae prosiect cyd-gynhyrchu yn gweld pobl fel asedau ac yn adeiladu ar eu galluoedd presennol. Yn ogystal, mae'n chwalu'r rhwystrau rhwng defnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol. Mae prosiectau cyd-gynhyrchu yn cael eu cynllunio, eu datblygu a'u cyflwyno gan grŵp o bobl sydd â gwahanol gefndiroedd a diddordebau, lle mae'r pŵer yn cael ei rannu rhyngddynt.

Mae cyd-gynhyrchu yn gweithio orau pan fydd cymunedau'n cael eu trin fel asedau ac mae pŵer yn cael ei rannu'n deg. Mae'n gofyn am amser, ymddiriedaeth ac eglurder ynghylch pŵer gwneud penderfyniadau.

DRAFT

## Egwyddorion cyd-gynhyrchu

- Dylid gwerthfawrogi'r holl gyfranogwyr ac adeiladu ar eu cryfderau (gan gynnwys pob llais a chaniatáu cyfranogiad llawn i bawb mewn ffordd sy'n gweithio iddyn nhw.)
- Datblygu rhwydweithiau cyd-gymorth i drosglwyddo gwybodaeth a sgiliau.
- Gwneud yr hyn sy'n bwysig i bawb dan sylw.
- Adeiladu perthnasoedd yn seiliedig ar ymddiriedaeth; dylid rhannu pŵer a chyfrifoldeb.
- Dylid grymuso pobl fel gwneuthurwyr newid. Cael gwared o'r ffiniau pendant rhwng gweithwyr proffesiynol a defnyddwyr gwasanaeth.

## 2.6 Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac ymdeimlad o berthyn

Mae Adroddiad Cyflwr y Parc APCE wedi nodi'r flaenoriaeth o annog mynediad diogel ac chyfrifol at natur a llesiant i drigolion a defnyddwyr y Parc. Mae hyn yn cyd-fynd ag amcanion lles Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol i:

> *Ddathlu amrywiaeth a symud tuag at ddileu anghydraddoldeb ar bob ffurf, gyda tharged o gynyddu cyfleoedd i bobl mewn grwpiau bregus neu dan anfantais a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa o'r tirweddau a reolwn.*

Mae'r ffocws hwn yn adlewyrchu'r gydnabyddiaeth genedlaethol nad yw sicrhau mynediad yn ymwneud â llwybrau corfforol i'r Parc yn unig, ond hefyd yn mynd i'r afael â'r rhwystrau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y mae rhai grwpiau yn eu hwynebu.

Yn ystod 2024, fe wnaeth holl Barciau Cenedlaethol y DU, dan arweiniad y Gweithgor EDI (Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant), mewn partneriaeth â Pharciau Cenedlaethol Lloegr a'r Bartneriaeth Tirweddau Gwarchodedig gomisiynu Soil Collective i gynhyrchu datganiad cynhwysiant a gweledigaeth a rennir ar gyfer pob Parc Cenedlaethol.

Drwy y prosiect peilot cyd-gynhyrchu archwiliwyd i beth mae ein Parciau Cenedlaethol yn ei olygu i bobl er mwyn cyd-greu gweledigaeth a nodau ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. O ganlyniad i'r prosiect, mae model trosglwyddadwy wedi cael ei greu i gefnogi Parciau Cenedlaethol wrth iddynt fabwysiadu'r weledigaeth a datblygu'r gwaith.

Rhaid i ymgysylltu â'r gymuned adlewyrchu amrywiaeth Eryri. Mae'r 10 Egwyddor Perthyn yn darparu lens ar gyfer ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar bobl, gan ategu'r 10 Egwyddor Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru. Bydd ein gwaith yn cael ei arwain gan yr egwyddorion a ddatblygwyd yn genedlaethol ar gyfer Parciau Cenedlaethol y DU:-

1. **Rhyfeddod** - Fel stiwardiaid ein hamgylchedd naturiol, yn ogystal â'n hamgylchedd cymdeithasol, credwn mewn  rhyfeddod natur, a rhyfeddod yr ysbryd - y ddau yn ysbrydoli yn eu ffordd eu hunain.
2. **Cysylltiad** - Fel aelodau o gymuned helaeth natur, credwn fod angen cysylltiad - yr angen i fod mewn perthynas â phobl, natur a'r hinsawdd wrth wasanaethu ein lles unigol ac ar y cyd.
3. **Cymuned** - Credwn yng nghryfder y gymuned wrth feithrin ymdeimlad o berthyn. Rydym yn gofalu'n ddwfn am ein gilydd ac yn gweithredu er mwyn cefnogi a gwasanaethu'n gilydd.
4. **Amgylchedd** - Fel hyrwyddwyr mannau gwyrdd, rydym yn deall ac yn ymrwymo i'n cyfrifoldeb fel stiwardiaid a gwarcheidwaid ein hamgylchedd, gan barchu popeth y mae natur yn ei roi i ni ac yn ei ddysgu i ni.
5. **Amrywiaeth** - Rydym yn cydnabod bod amrywiaeth yn rhywbeth i'w ddathlu  ac yn hanfod i fywyd dynol, fel y mae ym myd natur. Amrywiaeth yw ein cryfder a'n cadernid. Mae ein pobl mor amrywiol â'n tirweddau ac rydym yn dathlu'r ddau.

DRAFT



6. **Croeso** - Pan fyddwn yn dweud bod 'croeso i bawb yma' rydym yn ymrwymo i gael gwared ar y rhwystrau niferus i gael mynediad at gysylltiad a chymuned yn ein Parciau Cenedlaethol a'n mannau gwyrdd. Rydym yn croesawu'n benodol y rhai mwyaf ymylol yn ein cymunedau ac yn cydnabod y rôl y gall Parciau Cenedlaethol ei chwarae fel mannau diogel, yn enwedig mewn cyfnodau heriol.
7. **Lles** - Rydym yn credu yn rôl hanfodol natur a'r potensial sydd gan mannau gwyrdd ar gyfer ein lles corfforol, emosiynol a meddyliol. Rydym yn gweithio tuag at sicrhau eu bod ar gael ac yn hawdd eu cyrraedd i'r rhai sydd eu hangen fwyaf.
8. **Creadigrwydd** - Rydym yn dathlu creadigrwydd fel ffordd sy'n ein galluogi i ragweld dulliau newydd o weithio a bod gyda'n gilydd. Rydym yn cydnabod creadigrwydd ar y cyd fel ffordd o ddatrys problemau creadigol yn ein cymunedau ac yn ffordd allweddol o fod mewn perthynas â natur.
9. **Gwreiddiau** - Rydym yn cydnabod bod adeiladu cymuned yn waith sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn sy'n gofyn i ni roi sylw gofalus i'r pridd rydyn ni'n plannu popeth ynddo. Rydym yn cydnabod rôl pontio'r cenedlaethau o'n hanesion, atgofion a'n cysylltiadau â mannau gwyrdd.
10. **Etifeddiaeth** - Rydym eisiau trosglwyddo etifeddiaeth y gall cenedlaethau'r dyfodol deimlo'n gysylltiedig â hi ac yn falch ohoni. Rydym yn addasu i newid ac yn esblygu fel y mae natur yn ei wneud, ac fel ein cymunedau. Rydym yn parchu ein rôl fel stiwardiaid ein treftadaeth ac yn ceisio trosglwyddo'r baton.

## Rhwystrau i gynhwysiant

Er mwyn ymgysylltu'n effeithiol mae angen mynd i'r afael â'r rhwystrau posibl er mwyn sicrhau bod **pob llais yn y gymuned yn cael ei glywed**. Yr ystyriaethau allweddol yw:

- **Statws cymdeithasol-economaidd** –Byddwn yn cynnig amseroedd a lleoliadau cyfarfodydd hyblyg, ac yn archwilio ffyrdd o leihau rhwystrau megis costau teithio neu fynediad at adnoddau, er mwyn hwyluso cyfranogiad ehangach.

- **Iaith a llythrennedd –** Byddwn yn defnyddio iaith syml, osgoi jargon, a darparu cyfieithu neu ddehongli os oes angen.

- **Ystyriaethau diwylliannol –** Byddwn yn ymgysylltu â arweinwyr cymunedol ac yn ymwybodol o ddigwyddiadau diwylliannol neu wyliau all effeithio ar gyfranogiad.

- **Hil a ethnigrwydd –** Byddwn yn cymryd camau gweithredol i sicrhau bod lleisiau o gymunedau amrywiol yn cael eu cynnwys gan  gymryd gofal ychwanegol wrth ymgysylltu â chymunedau sy'n cynnwys ffoaduriaid neu geiswyr lloches, a allai fod wedi profi trawma, dadleoli, neu rwystrau iaith. Byddwn yn ystyried cydweithio â arweinwyr cymunedol a chyfieithwyr i sicrhau bod y cyfranogiad yn ddiogel, yn barchus ac yn hygyrch.

- **Oedran –** Byddwn yn addasu ddulliau ymgysylltu ar gyfer gwahanol grwpiau oedran, o bobl ifanc i oedolion hŷn, a chynllunio sut i'w cyrraedd yn effeithiol.

- **Daearyddiaeth –** Byddwn yn cynllunio ddigwyddiadau mewn lleoliadau hygyrch a niwtral e.e. gyda safle bws gerllaw.

- **Hunaniaeth, rhywedd a rhywioldeb –** Byddwn yn sicrhau bod prosesau'n gynhwysol i gymunedau LHDTC+, gan gynnwys rhannu rhagenwau a, lle bo'n briodol, creu lleoedd diogel fel grwpiau ar gyfer menywod yn unig.

- **Caniatâd a phreifatrwydd –** Byddwn yn sicrhau caniatâd cyfranogwyr cyn rhannu lluniau neu wybodaeth y gellir ei hadnabod. Byddwn hefyd yn hysbysu pobl am yr amgylchiadau lle bydd sylwadau a wneir yn cael eu cynnwys mewn dogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd, e.e. ffeiliau ceisiadau cynllunio neu ymgynghoriadau ar y Cynllun Datblygu Lleol.

- **Anghenion mynediad –** Byddwn yn ystyried sut y gellir gwneud gofodau yn addas i bobl anabl, pobl hŷn, rhieni gyda babanod, a phawb ag unrhyw rwystrau eraill. Lle bo'n bosibl, byddwn hefyd yn ystyried sut i sicrhau bod deunyddiau cyflwyno ac adnoddau mor hygyrch â phosibl i bawb. Mae'n bwysig parhau'n ymwybodol o anghenion ychwanegol unigolion sy'n cymryd rhan, ac, lle bo'n ymarferol, cymryd camau rhesymol i leihau'r rhwystrau hyn. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod hysbysiadau safleoedd cynllunio'n cael eu harddangos mewn lleoliadau sy'n hygyrch i bawb.

Drwy fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn, gall gweithgareddau ymgysylltu fod yn fwy cynhwysol, teg, ac effeithiol, gan sicrhau bod y strategaeth yn adlewyrchu anghenion a safbwyntiau pob aelod o'r gymuned.

DRAFT



## 2.7 Prosiectau partneriaethol

Wrth weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill ar brosiectau, mae'n hanfodol sicrhau bod ymgysylltu â'r gymuned yn parhau i fod yn ystyriaeth ganolog a chydlynol. Dylai'r bartneriaeth weithredu i sicrhau bod llais cymunedau lleol yn llywio'r gwaith, a bod gwerthoedd y Parc Cenedlaethol yn cael eu parchu a'u hadlewyrchu.

Gweler Atodiad 4 am ganllawiau, enghreifftiau a thempled ar gyfer *Cytundeb ymgysylltu partneriaid.*

## 3.1 Fframwaith gweithredu

Ar gyfer pob un o’n 5 amcan, bydd APCE yn cyflawni gweithredoedd mewn partneriaeth â chymunedau. Mae deall anghenion a blaenoriaethau pobl leol yn ganolog i’r broses hon, a byddwn yn parhau i siapio’r cynllun gweithredu drwy ymgysylltu parhaus.

### Amcan 1: Adeiladu capasiti cymunedol

- Darparu hyfforddiant cyd-gynhyrchu i staff ac aelodau a chreu adnoddau cymorth ar gyfer ymgysylltu cymunedol
- Datblygu dull sefydliad cyfan tuag at gynnwys ymgysylltu â’r gymuned wrth gynllunio ac mewn prosiectau a gwasanaethau.
- Cefnogi prosiectau rhwng cenedlaethau (ieuenctid a thrigolion hŷn).
- Sefydlu Fforwm Ieuenctid.
- Cryfhau partneriaethau sydd eisoes yn bodoli a sicrhau gweledydd ar draws y sector, gan gynnwys cydweithrediadau newydd i wella cysylltiadau â chymunedau.
- Parhau i feithrin gallu cymunedau drwy gefnogi cymunedau drwy gyfleoedd Grantiau Cymunedol ar gyfer prosiectau bach, canolig a mawr.

### Amcan 2: Cynnwys a hysbysu

- Cyfathrebu cyfleoedd trwy sianeli dwyieithog, hygyrch.
- Creu cronfa ddata ganolog o gysylltiadau a grwpiau cymunedol.
- Cynnal sesiynau ymgysylltu mewn lleoedd a arweinir gan y gymuned.
- Archwilio’r syniad o ariannu “cysylltwyr cymunedol” wedi’u gwreiddio mewn rhwydweithiau lleol.
- Cynhyrchu deunyddiau mewn fformatau hygyrch.
- Cynnal digwyddiadau cymunedol ar-lein ac wyneb yn wyneb i gael mynediad cyfartal.

### Amcan 3: Tryloywder ac atebolrwydd

- Cyhoeddi adroddiadau blynyddol “Beth a glywsom”.
- Sicrhau cysylltiadau gweladwy rhwng adborth gan y gymuned a phenderfyniadau.
- Cyhoeddi adroddiadau amserol ar adborth y gymuned.
- Sicrhau cysylltiadau gweledol rhwng adborth y gymuned a phenderfyniadau.

### Amcan 4: Gwelliant parhaus

- Cynnal adolygiadau rheolaidd gyda phartneriaid cymunedol i werthuso ymgysylltiad.
- Casglu data ansoddol a meintiol (gan gynnwys profiad byw).
- Defnyddio ymchwil a data i ddiweddaru arferion a dulliau ymgysylltu.
- Cynnwys grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ym mhob adolygiad.

### Amcan 5: Integreiddio effaith amgylcheddol

- Mesur a lleihau ôl troed carbon ymgysylltu.
- Parhau i gynnal gweithgareddau lles gyda’r cymunedau (teithiau cerdded a meddylgarwch).
- Cefnogi prosiectau hinsawdd a natur dan arweiniad y gymuned.

DRAFT



## 3.2 Monitro a Gwerthuso

Byddwn yn sicrhau bod gweithredu'r Strategaeth Ymgysylltu yn cael ei fonitro a'i adolygu'n ffurfiol yn barhaus i sicrhau tryloywder, atebolrwydd ac effaith.

Byddwn yn:

- Tracio pwy sy'n cymryd rhan (a nodi pwy nad yw'n cael eu cyrraedd).
- Gwerthuso'r broses (a oedd yn gynhwysol, amserol, hygyrch?) a'r canlyniadau (a oedd ymgysylltu wedi dylanwadu ar benderfyniadau).
- Crynodebau amserol 'Yr hyn a glywsom gan y cymunedau / Y camau a gymerwyd'
- Defnyddio adborth gan gymunedau i wella arferion yn y dyfodol.
- Rhannu dysgu'n agored gyda phartneriaid a'r cyhoedd.

# Atodiadau

## **Atodiad 1 -** Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru[3]

| Egwyddor | Beth mae'n ei olygu yng Nghymru? | Ffyrdd posibl gall APCE wneud hyn |
|---|---|---|
| 1. **Mae ymgysylltu wedi'i gynllunio'n effeithiol** – Pwrpas clir, dulliau priodol, a phrosesau cynhwysol o'r cychwyn. | Egluro pwrpas a chwmpas | Nodi amcanion clir ym mhob prosiect |
| 2. **Annog cyfranogiad** – Dylai fod yn hawdd ac yn apelgar i bobl gymryd rhan. | Dileu rhwystrau | Lleoliadau hygyrch, dulliau dwyieithog, digidol a wyneb i wyneb |
| 3. **Cynllunio a chyflwyno'n briodol** – Cyfateb maint ymgysylltu i faint y penderfyniad. | Addasu dulliau i fywydau pobl | Ymgysylltu cynnar, dull cymesur |
| 4. **Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol** – Osgoi dyblygu ac ymestyn cyrhaeddiad trwy gydweithio. | Cydweithio er mwyn osgoi dyblygu | Llwyfannau a rennir gyda Gwynedd/Conwy/trydydd sector |
| 5. **Mae gwybodaeth yn glir ac yn hygyrch** – Dylid darparu gwybodaeth amserol, gywir, hawdd ei deall mewn ieithoedd a fformatau priodol | Dim jargon, dwyieithog, fformatau lluosog | Cymraeg/Saesneg clir, hawdd i'w ddarllen, clywedol/ gweledol |
| 6. **Mae gwybodaeth yn glir ac yn hygyrch** – Dylid darparu gwybodaeth yn amserol, yn gywirac yn hawdd ei deall mewn ieithoedd a fformatau priodol | Cwrdd â phobl lle maen nhw | Mannau lleol, ysgolion, fforymau ar-lein |
| 7. **Mae gwybodaeth yn glir ac yn hygyrch** – Darparu gwybodaeth amserol, gywir, hawdd ei ddeall mewn ieithoedd a fformatau priodol | "Fe ddywedoch chi, fe wnaethom ni" | Adroddiad blynyddol a dolenni adborth prosiectau |
| 8. **Gweithio gyda chyfranogwyr a rhanddeiliaid** – Cyd-gynhyrchu lle bo modd; gwerthfawrogi profiad byw. | Gwerthuso a rhannu | Adolygiad blynyddol gyda chymunedau |
| 9. **Adborth a dangos effaith** – Dylid dangos i bobl sut mae eu cyfraniadau wedi dylanwadu ar benderfyniadau. | Y tu hwnt i ymgynghori | Cyd-ddylunio a chyd-gynhyrchu |
| 10. **Dysgu a rhannu gwersi** – Gwerthuso a gwella arferion ymgysylltu yn barhaus. | Bod yn glir ar derfynau | Nodi beth sy'n bosibl ac beth nad yw'n bosibl |

[3] http://wcva.cymru/cy/dylanwadu/ymgysylltu/

DRAFT

# **Atodiad 2** – Trosolwg o gymunedau Eryri

O fewn ffiniau'r Parc, mae 24 pentref bach a 5 tref gyda'r Bala a Dolgellau fel y ddwy brif ganolfan. Mae'r ddwy dref yn drefi marchnad hynafol bwysig. Yn Eryri mae tua 56% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Ceir hefyd drefi a phentrefi sy'n ffinio gyda'r Parc sy'n hollbwysig eu cynnwys wrth ystyried ymgysylltu cymunedol e.e. Llanberis, Bethesda, Porthmadog, Llanrwst, Machynlleth a Blaenau Ffestiniog.

Mae rhai dangosyddion allweddol ar gyfer poblogaeth y Parc Cenedlaethol yn dod o gyfrifiad Cenedlaethol 2021.

## Poblogaeth

O 2011-2021 mae poblogaeth Parc Cenedlaethol Eryri wedi lleihau 5% i 24, 418 o drigolion. Erbyn 2021, roedd cynnydd yn nifer y bobl hŷn (65+ oed) oedd yn byw yn y Parc Cenedlaethol. 28.7% oedd y ganran yn Eryri o'i gymharu â 21.4% yng Nghymru.

## Addysg

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae canran y rhai sydd â chymhwyster Lefel 4 neu uwch o fewn y Parc Cenedlaethol 4.7% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (36.2% Eryri o'i gymharu â 31.5% ar gyfer Cymru). Mae'r ganran ar gyfer 'dim cymwysterau' yn îs yn Eryri (16.3%), o'i gymharu â'r ganran ar gyfer Cymru gyfan (19.9%).

## Gweithgaredd Economaidd

Mae'r ganran o bobl sy'n weithredol yn economaidd ac mewn cyflogaeth yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (52.6% yn Eryri, 51.9% yng Nghymru). O Gyfrifiad 2021, mae canran y bobl ddi-waith yn Eryri ychydig yn îs na'r cyfartaledd cenedlaethol (2.1% Eryri o'i gymharu â 2.5% ledled Cymru).

Mae'r ganran o bobl sy'n segur yn economaidd (oherwydd ymddeoliad) o fewn y Parc Cenedlaethol 6.5% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol sef 31.2% (o'i gymharu â 24.7% ar draws Cymru).

## Diwydiant

Y diwydiannau gwaith pwysicaf i boblogaeth Eryri yw Iechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol (13.3%) , Masnach gyfanwerthol a manwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur (11.1%), Gweithgareddau lletygarwch a gwasanaeth bwyd (10.8%), 5.6% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ac Addysg (10.7%)

Y diwydiannau sy'n bwysicach i Barc Cenedlaethol Eryri, o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol, yw 'Amaethyddiaeth, ynni a dŵr' (10.4% Eryri, 3.7% Cymru) a 'Gweithgareddau lletygarwch a gwasanaeth bwyd' (10.8% Eryri, 5.2% Cymru).

O ran galwedigaeth, mae gan Eryri ganran llawer uwch yn gweithio yn y categori galwedigaethau crefftau medrus nag ar draws gweddill Cymru (20.3% Eryri, 12.2% Cymru).

Am fwy o wybodaeth am iechyd, disgwyliad oes a blaenoriaethau trigolion Eryri ewch i Adroddiad Cyflwr y Parc - cliciwch yma.

DRAFT

# **Atodiad 3 –** Arfer da sefydliadol

## Astudiaethau achos

### a. Strategaeth Coed a Choetiroedd Eryri

Datblygwyd y Strategaeth drwy ymgysylltu helaeth gyda'r cyhoedd gan ddefnyddio dulliau amrywiol:

- 2 weithdy hybrid - wyneb-yn-wyneb ac ar-lein
- 7 gweithdy cyhoeddus ar-lein, a chyfarfodydd un-i-un ychwanegol ar gais
- Un arolwg yn casglu safbwyntiau am greu coetir
- Un arolwg am berthynas pobl â choetiroedd, a nododd fod dros 36 o goetiroedd gwahanol yn Eryri yn arbennig o arwyddocaol
- 3 cyfarfod gyda rhanddeiliaid allweddol
- Diweddariadau rheolaidd a thrafodaethau gyda Fforwm Eryri
- Sgyrsiau parhaus gyda arbenigwyr lleol mewn Coedwigaeth, Cadwraeth a Amaeth

Mae hyn wedi arwain at dros 160 awr o drafodaeth gyda 404 o gyfranogwyr o sectorau amrywiol. Cafwyd ymdrech i gyrraedd defnyddwyr coedwigoedd eang, gan sicrhau bod y Strategaeth yn Gwnaed ymdrechion i gyrraedd ystod eang o ddefnyddwyr, gan sicrhau bod y Strategaeth yn adlewyrchu safbwyntiau amrywiol gan y sector cadwraeth, ffermio a choedwigaeth.

### b. Cynllun Yr Wyddfa

Datblygwyd y Cynllun Rheoli ar gyfer Yr Wyddfa trwy gyd-ddylunio gyda phartneriaid a chymunedau, gan gydnabod pwysigrwydd y mynydd i'r dirwedd a'r gymuned leol.

Camau allweddol:

- Adolygiad o'r Cynllun 2023 gwreiddiol a chraffu ar ymgynghoriadau blaenorol
- Gweithdai cynllunio ac adolygu gyda staff APCE a phartneriaid
- Cyfres o dri gweithdy gyda phartneriaid a rhanddeiliaid
- Ymgysylltu ag ysgolion lleol a phlant a phobl ifanc
- Sesiynau agored ym Meddgelert, Llanberis a Waunfawr
- Ymgynghoriad cyhoeddus ar-lein am dair wythnos a digwyddiad lansio

Pwysleisiodd y broses trafodaethau agored ac iach, cyd-greu syniadau a rhoi lle i bawb ddylanwadu ar y Cynllun.

### c. Fforwm cymunedol y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)

Crewyd y Fforwm i wella ymgysylltu cynnar gyda Chynghorau Tref a Chymuned. Mae dau gynrychiolydd o bob cyngor yn derbyn gwybodaeth cyn ymgynghoriadau er mwyn:

- Ddeall dogfennau ymgynghori
- Egluro'rr broses a sut fynd ati i gyflwyno sylwadau
- Rannu diweddariadau a thrafod ymholiadau

Er mwyn hybu mynediad, mae'r Fforwm fel arfer yn defnyddio platfform digidol gyda chyfieithu ar y pryd, er y gellir ystyried dulliau eraill hefyd. Mae'r Fforwm yn galluogi cynrychiolwyr i fod yn hyderus ac i roi adborth gwybodus yn ystod y broses CDLl. Roedd y sesiwn beilot yn 2023 yn dangos gwerth y Fforwm ar gyfer cyfranogiad cynnar a thryloywder.

DRAFT



## d. Partneriaeth Natur Eryri – Cynllun gweithredu adfer natur (CGAN)

Datblygwyd Cynllun Gweithredu Adfer Natur Eryri (CGAN) gyda phartneriaid, arbenigwyr a'r cyhoedd trwy gyfrwng:

- Ddiweddariadau a thrafodaethau mewn cylchlythyrau a chyfarfodydd Partneriaeth Natur
- 3 gweithdy Grŵp Tasg i adolygu a newid drafftiau
- 3 drafft a'u rhannu i gael adborth
- 2 diweddariad gyda Aelodau APCE

Treuliwyd 42 awr yn trafod gyda 33 o sefydliadau, gan dargedu cadwraeth, amaeth, trigolion, coedwigaeth a thwristiaeth. Cynlluniwyd gweithredoedd i adlewyrchu amrywiol sectorau, gan sicrhau cyfraniad cydweithredol.

DRAFT

## e. Gwasanaeth Treftadaeth Ddiwylliannol

**Yr Ysgwrn** – Mae perthynas hanesyddol rhwng cymuned Trawsfynydd a'r Ysgwrn ers marwolaeth Hedd Wyn ym 1917, ac mae'r cysylltiad hwn wedi cael ei feithrin dros y degawdau. Ers i Barc Cenedlaethol Eryri brynu'r Ysgwrn yn 2012, mae cymorth gan y Llywodraeth a'r Loteri Genedlaethol wedi galluogi buddsoddiad sylweddol i warchod y safle a datblygu mynediad. Trwy ymgysylltu rheolaidd â'r gymuned, denu gwirfoddolwyr, a chydweithio â sefydliadau lleol fel Ysgol Bro Hedd Wyn a Chlwb Ffermwyr Ifanc, crëwyd partneriaethau cryf. Er i'r pandemig a digwyddiadau lleol wanhau'r cysylltiadau, bu prosiectau creadigol diweddar yn ail-sefydlu'r berthynas hon, gan ddod â'r gymuned ynghyd mewn gweithdai a phorfiadau bythgofiadwy. Heddiw, mae'r cysylltiad cymunedol yn hanfodol i gynnal naws ac ysbryd Yr Ysgwrn, gan adlewyrchu bywyd a threftadaeth Hedd Wyn fel bardd ei fro.

**Treftadaeth Tref Dolgellau** – Mae cynllun Treftadaeth Treflun Dolgellau yn canolbwyntio ar warchod dros 200 o adeiladau rhestredig, gwella amgylchedd adeiledig y dref, a chreu buddion economaidd lleol. Trwy gydweithio â Phartneriaeth Dolgellau a grwpiau cymunedol, cwblhawyd prosiectau fel ap treftadaeth, dehongli cymunedol, llyfrau hanes darluniadol, a thaflen gerdded a luniwyd gan fyfyrwyr celf lleol. Mae'r prosiectau hyn nid yn unig yn diogelu cymeriad unigryw hanesyddol y dref, ond hefyd yn cryfhau dealltwriaeth a gwerthfawrogiad y cyhoedd o dreftadaeth adeiledig a diwylliannol Dolgellau ar gyfer y dyfodol.



DRAFT

## f. Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE

Rhoddodd Antur Natur 60 sesiwn i ysgolion cynradd a 5 sesiwn hyfforddi athrawon rhwng 2022–2023. Cyrhaeddwyd 1,200 o ddisgyblion a dros 130 o staff, gan hyrwyddo addysg awyr agored ac ymwybyddiaeth amgylcheddol.

## g. Grwpiau gweithredu lleol Dyffryn Conwy

I reoli Jac y Neidiwr, ymgysylltwyd â chymunedau lleol drwy:

- 3 noson agored i egluro cymorth a chyllid
- Penodi arweinwyr cymunedol ym mhob ardal
- Diwrnodau agored i annog cydweithio
- Cytuno safleoedd rheoli a chontractwyr ar gyfer clirio

Creodd y dull hwn cydlyniant cymunedol a chyfranogiad gweithredol, gan alluogi rheolaeth graddol ar draws y dyffryn.

## h. Gweithgareddau lles

Mae ein gweithgareddau lles yn cynnwys Teithiau Cerdded Meddwlgarwch misol a sesiynau ioga awyr agored, a gynhelir mewn lleoliadau tawel a hardd ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Mae'r gweithgareddau hyn yn annog ymwybyddiaeth ofalgar, cysylltiad â natur, ymlacio, a hwyliau gwell, gan gynnwys sesiynau arbennig i blant 2-12 oed er mwyn meithrin dysgu a chwarae mewn coetiroedd lleol. Trwy gyfrwng y mentrau hyn, ceisiwn greu amgylchedd croesawgar sy'n hyrwyddo lles, cysylltiad parhaol â natur, a chymunedau iachach a hapusach.

# **Atodiad 4** – Prosiectau partneriaethol

| Egwyddor | Canllawiau ymarferol |
|---|---|
| **Egwyddorion a rennir** | Cytuno ar werthoedd sy'n canolbwyntio ar y gymuned (ee, tryloywder, cynhwysiant) i lywio ymgysylltu. |
| **Rolau a chyfrifoldebau** | Egluro pwy sy'n arwain cyfathrebu, digwyddiadau a chasglu adborth. |
| **Cyfathrebu cyson** | Sicrhau bod negeseuon yn glir, hygyrch, cydlynol a chydweithredol, gan gynnwys cyfieithu neu frandio lle bo angen. |
| **Cyd-gynllunio gyda chymunedau** | Cynnwys aelodau'r gymuned yn gynnar mewn penderfyniadau a chynllunio ymgysylltu. |
| **Sensitifrwydd diwylliannol a lleol** | Teilwra ymgysylltiad i gyd-destun hanesyddol, ieithyddol a diwylliannol y gymuned. |
| **Adborth ac effaith** | Rhannu mewnwelediadau gyda chymunedau a dangos sut mae cyfraniad yn dylanwadu ar ganlyniadau. |
| **Gwerthuso a dysgu cydweithredol** | Adolygu dulliau ymgysylltu â phartneriaid a chymunedau i wella prosiectau yn y dyfodol. |
| **Cefnogi mentrau dan arweiniad y gymuned** | Galluogi grwpiau cymunedol i gymryd yr awenau gyda chefnogaeth, adnoddau, neu hyfforddiant. |

DRAFT

## Cytundeb ymgysylltu partneriaid (Templed)

Mae'r cytundeb yma yn nodi'r egwyddorion a'r disgwyliadau a rennir gan bob partner sy'n rhan o [XXXX]. Ei bwrpas yw sicrhau cysondeb, tryloywder, ac ymrwymiad i safonau uchel o ran ymgysylltu cymunedol.

### 1. Egwyddorion a rennir

Mae'r holl bartneriaid yn cytuno i:

- Weithio mewn ffordd gydweithredol, agored ac onest i gyflawni amcanion y prosiect.
- Parchu a chynnal gwerthoedd cynhwysiant, hygyrchedd a chynaliadwyedd.
- Cydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru o fewn gweithgareddau ymgysylltu.

### 2. Safonau ymgysylltu

Mae partneriaid yn ymrwymo i:

- Alinio eu gweithgareddau ymgysylltu gyda Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol APCE [os yn brif bartner].
- Sicrhau bod lleisiau'r gymuned yn cael eu cynrychioli'n deg ac yn ystyrlon wrth wneud penderfyniadau.
- Rhannu gwersi a ddysgwyd ac adborth gyda'r bartneriaeth.

### 3. Ymroddiad i'r Iaith Gymraeg a diwylliant

Mae partneriaid yn cytuno i:

- Ystyried gofynion iaith Gymraeg wrth recriwtio, cyfathrebu ac wrth gynnal digwyddiadau.
- Darparu deunyddiau dwyieithog lle bo hynny'n bosibl, yn unol â'r safonau a osodwyd gan [Prif Sefydliad].
- Sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'r cyd-destun diwylliannol a'r disgwyliadau.

### 4. Rolau a chyfrifoldebau

Bydd pob partner yn:

- Enwebu person cyswllt penodol ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu.
- Sicrhau bod adnoddau digonol (amser, staff, cyllideb) ar gael i gyfrannu'n effeithiol.
- Cymryd rhan mewn sesiynau cynllunio ac adolygu ar y cyd.

### 5. Atebolrwydd

- Bydd cynnydd yn erbyn y cytundeb hwn yn cael ei adolygu yng nghyfarfodydd partneriaeth.
- Pan fo problemau'n codi, cânt eu trafod a'u datrys ar y cyd mewn ffordd adeiladol.

**Llofnodwyr:**

Ar ran [Prif Sefydliad]: __________________________ Dyddiad: ______

Ar ran [Sefydliad Partner]: ________________________ Dyddiad: ______

DRAFT

# **Atodiad 5 -** Ystyriaethau ymgysylltu ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol

**1. Oedolion a phobl ifanc sy'n agored i niwed**

Yn cynnwys: pobl ifanc sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), cefndiroedd difreintiedig, pobl ag anhwylderau iechyd meddwl.

Goblygiadau ymgysylltu:

- Defnyddio gweithgareddau adeiladu hyder i annog cyfranogiad cychwynnol.
- Cynnig hyfforddiant gwirfoddol fel llwybr i ddatblygu sgiliau a grymuso.
- Darparu amgylcheddau cefnogol sy'n lleihau pryder ynghylch ymuno â gweithgareddau newydd.
- Cydweithio ag ysgolion lleol, gwasanaethau ieuenctid a darparwyr iechyd meddwl i gyrraedd cyfranogwyr.

**2. Pobl LHDTQ+, trawsryweddol a di-binaraidd**

Goblygiadau ymgysylltu:

- Creu a hyrwyddo gofodau diogel, cynhwysol a chroesawgar.
- Ymgysylltu drwy rwydweithiau, grwpiau cymdeithasol a sefydliadau cymunedol LHDTQ+.
- Sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi mewn egwyddorion amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant.
- Ystyried dulliau cyfathrebu a hyrwyddo sy'n adlewyrchu hunaniaethau amrywiol.

**3. Oedolion hŷn (65+)**

Goblygiadau ymgysylltu:

- Canolbwyntio ar weithgareddau sy'n addas i wahanol lefelau symudedd.
- Datblygu rhaglenni pontio'r cenedlaethau i feithrin cysylltiadau gyda bobl ifanc.
- Mynd i'r afael â rhwystrau fel trafnidiaeth, hygyrchedd a hyder i annog cyfranogiad.
- Partneru gyda sefydliadau iechyd perthnasol a grwpiau cymunedol.

**4. Pobl sy'n byw mewn amddifadedd**

Goblygiadau ymgysylltu:

- Cynnig gweithgareddau am ddim neu fforddiadwy i gael gwared ar rwystrau ariannol.
- Tynnu sylw at fynediad i fannau gwyrdd lleol a manteision llesiant.
- Darparu cefnogaeth iechyd meddwl neu gysylltu â gwasanaethau sydd yn gwneud hyn.

DRAFT

**5. Pobl anabl a niwroamrywiol**

Gan gynnwys: pobl awtistig, pobl ag ADHD, anableddau corfforol a synhwyraidd, cyflyrau niwrolegol, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), a chyflyrau iechyd hirdymor.

Goblygiadau ymgysylltu:

- Sicrhau hygyrchedd mewn lleoliadau, llwybrau a gweithgareddau.
- Darparu offer addas a chefnogaeth i alluogi cyfranogiad.
- Meithrin cyfleoedd cymdeithasol cynhwysol i leihau unigrwydd.
- Ymgysylltu drwy sefydliadau arbenigol, grwpiau cymorth a rhwydweithiau ar gyfer pobl anabl a niwroamrywiol.

**6. Pobl o gymunedau ethnig a diwylliannol amrywiol**

Goblygiadau ymgysylltu:

- Datblygu gweithgareddau a rhaglenni sy'n sensitif yn ddiwylliannol.
- Darparu allgymorth a hyrwyddo mewn sawl iaith.
- Partneru gyda sefydliadau diwylliannol, grwpiau ffydd ac arweinwyr cymunedol i feithrin ymddiriedaeth.
- Sicrhau bod amgylcheddau'n gynhwysol ac yn parchu normau a dulliau diwylliannol.

DRAFT

# **Atodiad 6** – Offer defnyddiol wrth ymgysylltu

## 1. Mapio rhanddeiliaid

**Mapio rhanddeiliaid sy'n canolbwyntio ar degwch**

**Diben**

Mae'r strategaeth hon yn mabwysiadu matrics effaith-dylanwad sy'n canolbwyntio ar degwch i gefnogi ymgysylltu teg a chymesur.

Nid yw'r dechneg yma yn cael ei defnyddio i gategoreiddio rhanddeiliaid at ddibenion rheoli, ond i:

- Adnabod anghydbwysedd strwythurol mewn dylanwad
- Dynnu sylw at gymunedau sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan benderfyniadau
- Flaenoriaethu ymgysylltu lle mae'r effaith yn uchel

Mae'r dull yma yn adlewyrchu ein hymrwymiad i symud y tu hwnt i ymgynghori tuag at gyfranogiad ystyrlon a partneriaethau.

## a. Y matrics Effaith–Dylanwad

Defnyddir y matrics hwn i nodi cymunedau sy'n profi effaith uchel ond sydd â dylanwad isel, ac i flaenoriaethu dulliau cyd-gynllunio a grymuso gyda'r grwpiau yma. Mae rhanddeiliaid yn cael eu mapio ar draws dau ddimensiwn:

1. **Lefel yr effaith**
   I ba raddau y bydd penderfyniad, polisi neu newid i wasanaeth yn effeithio ar unigolyn, grŵp neu sefydliad.
2. **Lefel y dylanwad**
   I ba raddau y mae gan yr unigolyn, y grŵp neu'r sefydliad hwnnw ar hyn o bryd fynediad i wneud penderfyniadau neu lais o fewn strwythurau llywodraethu.

DRAFT

## b. Matrics Effaith-Dylanwad

Uchel

Lefel effaith y penderfyniad arnynt

| | |
|---|---|
| **Effaith uchel - Dylanwad isel**<br><br>**Grwpiau sy'n cael eu heffeithio'n sylweddol gan benderfyniadau ond sydd â pŵer ffurfiol isel** e.e. Trigolion, cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, y rhai sydd â phrofiad byw<br><br>**Blaenoriaeth ar gyfer dulliau cyd-ddylunio, allgymorth wedi'i dargedu a grymuso** | **Effaith uchel - Dylanwad uchel**<br><br>**Partneriaid allweddol a chyrff statudol sydd â chyfran a llais**<br><br>**Gweithio mewn partneriaeth a gwneud penderfyniadau a rennir** |
| **Effaith isel - Dylanwad isel**<br><br>**Grwpiau yr effeithir arnynt leiaf**<br><br>**Rhannu gwybodaeth gymesur** | **Effaith isel - Dylanwad uchel**<br><br>**Y rhai sydd â rolau llywodraethu a goruchwylio**<br><br>**Cyfathrebu tryloyw ac ymgysylltu ffurfiol** |

Isel

Uchel → Isel

**Lefel y dylanwad wrth wneud penderfyniadau**

DRAFT

**Blaenoriaethu tegwch**

Y gydran bwysicaf yn y fframwaith yma yw:

**Effaith uchel / Dylanwad isel**

Heb ymyrraeth fwriadol, mae'r grwpiau yma mewn perygl o gael eu tangynrychioli.

Pan fydd rhanddeiliaid yn syrthio o fewn y gydran yma, y disgwyliad yw:

- Cynnwys yn gynnar
- Dulliau cyd-gynllunio neu gydweithredol lle bo'n ymarferol
- Dileu rhwystrau i gyfrannu (amseru, hygyrchedd, iaith, gofal plant, mynediad digidol)
- Adborth clir ar sut y gwnaeth mewnbwn lywio penderfyniadau

Dylai maint yr ymgysylltu gyfateb i lefel yr effaith.

**Cymhwyso ymarferol**

Ar gyfer pob polisi, newid a phrosiect arwyddocaol, dylem:

1. Mapio rhanddeiliaid gan ddefnyddio'r matrics
2. Nodi unrhyw grwpiau effaith uchel / dylanwad isel a chynllunio i ymgysylltu.
3. Amlinellu sut y bydd adborth yn cael ei adrodd yn ôl.

## c. c. Dylanwad rhanddeiliaid / mapio rhwydwaith

Dangos y berthynas rhwng rhanddeiliaid i ddeall yn well sut mae dylanwad yn llifo o fewn a rhwng cymunedau, sefydliadau, a gwneuthurwyr penderfyniadau.

### Pwrpas:

- Nodi pwy sydd eisoes yn gweithio gyda phwy
- Darganfod bylchau neu gyfleoedd i adeiladu cysylltiadau
- Cryfhau gwaith partneriaeth

### Sut i'w greu:

1. Ysgrifennwch enwau'r rhanddeiliaid ar gardiau neu mewn cylchoedd.
2. Tynnwch llinellau i ddangos cysylltiadau presennol neu posibl.
3. Defnyddiwch liwiau neu symbolau i ddangos natur y berthynas (e.e., cydweithio, cefnogaeth, cyfathrebu ffurfiol).

**Dylanwad rhanddeiliaid/ Mapio rhwydweithiau**




Gellir cymhwyso'r technegau hyn ar wahanol gamau o brosiect neu raglen a dylid eu haddasu i weddu i'r cyd-destun. Wedi'u defnyddio'n dda, maent yn helpu i sicrhau bod ymgysylltiad yn gymesur, cynhwysol ac effeithiol.

DRAFT

## 2. Penderfynu ar y math iawn o ymgysylltu

**1. A yw'r penderfyniad eisoes wedi'i wneud?**

✔ Ydy → Hysbysu / Addysgu Dim ond hysbysu neu esbonio'r gwasanaeth.

✘ Nac ydy → Ewch ymlaen i'r cwestiwn nesaf.

**2. A oes disgwyl i'r gymuned gyfrannu barn heb wneud penderfyniadau**?

✔ Oes → Ymgynghori / Ymgysylltu Caniatáu iddynt fynegi barn; gallant ddylanwadu ar benderfyniadau.

✘ Nac oes → Ewch ymlaen i'r cwestiwn nesaf.

**3. A oes cyfle i'r gymuned lunio neu gyd-ddylunio atebion?**

✔ Oes → Cyd-ddylunio / Cyd-gynhyrchu Partneriaeth gyfartal wrth ddylunio neu wneud penderfyniadau.

## 2a - Penderfynu ar y math cywir o ymgysylltiad ar gyfer ceisiadau cynllunio.

**1. A yw'r dull cyhoeddusrwydd a ddewiswyd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gynllunio berthnasol?**

✔ Ydy – ewch ymlaen i'r cwestiwn nesaf.

✘ Nac ydy (neu ddim yn siŵr) – gellir dod o hyd i ganllawiau yn y *Llawlyfr Rheoli Datblygu*, gwirio'r rheoliadau neu ofyn i gydweithiwr.

**2. Gan ystyried maint a goblygiadau posibl y datblygiad, ynghyd â'r lleoliad a'r topograffeg, a yw'r dull cyhoeddusrwydd a ddewiswyd yn debygol o gyrraedd y partïon yr effeithir arnynt neu sydd â diddordeb tebygol?**

✔ Ydy – trefnwch y cyhoeddusrwydd.

✘ Ddim yn siŵr – aseswch eto yn ystod yr ymweliad safle a threfnwch fwy o gyhoeddusrwydd os oes angen.

**Arddangos hysbysiadau safle:**

Dylid cymryd gofal i arddangos hysbysiadau safle mewn lleoliadau hygyrch i bawb, gan ystyried uchder yr arddangosfa a chyflwr y ddaear heb fod angen mynd i mewn i'r safle i'w darllen.

Bydd safle datblygu sydd â sawl ffordd neu lwybr troed yn arwain ato, neu sydd â mwy nag un blaen, fel arfer yn gofyn am fwy nag un hysbysiad.

DRAFT

# 3. Rhestr wirio digwyddiad ymgysylltu cymunedol

**6 cam**

### 1 Cynllunio

- Diffinio pwrpas ac amcanion y digwyddiad.
- Adnabod grwpiau targed, gan gynnwys grwpiau â nodweddion a warchodir a siaradwyr Cymraeg.
- Dewis dyddiad, amser, a lleoliad (sicrhau hygyrchedd i bawb).
- Cadarnhau cyllideb ac adnoddau.
- Trefnu deunyddiau ac arwyddion dwyieithog.
- Paratoi asesiad risg ac addasiadau hygyrchedd.
- Trefnu trafnidiaeth os oes angen ar gyfranogwyr.

### 2 Hyrwyddo ac anfon gwahoddiadau

- Anfon gwahoddiadau at grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid.
- Hyrwyddo trwy gyfryngau cymdeithasol, wasg leol, cylchlythyrau a rhwydweithiau cymunedol.
- Pwysleisio dewis iaith a chefnogaeth hygyrchedd.
- Gofynnwch i'r mynychwyr am ofynion hygyrchedd.
- Darparu opsiwn RSVP neu gofrestru i ragweld niferoedd.

### 3 Paratoadau Cyn y Digwyddiad

- Briffio cynorthwywyr a chyfranogwyr ar eu rolau ac amcanion.
- Paratoi bathodynnau enw ar gyfer staff, gwirfoddolwyr, a chyfranogwyr.
- Paratoi ffurflenni adborth / arolygon.
- Trefnu offer a gosodiad ystafell (meicroffonau, prosiectwyr, byrddau, seti).
- Paratoi diodydd a byrbrydau sy'n ystyried anghenion deietegol.
- Arddangos arwyddion dwyieithog a gwybodaeth am hygyrchedd.
- Defnyddiwch iaith gynhwysol a deunyddiau cyflwyniad hygyrch i bawb (cyferbyniad lliw, pennawdau, disgrifiadau)

### 4 Yn ystod y digwyddiad

- Arwyddion clir, goleuo da, a gofod taclus.
- Croesawu cyfranogwyr ac esbonio pwrpas ymgysylltu. Cynnwys amser am egwyl ac ystyriwch anghenion y mynychwyr.
- Toiledau hygyrch, cynlluniau dianc brys a mannau tawel.
- Amlygu sut y bydd adborth yn cael ei ddefnyddio mewn gwneud penderfyniadau ac asesiadau.
- Sicrhau bod cynorthwywyr yn annog cyfranogiad o bob grŵp.
- Cofnodi pwyntiau allweddol, dyfyniadau, a sylwadau.
- Casglu ffurflenni adborth / arolygon wedi'u cwblhau.

### 5 Casglu adborth y digwyddiad

- Cofnodi sylwadau cyffredinol am y digwyddiad (cymryd rhan, ymgysylltu, logisteg).
- Nodi beth a weithiodd yn dda a meysydd i'w gwella.
- Cofnodi awgrymiadau a sylwadau cyfranogwyr.
- Cofnodi materion neu rwystrau hygyrchedd cafodd eu harsylwi yn ystod y digwyddiad.
- Nodi cyfleoedd neu heriau i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Adnabod grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli neu'n cael eu heithrio.
- Crynhoi adborth.

### 6 Dilyn i fyny

- Diolch i'r cyfranogwyr a darparu crynodeb o'r canlyniadau.
- Myfyrio ar wersi a ddysgwyd ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu yn y dyfodol.
- Rhannu canlyniadau gyda rhanddeiliaid a'r gymuned lle bo'n briodol.

DRAFT

# 4. Rhestr wirio staff: Effaith ar gydraddoldeb a'r iaith Gymraeg

## Pwrpas

Sicrhau bod adborth y gymuned yn llywio asesiadau ar effaith ar gydraddoldeb ac iaith Gymraeg, gan ategu dulliau asesiad mewnol APCE.

**Egwyddorion ymgysylltu**

☐ **Cynhwysol**: Sicrhau bod grwpiau â nodweddion a ddiogelir yn cymryd rhan.

☐ **Dwyieithog:** Cynnig opsiynau Cymraeg a Saesneg.

☐ **Hygyrch:** Tynnu rhwystrau i gyfranogiad.

☐ **Tryloyw:** Esbonio sut fydd adborth yn llywio'r asesiadau.

## Beth i'w gasglu

| Maes | Ffocws | Enghreifftiau o adborth |
|---|---|---|
| Cydraddoldeb | Mynediad, rhwystrau, cyfleoedd, effaith annisgwyl | Pwy sy'n elwa? Pwy all wynebu anawsterau? A oes grwpiau wedi'u heithrio? |
| Yr iaith Gymraeg | Defnydd, gwelededd, statws, effaith ddiwylliannol | A yw hyn yn creu/lleihau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? Effaith ar ddiwylliant lleol? |

## Cofnodi a bwydo mewn i asesiadau

Cofnodi adborth yn glir o dan y ddau benawd uchod.

Cynnwys enghreifftiau, dyfyniadau, neu astudiaethau achos os yn ddefnyddiol.

Defnyddio'r hyn a ddysgwyd i wella ymgysylltu ac asesiadau yn y dyfodol.

DRAFT

## 5. Egwyddorion ymgysylltu o ddydd i ddydd

Boed chi'n Warden, sydd allan yn y gymuned, yn swyddog prosiect neu'n rhan o dîm ehangach y Parc, mae'r egwyddorion hyn yma i'ch helpu i wneud y mwyaf o ryngweithio bob dydd. Mae pob sgwrs a chysylltiad yn gyfle i gryfhau ymddiriedaeth a dealltwriaeth rhwng APCE a'r cymunedau.

**1. Byddwch yn weladwy**

- Treuliwch amser yn siarad â thrigolion, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr pan fyddwch allan yn y cymunedau.
- Gwisgwch fathodyn enw neu ddillad gyda logo'r Parc i ddangos eich bod yn staff APCE.
- Gwrandewch yn weithredol a nodwch adborth. Gall hyd yn oed sylwadau anffurfiol roi mewnweledIad lleol defnyddiol.

**2. Rhannwch wybodaeth a gwrando**

- Eglurwch beth sy'n digwydd a pham, yn enwedig wrth wneud gwaith yn y cymunedau.
- Defnyddiwch iaith glir, bob dydd (peidiwch â defnyddio jargon).
- Rhannwch faterion neu syniadau allweddol gan bobl leol mewn cyfarfodydd tîm.

**3. Cofiwch gynnwys y gymuned yn gynnar yn y broses**

- Os ydych yn cynllunio prosiect bach (e.e. atgyweirio llwybr, gwaith cadwraeth, arwyddion), meddyliwch:
  - Pwy allai gael ei effeithio?
  - Pwy allai gyfrannu gwybodaeth neu gymorth?
- Rhowch wybod i'r gymuned cyn dechrau drwy ymweliad, hysbysiad, neu bostio ar sianeli cymunedol.

**4. Gweithio gyda'n gilydd**

- Nodwch y cyfleoedd i gynnwys grwpiau lleol, gwirfoddolwyr neu ysgolion.
- Rhannwch lwyddiannau a gwahoddwch bobl i weld canlyniadau eu cyfraniad.

**5. Byddwch yn gynhwysol ac yn barchus**

- Dylech groesawu bob llais a safbwynt, hyd yn oed pan fo barn yn wahanol.
- Byddwch yn ymwybodol o anghenion hygyrchedd ac o wahaniaethau diwylliannol.
- Cynrychiolwch werthoedd y Parc Cenedlaethol.

**6. Cofnodi a Myfyrio**

- Cadwch gofnod o weithgareddau ymgysylltu.
- Rhannwch enghreifftiau da mewn cyfarfodydd tîm.
- Myfyriwch ar yr hyn a weithiodd ac ar yr hyn na weithiodd er mwyn gwella ymgysylltu yn y dyfodol.

DRAFT

## Adnoddau defnyddiol

Os ydych yn dymuno dysgu mwy neu ddod o hyd i gymorth ymarferol wrth roi'r strategaeth hon ar waith, mae nifer o adnoddau ar gael i gefnogi ymgysylltu cynhwysol ac effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru a'r pecyn cymorth gwerthuso, ynghyd â fersiwn Hawdd ei Ddarllen a llawlyfr ymarferwyr. Hefyd, mae adnoddau defnyddiol ar gael fel Kiran's Empathy Toolkit, canllawiau ar fformatau cyfathrebu hygyrch, a chyfarwyddyd ar farchnata cynhwysol, sy'n cynnig arweiniad pellach ar gyfathrebu a deall anghenion gwahanol gymunedau.

Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru - Hwb Gwybodaeth

Microsoft Word - Egwyddorion Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru Hawdd ei Ddarllen

Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd – pecyn cymorth gwerthuso

Llawlyfr Ymarferwyr ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd (Saesneg yn unig)

Kiran's Empathy Toolkit - An Empathy Toolkit for Understanding Immigrants and Asylum Seekers (Saesneg yn unig)

Guidance – Accessible communication formats (Saesneg yn unig)

Cyfarwyddyd ar gyfer Marchnata Cynhwysol

Welsh Language Race and Ethnicity Terminology (Saesneg yn unig)

Llawlyfr Rheoli Datblygu LLYW.CYMRU

Confensiwn Aarhus 1998 (Saesneg yn unig)

IAP2 Spectrum of Public Participation table – Inform, Consult, Involve, Collaborate, Empower (Saesneg yn unig)

DRAFT

**Eitem Rhif 11**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod |
| **DYDDIAD** | 29 Ebrill 2026 |
| **TEITL** | **Datganiad Cyfrifon 2023/24** |
| **ADRODDIAD GAN** | Prif Swyddog Cyllid |
| **PWRPAS** | Derbyn a nodi'r adroddiad “ISA260” a gyflwynwyd gan Archwilio Cymru.<br>Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon ôl-archwiliad.<br>Awdurdodi Cadeirydd y cyfarfod, ynghyd â'r Prif Swyddog Cyllid, i ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth |

## 1. CEFNDIR

1.1 Ymhellach i ac yn seiliedig ar yr Adroddiad Alldro ar gyfer 2023/24 a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 10 Gorffennaf 2024, cafodd y cyfrifon drafft eu cwblhau gan Bennaeth Cyllid yr Awdurdod a'i staff a'i ardystio (yn ddarostyngedig ei fod yn cael ei archwilio) gan Brif Swyddog Cyllid yr Awdurdod ar 7 Tachwedd 2025.

1.2 Cyflwynir fersiwn derfynol (ôl-archwiliad) o'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2023/24 yma i'r Awdurdod ei gymeradwyo yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiedig) 2018. Bydd Archwilio Cymru yn gofyn am Lythyr Sylwadau gan yr Awdurdod cyn y gall yr Archwilydd Penodedig (Archwilydd Cyffredinol Cymru, Adrian Crompton) gyhoeddi'r dystysgrif ar ein cyfrifon yn derfynol.

**1.3** Er cyflawnrwydd, mae'r Datganiad Cyfrifon a gyflwynir yma yn cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol sydd eisoes wedi'i gymeradwyo gan yr Awdurdod ar 12 Mehefin 2024.

## 2. ADDASIADAU YN CODI O’R ARCHWILIAD

Mae'r prif addasiadau ers y fersiwn cyn-archwiliad wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad “ISA260” a gyflwynwyd yma gan Archwilio Cymru. Nid yw'r newidiadau hyn yn cael unrhyw effaith sylweddol ar reolaeth ariannol barhaus yr Awdurdod.

## 3. CYMERADWYO’R DATGANIAD CYFRIFON

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiedig) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i’r Datganiad Cyfrifon gael ei gymeradwyo trwy benderfyniad yr Awdurdod, a’i lofnodi a’i ddyddio gan y ‘person sy’n llywyddu’ (y Cadeirydd) yn y cyfarfod y cawsant eu cymeradwyo ynddo. Cyflwynir copi o'r cyfrifon archwiliedig ar gyfer 2023/24 yma fel Atodiad 1 i’r adroddiad hwn.

## 4. LLYTHYR SYLWADAU

Cyflwynir y Llythyr Sylwadau drafft yma yn Atodiad 1 o adroddiad ISA260 Archwilio Cymru. Os yw aelodau'r Awdurdod yn cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon ôl-archwiliad, gallant hefyd awdurdodi Cadeirydd y cyfarfod, ynghyd â'r Prif Swyddog Cyllid, i ardystio'r Llythyr Sylwadau ar eu rhan.

## 5. ARGYMHELLIAD:

1. Derbyn a nodi'r adroddiad "ISA260" a gyflwynwyd gan Archwilio Cymru.
2. Cymeradwyo Datganiad Cyfrifon ôl-archwiliad yr Awdurdod ar gyfer 2023/24
3. Awdurdodi Cadeirydd y cyfarfod, ynghyd â'r Prif Swyddog Cyllid, i ardystio'r Llythyr Sylwadau.

## 6. PAPURAU CEFNDIROL

Yr Adroddiad Alldro ar gyfer 2023/24 a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 11 Gorffennaf 2024.

Adroddiad ISA260 Archwilio Cymru wedi'i gyflwyno i'r cyfarfod hwn.

# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

## DATGANIAD O GYFRIFON
## AR GYFER Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31AIN MAWRTH 2024

# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

## DATGANIAD O GYFRIFON 2023/24

## MYNEGAI


Adroddiad Naratif .......... 3
Y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon .......... 9
Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr .......... 10
Y Fantolen .......... 11
Y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn .......... 12
Datganiad Llif Arian .......... 14
Nodiadau i’r Datganiadau Ariannol .......... 15
Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023-24 .......... 77
Rhestr Termau .......... 110

# ADRODDIAD NARATIF

## 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad naratif yn darparu esboniad cryno ynghylch y materion mwy arwyddocaol adroddir yn y cyfrifon ac mae'n anelu i ychwanegu at a chynorthwyo i ddehongli'r datganiadau cyfrifyddu a amlinellir ar dudalennau 11 i 16 ac mae’n cynnwys :-

- Y **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** sy'n dangos crynodeb enillion a’r colledion a brofwyd gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai’r enillion a’r colledion hyn wneud iawn am y symudiad mewn gwerth net.
- **Mantolen** yn nodi sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31ain Mawrth 2024.
- Crynodeb yw’r **Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd** o’r newidiadau sydd wedi digwydd yn rhan isaf y fantolen dros y flwyddyn ariannol.
- Y **Datganiad Llif Arian** sy'n crynhoi'r mewnlifiadau ac all-lifau o arian sy'n deillio o drafodion i bwrpasau refeniw a chyfalaf.

Cefnogir y cyfrifon gan Ddatganiad o Bolisïau Cyfrifyddu a nodiadau esboniadol.

## 2. Gweledigaeth a Blaenoriaethau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Mabwysiadodd yr Awdurdod weledigaeth ar gyfer y Parc yng Nghynllun Rheolaeth Parc Cenedlaethol Eryri yng nghyfarfod 13eg Hydref 2021 fel a ganlyn:

*Parc Cenedlaethol sy'n gyfoethog yn ddiwylliannol, gydag economi werdd lewyrchus, profiad ymwelwyr o'r radd flaenaf sy’n cyfrannu'n fawr iawn at les ein cenedl.*

*Erbyn 2035 bydd Eryri yn parhau i fod yn dirlun gwarchodedig ac esblygol, wedi'i ddiogelu a'i wella i ddarparu amgylchedd naturiol a hanesyddol cyfoethog, amrywiol a chydnerth; yn darparu buddion lles yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.*

*Bydd pwrpasau'r Parc Cenedlaethol yn cael eu cyflawni trwy economi amrywiol a ffyniannus sydd wedi addasu ar gyfer heriau newid yn yr hinsawdd ac yn seiliedig ar adnoddau naturiol – rhinweddau’r dirwedd, cyfleoedd ar gyfer dysgu a mwynhad, y dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol. Gyda chymunedau dwyieithog a chynhwysol sy'n ffynnu, bydd gweithio mewn partneriaeth yn dangos ei bod yn bosib cyflawni mwy trwy gydweithio.*

*Bydd cymunedau wedi mabwysiadu atebion arloesol mewn byd sy'n newid - bydd economi carbon isel wedi cryfhau cyswllt trigolion â'r amgylchedd, gan ddarparu gwell safon byw a sicrhau enw da Eryri fel Parc Cenedlaethol o fri yn rhyngwladol ac fel lle i'r enaid gael llonydd."*

Yn unol â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru 2015) mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Datganiad Lles 2021-2026 ym Mawrth 2021.

https://snowdonia.gov.wales/wp-content/uploads/2022/03/DATGANIAD-LLES-APCE-2021-26.pdf

Mae'r ddogfen hon yn gosod y cyd-destun ar gyfer y rhaglen waith corfforaethol sy'n manylu ar amcanion penodol llesiant a gwelliant, ac a gyflwynir yng nghyfarfod Awdurdod Ebrill yn flynyddol. Mae'r agenda ar gael trwy'r cyswllt canlynol:

Awdurdod14.06.23.pdf

## 3. CYD-DESTUN ARIANNOL

### Perfformiad Ariannol a Sefyllfa Diwedd Blwyddyn

'Roedd y gyllideb ddiwygiedig fel ag adroddwyd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 10fed Gorffennaf 2024 fel a ganlyn.

| Gwasanaethau | Cyllideb | Gwariant | Dan/(Dros) |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| Cynllunio a Rheoli Tir | 2,730,621 | 2,249,359 | 481,262 |
| Corfforaethol | 5,128,903 | 3,571,496 | 1,557,407 |
| Llog a Ennillwyd | - 120,000 | - 294,050 | 174,050 |
| Ariannu Cyfalaf o refeniw | 722,859 | - 283,218 | 1,006,077 |
| Addasiad taliadau cyfalaf | - 591,050 | - 591,050 | |
| **Net** | **7,871,333** | **4,652,537** | **3,218,796** |
| GPC a Lefi | - 5,493,051 | - 5,493,051 | - |
| Tr. I/O Cronfeydd | - 2,378,282 | 840,514 | - 3,218,796 |
| **Cyfanswm** | **-** | **-** | **-** |

Addaswyd yr amrywiad net o £3,218,796 ar gyfer trosglwyddiadau diwedd blwyddyn i ac o gronfeydd wrth gefn (gwybodaeth pellach ym mhar. 4.2 o'r adroddiad a gyfeirwyd ato). Mae'r adroddiad yn eitem 8 yn y cyswllt canlynol –

Pwyllgor-Perfformiad-ac-Adnoddau-10.07.24.pdf

Tra'n dilyn trefn cwblhau y Datganiad Cyfrifon gwnaethpwyd addasiadau i'r alldro, mae'r ffigyrau diwygiedig ar gyfer gwariant net yn ymddangos yn y Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu (nodyn 2 i'r prif ddatganiadau).

Mae'r symudiadau mewn cronfeydd unigol yn nodyn 9 i'r datganiadau ariannol.

## 4. Crynodeb o'r Prif Bwyntiau :

Mantolen :

Mae gwerth net yr awdurdod wedi cynyddu **£940k**, a'r prif symudiadau yw:

- **Asedau Cyfredol –** mae'r gwerth wedi cynyddu **£1,201k**, y prif effaith oherwydd

  **£1,058k** o gynnydd yn Arian a buddsoddiadau yn deillio o arian grantiau ag incwm ychwanegol
  **£268k** o gynnydd mewn buddsoddiadau byr dymor
  **£174k** o ostyngiad mewn dyledwyr byr dymor

- **Rhwymedigaethau Cyfredol –** Mae'r gwerth wedi cynyddu **£377k** yn dilyn –

  **£481k** o gynnydd ym malans Grantiau o Flaen LLaw
  **£104k** o leihad ym malans credydwyr 'Eraill'

Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr :

Mae'r cyfanswm cost net gwasanaethau wedi lleihau £116k gyda symudiadau fesul cyfarwyddiaeth yn :

- Cynllunio, Treftadaeth Ddiwylliannol a Rheolaeth Tir cynnydd o £87k.
- Corfforaethol (cynnwys Cyfathrebu) lleihad o £203k.

Prif symudiadau :

Gwariant

- £957k o ostyngiad yn addasiad cost pensiwn IAS19 i'r gwasanaethau yn 2023/24.

Incwm

- £999k yn llai o grantiau refeniw dderbyniwyd gan Llywodraeth Cymru ac o ffynhonellau eraill.

Yn ogystal â derbyn cyllid grant mae'r Awdurdod yn cynhyrchu ei incwm ei hunan. Mae nodyn 1c i'r prif ddatganiadau yn dangos £2,492k (£2,205k yn 2022/23) wedi ei gynhyrchu o ffioedd ac incwm gwasanaeth fel arall. Y prif rannau ydy :

| | | |
|---|---|---|
| • Ffioedd parcio | £1,299k | (£1,050k yn 2022/23) |
| • Ffioedd Cynllunio | £174k | (£234k yn 2022/23) |
| • Gwerthiannau Canolfannau gwybodaeth | £257k | (£219k yn 2022/23) |
| • Rhent | £103k | (£61k yn 2022/23) |

## 5. Rhwymedigaeth Bensiwn

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gyflogwr yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd. Mae'r cyfrifon yn ymgorffori'n llawn beth yw gofynion y Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol 19 (IAS 19).

Mae'r polisi'n adlewyrchu'r ymrwymiad yn y tymor hir i gynyddu cyfraniadau i wneud iawn am unrhyw ddiffyg mewn asedau net priodoledig yn y gronfa bensiwn.

## 6. Cost neu Gredyd Anghyffredin yn y Cyfrifon

Y prif eitemau ydy’r :

- grantiau gwerth £1,951k a dderbyniwyd gan Llywodraeth Cymru

## 7. Gwariant Cyfalaf

Gwariant cyfalaf yw gwariant ar feddiannu ased sefydlog, neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased sefydlog bresennol, nid ei gynnal yn unig.

Roedd gwariant cyfalaf yn ystod 2023/24 yn £2,102k. Dangosir manylion ynghylch y gwariant ym mhob maes gwasanaeth yn nodyn 31. Ariannwyd y gwariant gan grantiau a chyfraniadau oddi wrth gyrff eraill.

Bydd yr holl wariant cyfalaf a gynlluniwyd yn cael ei ariannu o refeniw, grantiau allanol a chronfeydd a ddelir ar gyfer gwariant unwaith ac am byth.

Y prif gynlluniau gan yr Awdurdod ar 31ain Mawrth 2024 ydyw :

- cynllun Partneriaeth y Carneddau bellach yn ei gyfnod gweithredol ac yn werth £4.17m. Cynllun wedi ei raglennu i orffen erbyn Mawrth 2026.
- y prosiect Coedwigoedd Celtaidd yn brosiect 7 blynedd gwerth £7.6m. Cynllun wedi ei raglennu i orffen yn 2026/27.

## 8. Cyllido Cyfalaf

Cafodd holl wariant cyfalaf yr Awdurdod, ers iddo gael ei sefydlu ar yr 23ain o Dachwedd 1995, ei ariannu trwy gyfrwng grantiau cyfalaf a chyfraniadau gan y Llywodraeth, y Gymuned Ewropeaidd a grantiau o ffynonellau eraill, o dderbyniadau cyfalaf a gymhwyswyd ac o adnoddau refeniw’r Awdurdod.

Ar 31 Mawrth 2024 nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw fenthyciad i ariannu cyfalaf, ac i ddibenion rheolaeth trysorlys bydd yn parhau fel awdurdod di-ddyled.

## 9. Cronfeydd wrth gefn Defnyddiadwy

Adolygwyd balans y Gronfa Refeniw Gyffredinol yn ystod y flwyddyn fel rhan o adolygiad cronfeydd yr Awdurdod, a bellach yn werth £895k.

Mae gan yr Awdurdod gyfanswm o £11,596k o Gronfeydd Defnyddadwy penodol ac mae manylion rhain yn nodyn 9 o'r datganiadau ariannol. Dylid nodi fod y rhan fwyaf o'r cronfeydd wedi'u clustnodi ar gyfer dibenion penodol.

## 10. Llywodraethu

Mae gan yr Awdurdod 18 aelod sy'n gwasanaethau ar Fwrdd yr Awdurdod, y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad. Mae gan Plas Tan y Bwlch a'r Ysgwrn eu Byrddau Rheolaeth eu hunain yn cynnwys 3 aelod yr un.

Darperir gwybodaeth pellach ar lywodraethu a materion perthnasol i 2023/24 yn y rhan Datganiad Llywodraethu Blynyddol o'r ddogfen hon.

## 11. Risgiau a Chyfleon

<u>Risgiau</u>
Cofnodir prif risgiau'r Awdurdod yn y Cofrestr Risg Corfforaethol a adolygir yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ac yn flynyddol yn Awdurdod Chwefror.

Nodir 4 risg mwyaf sylweddol yr Awdurdod, ynghyd â'r mesurau i'w lleddfu, yn niwedd rhan 6 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

<u>Cyfleon</u>
Mae'r Awdurdod wedi derbyn cyllid "un tro" gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith ar brosiectau cyfalaf yn cynnwys prosiectau Mynediad a gwelliannau i eiddo'r Awdurdod.

Mae'r Awdurdod yn parhau i ddenu cyllid grant o amrywiol ffynonhellau sy'n galluogi capasiti gweithredu llawer uwch na'r hyn sy'n bosibl trwy grant sylfaenol yn unig. Mae'r crebachu blynyddol ar niferoedd staff yr Awdurdod yn golygu bod elfen o risg gyda chapasiti i gyflawni ar brosiectau'n y dyfodol.

## 12. Strategaethau'r Awdurdod

Pedwar prif strategaeth yr Awdurdod yw:

- Cynllun Rheolaeth Parc Cenedlaethol Eryri,
- Cynllun Datblygu Lleol Eryri,
- Datganiad Llesiant, a

- Rhaglen Waith Corfforaethol.

Mae gwybodaeth ychwanegol am y 4 ynghyd â strategaethau eraill yr Awdurdod ac adolygiad o'u effeithiolrwydd yn rhan 5 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## 13. Effaith yr hinsawdd economaidd gyfredol

Mae'r Awdurdod wedi mantoli ei gyllideb am 2024/25 yn seliedig ar y ffigwr Grant Parc Cenedlaethol yn ôl hysbysiad gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2023. Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi bydd ffigwr y grant ar gyfer 2024/25 yn parahau yr un fath a ffigyrau 2023/24. Bydd hyn yn heriol i'r Awdurdod gan ystyried yr hinsawdd economaidd presennol, a pwysau chwyddiant sylweddol.

Ar amser ysgrifennu mae llif arian yr Awdurdod yn ddigonol, ond bydd angen ail-werthuso yn ddibynol ar y ffigyrau setliad gan Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26.

## GWYBODAETH BELLACH

Mae gwybodaeth bellach ynghylch y Datganiad Cyfrifon hwn ar gael oddi wrth:

Sian Wyn Owen
Pennaeth Cyllid
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LF
Ffôn: 01766 772 251
Ebost: sian.owen@eryri.llyw.cymru

# Y DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD CYFRIFON

## CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD

Mae'n ofynnol ar i'r Awdurdod:-

- Wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu priodol ei faterion ariannol ac i sicrhau fod un o'i swyddogion gyda chyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn achos Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, y swyddog hwnnw yw'r Prif Swyddog Cyllid;
- Rheoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd economaidd, effeithlon, ac effeithiol o'i adnoddau a diogelu ei asedau;
- Cymeradwyo ei ddatganiad cyfrifon.

Cafodd y cyfrifon hyn eu cymeradwyo gan yr Awdurdod ar ………. 2026.

Llofnod:

**CYNG. EDGAR W. OWEN - CADEIRYDD**

## Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon yr Awdurdod yn unol ag arferion priodol a amlinellir yn y Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Llywodraeth Leol yn y DU (‘y Cod Ymarfer’).

Wrth baratoi'r datganiadau cyfrifon, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:-

- Dethol polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a doeth;
- Wedi cydymffurfio â'r Datganiad Ymarfer a Argymhellir.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd wedi:-

- Cadw cofnodion cyfrifyddu cywir a oedd yn gyfredol;
- Wedi cymryd camau rhesymol i rwystro a darganfod twyll ac anghysonderau eraill.

## Tystysgrif y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Datganiadau Cyfrifon wedi cael eu paratoi'n unol â Chyfrifon Llywodraeth Leol a Rheoliadau Archwilio ac yn cyflwyno'n deg a gwir sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar y dyddiad cyfrifyddu a'i incwm a gwariant i'r flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2021.

Llofnod. .................. 2026

**DEWI A MORGAN – PRIF SWYDDOG CYLLID**

## Y DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Dengys y datganiad hwn gostau cyfrifyddu yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

| 2022/23 | 2022/23 | 2022/23 | | 2023/24 | 2023/24 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Gwariant Net** | | **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Gwariant Net** |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 4,451 | (2,847) | 1,604 | Cynllunio a Rheoli Tir | 4,713 | (3,022) | 1,691 |
| 7,400 | (2,267) | 5,133 | Corfforaethol | 7,061 | (2,131) | 4,930 |
| **11,851** | **(5,114)** | **6,737** | **Cost net gwasanaethau** | **11,774** | **(5,153)** | **6,621** |
| (6) | | | Gwariant Gweithredu Arall | | | - |
| (100) | | | Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi (nodyn 11) | | | (358) |
| **6,631** | | | **Gwariant Gweithredu Net** | | | **6,263** |
| (5,998) | | | Incwm grant amhenodol (nodyn 12) | | | (7,987) |
| 633 | | | **Gwarged (-) / Diffyg ar ddarpariaeth gwasanaeathau am y flwyddyn** | | | (1,725) |
| (367) | | | Diffyg net ar ailbrisio asedau nad ydynt yn gyfredol a cholledion amhariad i'r gronfa ailbrisio (nodyn 22) | | | 455 |
| (1,954) | | | Asedau/ rhwymedigaethau pensiwn (nodyn 36) | | | 330 |
| (2,321) | | | | | | 785 |
| **(1,689)** | | | **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | **(940)** |

# Y FANTOLEN

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan yr Awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai rhwymedigaethau) yn cyd-fynd â'r cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu dal gan yr Awdurdod. Adroddir ar gronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Mae'r categori cyntaf o gronfeydd wrth gefn yn gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn destun i'r angen i gynnal lefel ochelgar o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw derfynau statudol ar eu defnydd (er enghraifft y Gronfa Derbynebion Cyfalaf Wrth Gefn y gellir ei defnyddio ar gyfer gwariant cyfalaf neu i dalu dyledion yn unig). Yr ail gategori o gronfeydd wrth gefn yw'r rheiny na all yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd wrth gefn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n dal enillion a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft y Gronfa Ailbrisiad wrth Gefn) ble dim ond ar ôl gwerthu'r asedau y byddai symiau'n dod ar gael i ddarparu gwasanaethau; a chronfeydd wrth gefn sy'n dal gwahaniaethau amseru a ddangosir yn y llinell Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn "Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail ariannu dan y rheoliadau".

| **2022/23** | | **Nodiadau** | **2023/24** |
|---|---|---|---|
| **£'000** | | | **£'000** |
| | | | |
| 14,656 | Eiddo, Offer a Chyfarpar | 13 | 14,386 |
| 795 | Asedau Treftadaeth | 14 | 784 |
| 96 | Asedau Anghyffyrddadwy | 15 | 114 |
| 4 | Dyledwyr Tymor Hir | 18 | 57 |
| **15,552** | **Asedau Tymor Hir** | | **15,341** |
| | | | |
| 7,051 | Buddsoddiadau Tymor Byr | 17 | 7,319 |
| 141 | Rhestrau Stoc | | 189 |
| 1,270 | Dyledwyr Tymor Byr | 18 | 1,096 |
| 4,080 | Arian a Chyfateb Arian | 19 | 5,138 |
| **12,542** | **Asedau Cyfredol** | | **13,743** |
| | | | |
| (1,187) | Credydwyr Tymor Byr | 20 | (1,083) |
| (734) | Darpariaethau | 29 | (1,215) |
| **(1,921)** | **Asedau Cyfredol** | | **(2,298)** |
| | | | |
| 63 | Rhwymedigaethau Cronfa Bensiwn | 36 | (278) |
| (702) | Credydwyr Tymor Hir | 29 | (33) |
| **(639)** | **Rhwymediagaethau Tymor Hir** | | **(311)** |
| | | | |
| **25,535** | **Asedau Net** | | **26,475** |
| | | | |
| | | | |
| (10,150) | Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy | 9 | (11,596) |
| (15,385) | Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu defnyddio | 22 | (14,879) |
| **(25,535)** | **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn** | | **(26,475)** |

# Y DATGANIAD SYMUDIADAU MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN

Dengys y datganiad hwn y symudiad yn y flwyddyn ar y gwahanol gronfeydd wrth gefn sy'n cael eu dal gan yr Awdurdod, wedi eu dadansoddi i "Gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy" (h.y. y rheiny y gellir eu cymhwyso i ariannu gwariant) a chronfeydd wrth gefn eraill. Mae'r llinell Gwarged (+) neu Ddiffyg (-) ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Awdurdod, y gwelir mwy o fanylion amdanynt yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol sy'n ofynnol eu codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol. Mae'r Cynnydd/Gostyngiad Net cyn llinell Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn dangos Balans y Gronfa Gyffredinol statudol cyn unrhyw drosglwyddiadau disgresiwn i neu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a wneir gan yr Awdurdod.

## Y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn 2023/24

| | Balans y Gronfa Gyffredinol a'r Confeydd wrth gefn a glustnodir | Cronfa wrth gefn Derbynion Cyfalaf | Cronfa wrth gefn grantiau cyfalaf heb eu defnyddio | **Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy** | Cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio | **Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn yr Awdurdod** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans a ddygwyd ymlaen 31 Mawrth 2023** | 7,839 | 164 | 2,146 | 10,150 | 15,385 | 25,535 |
| Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 1,725 | - | - | 1,725 | (785) | 940 |
| Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail gyllid dan reoliadau (nodyn 8) | (5) | - | (274) | (279) | 279 | |
| **Cynydd/(Gostyngiad) yn 2023/24** | **1,720** | **-** | **(274)** | **1,446** | **(506)** | **940** |
| **Balans a gariwyd trosodd ar 31 Mawrth 2024** | **9,560** | **164** | **1,873** | **11,596** | **14,879** | **26,475** |
| Cronfa Gyffredinol | 895 | | | | | |
| Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd (nodyn 9) | 8,665 | | | | | |
| | **9,560** | | | | | |

## Y Datganiad Symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn 2022/23

| | Balans y Gronfa Gyffredinol a'r Confeydd wrth gefn a glustnodir | Cronfa wrth gefn Derbynion Cyfalaf | Cronfa wrth gefn grantiau cyfalaf heb eu defnyddio | **Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy** | Cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio | **Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn yr Awdurdod** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans a ddygwyd ymlaen 31 Mawrth 2022** | 7,426 | 164 | 2,094 | 9,684 | 14,162 | 23,846 |
| Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (633) | - | - | (633) | 2,321 | 1,689 |
| Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail gyllid dan reoliadau (nodyn 7) | 1,048 | - | 52 | 1,100 | (1,100) | - |
| **Cynydd/(Gostyngiad) yn 2022/23** | **413** | **-** | **52** | **467** | **1,221** | **1,689** |
| **Balans a gariwyd trosodd ar 31 Mawrth 2023** | **7,839** | **164** | **2,146** | **10,150** | **15,385** | **25,535** |
| Cronfa Gyffredinol | 1,098 | | | | | |
| Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd (nodyn 8) | 6,741 | | | | | |
| | **7,839** | | | | | |

# DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y **Datganiad Llif Arian** y newidiadau mewn arian a chyfateb ag arian yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Dengys y datganiad sut mae'r Awdurdod yn cynhyrchu a defnyddio arian a chyfateb ag arian trwy ddosbarthu llif arian fel gweithgareddau gweithredol, buddsoddi a chyllido. Mae'r swm o lif arian neu sy'n deillio o weithgareddau gweithredol yn brif ddangosydd i'r graddau y mae gweithgareddau'r Awdurdod yn cael eu hariannu drwy incwm grant ac ardoll neu gan dderbynwyr y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli'r graddau y mae all-lif o arian wedi ei wneud ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at gyflenwad gwasanaeth yr Awdurdod i'r dyfodol. Mae llif arian sy'n deillio o weithgareddau cyllido'n ddefnyddiol i ragweld hawliadau ar lif arian yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyca) i'r Awdurdod.

| 2022/23<br>£'000 | | 2023/24<br>£'000 |
|---|---|---|
| 633 | (Gwarged) /ddiffyg net ar ddarpariaeth gwasanaethau | (1,725) |
| (2,270) | Addasiadau I warged neu ddiffyg net ar ddarpariaeth gwasanaethau am symudiadau heb fod yn arian (nodyn 23) | (570) |
| 622 | Addasiadau ar gyfer eitemau a gynhwyswyd yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarpariaeth gwasanaethau sy'n weithgaredday buddsoddi a chyllido | 895 |
| **(1,015)** | **Llif arian net o Weithgareddau Gweithredol** | **(1,400)** |
| (723) | Gweithgareddau Buddsoddi (nodyn 24) | 288 |
| (8) | Gweithgareddau Cyllido (nodyn 25) | 54 |
| (1,747) | (Cynnydd)/ostyngiad net mewn arian neu gyfateb ag arian | (1,058) |
| 2,333 | Arian neu cyfateb ag arian ar gychwyn cyfnod adrodd | 4,080 |
| **4,080** | **Arian neu cyfateb ag arian ar ddiwedd cyfnod adrodd (nodyn 18)** | **5,138** |

**NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL**

# 1 DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU

## 1.1 Egwyddorion Cyffredinol

a. Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi'n unol â Chod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Llywodraeth Leol yn y DU (‘y Cod Ymarfer’).

Mae'r Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i bolisïau cyfrifyddu gael eu cymhwyso'n gyson. Y gofyniad pwysicaf yw bod y Datganiadau Cyfrifon yn 'cyflwyno'n deg a gwir' berfformiad ariannol a sefyllfa'r Awdurdod.

## 1.2 Cysyniadau Cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi'n unol â'r egwyddorion a’r cysyniadau cyfrifyddu hanfodol (a threiddiol) a ganlyn :

- Perthnasedd
- Dibynadwyedd
- Cymaroldeb
- Dealladwy
- Materoldeb
- Croniadau
- Busnes Gweithredol
- Uchafiaeth gofynion deddfwriaethol
  Mae'r egwyddorion a chysyniadau hyn wedi eu defnyddio wrth ddethol a chymhwyso polisïau cyfrifyddu a thechnegau amcangyfrif ac wrth weithredu barn broffesiynol.

## 1.3 Croniadau Gwariant ac Incwm

Mae cyfrifon refeniw a chyfalaf yr Awdurdod yn cael eu cynnal ar sail croniadau. Mae'r holl symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod yn cael eu gosod yn y cyfrifon ar yr amser maent yn ddyledus.

- Bydd y refeniw o werthu nwyddau yn cael ei adnabod pan fydd yr Awdurdod yn trosglwyddo’r risgiau arwyddocaol a buddion perchnogaeth i’r prynwr, a phan mae’n debygol y bydd buddiant economaidd neu’r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda’r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i’r Awdurdod.
- Bydd refeniw o ddarparu gwasanaeth yn cael ei adnabod pan fydd yr Awdurdod yn gallu mesur yn ddibynadwy'r canran sydd wedi ei gwblhau o’r trafodyn ynghyd â’r tebygolrwydd y bydd buddiant economaidd neu’r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda’r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i’r Awdurdod.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae’r cyflenwadau wedi eu derbyn a’u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â’r gwasanaeth a roddwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pryd fydd taliadau’n cael eu gwneud.

- Ble mae refeniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu dalu allan, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid ysgrifennu'r dyledion lawr a chodi tal allan o gyfrif refeniw am yr incwm fydd yn debygol o beidio cael ei gasglu.

**1.4 Arian Parod a'r Eitemau sydd Gyfystyr ag Arian Parod**

Mae hyn yn cynnwys cyfrifon imprest a chronfeydd parod yr Awdurdod ac arian parod a ddelir "ar alwad" neu wedi ei ddydodi dros y tymor byr gyda banciau lle mae'r arian yn ad-daladwy heb gosb pan geir rhybudd nid hwy na 24 awr.

**1.5 Eitemau Eithriadol**

Lle mae eitemau o'r fath yn berthnasol i gyfrifon 2023/24, tynnir sylw atynt yn y nodiadau perthnasol e.e. colledion ailbrisiad.

**1.6 Addasiadau cyn cyfnod, newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu ac amcangyfrifon a chamgymeriadau**

Yn ystod 2023/24, doedd dim newid i'r uchod.

**1.7 Codi tâl ar refeniw am asedau anghyfredol**

Codir tâl ar wasanaethau, gwasanaethau cefnogol a chyfrifon masnachu gyda'r symiau a ganlyn er mwyn cofnodi'r gost o ddal asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn:

- Dibrisiant sy'n digwydd i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol,
- Ailwerthuso a cholledion nam ar asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes enillion cronnus yn y Gronfa Ailwerthuso lle gellir dileu'r colledion yn eu herbyn,
- Amorteiddio asedau sefydlog anghyffyrddadwy sy'n berthnasol i'r gwasanaeth.
  Ni ellir codi tal am y symiau hyn yn erbyn Cronfa Gyffredinol yr Awdurdod ac felly maent fel y cyfryw yn cael eu gwyrdroi trwy gyfnewidiad addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf fel y dangosir yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd.

**1.8 Buddion gweithwyr**

a. Buddiannau Sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth :

Buddiannau gweithwyr tymor byr yw'r rheiny sydd i fod i gael eu setlo o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddiannau fel cyflogau wythnosol a misol, tâl gwyliau blynyddol a thâl cyfnod salwch, bonysau a buddiannau nad ydynt yn rhai ariannol (ee ceir) i weithwyr presennol ac maent yn cael eu cydnabod fel traul gwasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithwyr yn rhoi gwasanaeth i'r Awdurdod.

b. Buddiannau terfynu :

Buddiannau terfynu yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i ddod â chyflogaeth swyddog i ben cyn y dyddiad ymddeol cyffredin neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddo gwirfoddol a chodir y rhain ar sail

groniadau i'r llinell Costau Heb eu Dosbarthu Costau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fo'r Awdurdod yn amlwg wedi ymrwymo i derfynu cyflogaeth swyddog neu grŵp o swyddogion neu i wneud cynnig i annog diswyddo gwirfoddol.

c. Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr yr Awdurdod yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd. Mae'r cynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lymp-symiau) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Awdurdod.

d. Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon yr Awdurdod ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig.

Mae ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Awdurdod yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr, a.y.b. yn ogystal â thafluniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

Gostyngir yr ymrwymiadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol, gan ddefnyddio graddfa ddisgownt o 4.75% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol gyda statws credyd AA.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Awdurdod yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan Actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth yn cynnwys:
Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymiadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau lle mae'r gweithwyr yn gweithio.

Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymiadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o gostau Corfforaethol.

Llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net, h.y. y gost llog net i'r Awdurdod - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Gwariant ac Incwm

Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod – gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ailfesuriadau yn cynnwys:

Enillion ar asedau'r cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

Enillion a cholledion actiwaraidd - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau wedi cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraidd diwethaf, neu am fod yr actiwari wedi diweddaru ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

Cyfraniadau a delir i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer setliad ymrwymiadau sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i Gronfa'r Awdurdod dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg Perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi'r debydau am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sydd yn deillio o hyn yn y Reserf Pensiwn yn fesur o effaith buddiol i Gronfa'r Awdurdod o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Cyfrifeg Rhyngwladol (SCRh) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymiadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol Cymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion SCRh19.

e. <u>Buddion Dewisol</u>
   Mae gan yr Awdurdod hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymiadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisïau â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

**1.9 Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen**

Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, yn rhai ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan fo'r

Datganiad Cyfrifon wedi ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Gellir dynodi dau fath o ddigwyddiadau:
y rheiny sy'n rhoi tystiolaeth o'r amodau oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau
y rheiny sy'n arwydd o amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau, ond ble y byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith berthnasol, gwneir datgeliad yn y nodiadau ar natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol ddisgwyliedig.
Nid adlewyrchir digwyddiadau sy'n cymryd lle ar ôl dyddiad awdurdodi i gyhoeddi yn y Datganiad Cyfrifon.

### 1.10 Offerynnau Ariannol

<u>Asedau Ariannol</u>
Mae gan yr Awdurdod asedau ariannol wedi eu mesur ar werth têg drwy'r datganiad incwm arall

Y fath offerynnau sy'n berthnasol i'r Awdurdod yw benthyciadau car a wneir i weithwyr.

Mae asedau ariannol wedi eu mesur drwy werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall yn cael eu adnabod ar y fantolen pan mae'r Awdurdod yn cael hawl ir ddarpariaeth o contractau, ac mae'r ased yn cael eu adnobod yn gychwynol drwy werth teg.

**Arian tramor**

a. Mae incwm a gwariant sy'n deillio o unrhyw drafodion mewn arian cyfredol o dramor yn cael ei gyfieithu i £ sterling.

### 1.11 Grantiau Llywodraeth a Chyfraniadau eraill

P'un a ydynt yn cael eu talu i'r cyfrif, trwy randaliadau neu fel ôl-ddyledion, cydnabyddir grantiau llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti fel rhai sy'n ddyledus i'r Awdurdod pan fo sicrwydd rhesymol:
y bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm â'r taliadau, ac
y derbynnir y grantiau neu gyfraniadau.

Nid yw'r symiau a nodwyd fel rhai sy'n ddyledus i'r Awdurdod yn cael eu rhoi mewn credyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd oni fydd yr amodau sydd ynghlwm wrth y grant neu'r cyfraniad wedi eu bodloni. Mae'r amodau'n nodi bod rhaid i'r buddiannau economaidd yn y dyfodol neu i'r gwasanaeth posib sydd wedi'i ymgorffori yn yr ased a brynwyd gyda'r arian grant neu gyda'r cyfraniadau gael eu defnyddio gan y derbynnydd fel y nodwyd, neu bydd raid dychwelyd i'r trosglwyddydd y buddiannau economaidd yn y dyfodol neu'r gwasanaeth posib.

Mae'r arian a roddwyd fel grantiau a chyfraniadau lle na chafodd yr amodau eu bodloni yn cael eu cludo ymlaen yn y Fantolen fel credydwyr. Pan fo'r amodau'n cael eu bodloni mae'r grant neu'r cyfraniad yn cael ei roddi mewn credyd yn y llinell gwasanaeth priodol (grantiau refeniw a chyfraniadau a briodolwyd) neu Dreth ac Incwm Grant Amhenodol (grantiau refeniw heb eu hamgáu a'r cyfan o'r grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo'r grantiau cyfalaf yn cael eu rhoddi mewn credyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, maent yn cael eu gwyrdroi allan o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth gefn.

Pan fo grant heb ei ddefnyddio eto i gyllido gwariant cyfalaf, mae'n cael ei bostio i'r Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn – y rhai na chafodd eu defnyddio. Pan fo wedi'i ddefnyddio mae'n cael ei bostio i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf. Mae'r symiau yn y Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn na chawsant eu defnyddio yn cael eu trosglwyddo i'r  Cyfrif Addasiad Cyfalaf unwaith y cânt eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf.

**1.12 Asedau Treftadaeth**

Asedau Treftadaeth yw'r asedau hynny sydd wedi eu cadw mewn ymddiriedolaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwylliannol, amgylcheddol neu hanesyddol, h.y. mae ganddynt rinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, geoffisegol neu amgylcheddol. Maent yn cael eu cynnal gan yr Awdurdod yn bennaf am eu cyfraniad tuag at wybodaeth a diwylliant, ond nid ydynt yn cael eu defnyddio gan yr Awdurdod wrth iddo gyflawni ei fusnes arferol.  Mae dibrisiant asedau treftadaeth, lle bo hynny'n briodol, yn unol â pholisi cyffredinol yr Awdurdod ar ddibrisiant.

**1.13 Asedau anghyffyrddadwy**

Cyfrifir am asedau anghyffyrddadwy a brynir ar ffurf trwyddedau meddalwedd fel rhan o'r rhaglen amnewid Technoleg Gwybodaeth, ac maent yn cael eu lleihau i refeniw yn unol â'r dibrisiant costau.

Mae datblygu gwefan ar gyfer defnydd mewnol neu allanol yn creu ased anghyffyrddadwy ble mae'r meini prawf cydnabyd Mae'r Awdurdod yn rhentu sawl eiddo i gefnogi ei wasanaethau, a hefyd mae'n derbyn incwm rhent o sawl eiddo a berchenogir. Mae'r eiddo a berchenogir yn cael ei ddal fel asedau sefydlog yn y fantolen. Cyfrifir am yr incwm prydles ar sail llinell syth.

**1.14 Buddiannau mewn Cwmnïau ac Endidau Eraill**

Mae gan yr Awdurdod fuddiant mewn Partneriaeth Rhwymedigaeth Cyfyngedig ar y cyd gyda 14 Awdurdod Parc Cenedlaethol arall, gyda'r diben o gynhyrchu incwm yn bennaf o nawdd.

**1.15 Rhestrau Stoc a Chontractau Tymor Hir**

Mae stociau'n cael eu tynnu i'r cyfrif yn ôl cost y prisiau yn achos stociau'r bar, nwyddau i'w hailwerthu a darpariaethau cyffredinol ym Mhlas Tan y Bwlch, y Ganolfan Astudio ac yn achos nwyddau i'w hailwerthu yng Nghanolfannau Gwybodaeth yr Awdurdod.  Mae hyn yn gyson â'r polisi a fabwysiadwyd ym mlynyddoedd y gorffennol. Dan yr ymarfer a argymhellir rhaid dangos y stociau yn ôl y pris isaf o ddau, sef y gost wirioneddol neu'r gwerth dichonadwy net, ond nid yw'r gwahaniaeth yn berthnasol yn yr achos hwn.

**1.16 Prydlesau (Cyllid)**

Ar 31/3/2024 nid oes gan yr Awdurdod unrhyw drefniadau brydles cyllid.

**1.17 Prydlesau (Gweithredol)**

Mae'r Awdurdod yn rheoli prydlesau gweithredol i:
Gerbydau,
Llungopïwyr a pheiriannau diodydd a byrbrydau.
Tir ac adeiladau

Codir am daliadau prydles yn llawn yn ôl y dyddiad y maent yn daladwy arno ar sail llinell syth, yn sicrhau tâl blynyddol cyfartal i gyfrifon refeniw gwasanaeth drwy gydol oes y brydles.

**1.18 Eiddo, Offer a Chyfarpar**

Dosberthir asedau sydd â sylwedd ffisegol ac sy'n cael eu dal i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu i bwrpasau gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol fel Eiddo, Offer a Chyfarpar. diaeth ar gyfer ased anghyffyrddadwy wedi ei gynhyrchu yn fewnol yn cael eu cwrdd.

**Cydnabyddiaeth**: Mae gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cael ei gyfalafu ar sail groniadau, cyn belled â'i fod yn bosib y bydd y buddiannau economaidd i'r dyfodol neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â nhw'n llifo i'r Awdurdod ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Mae gwariant sy'n cynnal ond nad yw'n ychwanegu at botensial ased i gyflenwi buddiannau economaidd i'r dyfodol neu botensial gwasanaeth (hy trwsio a chynnal a chadw) yn cael ei godi fel traul fel ag y mae'n digwydd.

**Mesur**: Caiff asedau eu mesur yn y lle cyntaf ar gost, yn cynnwys:

- y pris prynu
- unrhyw gostau a briodolir i ddod ag ased i'r lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol iddo fedru cael ei weithredu yn y dull a fwriadwyd gan reolwyr (amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu a symud yr eitem ac adfer y safle y lleolir ef arno.)

Tybir bod cost asedau a gaffaelir heblaw drwy bryniant i fod eu gwerth teg, oni bai nad oes sylwedd masnachol i'r caffaeliad (hy ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian yr Awdurdod). Yn yr achos olaf, pan y caffaelir ased drwy gyfnewid, cost y caffaeliad yw swm cario'r ased a roddir i fyny gan yr Awdurdod.

Pan fo enillion yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, maent yn cael eu gwyrdroi allan o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Yna mae'r asedau'n cael eu cario i'r Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- isadeiledd, asedau etifeddiaeth ac asedau sy'n cael eu hadeiladu - cost dibrisiant hanesyddol pan wyddys hwnnw
- asedau dros ben – gwerth (marchnad) teg.

- pob ased arall – potensial gwasanaeth ar sail gwerth defnydd presennol (GDP), , a bennir fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol
  Pan nad oes tystiolaeth seiliedig ar y farchnad o werth teg oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir cost amnewidiol dibrisiedig (CAD) fel amcangyfrif o werth teg.

  Pan fo gan asedau nad ydynt yn eiddo oes ddefnyddiol fer neu werth isel (neu'r ddau), defnyddir sail cost hanesyddol dibrisiedig fel procsi ar gyfer gwerth teg. Heblaw am gyfarpar systemau gwybodaeth, mae lefel de minimis o £10,000 wedi ei ddefnyddio ar gyfer cydnabyddiaeth asedau nad ydynt yn gyfredol.

  Mae'r asedau a gynhwysir yn y Fantolen ar werth teg yn cael eu hailbrisio yn ddigon aml i sicrhau nad yw eu swm cario'n sylweddol wahanol o'u gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn, ar y lleiaf bob pum mlynedd. Mae cynnydd mewn ailbrisio'n cydweddu â chredydau i'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i gydnabod enillion heb eu gwireddu. [Yn eithriadol, gellir credydu enillion i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan maent wedi codi o wyrdroi colled a godwyd yn flaenorol yn erbyn gwasanaeth.]

  Pan ddynodir lleihad mewn gwerth, cyfrifir amdanynt trwy:
  pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion cronnus)
  pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn neu falans annigonol, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
  Mae'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbrisiant a gydnabyddir ers 1 Ebrill 2007 yn unig, dyddiad ei gweithredu'n ffurfiol. Mae'r enillion a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi eu cyfnerthu yn y Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

  **Cydrannu**: Mae'r Awdurdod wedi cymhwyso'r egwyddor cydrannu i'r asedau sydd werth £150,000 neu fwy a lle bo'r gwahaniaeth mewn costau dibrisiant yn sylweddol. Mae'r egwyddor hon yn cael ei defnyddio er mwyn sicrhau bod yr elfennau hynny o'r eiddo â bywydau gweithredol gwahanol ac felly gwahanol raddau o ddibrisiant yn cael eu cydnabod ac y rhoddir cyfrif amdanynt.

  **Amhariad**: Mae gwerth asedau'n cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn am arwydd o amhariad ar werth. Pan fo arwyddion, ac amcangyfrifir bod gwahaniaethau posib yn berthnasol, yna amcangyfrifir swm adferadwy'r ased a, ble bo hwn yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled amhariad ar gyfer y diffyg.
- Pan ddynodir colledion amhariad, cyfrifir amdanynt trwy:
  pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion cronnus)

- pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn neu falans annigonol, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
Pan fo colled amhariad yn cael ei gwyrdroi'n dilyn hyn, credydir y gwyrdroad i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, i fyny at swm y golled wreiddiol, wedi ei addasu ar gyfer Dibrisiant y byddid wedi ei godi pe na fyddai'r golled wedi ei chydnabod.

**Dibrisiant**: darperir ar gyfer dibrisiant yr holl asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar trwy ddyraniad systematig o'u symiau dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau heb oes ddefnyddiol benodadwy gyfyngedig (hy tir rhydd-ddaliad a rhai asedau cymunedol) ac asedau nad ydynt eto ar gael i'w defnyddio (hy asedau sy'n cael eu hadeiladu). Nid yw asedau buddsoddi nac asedau a ddelir ar gyfer eu gwerthu yn cael eu dibrisio.
Cyfrifir dibrisiant ar y seiliau canlynol:

- adeiladau – dyraniad llinell syth dros oes ddefnyddiol yr eiddo fel yr amcangyfrifir gan y prisiwr
- cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar – canran o werth bob dosbarth o asedau yn y Fantolen, fel y cynghorir gan swyddog â chymwysterau addas

Dibrisir ar sail blwyddyn llawn yn y flwyddyn yr adnabyddir yr ased gyntaf yng nghyfrifon yr Awdurdod. Pan fo gan eitem o ased Eiddo, Offer a Chyfarpar gydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn cysylltiad â chost gyfan yr eitem, dibrisir y cydrannau ar wahân. Mae enillion ailbrisiant hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng gwerth presennol dibrisiant a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi ei godi ar eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

**Gwarediadau ac Asedau Heb fod yn Gyfredol yn Cael eu Dal ar Gyfer Gwerthu**

Pan y daw'n bosib y bydd swm cario ased yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na pharhau i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu fel Ased sy'n Cael ei Ddal i'w Werthu. Mae'r ased y cael ei ailbrisio yn union cyn ei ailddosbarthu ac yna ei gario ar yr isaf o'r swm hwn a gwerth teg llai costau gwerthu. Pan fo gostyngiad dilynol i werth teg llai costau gwerthu, mae'r golled yn cael ei phostio i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dim ond hyd at swm unrhyw golledion a gydnabuwyd yn flaenorol yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau y cydnabyddir enillion mewn gwerth teg.
Os nad yw asedau bellach yn cwrdd â'r meini prawf i'w dosbarthu fel Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu, yna cânt eu hailddosbarthu'n ôl i asedau nad ydynt yn rhai cyfredol a'u prisio ar yr isaf o'u swm cario cyn iddynt gael eu dosbarthu fel yn cael eu dal i'w gwerthu; addasu ar gyfer dibrisiant, amorteiddiad neu ailbrisiadau a fyddai wedi cael eu cydnabod petaent ddim wedi cael eu dosbarthu fel rhai sy'n Cael Eu Dal i'w Gwerthu, a'u swm adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio gwerthu.

Nid yw asedau sydd wedi eu gadael neu eu sgrapio yn cael eu hailddosbarthu fel Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu.

Pan geir gwared ag ased neu pan gaiff ei ddatgomisiynu, dilëir swm cario'r ased yn y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Offer a Chyfarpar neu Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Gwerthu) i linell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enilliad neu golled ar waredu. Mae derbyniadau o warediadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enilliad neu golled ar waredu (hy wedi ei netio i ffwrdd yn erbyn gwerth cario'r ased ar adeg ei waredu). Mae unrhyw enillion ailbrisiant a gronnwyd i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Mae symiau uwch na £10k a dderbynnir ar gyfer eitem a waredwyd yn cael eu categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf. Mae'n ofynnol ar i'r derbyniadau cyfalaf gael eu credydu i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn, ac yna dim ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd y cânt eu defnyddio [neu eu gosod o'r neilltu i leihau angen gwaelodol yr Awdurdod i fenthyca (y gofyniad cyllido cyfalaf)]. Mae derbyniadau'n cael eu meddiannu i'r Gronfa Wrth Gefn o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Nid yw gwerth a ddilëir o warediadau'n cael ei godi ar y Gronfa Gyffredinol. Mae'r symiau hyn yn cael eu meddiannu i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.

**1.19 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn**

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i'r Awdurdod sydd yn ôl pob tebyg angen setliad trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth, ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o faint y rhwymedigaeth. Er enghraifft, efallai bod yr Awdurdod yn rhan o achos llys a allai arwain yn y pen draw at wneud setliad neu dalu iawndal.

Darpariaethau

Codir darpariaethau fel traul ar y llinell gwasanaeth briodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r awdurdod yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a chânt eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y Fantolen o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth, gan gymryd i ystyriaeth y risgiau ac ansicrwydd perthnasol

Rhwymedigaethau wrth gefn

Mae rhwymedigaeth wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth posib i'r awdurdod, y bydd ei fodolaeth ond yn cael ei gadarnhau neu fel arall o ddigwyddiadau ansicr i'r dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod. Mae rhwymedigaethau wrth gefn hefyd yn codi mewn amgylchiadau ble byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nad yw'n debygol a bydd angen all-lif o adnoddau neu na ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Ni chydnabyddir rhwymedigaethau wrth gefn yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

Asedau wrth gefn
Mae ased wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi ased bosib i'r awdurdod, y bydd ei fodolaeth ond yn cael ei gadarnhau neu fel arall o ddigwyddiadau ansicr i'r dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod.
Ni chydnabyddir asedau wrth gefn yn y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon ble mae'n debygol y bydd mewnlif o fuddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth.

**1.20 Cronfeydd wrth Gefn**

Mae'r Awdurdod yn gosod o'r neilltu symiau penodol fel cronfeydd wrth gefn i ddibenion polisi'r dyfodol, neu i ymdrin â risgiau. Crëir cronfeydd wrth gefn trwy feddiannu symiau o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn. Pan y ceir traul sydd i'w gyllido o gronfa wrth gefn, caiff ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i'w sgorio yn erbyn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yna meddiannir y gronfa wrth gefn yn ôl i Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, fel nad oes taliad net yn erbyn y Gronfa Gyffredinol ar gyfer y gwariant.

Cedwir rhai cronfeydd wrth gefn penodol er mwyn rheoli'r prosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau nad ydynt yn gyfredol, offerynnau ariannol, buddiannau ymddeol a buddiannau gweithwyr ac nid ydynt yn cynrychioli adnoddau y gellir eu defnyddio gan yr Awdurdod – eglurir y cronfeydd wrth gefn hyn yn y polisïau perthnasol.

**1.21 Gwariant Refeniw a ariennir o Gyfalaf Dan Statud**

Mae gwariant yr aethpwyd iddo yn ystod y flwyddyn y gellir ei gyfalafu dan ddarpariaethau statudol ond nad yw'n creu ased nad yw'n gyfredol wedi ei godi fel gwariant i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn. Pan fo'r Awdurdod wedi penderfynu cwrdd â chost y gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu trwy fenthyca, mae trosglwyddiad yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yna'n gwyrdroi'r symiau fel nad oes effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol.

**1.22 Treth ar Werth**

Mae'r TAW sy'n daladwy yn cael ei gynnwys fel traul dim ond i'r graddau nad yw'n adenilladwy gan Gyllid a Thollau EM. Mae'r TAW y gellir ei dderbyn yn cael ei eithrio o incwm. Arfer yr Awdurdod yw cynnwys yr holl dreth fewngyrch na ellir ei hadennill gan Gyllid a Thollau EM o fewn costau'r gwasanaethau perthnasol. O ganlyniad i'r newid yn nhrefniadau busnes cyfredol Plas Tan y Bwlch, nid oes cost TAW anadferadwy yno ar gyfer 2023/24.

## 2 Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu

Amcan y Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yw dangos sut y mae'r cyllid sydd ar gael i'r Awdurdod (h.y. grantiau'r llywodraeth, rhenti, ffioedd a thaliadau ac ati,) am y flwyddyn wedi cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau o'i gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddiwyd neu a enillwyd gan awdurdodau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu hefyd yn 10841010dangos sut y mae'r gwariant hwn yn cael ei ddyrannu ar gyfer dibenion gwneud penderfyniadau rhwng cyfarwyddiaethau'r cyngor. Mae'r incwm a'r gwariant a gyfrifir amdano o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn cael eu cyflwyno yn llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

| 2023/24 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwariant Net yn erbyn y Gronfa Gyffredinol** | Addasaiadau rhwng y sail ariannu a Chyfrifyddu | **Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | Addasiadau rhwng yr Alldro a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | **Alldro** |
| | **(£'000)** | **(£'000)** | **(£'000)** | **(£'000)** | **(£'000)** |
| **Cynllunio, Treftadaeth a Rheoli Tir** | 1,818 | 128 | 1,691 | 3,940 | 2,249 |
| **(cynnwys cyfarthrebu)** | 4,806 | (123) | 4,930 | 1,359 | 3,571 |
| **Cost Net Gwasanaethau** | **6,624** | **5** | **6,621** | **5,299** | **5,821** |
| Incwm a Gwariant Arall | (8,345) | - | (8,345) | (8,345) | - |
| **Gwarged/ Diffyg** | **(1,721)** | **5** | **(1,724)** | **(3,046)** | **5,821** |
| **Balans Agoriadol** | **(7,839)** | | | | |
| Gwarged am y flwyddyn | (1,721) | | | | |
| **Balans Cau** | **(9,560)** | | | | |
| | (895) | Cronfa Gyffredinol | | | |
| | (8,665) | Cronfeydd wedi clustnodi (nodyn 8) | | | |
| | **(9,560)** | | | | |

| 2022/23 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwariant Net yn erbyn y Gronfa Gyffredinol** | Addasaiadau rhwng y sail ariannu a Chyfrifyddu | **Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | Addasiadau rhwng yr Alldro a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | **Alldro** |
| | **(£'000)** | **(£'000)** | **(£'000)** | **(£'000)** | **(£'000)** |
| **Cynllunio, Treftadaeth a Rheoli Tir** | 1,325 | (280) | 1,604 | 2,857 | 1,253 |
| | | | | | |
| **(cynnwys cyfarthrebu)** | 4,366 | (768) | 5,133 | 466 | 4,667 |
| | | | | | |
| Costau na ellir eu dosrannu | - | - | - | - | - |
| | | | | | |
| **Cost Net Gwasanaethau** | **5,691** | **(1,048)** | **6,737** | **3,323** | **5,921** |
| | | | | | |
| Incwm a Gwariant Arall | (6,104) | - | (6,104) | (6,104) | - |
| | | | | | |
| **Gwarged/ Diffyg** | **(413)** | **(1,048)** | **633** | **(2,781)** | **5,921** |
| | | | | | |
| **Balans Agoriadol** | **(7,426)** | | | | |
| Gwarged am y flwyddyn | (413) | | | | |
| **Balans Cau** | **(7,839)** | | | | |
| | | | | | |
| | (1,098) | Cronfa Gyffredinol | | | |
| | (6,741) | Cronfeydd wedi clustnodi | | | |
| | **(7,839)** | | | | |

## 2a Nodyn ar yr Addasiadau rhwng y Sail Ariannu a Chyfrifyddu

**Addasiadau rhwng sail Ariannu a Chyfrifyddu 2023/24**

| Addasiadau o'r Gronfa Cyffredinol i ffigyrau y Datganiad Incwm a Gwariant Chynhwysfawr | Newidiadau ar gyfer dibennion Cyfalaf | Newidiadau Net ar gyfer addasiadau pensiwn | Gwahaniaethau Eraill | Cyfanswm Addasiadau |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Cynllunio, Treftadaeth a Rheoli** | 116 | 12 | - | 128 |
| | | | | |
| **Corfforaethol** | (199) | 76 | - | (123) |
| | | | | |
| **Costau na ellir eu dosrannu** | | | | |
| | | | | |
| **Cost Net** | **(83)** | **88** | **-** | **5** |
| | | | | |
| Incwm a Gwariant Arall | | | | |
| | - | - | - | - |
| **Gwahaniaeth rhwng y gwarged/diffyg ar y Gronfa Gyffredinol a'r gwarged/Diffyg ar gyflenwi gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant** | **(83)** | **88** | **-** | **5** |

**Addasiadau rhwng sail Ariannu a Chyfrifyddu 2022/23**

| Addasiadau o'r Gronfa Cyffredinol i ffigyrau y Datganiad Incwm a Gwariant Chynhwysfawr | Newidiadau ar gyfer dibennion Cyfalaf | Newidiadau Net ar gyfer addasiadau pensiwn | Gwahaniaethau Eraill | Cyfanswm Addasiadau |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cynllunio, Treftadaeth a Rheoli** | 52 | (331) | - | (279) |
| | | | | |
| **Corfforaethol** | (71) | (696) | - | (768) |
| | | | | |
| **Costau na ellir eu dosrannu** | | | | |
| | | | | |
| **Cost Net** | **(20)** | **(1,028)** | **-** | **(1,048)** |
| | | | | |
| Incwm a Gwariant Arall | | | | |
| | - | - | - | - |
| **Gwahaniaeth rhwng y gwarged/diffyg ar y Gronfa Gyffredinol a'r gwarged/Diffyg ar gyflenwi gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant** | **(20)** | **(1,028)** | **-** | **(1,048)** |

## 2b Nodyn ar yr Incwm a Gwariant ar sail Cyfadrannol

| **Incwm ar sail cyfadrannol** | | |
|---|---|---|
| **Ffioedd ac incwm arall I wasanaethau** | **2022/23 £'000** | **2023/24 £'000** |
| Cynllunio, Treftadaeth Ddiwylliannol a Rheoli Tir | (290) | (323) |
| Corfforaethol (cynnwys Cyfarthrebu) | (1,915) | (2,169) |
| | **(2,540)** | **(2,492)** |

| **Costau 'heb fod yn arian' sylweddol ar sail Cyfadrannol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cynllunio, Treftadaeath a Rheoli Tir** | | **Corfforaethol** | | **Totals** | |
| | **2022/23** | **2023/24** | **2022/23** | **2023/24** | **2022/23** | **2023/24** |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Dibrisiant | 35 | 34 | 357 | 364 | 392 | 398 |
| Colledion Ailbrisiad | - | - | 195 | - | 195 | - |
| Gwariant Refeniw a gyllidir o gyfalaf yn ôl statud | 275 | 94 | 172 | 163 | 447 | 257 |
| addasiad pensiwn IAS19 | 328 | 4 | 679 | 7 | 1,007 | 11 |
| Addasiad croniad budd gweithwyr | 4 | (15) | 17 | (84) | 21 | (99) |
| **Cyfanswm** | **642** | **117** | **1,420** | **450** | **2,062** | **567** |

## 2c Nodyn ar Wariant ac Incwm wedi'u Dadansoddi yn ôl eu Natur

| | | |
|---|---|---|
| **Dadansoddiad Gwariant ac Incwm ar sail natur** | | |
| Dadansoddir gwariant ac incwm yr Awdurdod fel a ganlyn | | |
| | **2022/23** | **2022/23** |
| | **£'000** | **£'000** |
| **Gwariant** | | |
| Costau Cyflogaeth | 6,019 | 5,630 |
| Costau eraill i wasanaethau | 5,440 | 5,746 |
| Dibrisiant, amhariad a cholledion ailbrisiad | 392 | 398 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **11,851** | **11,774** |
| | | - |
| **Incwm** | | |
| Ffioedd ac incwm eraill i wasanaethau | (2,205) | (2,492) |
| Llog net ar yr ymrwymiad net a ddiffinnir (addasiad pensiwn IAS 19) | 36 | (3) |
| Llog ac incwm buddsoddiad | (136) | (355) |
| Grantiau a chyfraniadau Llywodraeth | (2,911) | (2,661) |
| Incwm grant amhenodol | (5,998) | (7,987) |
| Enilliad ar waredu asedau | (6) | - |
| **Cyfanswm Incwm** | **(11,218)** | **(13,498)** |
| | | |
| **Diffyg/gwarged ar gyflenwi gwasanaethau** | **633** | **(1,724)** |

## 3. Safonau cyfrifyddu sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eto wedi'u mabwysiadu

Bydd IFRS 16 Lesau, wedi ei gyhoeddi yn Ionawr 2016 yn hanfodol o 1af Ebrill 2024. Mae'r Awdurdod wedi penderfynu peidio mabwysiadwy IFRS 16 yn ystod y flwyddyn ariannol 2023/24

Bydd APCE yn mabwysiadu IFRS 16 ar 1af Ebrill 2024.

## 4. Barn gritigol mewn cymhwyso Polisïau Cyfrifyddu

Wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu yn Nodyn 1, bu'n rhaid i'r Awdurdod wneud rhai dyfarniadau am drafodion cymhleth neu'r rhai sy'n cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau yn y dyfodol. Y dyfarniadau beirniadol a wnaed yn y Datganiad o Gyfrifon yw:

Mae lefel uchel o ansicrwydd ynghylch lefelau ariannu yn y dyfodol ar gyfer llywodraeth leol. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn yn ddigonol eto i roi mynegiad y gallai asedau'r Awdurdod gael eu niweidio o ganlyniad i'r angen i gau cyfleusterau a lleihau lefelau darpariaeth gwasanaeth.

## 5. Rhagdybiaethau a wneir am y dyfodol a ffynonellau mawr eraill o ansicrwydd amcangyfrif

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau amcangyfrifiedig sydd wedi eu seilio ar ragdybiaethau a wnaed gan yr Awdurdod ynghylch y dyfodol neu sydd fel arall yn ansicr. Gwneir amcangyfrifon gan gymryd i ystyriaeth brofiad hanesyddol, tueddiadau presennol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, oherwydd na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaethau ac amcangyfrifon.

Datgelir y rhagdybiaethau a wnaed gan yr Actwari yn gysylltiedig â'r Gronfa Bensiwn yn nodyn 36.

| Eitem | Ansicrwydd | Effaith os yw'r Canlyniadau Gwirioneddol yn Wahanol i'r Tybiaethau |
|---|---|---|
| Atebolrwydd Pensiynau (nodyn 36) | Mae amcangyfrif y rhwymedigaeth net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n adlewyrchu'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau'n cynyddu, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac, ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, yr adenillion | Gall newidiadau cymharol fach yn y rhagdybiaethau a wneir gael effaith sylweddol ar yr atebolrwydd net pensiwn. Bydd yr atebolrwydd net pensiwn a ddangosir yn y fantolen ddim ond yn dod yn daladwy dros gyfnod ymddeol gweithwyr presennol a rhai wedi ymddeol, felly gellir lledaenu addasiadau i'r rhwymedigaeth dros nifer o flynyddoedd trwy newidiadau yng |

| | | |
|---|---|---|
| | disgwyliedig ar asedau'r gronfa bensiwn.<br><br>Darperir asesiad o'r rhwymedigaethau gan Hymans Robertson. Ceir rhagor o wybodaeth yn nodyn 36. | nghyfraniadau gweithwyr a chyflogwyr. Mae cynnydd yng nghyfraniadau cyflogwyr yn cael effaith uniongyrchol ar y gyllideb.<br><br>Cyfeirir at effaith y newid mewn rhagdybiaethau yn nodyn 5 o'r Adroddiad Naratif. |
| Prisiadau eiddo (nodyn 13) | Mae'r Awdurdod yn ailbrisio ei asedau bob 5 mlynedd. Cynhaliwyd prisiad llawn ar 1af Ebrill 2021. Mae'n bosibl y gallai gwerthoedd eiddo amrywio'n sylweddol o fewn y ffrâm amser 5 mlynedd. Yn y cyswllt hwn, cynhelir adolygiad blynyddol gan y Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Eiddo i nodi unrhyw brisiadau dros dro (interim) sydd eu hangen.Mae prisiad hefyd wedi ei gynnal ar asedau 'DRC' ar 31 Mawrth 2024 i sicrhau bod eu gwerth yn cyd-fynd ar gwerth cyfredol, o ystyried cyflwr y farchnad.<br><br>Mae'n seilio ei brisiadau ar ragdybiaethau am gyflwr asedau, bywydau defnyddadwy, gwerthoedd gweddilliol ac amodau'r farchnad.<br><br>Mae'r dyfarniadau hyn yn cael eu hategu gan y wybodaeth orau sydd ar gael ac yn cael eu gwneud gan briswyr cymwys ond maent yn dal i fod yn seiliedig ar amcangyfrifon. | Byddai amrywiad yng ngwerth eiddo yn effeithio ar y gwerthoedd a ddelir yn y Fantolen ac ar y tâl dibrisio cyfatebol. |

## 6. Eitemau perthnasol o incwm a threuliau

Derbyniodd yr Awdurdod grantiau penodol "un-tro" gan Llywodraeth Cymru gwerth £2,082k yn ystod 2023/24.

## 7. Digwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen

Mae'r Datganiad Cyfrifon wedi eu cymeradwyo ar gyfer cyhoeddiad gan y Prif Swyddog Cyllid ar 07 Tachwedd 2025. Nid yw digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn wedi eu adlewyrchu'n y datganiadau ariannol na'r nodiadau. Lle mae digwyddiadau cyn y dyddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am y sefyllfa cyn 31ain Mawrth 2024, mae'r ffigyrau yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau wedi eu addasu ymhob agwedd o sylwedd i adlewyrchu effaith y wybodaeth hwn.

## 8. Addasiadau rhwng sail gyfrifyddu a sail ariannu dan y rheoliadau

Mae’r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir yn y cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr Awdurdod yn y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu cywir i’r adnoddau y manylir arnynt gan ddarpariaethau statudol fel eu bod ar gael i’r Awdurdodi gwrdd â gwariant cyfalaf a refeniw i’r dyfodol.

| 2023/24 | Cronfeydd wrth Genf Defnyddiadwy | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Balans Cronfa Gyffredinol | Confeydd wrth gefn Derbynebion | Cronfa wrth genf Grantiau Cyfalaf heb Gymhwyso | mewn Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **ADDASIADAU YN CYNNWYS YN BENNAF Y CYFRIF ADDASIADAU CYFALAF** | | | | |
| **Gwyrdroi eitemau a dderbynwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | |
| Taliadau am ddibrisiant ac amhariad asedau nad ydynt yn gyferedol | (720) | - | - | 720 |
| colledion ar ailbrisiad | - | - | - | - |
| Cwerth Llyfr asedau a waredwyd | - | - | - | - |
| Cymwyso grantiau a chyfraniadau cyfalaf | 635 | - | - | (635) |
| Gwariant Refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud | (257) | - | - | 257 |
| **Mewnosod eitemau na ddebydwyd neu gredydwyd i'r datganiad Incwm a Gwariant** | | | | |
| Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd mewn blynyddoedd ariannol cynt ac a ddefnyddiwyd yn 2023/24 | - | - | 532 | (532) |
| Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd mewn blynyddoedd ariannol cynt ac a drosglwyddwyd i refeniw yn 2023/24 | - | - | - | - |
| Taliadau gwariant cyfalaf yn erbyn y Gronfa Cyffredinol | 1 | - | - | (1) |
| **ADDASIADAU YN CYNNWYS YN BENNAF Y CYFRIF ADDASIADAU CYFALAF** | | | | |
| Grant cyfalaf ddebyniwyd yn 2023/24 a drosglwyddwyd I refeniw yn 2023/24 | - | - | - | - |
| Grantiau a chyfraniadau cyfalaf na ddefnyddiwyd wedi eu credydi i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 258 | - | (258) | - |
| **ADDASIAD YN CYNNWYS YN BENNAF Y GRONFA DERBYNIADAU CYFALAF** | | | | - |
| Derbyniadau cyfalaf a ddefnyddiwyd yn 2023/24 | - | - | - | - |
| Derbyniadau cyfalaf na ddefnyddiwyd yn 2023/24 | - | - | - | - |
| **ADDASIAD YN CYNNWYD YN BENNAF Y GRONFA BENSWIN WRTH GEFN** | | | | |
| Gwyrdroi eitemau yn gysyltiedig a buddianau ymddeol wedi ei debydu neu gredydu i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr | (794) | - | - | 794 |
| Cyfraniadau penswin cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr yn daladwy yn y flwyddyn | 783 | - | - | (783) |
| **ADDASIAD YN CYNNWYS YN BENNAF Y CYFRIF ABSENOLDEBAU CRONNUS** | | | | |
| Y gwahaniaeth yn y swm a godir am daliadau swyddogion ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail groniadau o'r taliadau sy'n daladwy yn y flwddyn yn unol a'r gofynion statudol | 99 | - | - | (99) |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **5** | **-** | **274** | **(279)** |

| **2022/23** | Cronfeydd wrth Genf Defnyddiadwy | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Balans Cronfa Gyffredinol | Confeydd wrth gefn Derbynebion | Cronfa wrth genf Grantiau Cyfalaf heb Gymhwyso | mewn Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **ADDASIADAU YN CYNNWYS YN BENNAF Y CYFRIF ADDASIADAU CYFALAF** | | | | |
| **Gwyrdroi eitemau a dderbynwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | |
| lau am ddibrisiant ac amhariad asedau nad ydynt yn gyferedol | (588) | - | - | 588 |
| lion ar ailbrisiad | - | - | - | - |
| th Llyfr asedau a waredwyd | - | - | - | - |
| vyso grantiau a chyfraniadau cyfalaf | 285 | - | - | (285) |
| iant Refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud | (447) | - | - | 447 |
| **nosod eitemau na ddebydwyd neu gredydwyd i'r datganiad Incwm a Gwariant** | | | | |
| Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd mewn blynyddoedd ariannol cynt ac a ddefnyddiwyd yn 2021/22 | - | - | 404 | (404) |
| Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd mewn blynyddoedd ariannol cynt ac a drosglwyddwyd i refeniw yn 2021/22 | (1) | - | 1 | - |
| lau gwariant cyfalaf yn erbyn y Gronfa Cyffredinol | 274 | - | - | (274) |
| **ADDASIADAU YN CYNNWYS YN BENNAF Y CYFRIF ADDASIADAU CYFALAF** | | | | |
| cyfalaf ddebyniwyd yn 2020/21 a drosglwyddwyd I refeniw yn 2021/22 | - | - | - | - |
| Grantiau a chyfraniadau cyfalaf na ddefnyddiwyd wedi eu credydi i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 457 | - | (457) | - |
| **ADDASIAD YN CYNNWYS YN BENNAF Y GRONFA DERBYNIADAU CYFALAF** | | | | - |
| ;niadau cyfalaf a ddefnyddiwyd yn 2021/22 | - | - | - | - |
| ;niadau cyfalaf na ddefnyddiwyd yn 2021/22 | - | - | - | - |
| **ADDASIAD YN CYNNWYD YN BENNAF Y GRONFA BENSWIN WRTH GEFN** | | | | |
| Gwyrdroi eitemau yn gysyltiedig a buddianau ymddeol wedi ei debydu neu gredydu i'r datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr | (1,790) | - | - | 1,790 |
| Cyfraniadau penswin cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr yn daladwy yn y flwyddyn | 783 | - | - | (783) |
| **ADDASIAD YN CYNNWYS YN BENNAF Y CYFRIF ABSENOLDEBAU CRONNUS** | | | | |
| Y gwahaniaeth yn y swm a godir am daliadau swyddogion ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail groniadau o'r taliadau sy'n daladwy yn y flwddyn yn unol a'r gofynion statudol | (21) | - | - | 21 |
| **swm Addasiadau** | **(1,048)** | **-** | **(52)** | **1,100** |

## 9. Trosglwyddiadau o/i Gronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd

| | Gweddill 31 Mawrth 2022 | Trosglwyddiadau allan 2022/23 | Trosglwyddiadau i fewn 2022/23 | Gweddill 31 Mawrth 2023 | Trosglwyddiadau allan 2023/24 | Trosglwyddiadau i fewn 2023/24 | Gweddill 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cronfeydd wrth gefn refeniw a chyfalaf (symiau wedi eu cymeradwyo fel gwariant clutnodedig) | -775 | 775 | -358 | -358 | 300 | -273 | -331 |
| Cronfa Risgiau Penodol (i gwrdd a phwysau cyllidebol tebygol) | -424 | 109 | -353 | -668 | 0 | 0 | -668 |
| Cronfa wth gefn cynllunio (i gwrdd a chostau ymchwiliad cyhoeddus) | -225 | - | - | -225 | - | - | -225 |
| Cronfa wrth gefn arian cyfatebol (i bwrpas cronfa cyd-gyfeiriant) | -962 | 241 | -182 | -903 | 25 | 0 | -878 |
| Cronfa wrth gefn refeniw | -1,564 | 272 | -95 | -1,387 | 281 | -9 | -1116 |
| Cronfa wrth gefn incwm Pen y Pass (ar gyfer adnoddau yn perthyn i'r Wyddfa | -56 | - | - | -56 | - | - | -56 |
| Cronfa wrth gefn Adain 106 (at bwrpasau cartrefi fforddiadawy) | -485 | 14 | -126 | -597 | 0 | -62 | -659 |
| Cronfa wrth gefn prosiectau | -942 | 199 | -302 | -1,045 | 79 | -360 | -1,325 |
| Cronfa wrth gefn Rheoli Asedau | -923 | 28 | -107 | -1,002 | 0 | 0 | -1,002 |
| Cronfa Gwytnwch Staff | -120 | 5 | -285 | -400 | 0 | 0 | -400 |
| Cronfa Risgiau Masnachol | -100 | - | - | -100 | - | - | -100 |
| Cronfa Her Ariannol | - | - | - | - | - | -1,905 | -1,905 |
| **Is-gyfanswm** | **-6,576** | **1,643** | **-1,808** | **-6,741** | **685** | **-2,609** | **-8,665** |
| **Cronfeydd Eraill** | | | | | | | |
| Cronfa Gyffredinol | -850 | 113 | -361 | -1,098 | 891 | -688 | -895 |
| **Cyfalaf:** | | | | | | | |
| Grantiau cyfalaf heb eu defnyddio | -2,094 | 473 | -493 | -2,147 | 421 | -146 | -1,872 |
| Cronfa Derbynebion Cyfalaf (i gyllido gwariant cyfalaf yn unig) | -164 | - | - | -164 | - | - | -164 |
| **Total** | **-9,684** | **2,229** | **-2,695** | **-10,150** | **1,997** | **-3,443** | **-11,596** |

## 10. Gwariant Gweithredol Arall

| 2022/23 | | 2023/24 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| **6** | Enillion/colledion ar waredu asedau nad ydynt yn gyfredol | **0** |

## 11. Incwm a gwariant cyllido a buddsoddi

| 2022/23 | | 2023/24 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 36 | Cost llog pensiwn a dychweliad disgwyliedig ar asedau pensiwn | (3) |
| (136) | Llog y gellir ei dderbyn ac incwm tebyg | (355) |
| **100** | **Cyfanswm** | **(358)** |

## 12. Incwm Grant Amhenodol

| 2022/23 | | 2022/23 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| (4,120) | Grant Parc Cenedlaethol | (5,325) |
| (1,373) | Ardollau ar Awdurdodau Cyfansoddol | (1,373) |
| (505) | Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau | (1,289) |
| **(5,845)** | **Cyfanswm** | **(7,897)** |

## 13. Eiddo, Offer A Chyfarpar
Symudiadau ar falansau

| 2023/24 | Tir ac Adeiladau | Cerbydau, Offer a Cyfarpar | Cymuned | Asedau Dros Ben | Asedau yn cael eu Adeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 16,832 | 1,703 | 627 | 40 | 227 | 19,429 |
| Ychwanegiadau | 776 | 135 | | | | 911 |
| Gwargediadau | | (110) | | | | (110) |
| Ailddosbarthiad | 104 | (50) | | | (154) | (100) |
| Ail-brisiad i'r datganiad IaGC | | | | | | - |
| Colledion i'r Gronfa Ailbrisiad | | | | | | - |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **17,712** | **1,678** | **627** | **40** | **73** | **20,130** |
| | | | | | | |
| **Dibrisiant ac Amhariad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | (3,477) | (1,289) | (7) | - | - | (4,773) |
| Dibrisiant | (208) | (165) | | | | (373) |
| Gwarediadau | | 110 | | | | 110 |
| Ailddosbarthiad | | 68 | | | | 68 |
| Impairment | (321) | | | | | (321) |
| | (455) | | | | | (455) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **(4,461)** | **(1,276)** | **(7)** | **-** | **-** | **(5,744)** |
| | | | | | | |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2023** | **13,251** | **402** | **620** | **40** | **73** | **14,386** |
| | | | | | | |
| Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2022 | 13,355 | 414 | 620 | 40 | 227 | 14,656 |

| **2022/23** | **Tir ac Adeiladau** | **Cerbydau, Offer a Cyfarpar** | **Cymuned** | **Asedau Dros Ben** | **Asedau yn cael eu Adeiladu** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 15,909 | 2,194 | 620 | 40 | 316 | 19,079 |
| Ychwanegiadau | 372 | 79 | 7 | - | 3 | 461 |
| Gwargediadau | - | (570) | - | - | - | (570) |
| Ailddosbarthiad | | | | | (92) | (92) |
| Ail-brisiad i'r datganiad IaGC | - | - | - | - | - | - |
| Colledion i'r Gronfa Ailbrisiad | 551 | - | - | - | - | 551 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **16,832** | **1,703** | **627** | **40** | **227** | **19,429** |
| | | | | | | |
| **Dibrisiant ac Amhariad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | (2,930) | (1,667) | - | - | - | (4,597) |
| Dibrisiant | (175) | (205) | - | - | - | (380) |
| Gwarediadau | - | 570 | - | - | - | 570 |
| Ailddosbarthiad | | 13 | | | - | 13 |
| Impairment | (372) | | (7) | | | (379) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **(3,477)** | **(1,289)** | **(7)** | **-** | **-** | **(4,773)** |
| | | | | | | |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2023** | **13,355** | **414** | **620** | **40** | **227** | **14,656** |
| | | | | | | |
| Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2022 | 12,979 | 527 | 620 | 40 | 316 | 14,482 |

Dibrisiant

Codir am ddibrisiant asedau sefydlog ar sail llinell syth i ddileu eu cost llai unrhyw werth gweddilliol rhagamcanedig mewn rhandaliadau dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased ar y seiliau canlynol:-

| | | |
|---|---|---|
| Tir ac Eiddo Gweithredol | : | rhwng 10 – 60 mlynedd |
| Asedau Cymunedol | : | dim |
| Offer Systemau Gwybodaeth | : | 3 blynedd |
| Cerbydau | : | dros 7 mlynedd i werth dim. |
| Dodrefn ac Offer Arall | : | oes weithredol amcangyfrifiedig |

Ailbrisiadau

Bu ail-brisiad o holl asedau tir ac eiddo ar 1af Ebrill 2021

Ymrwymiadau Cyfalaf

Yr unig ymrwymiad cyfalaf sydd gan yr Awdurdod ar gontract tendr ar 31/03/2024 ydy:

Cynllun Treftadaeth Dolgellau £151K.

(Ar 31/03/2023, yr unig ymrwymiad cyfalaf oedd gan yr Awdurdod ar gontract tendr oedd Cynllun Treftadaeth Dolgellau - £429k).

## 14. Asedau Treftadaeth

Mae dosbarthiad yr Awdurdod o asedau treftadaeth diriaethol yn ymwneud â :

- **Melin Lechi Ynys y Pandy** - adeilad rhestredig heb ddefnydd gweithredol, a gafodd ei dynnu oddi ar brisiad y tir a'r adeiladau yn 2011/12 gan ei bod islaw'r lefel de-minimis.
- **Craig yr Aderyn** – Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a gedwir am ei nodweddion amgylcheddol. Prisiad ar sail "gwerth defnydd presennol".
- **Yr Ysgwrn** – cartref y bardd Hedd Wyn a brynwyd i ddiogelu ei dreftadaeth ddiwylliannol. Mae'r asedau yma yn cael eu dal ar sail cost hanesyddol.

| **2023/24** | | Ynys y Pandy Slate Mill | Craig yr Aderyn | Ysgwrn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | | - | 28 | 870 | 898 |
| Ychwanegiadau | | | | - | - |
| Ailddosbarthiad | | - | - | - | - |
| Ailbrisiad i'r DIaGC | | | | | - |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | | **-** | **28** | **870** | **898** |
| | | | | | |
| **Dibrisiant ac Amhariad Cronnus** | | | | | |
| 1 Ebrill 2023 | | - | - | (103) | (103) |
| Dibrisiant | | - | - | (11) | (11) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | | **-** | **-** | **(114)** | **(114)** |
| | | | | | |
| **Gwerth Llyfr Net 31 Mawrth 2024** | | **-** | **28** | **756** | **784** |
| Gwerth Llyfr Net 31 Mawrth 2023 | | - | 28 | 767 | 795 |

| **2022/23** | | Ynys y Pandy Slate Mill | Craig yr Aderyn | Ysgwrn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | | - | 28 | 870 | 898 |
| Ychwanegiadau | | - | - | - | - |
| Ailbrisiad i'r DIaGC | | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | | **-** | **28** | **870** | **898** |
| | | - | - | - | - |
| **Dibrisiant ac Amhariad Cronnus** | | - | - | - | - |
| 1 Ebrill 2022 | | - | - | (91) | (91) |
| Dibrisiant | | - | - | (12) | (12) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | | **-** | **-** | **(103)** | **(103)** |
| | | - | - | - | - |
| **Gwerth Llyfr Net 31 Mawrth 2023** | | **-** | **28** | **767** | **795** |
| Gwerth Llyfr Net 31 Mawrth 2022 | | - | 28 | 779 | 807 |

## 15. Asedau Anghyffyrddadwy

Mae dosbarthiad yr Awdurdod o asedau anghyffyrddadwy yn ymwneud â datbygiad gwefan:

| 2023/24 | Gwefan | Meddalwedd | Total |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Cost neu brisiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 109 | | 109 |
| Ychwanegiadau | - | | - |
| Ailddosbarthiad | - | 100 | 100 |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **109** | **100** | **209** |
| | | | |
| **Amorteiddiad ac Amhariad Cronnus** | | | |
| 1 Ebrill 2023 | (13) | | (13) |
| Amorteiddiad | (14) | | (14) |
| | | (68) | (68) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **(27)** | **(68)** | **(95)** |
| | | | |
| **Gwerth Llyfr Net 31 Mawrth 2024** | **82** | **32** | **114** |
| Gwerth Llyfr Net 31 Mawrth 2023 | 96 | - | 96 |

| 2022/23 | Gwefan | Total |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Cost neu brisiad** | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | - | - |
| Ychwanegiadau | 17 | 17 |
| Ailddosbarthiad | 92 | 92 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **109** | **109** |
| | | |
| **Amorteiddiad ac Amhariad Cronnus** | | |
| 1 Ebrill 2022 | - | - |
| Amorteiddiad | (13) | (13) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **(13)** | **(13)** |
| | | |
| **Gwerth Llyfr Net 31 Mawrth 2023** | **96** | **96** |
| Gwerth Llyfr Net 31 Mawrth 2022 | - | - |

## 16. Asedau Ar Werth

Ar 31/3/2024 nid oedd ased ar werth gan yr Awdurdod. (Ar 31ain Mawrth 2023 nid oedd unrhyw ased wedi ei ddynodi'n Ased ar Werth).

## 17. Buddsoddiadau Tymor Byr

Ar 31/3/2024, roedd gan yr Awdurdod adneuon tymor gwerth £7,319k (£7,051k ar 31ain Mawrth 2023).

## 18. Dyledwyr

| 2022/23 | | 2023/24 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| | **Symiau ddaw'n ddyledus o fewn un flwyddyn:** | |
| 154 | Masnach | 173 |
| 59 | Blaendaliadau | 102 |
| 1,057 | Eraill | 821 |
| **1,270** | | **1,096** |
| | | |
| | **Dyledwyr Tymor Hir (symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl un flwyddyn)** | |
| 4 | Benthyciadau Ceir i Weithwyr | 57 |
| **4** | | **57** |

## 19. Arian a chyfateb ag arian

Mae'r balans o Arian a Chyfateb ag Arian yn cynnwys yr elfennau canlynol :

| 31 Mawrth 2023 | | 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 2 | Arian sy'n cael ei ddal gan yr Awdurdod | 2 |
| 541 | Cyfrifon banc cyfredol | 705 |
| 3,537 | Adneuon tymor byr gyda banciau | 4,431 |
| **3,859** | **Cyfanswm Arian a Chyfateb ag Arian** | **5,138** |

## 20. Credydwyr

| 2022/23 | | 2023/24 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| | Taladwy o fewn blwyddyn: | |
| (787) | Masnach | (716) |
| (400) | Eraill | (367) |
| **(1,187)** | | **(1,083)** |

## 21. Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy

Mae manylion ar symudiadau yng Nghronfeydd wrth Gefn yr Awdurdod fel a nodir yn y Datganiad ar Symudiadau Mewn Cronfeydd Wrth Gefn (a nodyn 9).

## 22. Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu defnyddio

| 2022/23 | | 2023/24 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| (8,281) | Cronfa wrthgefn Ailbrisiad | (7,807) |
| (7,313) | Cyfrifon Addasiadau Cyfalaf | (7,523) |
| (63) | Cronfa wrth gefn Pensiynau | 278 |
| 272 | Cyfrif Absenoldebau Cronnus | 173 |
| **(15,385)** | | **(14,879)** |

### CRONFA AILBRISIANT WRTH GEFN

Mae'r Gronfa Ailbrisiant wrth gefn yn cynnwys yr enillion a wnaed gan yr Awdurdod yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, Offer a Chyfarpar (ac Asedau Anghyffyrddadwy). Mae'r balans yn gostwng pan fo asedau gydag enillion cronnus yn:

- Cael eu hailbrisio i lawr neu eu amharu a'r enillion yn cael eu colli
- Cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau a'r enillion yn cael eu colli trwy ddibrisiant, neu
- Cael eu gwaredu a gwireddu'r enillion

Dim ond enillion a gronnwyd ers 1 Ebrill 2007 sydd yn y gronfa wrth gefn, y dyddiad crëwyd y Gronfa Wrth Gefn. Mae enillion cronnus a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw'n cael eu cadarnhau i'r balans ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

| 2022/23 | | 2023/24 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| **(7,920)** | Balans ar 1 Ebrill | **(8,281)** |
| **(551)** | Cynnydd Ailbrisiant asedau | **-** |
| **184** | Colledion ailbrisiant asedau a cholledion amhariad na chodwyd ar y Gwarged/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau | **455** |
| **(367)** | Gwarged neu ddiffyg ar ailbrisiant asedau nad ydynt yn gyfredol na chawsant eu postio i'r gwarged neu ddiffyg ar Ddarparieth y Swm a ddilewyd i'r swm addasiad Cyfalaf | **455** |
| **6** | Enillion dibrisiant a ailbriswyd ac a ddilewyd i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf | **20** |
| **(8,281)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(7,807)** |

## Cyfrif Addasiad Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer cyfrifo ar gyfer defnydd asedau nad ydynt yn gyfredol a chyllido caffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny dan ddarpariaethau statudol. Mae'r Cyfrif yn cael ei ddebydu gyda chost caffael, adeiladu neu wella fel dibrisiant, colledion amhariad ac amorteiddiad yn cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda phostio cymodi o'r Gronfa Ailbrisiad Wrth Gefn i drosi ffigyrau gwerth teg i sail cost hanesyddol). Credydir y Cyfrif gyda symiau a osodir o'r neilltu gan yr Awdurdod fel cyllid ar gyfer costau caffael, adeiladu a gwella.

Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronnus ar Eiddo Buddsoddiad a chydnabyddir yr enillion ar asedau sy'n rhoddion ac sydd eto i'w defnyddio gan yr Awdurdod.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisiad cronnus ar Eiddo, Offer a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, y dyddiad y crëwyd y Gronfa Ailbrisiad Wrth Gefn i ddal y fath enillion.

Mae Nodyn 8 yn rhoi manylion ffynhonnell yr holl drafodion a bostiwyd i'r Cyfrif, heblaw am y rheiny oedd yn cynnwys y Gronfa Ailbrisiad Wrth Gefn.

| **2022/23** | | **2023/24** |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| (7,377) | Balans ar 1 Ebrill | (7,313) |
| | **Gwyrdroi eitemau cysylltiedig a gwariant cyfalaf a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | |
| 392 | Taliadau am ddibrisiant ac amhariad o asedau nad ydynt yn gyfredol | 720 |
| 195 | Enillion/colledion ailbrisiant ar Eiddo/ Offer a Chyfarpar | - |
| - | Gwerth Llyfr offer a waredwyd | - |
| 446 | Gwariant Refeniw a ariennir o Gyfalaf dan Statud | 258 |
| **(6,344)** | Amcan gost Ased a ddelir fel 'Ased i'w werthu' | **(6,335)** |
| | **Addasiadau o'r Gronfa Ailbrisio** | |
| (6) | Addasiad Dibrisiant | (21) |
| **(6,350)** | **Swm Net a ddilewyd o gost asedau nad ydynt yn gyfredol a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn** | **(6,356)** |
| | | |
| | **Ariannu Cyfalaf a gymhwyswyd yn y flwyddyn** | |
| | Defnydd derbynebion cyfalaf i ariannu gwariant Cyfalaf newydd | |
| (284) | Grantiau a chyfraniadau Cyfalaf a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant cynhwysfawr sydd wedi ei cymhwyso i gyllido Cyfalaf | (635) |
| (404) | Defnydd o grantiau o'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf heb Gymhwyso | (532) |
| (274) | Gwariant Cyfalaf a godwyd yn erbyn balansau'r Gronfa Gyffredinol | (1) |
| **(7,313)** | Balans ar 31 Mawrth | **(7,523)** |

## Cronfa wrth gefn Pensiynau

Mae'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer cyfrifo i fuddiannau ôl gyflogaeth a chyllido buddiannau yn unol a darpariaethau statudol. Mae'r Awdurdod yn rhoi cyfrif am fuddiannau ôl gyflogaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel buddiannau a enillwyd gan weithwyr sy'n cronni blynyddoedd o wasanaeth, diweddaru'r rhwymedigaethau a gydnabyddir i adlewyrchu chwyddiant, newid rhagdybiaethau a dychweliadau buddsoddi ar unrhyw adnoddau a osodir o'r neilltu i gwrdd â chostau. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i fuddiannau a enillir gael eu cyllido fel y bo'r Awdurdod yn gwneud cyfraniadau cyflogwr i'r cronfeydd pensiwn neu yn y diwedd yn talu unrhyw bensiynau y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Felly mae'r balans dyled ar y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn yn dangos diffyg sylweddol yn y buddiannau a enillwyd gan weithwyr y gorffennol a'r presennol a'r adnoddau mae'r Awdurdod wedi eu rhoi o'r neilltu i gwrdd â nhw. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd ariannu wedi ei roi o'r neilltu erbyn yr amser y daw'r buddiannau'n ddyledus i'w talu.

| **2022/23** | | **2023/24** |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 884 | Balans ar 1 Ebrill | (63) |
| (1,954) | Colledion/ elw actwaraidd ar asedau a rhwymedigaethau pensiynau | 330 |
| 1,790 | Gwyrdroad eitemau cysylltiedig a buddiannau ymddeol a ddebydir ney a gredydir i Warged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 794 |
| (783) | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr yn daladwy yn y flwyddyn | (783) |
| **(63)** | | **278** |

## Cyfrif Absenoldebau Cronnus

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronnus yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai fel arall yn codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol o gronni ar gyfer absenoldebau digolledol a enillwyd ond na chymerwyd yn y flwyddyn e.e. hawliau gwyliau blynyddol a gariwyd drosodd ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

| **2022/23** | | **2023/24** |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 251 | Balans ar 1 Ebrill | 271 |
| (251) | Setliad neu ddiddymu'r croniad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol | (271) |
| 271 | Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol | 172 |
| 20 | Y gwahaniaeth yn y swm a godir am daliadau swyddogion ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail groniadau o'r taliadau sy'n daladwy yn y flwyddyn yn unol a gofynion statudol | (100) |
| | | |
| **271** | **Balans ar 31 Mawrth** | **172** |

## 23. Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau gweithredol

Mae'r "addasiadau i'r gwarged net neu ddiffyg ar y ddarpariaeth gwasanaethau o symudiadau nad ydynt yn arian parod" yn cynnwys:

| **2022/23** | | **2023/24** |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| (392) | Dibrisiant ac Amhariad | (398) |
| | Colledion ailbrisiad ar Eiddo, Offer a Chyfarpar | |
| (195) | Colled Gwerth Llyfr ar werthiant Asedau | (322) |
| 15 | Symudiadau mewn Credydwyr | 410 |
| (717) | Symudiadau mewn Dyledwyr | (325) |
| 26 | Symudiad mewn Stoc | 48 |
| (1,007) | Costau darpariaeth gwasanaethau ar gyfer Cuddianau ôl-gyf | 17 |
| | | |
| **(2,270)** | **Balance at 31 March** | **(570)** |

## 24. Datganiad Llif Arian - Gweithgareddau Buddsoddi

| 2022/23<br>£'000 | | 2023/24<br>£'000 |
|---|---|---|
| | | |
| (516) | Pryniant Eiddo, peiriannau ac offer ac asedau anghyffyrddadwy | (910) |
| 6 | Derbyniadau o werthiant eiddo, peiriannau ac offer ac asedau anghyffyrddadwy | - |
| 797 | Derbyniadau o fuddsoddiadau tymor byr a thymor hir | (268) |
| 437 | Derbyniadau eraill o weithgareddau buddsoddi | 891 |
| | | |
| **723** | **Balans 31 Mawrth** | **(288)** |

## 25. Datganiad Llif Arian - Gweithgareddau Ariannu

| 2022/23<br>£'000 | | 2023/24<br>£'000 |
|---|---|---|
| | | |
| 8 | Ad-daliadau benthyciadau ceir a llog perthnasol | 54 |
| | | |
| **8** | **Balans 31 Mawrth** | **54** |

## 26. Lwfansau Aelodau

Talodd yr Awdurdod y symiau canlynol i aelodau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn. Y lwfansau a dalwyd i aelodau oedd:-

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| 107 | Lwfansau Aelodau | 107 |
| 0 | Teithio & Chynhaliaeth | 2 |
| **107** | | **109** |

Mae gwybodaeth pellach ar wefan yr Awdurdod. Gweler y cyswllt isod :

HTTPS://ERYRI.GOV.WALES/WP-CONTENT/UPLOADS/2024/07/APCE-DATGANIAD-O-DALIADAU-2023-2024-STATEMENT-OF-PAYMENTS-SNPA.PDF

## 27. Tâl Staff

Mae Rheoliad 7A o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol datgelu taliadau gweithwyr.

Yn ôl Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu cymhareb cyflogau rhwng y cyflog canolig o holl weithwyr yr Awdurdod a'r Prif Weithredwr yn ystod y flwyddyn.

| 2022/23 | | 2023/24 |
|---|---|---|
| (£'000) | | (£'000) |
| 94 | Prif Weithredwr | 102 |
| 27 | Cyflog Canolig APCE | 31 |
| 3.5 | Cymhareb | 3.3 |

Mae'r tâl perthnasol i uwch weithwyr yr Awdurdod fel a ganlyn :

| 2022/23 | | | | 2023/24 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflog | Cyfraniad Pensiwn y Cyflogwr | Cyfanswm | | Cyflog | Cyfraniad Pensiwn y Cyflogwr | Cyfanswm |
| £'000 | £'000 | £'000 | | £'000 | £'000 | £'000 |
| 94 | 19 | 112 | Prif Weithredwr | 106 | 19 | 125 |
| 8 | 1 | 9 | Prif Swyddog Cyllid (Adran 151)* | 8 | 2 | 10 |
| 70 | 14 | 83 | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | 72 | 13 | 85 |
| 70 | 14 | 83 | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cynllunio a Rheoli Tir | 72 | 13 | 85 |

* Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd yn Bennaeth Cyllid yng Nghyngor Gwynedd, mae'r berthynas hon wedi ei datgan yn nodyn 30 – Partion Cysylltiedig.
* Mae tâl y Prif Weithredwr yn cynnwys £4,634 o dal ôl-ddyddiedig yn perthyn i 2022/23.

Ni dderbyniodd unrhyw swyddog swm dros £60k (gan hepgor cyfraniad pensiwn ac yswiriant gwladol cyflogwr) yn cynnwys taliad diswyddo yn 2023/24.

| **Nifer swyddogion a dderbyniodd fwy na £60k yn cynnwys Cyflog a Budd Diswyddo** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022/23 | | | | 2023/24 | | |
| Cynllunio a Rheoli Tir | Corfforaethol | Cyfanswm | Amrediad | Cynllunio a Rheoli Tir | Corfforaethol | Cyfanswm |
| 0 | 0 | 0 | 60,000 - 64,999 | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | 65,000 - 69,999 | 0 | 0 | 0 |

<u>Buddiannau Terfynu</u>
Mae nifer y pecynnau ymadael â chyfanswm y gost fesul band a chyfanswm cost y diswyddiadau gorfodol ac eraill wedi'u nodi yn y tabl isod:

| **Cost pecyn gadael** | **Nifer diswyddiadau gorfodol** | | **Nifer diswyddiadau eraill** | | **Cyfanswm pecyn adael fesul band cost** | | **Cyfanswm costpecyn gadael ym mhob band** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2022/23** | **2023/24** | **2022/23** | **2023/24** | **2022/23** | **2023/24** | **2022/23** | **2023/24** |
| **£'000** | | | | | | | **£'000** | **£'000** |
| 0-40 | 0 | 5 | 0 | 0 | 0 | 5 | 0 | 44 |
| 40-60 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 60-80 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 80-100 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 100-150 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **0** | **5** | **0** | **0** | **0** | **5** | **0** | **44** |

## 28. Costau archwilio allanol

Mae’r costau yn ôl cynllun archwilio Swyddfa Archwilio Cymru yng nghyswllt archwilio’r Datganiad Cyfrifon, ardystio hawliadau grant ac archwiliadau statudol ac am wasanaethau nad oeddynt yn rhai archwilio a ddarparwyd gan archwilwyr allanol yr Awdurdod fel a ganlyn:-

| **2022/23 £’000** | **Maes Rheoliadol** | **2023/24 £’000** |
|---|---|---|
| 47 | Ffioedd sy’n daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru yng nghyswllt gwasanaethau archwilio allanol a wnaed gan yr archwilydd penodedig | 57 |
| 18 | Ffioedd sy’n daladwy i Archwilydd Cyffredinol Cymru yng nghyswllt archwiliadau statudol a Mesur LlL 2009 | 18 |
| **65** | **Cyfanswm** | **75** |

## 29. Incwm Grantiau

Mae'r Awdurdod wedi rhoi'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol mewn credyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn 2023/24.

| 2021/22 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| | **Grantiau Refeniw** | |
| | **Credydwyd i Wasanaethau** | |
| | | |
| | **Cynllunio a Rheoli Tir** | |
| 358 | Cyfoeth Naturiol Cymru | 305 |
| 10 | Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 3 |
| 10 | RSPB | 10 |
| 632 | EU LIFE | 417 |
| 526 | Llywodraeth Cymru | 131 |
| 38 | Awdurdod Lleol | 32 |
| 307 | Cronfa Treftadaeth | 241 |
| - | CADW | 20 |
| 10 | Coed Cadw | 25 |
| 122 | Grid Cenedlaethol | 222 |
| 36 | CGGC | 78 |
| 39 | Eraill | 69 |
| **2,088** | | **1,554** |
| | | |
| | **Corfforaethol** | |
| 76 | Llywodraeth Cymru | - |
| 5 | Awdurdod Lleol | - |
| - | HMRC (cynllun seibiant swyddi) | 20 |
| 4 | Eraill | - |
| **85** | | **20** |
| **2,173** | **Cyfanswm Grantiau Refeniw** | **1,574** |

| 2022/23 £'000 | | | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Grantiau Cyfalaf** | | |
| | | | | |
| | | **Wedi ei credydu i Incwm Grant Amhenodol** | | |
| | | | | |
| | | **Cynllunio a Rheoli Tir** | | |
| 21 | | Llywodraeth Cymru | | 917 |
| 21 | | | | 917 |
| | | | | |
| | | **Corfforaethol** | | |
| 480 | | Llywodraeth Cymru | | 372 |
| 4 | | Eraill | | - |
| 484 | | | | 372 |
| **505** | | **Is-gyfanswm** | | **1,289** |
| | | | | |
| | | **Credydwyd i Wasanaethau** | | |
| | | | | |
| | | **Cynllunio a Rheoli Tir** | | |
| 150 | | Llywodraeth Cymru | | 461 |
| 153 | | Cronfa Dreftadaeth y Loteri | | 90 |
| | | | | 274 |
| | | | | 42 |
| 197 | | Eraill | | 20 |
| **500** | | | | **887** |
| | | **Corporate** | | |
| 527 | | Llywodraeth Cymru | | 201 |
| **527** | | | | **201** |
| | | | | |
| **1,027** | | **Is-gyfanswm** | | **1,088** |
| | | | | |
| 1,532 | | **Cyfanswm** | | 2,377 |
| | | | | |
| | | **Capital Grants Received in Advance** | | |
| 342 | | Llywodraeth Cymru | | 532 |
| 25 | | Cyfoeth Naturiol Cymru | | - |
| 38 | | Cyngor Mynydda Prydain | | - |
| **405** | | Is-gyfanswn | | **532** |
| | | | | |
| **1,937** | | **Cyfanswm Grantiau Cyfalaf** | | **2,909** |

| 2022/23 | Grantiau o flaen llaw | 2023/24 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| | **Symiau yn daladwy o fewn un flwyddyn** | |
| (734) | Grantiau dderbyniwyd ymlaen llaw | (1,215) |
| **(734)** | | **(1,215)** |
| | | |
| | **Credydwyr Tymor Hir (symiau sy'n daladwy ar ôl un flwyddyn)** | |
| (702) | Grantiau dderbyniwyd ymlaen llaw | (33) |
| **(702)** | | **(33)** |

Mae'r Awdurdod wedi derbyn nifer o grantiau, cyfraniadau a rhoddion sydd heb eto cael eu hadnabod fel incwm, gan bod amodau cysylltiedig a olygir byddai angen dychwelyd yr arian os na fydd yr Awdurdod yn cwrdd ar gofynion. Mae'r balansau ar ddiwedd blwyddyn fel y ganlyn.

Mae'r £1,215k ar gyfer Credydwyr Tymor Byr yn cynrychioli :

- £253k grant Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith ar Hafod Eryri
- £1k perthnasol i grant TAIS Nant Peris
- £415k Cynllyn LIFE – grant Dwr Cymru
- £32k Cynllyn Adfer Natur – Grant Llywodraeth Cymru

## 30. Partïon Cysylltiedig

Mae gofyn i'r Awdurdod ddatgelu trafodion materol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu ar yr Awdurdod neu i gael eu rheoli neu eu dylanwadu arnynt gan yr Awdurdod. Mae datgeliadau o'r trafodion hyn yn caniatáu i ddarllenwyr asesu i ba raddau y gallai'r Awdurdod fod wedi'i gyfyngu yn ei allu i weithredu yn annibynnol neu yr oedd wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu gallu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Awdurdod.

### Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n cael dylanwad sylweddol trwy ddeddfwriaeth ac arian grant. Datgelir y symiau perthnasol yn nodiadau 12 ("incwm grant amhenodol") a 29 ("incwm grant").

### Aelodau

Mae gan Aelodau'r Awdurdod reolaeth uniongyrchol dros bolisïau ariannol a gweithredol yr Awdurdod. Cofnodir manylion buddiannau'r aelodau yng nghofrestriadau'r Gofrestr Aelodau, y gellir eu harchwilio gan y cyhoedd yn swyddfeydd yr Awdurdod yn ystod oriau gwaith.

Mae aelodau wedi datgan diddordeb neu berthynas (fel y diffinwyd) mewn cwmniau, busnesau a seflydliadau, cyrff cyhoeddus ac awdurdodau.

Mae crynodeb o daliadau perthnasol yn ystod 2023/24, a balansau ar 31 Mawrth 2024 fel y ganlyn:

| Gwariant | Symiau sydd yn ddyledus gan yr Awdurdod | Incwm | Symiau sydd yn ddyledus i'r Awdurdod |
|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| 451 | 80 | 1,439 | 11 |

**Cyrff Cyhoeddus Eraill**
Mae’r Awdurdodau cyfansoddiadol hynny lle mae terfyn yr Awdurdod hwn yn rhedeg o fewn eu terfynau hwy yn cyfrannu at gyllid yr Awdurdod trwy lefi statudol a ddynodir gan Lywodraeth Cymru. Mae’r Awdurdodau hyn yn cyflenwi nifer o Aelodau i wasanaethu ar Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ac mae’r nifer yn cyfateb yn fras i faint y lefi a gyfrennir a maint eu hardal o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae cynrychiolaeth 18 aelod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi ei rannu fel a ganlyn - Cyngor Gwynedd (9), Cyngor Conwy (3), Llywodraeth Cymru (6). Mae manylion pellach i’w cael o raglen yr Awdurdod ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhelir ym mis Mehefin.

Yn ogystal derbynnir grantiau ar gyfer dibenion penodol gan neu drwy gyfrwng awdurdodau lleol a dangosir cyfanswm rhain yn nodyn 29.

**Swyddogion**

Mae swyddogion wedi datgan diddordeb neu berthynas (fel y diffinwyd) mewn cwmniau, busnesau a seflydliadau, cyrff cyhoeddus ac awdurdodau. Mae crynodeb o daliadau perthnasol yn ystod 2023/24, a balansau ar 31 Mawrth 2024 fel y ganlyn:

| Gwariant | Symiau sydd yn ddyledus gan yr Awdurdod | Incwm | Symiau sydd yn ddyledus i'r Awdurdod |
|---|---|---|---|
| £ | £ | £ | £ |
| 141 | - | - | - |

Mae Prif Swyddog Cyllid yr Awdurdod hefyd yn Bennaeth Cyllid yng Nghyngor Gwynedd.

**Endidau a reolir neu y dylanwadir yn sylweddol arnynt gan yr Awdurdod**
Mae'r Awdurdod yn rhoi grantiau i gyrff at ddibennion penodol trwy Gronfa Partneriaethau Eryri ond ni ystyrir fod gan yr Awdurdod reolaeth, rheolaeth ar y cyd na ddylanwad sylweddol ar y cyrff hyn.

Roedd gan yr Awdurdod gontractau gyda Chyngor Gwynedd i ddarparu'r gwasanaethau canlynol yn ystod 2023/24:

- Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn a Gwasanaeth Cefnogol y Gyflogres (£6k)
- Gwasanaeth Archwilio Mewnol (8k)
- Cefnogaeth dros dro adran gyllid (£62k)

Mae gan yr Awdurdod fuddiant mewn Partneriaeth Rhwymedigaeth Cyfyngedig (Partneriaeth Parciau Cenedlaethol) ar y cyd gyda 14 o'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill gyda'r diben o gynhyrchu incwm yn bennaf o nawdd. Mae corff elusennol wedi ei sefydlu sydd yn ategol i'r Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol ar gyfer codi arian i'r parciau cenedlaethol.

## 31. Gwariant Cyfalaf a Chyllido Cyfalaf

Gweler y cyfanswm o wariant cyfalaf yr aethpwyd iddo yn y flwyddyn yn y tabl isod, ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w gyllido.

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| - | **Gofynion Cyllido Cyfalaf Agoriadol** | - |
| | | |
| | **Buddsoddiadau Cyfalaf** | |
| | **Eiddo, Peiriannau ac Offer** | |
| | | |
| | **Cynllunio, Treftadaeth Diwylliannol a Rheoli Tir** | |
| 10 | Ysgwrn | - |
| | | 2 |
| 3 | System Gwasanaeth Cynllunio | 43 |
| 35 | Cerbydau | - |
| - | Twristiaeth | 74 |
| 4 | Coedlannau | 1 |
| **52** | | **120** |
| | **Corfforaethol (cynnwys Cyfarthrebu)** | |
| 153 | Uwchraddio maesydd parcio | - |
| 117 | Uwchraddio cyfleusterau cyhoeddus | 4 |
| - | | 4 |
| 10 | T.G - rhaglen amnewid gyffredinol | - |
| 17 | Gwefan Newydd | - |
| 20 | Canolfan Wybodaeth Betws y Coed | 3 |
| 34 | T.G (Cynnluniau Grant Llyw.Cymru a T.C.Ll.C) | 17 |
| 17 | Morfa Mawddach | - |
| 13 | Dadcarboneiddio | - |
| 7 | Dadcarboneiddio | - |
| | | 22 |
| | | 256 |
| 6 | Cyflenwad Trydan i Geir | 5 |
| 21 | Plas Tan y Bwlch gwelliannau | 230 |
| 12 | Hafod Eryri | 244 |
| - | | 6 |
| **427** | | **791** |
| | | |
| **479** | | **911** |

| 2022/23 £'000 | Gwariant Refeniw Gyllidir o Gyfalaf dan Statud | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| | **Cynllunio a Rheoli Tir** | |
| 129 | Cynlluniau Amgylched Adeiledig | 15 |
| 323 | Treftadaeth Treflun Dolgellau | 252 |
| 84 | Prosiect Awyr Dywyll | - |
| 1 | Coedlannau (grant T.C.LL.C) | 1 |
| 3 | Bioamrywiaeth (grant Ll.C) | - |
| 62 | Prosiectau Amaeth a Chadwraeth | - |
| 122 | Terfynnau Traddodiadol (grant T.C.LL.C) | 194 |
| 93 | Natur Eryri (grant T.C.LL.C) | 126 |
| 77 | Prosiect Ty Natur | 27 |
| 33 | Llwybr Carneddau | 33 |
| - | Biodiversity (Welsh Govt. grant) | 1 |
| - | Harlech Restoration programme | 54 |
| - | MIND THE GAP | 42 |
| - | | 221 |
| **894** | | **966** |
| | **Corfforaethol** | |
| 74 | Gwelliannau Mynediad | - |
| 5 | Nant Gwynant | - |
| 1 | Bwlch Mawr - Brithdir | - |
| 17 | Brithdir - Pen Ceunant | - |
| 76 | Cadair Idris | 80 |
| 11 | Crafnant - Capel Currig (grant T.C.LL.C) | - |
| 20 | Cronfa Cymunedol Eryri | 20 |
| 1 | Eryri Cymunedol (grant T.C.LL.C) | 85 |
| 50 | Twristiaeth Eryri (grant T.C.LL.C) | 41 |
| **287** | | **226** |
| | | |
| **1,181** | Cyfanswm REFCUS | **1,192** |
| | | |
| **1,659** | **Cyfanswm gwariant** | **2,102** |
| | **Ffynhonellau Cyllid** | |
| | | |
| (1,532) | Grantiau Llywodreath a Chyfraniadau Eraill | (2,377) |
| (405) | Grant a Dderbyniwyd mewn blynyddoedd blaenorol a defnyddiwyd yn 2021/22 | (532) |
| 95 | Ffi Gweinyddol T.C.Ll.C | 149 |
| 457 | Grantiau ymlaen llaw dderbyniwyd 2021/22 | 659 |
| (274) | Symiau a neilltwyd o Refeniw: Cyfraniadau Refeniw Uniongyrchol | (1) |
| **(1,659)** | | **(2,102)** |
| | | |
| | **Gofyniad Cyllido Cyfalaf Terfynol** | |
| **-** | **Cynydd/ Gostyngiad yng ngofyniad Cyllido Cyfalaf** | **-** |

O’r cyfanswm gwariant o £2,102k (£1,659k yn 2022/23), mae £1,191k (£1,181k yn 2022/23) yn gysylltiedig ag asedau sefydlog nad ydynt ym mherchnogaeth yr Awdurdod. Mae’r cyllid grantiau a chyfraniadau cysylltiedig yn £934k (£996k yn 2022/23). Felly mae’r gwariant refeniw net a gyllidir o gyfalaf dan statud yn £257k (£185k yn 2022/23).

## 32. Prydlesau

### YR AWDURDOD FEL DALIWR PRYDLES

Prydlesau Ariannol

Nid oes gan yr Awdurdod fel daliwr prydles unrhyw brydlesau ariannol.

Prydlesau Gweithredol

Mae gan yr Awdurdod brydlesau gweithredol yn ymwneud â cherbydau, llungopïwyr, a pheiriannau ffrancio.

Mae’r isafswm taliadau prydles i’r dyfodol o dan brydlesau na ellir eu diddymu mewn blynyddoedd i ddod yn:

| **31 Mawrth 2023** | | **31 Mawrth 2024** |
|---|---|---|
| **£’000** | | **£’000** |
| 131 | Dim hwyrach nag 1 flwyddyn | 95 |
| 281 | Hwyrach nag 1 flwyddyn a dim hwyrach na 5 mlynedd | 224 |
| 11,631 | Hwyrach na 5 mlynedd | 13,055 |
| **12,043** | **Cyfanswm** | **13,374** |

Codwyd costau prydles o £55,069 (£63,164 yn 2022/23) ar **offer** ar y Gyfarwyddiaeth Corfforaethol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn.

Codwyd costau prydles o £80,026 (£94,415 yn 2022/23) ar **eiddo** yn erbyn Corfforaethol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn.

**AWDURDOD FEL PRYDLESWR**

Prydlesau Ariannol

Nid oes gan yr Awdurdod drefniant prydles ariannol ar 31/3/2024.

Prydlesau Gweithredol

Mae'r Awdurdod yn prydlesu eiddo dan brydlesau gweithredol i'r pwrpasau canlynol: masnachol, rhenti daear ar hafotai ym Mhlas Tan y Bwlch, llety swyddfa, pori a hamdden/ mynediad.

Roedd yr incwm derbyniadwy am 2023/24 yn £102,948 (£60,875 yn 2022/23).

Yr isafswm taliadau prydles i'r dyfodol sy'n dderbyniadwy dan brydlesau na ellir eu diddymu mewn blynyddoedd i ddod yw:

| 31 Mawrth 2023 | | 31 Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 128 | Dim hwyrach nag 1 flwyddyn | 152 |
| 420 | Hwyrach nag 1 flwyddyn a dim hwyrach na 5 mlynedd | 510 |
| 75,723 | Hwyrach na 5 mlynedd | 101,989 |
| **76,271** | **Cyfanswm** | **102,652** |

Mae'r ffigyrau yn ddarostyngedig i effaith adolygiadau rhent, a'r incwm a gynhyrchir ynghyd â niferoedd ymwelwyr ar gyfer Hafod Eryri.

Mae'r taliad dibrisiant cysylltiedig ar yr asedau perthnasol i brydlesau gweithredol yn £37,569 (2022/23 £37,569).

## 33. Colledion Amhariad

Bu colledion amhariad gwerth £776k ar eiddo ac offer yn ystod 2023/24. Roedd y colledion yn bennaf o ganlyniad gwariant cyfalaf di-wella.

## 34. Rhwymedigaethau Amodol

Ar 31 Mawrth 2024 nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw rhwymedigaeth amodol.

## 35. Natur a maint risgiau'n deillio o offerynnau cyllidol

Gall gweithgareddau'r Awdurdod ei wneud yn agored i amrywiaeth o risgiau ariannol:

- **Risg credyd** – y posibilrwydd y gall partïon eraill fethu â thalu symiau dyledus i'r Awdurdod,
- **Risg hylifedd** – y posibilrwydd na fydd gan yr Awdurdod arian ar gael i gwrdd â'i ymrwymiadau i wneud taliadau,
- **Risg marchnad** – y posibilrwydd y gall yr Awdurdod ddioddef colled ariannol o ganlyniad i newid mewn mesurau fel graddfeydd llog. Gall newid yn y gyfradd gyfnewid dramor olygu risg sylweddol o fewn y prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd (LIFE).

Rheolwyd y risgiau uchod drwy drefniadau adennill dyledion yr Awdurdod a'r Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, gyda dim effaith negyddol o sylwedd yn 2023/24. Mae gwerth offerynnau cyllidol yr Awdurdod yr un fath a'u gwerth teg.

## 36. Y Gronfa Bensiwn

### Cyfranogi mewn Cynlluniau Pensiwn

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Awdurdod yn gwneud cyfraniadau tuag at gost buddiannau ôl gyflogaeth. Er na fydd y buddiannau hyn yn daladwy hyd nes bo'r gweithwyr yn ymddeol, mae gan yr Awdurdod ymrwymiad i wneud y taliadau sydd angen eu datgelu ar yr adeg mae gweithwyr yn ennill eu hawl i'r dyfodol.

Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn dau gynllun ôl gyflogaeth :

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd - mae hwn yn gynllun buddiant diffiniedig cyflog terfynol a ariennir, sy'n golygu fod yr Awdurdod a gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, a gyfrifir ar lefel y bwriedir iddi gydbwyso'r rhwymedigaethau pensiwn gydag asedau buddsoddi.

- Ôl fuddiannau ymddeol disgresiwn wrth ymddeol yn gynnar. Mae hwn yn drefniant buddiant diffiniedig heb ei gyllido, y cydnabyddir rhwymedigaethau iddo pan fo'r dyfarniadau wedi eu gwneud. Ni adeiladwyd unrhyw asedau buddsoddi i gwrdd â'r rhwymedigaethau pensiynau hyn, a rhaid cynhyrchu arian i gwrdd â'r taliadau pensiwn gwirioneddol fel y dônt yn ddyledus. Mae gan yr Awdurdod rwymedigaeth flynyddol wedi ei seilio ar ddyfarniadau yn y gorffennol a wnaethpwyd dan y trefniadau hyn, ond nid yw wedi ychwanegu at y rhwymedigaeth hon mewn blynyddoedd diweddar. Yn hytrach, cydnabyddir unrhyw rwymedigaeth bensiwn ychwanegol sy'n deillio o ganiatáu ymddeol yn gynnar a'i dalu yn y flwyddyn benodol honno.

## Trafodion yn Gysylltiedig â Buddiannau ôl Gyflogaeth

Rydym yn cydnabod cost buddiannau ymddeol yn y gost gwasanaethau sy'n destun adroddiad pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan fo'r fath fuddiannau'n cael eu talu yn y pen draw fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r tâl y mae gofyn i ni ei godi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol wedi ei seilio ar yr arian sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly mae cost gwirioneddol ôl gyflogaeth /buddiannau ymddeol yn cael ei wyrdroi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn.

**Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir ac Ymrwymiad Net am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024.**

| **Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2024** | **Asedau** | **Ymrwymiadau** | **(Ymrwymiadau)/ asedau Net** |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwerth Teg asedau'r cyflogwr | 45,129 | 0 | 45,129 |
| Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu | 0 | 32,356 | (32,356) |
| Gwerth presennol ymrwymiadau heb eu hariannu | 0 | 283 | (283) |
| Effaith y nenfwd asedau | 0 | 0 | (12,427) |
| **Sefyllfa Agoriadol ar 31 Mawrth 2023** | **45,129** | **32,639** | **63** |
| Cost Gwasanaeth | | | |
| - Cost Gwasanaeth Cyfredol * | 0 | 797 | (797) |
| - Cost Gwasanaeth Hanesyddol ( yn cynnwys cwtogiadau) | 0 | 0 | (0) |
| **Cyfanswm Cost Gwasanaeth** | | **797** | **(797)** |
| Llog Net | | | |
| - Incwm llog ar asedau'r cynllun | 2,141 | 0 | 2,141 |
| - Cost llog ar ymrwymiad buddion a ddiffinnir | 0 | 1,548 | (1,548) |
| - Llog ar Effaith y nenfwd asedau | 0 | 0 | (590) |
| **Cyfanswm Llog Net** | **2,141** | **1,548** | **3** |
| **Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)** | **2,141** | **2,548** | **(794)** |
| Llif Arian | | | |
| - Cyfraniadau Aelodau'r Cynllun | 266 | 266 | 0 |
| - Cyfraniadau'r Cyflogwr | 755 | 0 | 755 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| - Buddion a dalwyd | (1,139) | (1,139) | 0 |
| - Buddion heb eu hariannu a dalwyd | (28) | (28) | 0 |
| - Cyfraniadau ynglŷn â buddion heb eu hariannu | 28 | 0 | 28 |
| **Sefyllfa cau a ddisgwylir** | **47,152** | **34,083** | **52** |
| Ail Fesuriadau | | | |
| - Newid mewn rhagdybiaethau demograffig | 0 | (2,040) | (2,040) |
| - Newid mewn rhagdybiaethau ariannol | 0 | (190) | 190 |
| - Profiadau eraill | | 988 | (988) |
| - Enillion ar Asedau ag eithro symiau a gynhwysir yn y llog net | 2,720 | 0 | 2,720 |
| - Newidiadau i effaith y nenfwd asedau | 0 | 0 | (4,474) |
| **Cyfanswm yr holl ail-fesuriadau yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)** | **2,902** | **(1,242)** | **(330)** |
| Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr | 50,054 | 0 | 50,054 |
| Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu | 0 | 32,563 | (32,563) |
| Gwerth presennol ymrwymiadau heb eu hariannu | 0 | 278 | (17,491) |
| **Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth 2024** | **50,054** | **32,846** | **(278)** |

## Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir ac Ymrwymiad Net am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023.

| Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2023 | Asedau | Ymrwymiadau | (Ymrwymiadau)/ asedau Net |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwerth Teg asedau'r cyflogwr | 45,786 | 0 | 45,786 |
| Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu | 0 | 46,306 | (46,306) |
| Gwerth presennol ymrwymiadau heb eu hariannu | 0 | 364 | (364) |
| **Sefyllfa Agoriadol ar 31 Mawrth 2022** | **45,786** | **46,670** | **(884)** |
| Cost Gwasanaeth | | | |
| - Cost Gwasanaeth Cyfredol * | 0 | 1,754 | (1,754) |
| - Cost Gwasanaeth Hanesyddol ( yn cynnwys cwtogiadau) | 0 | 0 | (0) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Cost Gwasanaeth** | | **1,754** | **(1,754)** |
| Llog Net | | | |
| - Incwm llog ar asedau'r cynllun | 1,236 | 0 | 1,236 |
| - Cost llog ar ymrwymiad buddion a ddiffinnir | 0 | 1,272 | (1,272) |
| **Cyfanswm Llog Net** | **1,236** | **1,272** | **(36)** |
| **Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)** | **1,236** | **3,026** | **(1,790)** |
| Llif Arian | | | |
| - Cyfraniadau Aelodau'r Cynllun | 245 | 245 | 0 |
| - Cyfraniadau'r Cyflogwr | 757 | 0 | 757 |
| - Buddion a dalwyd | (983) | (983) | 0 |
| - Buddion heb eu hariannu a dalwyd | (26) | (26) | 0 |
| - Cyfraniadau ynglŷn â buddion heb eu hariannu | 26 | 0 | 26 |
| **Sefyllfa cau a ddisgwylir** | **47,041** | **48,932** | **(1,891)** |
| Ail Fesuriadau | | | |
| - Newid mewn rhagdybiaethau demograffig | 0 | (282) | (282) |
| - Newid mewn rhagdybiaethau ariannol | 0 | (18,420) | (18,420) |
| - Profiadau eraill | 0 | 2,409 | (2,409) |
| - Enillion ar Asedau ag eithro symiau a gynhwysir yn y llog net | (1,912) | 0 | (1,912) |
| **Cyfanswm yr holl ail-fesuriadau yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)** | **(1,912)** | **(16,293)** | **14,381** |
| Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr | 45,129 | 0 | 45,129 |
| Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu | 0 | 32,356 | (32,356) |
| Gwerth presennol ymrwymiadau heb eu hariannu | 0 | 283 | (283) |
| Effaith nenfwd asedau | 0 | 0 | (12,427) |
| **Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth 2023** | **45,129** | **32,639** | **63** |

Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.5% am gostau gweinyddol.

Mae'r atebolrwydd hwn yn cynnwys oddeutu £278k mewn perthynas â phensiynau heb eu hariannu gan CPLIL a £0 mewn perthynas â phensiynau heb eu hariannu gan Athrawon. O ran rhwymedigaethau heb eu hariannu ar 31 Mawrth 2024, tybir fod pob pensiwn sydd heb ei ariannu yn daladwy am weddill bywyd yr aelod. Tybir ymhellach

fod 90% o bensiynwyr yn briod (neu'n cyd fyw) pan fyddant yn marw a bod eu priod (neu un sy'n cyd-fyw) yn derbyn 50% o bensiwn yr aelod ar ddyddiad marwolaeth yr aelod.

## Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion Diffynadwy

| | Rhaniad ymrwymiad | | Cyfnod Cyfartalog wedi ei Bwysoli adeg y Prisiad Diwethaf. |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **(%)** | |
| Aelodau gweithredol | 3,366 | 76 | 51 |
| Aelodau gohiriedig | 295 | 7 | 52 |
| Aelodau pensiynwyr | 773 | 17 | 68 |
| **Cyfanswm** | **4,434** | **100** | |

(Mae'r ffigyrau ar gyfer ymrwymiadau heb eu hariannu yn unig ac yn hepgor ymrwymiadau pensiynwyr heb eu hariannu. Mae hyd yr ymrwymiad yn weithredol ar sail y prisiad ffurfiol diwethaf ar 31 Mawrth 2022).

## Hanes y Cynllun

| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | (43,173) | (36,804) | (48,952) | (46,670) | (32,639) | (32,841) |
| Gwerth Teg Asedau yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | 35,421 | 32,215 | 41,635 | 45,786 | 45,129 | 49,872 |
| **Gwarged / (diffyg) yn y cynllun :** | **(7,752)** | **(4,589)** | **(7,317)** | **(884)** | **12,490** | **17,031** |
| Effaith IAS19/ IFRIC 14 | | | | | (12,427) | (17,031) |
| **Ased Newydd** | | | | | **63** | **0** |

Mae prisiad actiwariadol cynllun pensiwn yr Awdurdod, fel y'i hadlewyrchir yn Rhwymedigaeth Bensiwn a Chronfa Wrth Gefn y Pensiwn ar y Fantolen, yn nodi rhwymedigaeth bensiwn net. Serch hynny, ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, daeth actiwari'r Awdurdod, Hymans Robertson LLP, i'r casgliad bod gwerth teg asedau'r cynllun yn fwy na gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun, gan arwain at sefyllfa ased bensiwn net.

Yn unol â IAS 19 *Buddion Gweithwyr* ac IFRIC 14, lle ceir gwarged, rhaid cydnabod yr ased bensiwn fel yr isaf o: (i) y gwarged a gyfrifwyd o fewn y cynllun buddion diffiniedig; a (ii) y terfyn ased. Mae'r terfyn ased yn cynrychioli gwerth presennol y buddion economaidd sydd ar gael i'r Awdurdod, naill ai ar ffurf ad-daliadau o'r cynllun neu leihad mewn cyfraniadau yn y dyfodol. O dan y rheoliadau perthnasol, ni all y terfyn ased fod yn fwy na £0 mewn perthynas â rhwymedigaethau wedi'u hariannu, gyda rhwymedigaethau heb eu hariannu'n cael eu hasesu ar wahân.

Mae actiwari'r Awdurdod wedi pennu'r terfyn ased fel gwerth presennol net costau gwasanaeth yn y dyfodol, llai gwerth presennol net y cyfraniadau disgwyliedig yn y dyfodol. Ar gyfer 2023/24, mae'r asesiad hwn yn dangos bod cyfraniadau gwasanaeth yn y dyfodol yn uwch na'r costau gwasanaeth cysylltiedig, ac felly nad oes unrhyw fudd economaidd ar gael i'r Awdurdod. O ganlyniad, mae'r terfyn ased wedi'i gyfyngu i £0, cyn

ystyried unrhyw rwymedigaethau heb eu hariannu. Mae'r Awdurdod yn dibynnu ar farn broffesiynol yr Actiwari, ynghyd â'r rhagdybiaethau actiwariadol a gymhwysir wrth bennu'r prisiadau hyn.

Mae cyfanswm cyfraniadau gan yr Awdurdod, fel yr amcangyfrifir gan yr Actwari, am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024 yn £783k. Mae'r Actiwari yn amcangyfrif y bydd cost cyfraniadau'r cyflogwr am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2024 yn £783k.

Nid oes gan y trefniadau  Buddiannau Disgresiwn unrhyw asedau i ymdrin â'u rhwymedigaethau. Mae asedau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cynnwys y categorïau canlynol, fesul cyfran o'r cyfanswm ac asedau sy'n cael eu dal :

| **31 Mawrth 2023** | | **31 Mawrth 2024** |
|---|---|---|
| **(%)** | | **(%)** |
| 68 | Buddsoddiadau ecwiti | 62 |
| 23 | Buddsoddiadau dyled | 28 |
| 9 | Eiddo | 7 |
| 0 | Chwyddiant | 2 |
| 1 | Arian | 1 |
| **100** | | **100** |

## Prif Gategoriau Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun

Mae'r actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion IAS19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheiny sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheiny nad oes ganddynt. Tybir bod rhaniad asedau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar yr un gyfran â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2022. Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad. Mae'r actiwari yn amcangyfrif bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £49,873k ar 31 Mawrth 2024, yn seliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddol a chan roi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol.

## Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod ar sail gwerth bid yn unol â gofynion IAS19.

| **Categori Ased** | **31 Mawrth 2024** | | | | **31 Mawrth 2023** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Prisiau a ddyfynnir mewn marchnad-oedd gweithredol** | **Prisiau na ddyfynnir mewn marchnad-oedd gweithred-ol** | **Cyf.** | **%** | **Prisiau a ddyfynnir mewn marchnado-edd gweithredol** | **Prisiau na ddyfynnir mewn marchnado-edd gweithredol** | **Cyf.** | **%** |
| | **(£'000)** | **(£'000)** | **(£'000)** | | **(£'000)** | **(£'000)** | **(£'000)** | |
| **Ernesau Ecwiti :** | | | | | | | | |
| Defnyddiwr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynhyrchu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ynni a gwasanaethau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sefydliadau ariannol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Iechyd a Gofal | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Ernesau Dyled** | | | | | | | | |
| Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Ecwiti Preifat** | | | | | | | | |
| Y cyfan | 0 | 2,593.2 | 2,593.2 | 6 | 0 | 2,841.10 | 2,841.10 | 6 |
| **Eiddo Diriaethol :** | | | | | | | | |
| Eiddo y DU | 0 | 3,473.2 | 3,473.5 | 9 | 0 | 3,719.3 | 3.719.3 | 9 |
| Eiddo Tramor | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Unedol :** | | | | | | | | |
| Ecwiti | 0 | 27,753.5 | 27,753.5 | 62 | 0 | 28,094.3 | 28,094.3 | 64 |
| Bondiau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Is-adeiladwaith | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 1,281.3 | 1,281.3 | 2 |
| Eraill | 0 | 14,178.9 | 14,178.9 | 28 | 0 | 9,052.2 | 9,052.2 | 20 |
| **Arian a Chywerthoedd Arian :** | | | | | | | | |
| Y cyfan | 0 | 642.8 | 642.8 | 0 | 240.0 | 0 | 240.0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **0** | **49,872** | **49,872** | **100** | **240.0** | **44,988** | **45,129** | **100** |

## Sail ar Gyfer Amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau

Aseswyd rhwymedigaethau ar sail actwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanedig, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy mewn blynyddoedd i ddod gan ddibynnu ar ragdybiaethau ynghylch graddfeydd marwoledd, lefelau cyflog, ayb. Mae rhwymedigaethau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Buddiannau Disgresiwn wedi eu hasesu gan Hymans Robertson, cwmni annibynnol o actwaryddion, gyda'r rhagamcanion i Gronfa'r Awdurdod wedi ei seilio ar y gwerthusiad llawn olaf o'r cynllun ar 31 Mawrth 2022.

Y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actwari oedd :

| | **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** | |
|---|---|---|
| | **2023/24** | **2022/23** |
| Graddfa dychweliad disgwyliedig tymor hir ar asedau yn y cynllun : | 4.75% | 4.75% |
| | | |
| Rhagdybiaethau Marwoledd : | | |
| Hirhoedledd yn 65 i bensiynwyr presennol : | | |
| Dynion | 21.4 blynedd | 21.5 blynedd |
| Merched | 23.7 blynedd | 23.9 blynedd |
| Hirhoedledd yn 65 i bensiynwyr y dyfodol : | | |
| Dynion | 21.8 blynedd | 22.0 blynedd |
| • Merched | 25.6 blynedd | 25.8 blynedd |
| • Graddfa chwyddiant (CPI) | 2.75% | 2.95% |
| Graddfa cynnydd mewn cyflogau | 3.25% | 3.45% |
| • Graddfa cynnydd mewn pensiynau | 2.75% | 2.95% |
| • Graddfa ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun | 4.85% | 4.95% |
| Defnyddio'r opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeoliad | 65% cyn gwasanaeth 1/4/2014 a 65% ôl gwasanaeth 1/4/2014. | 65% cyn gwasanaeth 1/4/2014 a 65% ôl gwasanaeth 1/4/2014. |

Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaethau buddion diffinedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actwaraidd sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintioli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r actwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymiadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2022 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigyrau IAS19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwy meintioli'r ansicrwydd ynghylch disgwyliad hyd oes, mae'r actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Awdurdod pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o thua 2%-4% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynnol ar strwythr y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn). Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth yr Awdurdod fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022, dyddiad y prisiad actwaraidd diweddaraf. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn cynt.

| **Effaith ar Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir yn y Cynllun** | | |
|---|---|---|
| **Newid tybiaeth** | **Brasamcan cynnydd i'r Cyflogwr** | **Brasamcan swm ariannol** |
| | **31 Mawrth 2024** | **31 Mawrth 2024** |
| | **(%)** | **(£'000)** |
| Lleihad 0.1% i'r gwir gyfradd disgownt | 2 | 629 |
| Cynnydd disgwyliad oes o 1 blwyddyn | 4 | 1,314 |
| Cynnydd 0.1% i'r cyfradd codiad cyflog | 0 | 85 |
| Cynnydd 0.1% i'r cyfradd codiad pensiwn | 2 | 555 |

## Rhagolwg Cost Buddion a Ddiffinnir am y cyfnod i 31 Mawrth 2024

| | **Asedau** | **Ymrwymiadau** | **(ymrwymiad) / ased Net** | |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **% of pay** |
| Rhagolwg Cost Gwasanaeth Cyfredol* | 0 | 696 | (696) | (16.4%) |
| Cost Gwasanaeth Hanesyddol yn cynnwys cwtogiadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Effaith setliadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cost Gwasanaeth** | **0** | **696** | **(696)** | **(16.4%)** |
| Incwm llog ar asedau'r cynllun | 2,419 | 0 | 2,419 | 57.1% |
| Cost llog ar yr ymrwymiad budd a ddiffinnir | 0 | 1,591 | (1,591) | (37.5%) |
| **Cyfanswm Cost Net Llog** | **2,419** | **1,591** | **828** | **(19.6%)** |
| **Cyfanswm wedi ei gynnwys yn yr elw a cholledion** | **2,419** | **1,591** | **132** | **3.2%** |

* *Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans am dreuliau gweinyddol megis 0.6% o'r gyflogres. Mae'r gwerth ariannol yn seliedig ar amcan gwerth y gyflogres o £4,239k.*

Gosodir y cyfraniadau a delir gan y Cyflogwr gan Actiwari y Gronfa bob tair blynedd ar adeg prisiad actwiarial y Gronfa (yr un mwyaf diweddar ar 31 Mawrth 2022), neu ar unrhyw adeg arall yn unol â chyfarwyddid yr Awdurdod sy’n gweinyddu’r Gronfa.

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023-24

Mae'r datganiad hwn yn diwallu'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol
yn unol â Rheoliad 4 o
Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd yn 2010)

## Cyflwyniad

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau'n cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, ac yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ddarostyngedig i Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i bennu Amcanion Lles sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r 7 Nodau Lles fel y nodir yn y Ddeddf, sef:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Ar ben hynny, mae'n rhaid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyflawni ei ddyletswyddau yn unol ag 'egwyddor cynaliadwyedd statudol', sy'n golygu bod yn rhaid i'r Awdurdod weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau eang hyn, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, hwyluso gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cymeradwyo a mabwysiadu cod llywodraethu corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA / Solace "Delivering Good Governance in Local Government". Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r cod a hefyd yn cwrdd â gofynion rheoliad 5(2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad rheolaeth fewnol.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol wedi'i adolygu a'i ddiweddaru, fel rhan o adolygiad mwy ar drefniadau llywodraethu'r Awdurdod yn 2021/22. Mabwysiadwyd y Cod Llywodraethu Corfforaethol newydd yn ffurfiol gan yr Awdurdod ym mis Ebrill 2022.

## Pwrpas y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd hynny sy'n cyfeirio ac yn rheoli'r awdurdod, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu ag, ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith hwnnw ac mae wedi'i ddylunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion; gall felly ond darparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n adnabod ac yn blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, i werthuso'r tebygolrwydd i'r risgiau hynny gael eu gwireddu a'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

## Y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys saith egwyddor i lywodraethu'n dda:

- **Egwyddor 1:** Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf tuag at werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith
- **Egwyddor 2:** Sicrhau ein bod yn agored ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gyfrwng dull cynhwysfawr
- **Egwyddor 3:** Diffinio canlyniadau yn nhermau'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
- **Egwyddor 4:** Penderfynu ar ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r canlyniadau a fwriedir
- **Egwyddor 5:** Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo
- **Egwyddor 6:** Rheoli risgiau a pherfformiad trwy gyfrwng rheolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref
- **Egwyddor 7:** Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn datblygu ac yn gweithredu ei gynllunio corfforaethol strategol trwy fabwysiadu:

- Cynllun Eryri (Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol);
- Cynllun Datblygu Lleol Eryri;
- Datganiad Llesiant ac Amcanion Llesiant; a
- Rhaglen Waith Corfforaethol.

Mae'r 4 dogfen yma yn cynrychioli conglfaen gwaith yr Awdurdod wrth gyflawni ei brif bwrpasau, fel y diffinnir yn Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ac wrth weithredu ei weledigaeth.

Strwythur Llywodraethu

Mae strwythur llywodraethu'r Awdurdod yn cynnwys 4 prif bwyllgor:

- Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyda 18 o Aelodau a benodwyd, ac yn ystod 2022/23 cynhaliwyd 5 cyfarfod.
- Cynhaliwyd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau 3 gwaith yn ystod 2023/24. Fel rhan o'i gylch gwaith mae'n ymgymryd â swyddogaethau pwyllgor archwilio yn unol â gofynion CIPFA.
- Cynhaliwyd y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad 8 gwaith yn ystod 2023/24. Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau cynllunio statudol yr Awdurdod.
- Cynhaliwyd y Pwyllgor Safonau'r Awdurdod dwywaith yn ystod 2023/24. Mae aelodaeth y pwyllgor, sydd gyda gylch gwaith i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau, yn cynnwys 3 Aelod o'r Awdurdod a 3 aelod annibynnol.

Mae'r Rheolau Sefydlog yr Awdurdod (a gyhoeddwyd ar y wefan) yn rhoi disgrifiad manwl o'r trefniadau ar gyfer pob pwyllgor. Ar gyfer pob pwyllgor, mae'r rhaglen, cofnodion ac adroddiadau cysylltiedig â phapurau cefndir i gyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

Tîm Rheoli

Mae strwythur rheoli'r Awdurdod yn cynnwys y Prif Weithredwr (sydd hefyd yn 'Swyddog y Parc Cenedlaethol' ac yn Bennaeth y Gwasanaeth Taledig) a dau Gyfarwyddwr. Mae Tîm Rheoli'r Awdurdod yn cyfarfod bob pythefnos, gyda'r Pennaeth Cyllid a Phennaeth Adnoddau Dynol yn mynychu.

Safonau

Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Cod Ymddygiad i Aelodau, sy'n cynnwys adran sy'n cyfeirio'n benodol at fuddiannau a Chofrestr Buddiannau Aelodau. Y Cod Ymddygiad i staff yw'r cod ymddygiad safonol cenedlaethol ar gyfer cyflogeion awdurdodau cyhoeddus.

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu'r polisïau a gweithdrefnau canlynol ar gyfer cynnal safonau uchel o ymddygiad ar gyfer staff ac Aelodau, ac i sicrhau atebolrwydd tuag at y cyhoedd:

- Y Drefn Gwyno – wedi'i sefydlu ar fodel drefn cwynion ymarfer da gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru;

- Polisi Seinio Rhybudd - i alluogi staff i leisio pryderon difrifol yn hyderus gyda'r sicrwydd o wybod y ceir eu hymchwilio yn drwyadl ac mewn ffordd deg, heb ofni dial;
- Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth - yn cynnwys mesurau sydd wedi'u cynllunio i rwystro unrhyw weithred o dwyll neu lygredigaeth, a pha gamau y dylid eu cymryd petai rywbeth o'r fath yn digwydd; ac y
- Cynllun Dirprwyo - yn amlinellu sut mae swyddogaethau'r Awdurdod llawn yn cael eu cyflawni trwy ddirprwyo i'w bwyllgorau a'i is-bwyllgorau

Rheoli Risg

Mae Polisi a Strategaeth Rheoli Risg wedi'i sefydlu. Caiff y broses o adnabod risgiau ei chydlynu gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer, gyda mewnbwn gan y Tîm Rheoli a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Mae'r Gofrestr Risg a'r mesurau lliniaru yn cael eu hadolygu a'i ddiweddaru'n chwarterol.

Archwiliad Mewnol

Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd y system o drefniadau rheolaeth a llywodraethu mewnol yn cael ei lywio gan waith yr Archwilwyr Mewnol, a gynhaliwyd gan Gyngor Gwynedd. Darperir y gwasanaeth Archwilio Mewnolyn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y DU. Mae'r Rheolwr Archwilio Mewnol yn paratoi adroddiad blynyddol sy'n crynhoi canlyniadau gwaith archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn.

Archwiliad Allanol

Archwilio Cymru sy'n gweithredu fel archwilydd allanol i'r Awdurdod, ac felly sy'n adrodd ar reolaeth ariannol a pherfformiad yr Awdurdod. Yn ogystal, mae Archwilio Cymru yn rhoi barn ar ddigonolrwydd y gwaith archwilio mewnol.

Swyddog Monitro

Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol wedi'i enwebu fel Swyddog Monitro. Mae gan y Swyddog Monitro'r ddyletswydd benodol i sicrhau bod Aelodau a benodwyd a Swyddogion yr Awdurdod yn cynnal y safon uchaf o ymddygiad ym mhopeth a wnânt. Mae'r Swyddog Monitro yn cynghori ar drefn gyfansoddiadol a chyfreithlondeb gweithredoedd yr Awdurdod.

Rheolaeth Ariannol

Mae trefniadau rheolaeth ariannol yr Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu Datganiad CIPFA ar Rôl y Prif Swyddog Cyllid mewn Llywodraeth Leol (2016). Y Prif Swyddog Cyllid (sydd yn Brif Swyddog Cyllid Cyngor Gwynedd) yw'r swyddog sydd â chyfrifoldebau o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Yn ystod y flwyddyn, ffurfiolwyd penodiad newydd ar gyfer Swyddog Adran 151 gan yr Awdurdod yn dilyn newid personél yng Nghyngor Gwynedd oherwydd ymddeoliad y deiliad blaenorol.

## Materion Llywodraethu Arwyddocaol a Chamau a Gymerwyd yn ystod y Flwyddyn

Mae'r Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd craidd ar yr Awdurdod i osod amcanion lleisiant sy'n macsimeiddio ein cyfraniad at gyflawni'r 7 nodau llesiant a osodwyd yn y Ddeddf. Dylai amcanion llesiant yr Awdurdod fod yn amcanion ar gyfer newid yn y tymor hir.

Mae Datganiad Llesiant yr Awdurdod ar gyfer 2021-26 yn gosod allan Amcanion Llesiant sy'n disgrifio sut y byddant yn helpu'r Awdurdod i gyflawni'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru.

Mae'r Amcanion Llesiant yn canolbwyntio ar dri maes gwaith allweddol - Amgylcheddau Cydnerth, Cymunedau Cydnerth a Ffyrdd Cydnerth o Weithio - ac maent wedi'u halinio â phump is-thema i roi ffocws, fel yr amlinellir islaw.

Amgylcheddau Cydnerth
1. Gwella rheolaeth hamdden ag unrhyw effeithiau negyddol hamdden.
2. Ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd.
3. Gwella rheolaeth a'r ddealltwriaeth o'n treftadaeth ddiwylliannol.
4. Mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd senarios rheoli tir ar ôl Brexit.
5. Mynd i'r afael â'r dirywiad mewn natur.

Cymunedau Cydnerth
1. Cynnal a chynyddu ansawdd bywyd preswylwyr.
2. Cefnogi pobl ifanc.
3. Hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy i ychwanegu gwerth i gymunedau lleol.
4. Hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg yn weithredol.
5. Datblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad a rheolaeth Eryri fel Parc Cenedlaethol.

Ffyrdd Cydnerth o Weithio
1. Datblygu gweithlu medrus.
2. Datblygu a hyrwyddo arfer gorau.
3. Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth.
4. Moderneiddio trefniadau llywodraethu.
5. Cynnal a gwella dealltwriaeth a chefnogaeth cymunedau lleol tuag at waith y Parc Cenedlaethol.

Bydd angen gweithredu i gwrdd â'n nodau llesiant mewn modd cynaliadwy. Mae datblygu cynaliadwy yn golygu pum gofyniad allweddol, sef:

1. Tymor Hir - pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i gwrdd ag anghenion tymor hir, yn enwedig lle mae'r pethau a wneir i gwrdd ag anghenion tymor byr yn gallu cael effeithiau tymor hir niweidiol.

2. Integreiddio - sut y gall ein nodau llesiant effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, sut y gall y nodau llesiant effeithio ar ei gilydd neu ar nodau llesiant cyrff cyhoeddus eraill, yn enwedig lle y gallai camau a gymerwyd gennym i gyfrannu at gwrdd ag un amcan fod yn niweidiol o ran cwrdd ag un arall.

3. Cynnwys - pwysigrwydd cynnwys pobl eraill sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, ac i sicrhau bod yr unigolion hynny yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru neu ardal ddaearyddol yr Awdurdod.
4. Cydweithio - Gallai gweithredu ar y cyd ag unrhyw unigolyn (neu'r modd y mae gwahanol rannau o'r Awdurdod yn gweithredu gyda'i gilydd) gynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei nodau llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion.
5. Atal - i ystyried sut y gall defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd, neu waethygu, gyfrannu at gwrdd â nodau llesiant yr Awdurdod, neu amcanion corff arall.

Cyflwynwyd y Rhaglen Waith Gorfforaethol ar gyfer 2023/24 i'w chymeradwyo fel dogfen waith gan yr Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 14eg o Fehefin 2023 . Mae'r Rhaglen yn gosod y prosiectau, cynlluniau a chamau gweithredu penodol yr ymgymerir â hwy er mwyn cyflawni Amcanion Llesiant a Blaenoriaethau Gwasanaeth yr Awdurdod.

Adroddwyd ar gynnydd y Rhaglen adrodd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 30ain o Dachwedd a'r 20fed o Fawrth 2024.

## Effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gyfrifol am gynnal, o leiaf unwaith y flwyddyn, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn cael ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwr uwch o fewn yr Awdurdod, sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, a hefyd gan sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol ac asiantaethau adolygu ac arolygiaethau eraill. Mae'r adolygiad hwn yn seiliedig ar y saith egwyddor o'r Cod Llywodraethu Corfforaethol.

**Egwyddor 1:** Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf tuag at werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith

| | |
|---|---|
| **Cod Llywodraethu Corfforaethol** | Cafodd llywodraethu ei graffu'n fanwl yn ystod 2021/22 gan Grŵp Tasg a Gorffen o Swyddogion ac Aelodau a sefydlwyd yn arbennig i'r diben hwn.<br><br>Adolygwyd y Cod Llywodraethu Corfforaethol yn fanwl a'i ailddrafftio gan y Grŵp, i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gonglfaen ar gyfer llywodraethu effeithiol yn y dyfodol.<br><br>Mabwysiadwyd y Cod Llywodraethu diwygiedig yn ffurfiol gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar y 27ain o Ebrill 2022. |
| | |

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor Safonau** | Cyfarfu'r Pwyllgor Safonau ddwywaith yn ystod y flwyddyn.<br><br>Yn y cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd ar yr 28ain o Ebrill 2023, ystyriwyd a chytunwyd ar yr adroddiad blynyddol statudol i'w gyflwyno i Gyfarfod Blynyddol yr Awdurdod, ar sut mae swyddogaethau'r pwyllgor wedi'u cyflawni, a oedd yn cynnwys trosolwg o faterion ymddygiad yn gyffredinol o fewn yr Awdurdod.<br><br>Bu'r cyfarfod hefyd yn ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro ynghylch y monitro a oedd wedi digwydd ar weithrediad y cod ymddygiad ac yn benodol y Datganiadau o Fuddiannau Aelodau. Bu'r cyfarfod hefyd yn ystyried a chytuno ar ymateb i ymgynghoriad ar gyfer Llywodraeth Cymru ar Argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol.<br><br>Yn ail gyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar yr 1af o Fedi 2023, ystyriwyd busnes arferol y Pwyllgor, a oedd yn cynnwys enwebu Aelodau ar gyfer y Panel Apeliadau Graddfa Statws Sengl, Caniatáu Goddefebau ac ystyried Adroddiad Monitro Cwynion Blynyddol yr Awdurdod yn ogystal ag Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.<br><br>Yn yr un cyfarfod, adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor ar ei sylwadau yn dilyn presenoldeb fel sylwedydd ar Bwyllgorau yr Awdurdod i werthuso eu heffeithiolrwydd a'u trefniadau llywodraethu. Calonogwyd y Cadeirydd i nodi bod y pwyllgorau'n gweithredu'n dda, gydag arweiniad cadarn, yr aelodau wedi paratoi'n drylwyr, a dangoswyd parch at gyd-aelodau. |
| | |

| | |
|---|---|
| **Polisi Chwythu'r Chwiban** | Yn ystod 2023/24, ni dderbyniwyd unrhyw adroddiadau ac ni chodwyd unrhyw bryderon mewn perthynas ag unrhyw Aelod neu Swyddog o'r Awdurdod o dan Bolisi Chwythu'r Chwiban. |
| | |
| **Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth** | Yn ystod 2023/24 ni dderbyniwyd unrhyw gwynion o dwyll neu lygredigaeth honedig mewn perthynas ag unrhyw Aelod neu Swyddog o'r Awdurdod, ac ni adnabuwyd unrhyw feysydd sy'n peri pryder gan yr Archwilwyr Mewnol yn ystod eu gwaith archwilio. |
| | |
| **Cod Ymddygiad Enghreifftiol** | Yn ystod 2023/24, ni fu unrhyw newidiadau neu ddiwygiadau i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol. |
| | |

| | |
|---|---|
| **Cwynion – Swyddogion** | Yn ystod 2023/24, derbyniodd yr Awdurdod gyfanswm o 12 cwyn ffurfiol.<br><br>Cyfeiriwyd un o'r cwynion hyn yn ddiweddarach at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a wrthododd ymchwilio ymhellach.<br><br>Ni fu'r Awdurdod felly yn destun ymchwiliad ffurfiol gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod 2023/24. |
| | |
| **Cwynion – Aelodau** | Yn ystod 2023/24, ni dderbyniodd Swyddog Monitro'r Awdurdod unrhyw gwynion ffurfiol yn ymwneud â'r Aelodau, a ni chyflwynwyd unrhyw gwynion yn uniongyrchol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. |
| | |
| **Rheolau Sefydlog** | Adolygwyd Rheolau Sefydlog yr Awdurdod fel rhan o gylch gorchwyl y Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu yn ystod 2021/22.<br><br>Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod yr Awdurdod yn parhau â'i strwythur pwyllgorau presennol ond y dylai'r Awdurdod yn y dyfodol ystyried newid sy'n rhoi'r hawl i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau wneud penderfyniadau terfynol ar adroddiadau ariannol ac adroddiadau eraill (oni bai bod angen cymeradwyaeth benodol gan yr Awdurdod). |
| | |

| | |
|---|---|
| **Rheolau Sefydlog parthed Cytundebau** | Cyflwynwyd fersiwn ddiwygiedig newydd o'r Rheolau Sefydlog yn ymwneud â Chontractau i'r Awdurdod i'w mabwysiadu yn ei gyfarfod ar yr 16eg o Dachwedd 2022.<br><br>Mae'r adolygiad yn ymgorffori'r argymhellion a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ac a dderbyniwyd yn flaenorol, ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl reoliadau newydd sy'n ymwneud ag ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae hefyd yn darparu sylfaen i'r Awdurdod ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol yn ei bolisi caffael gwyrdd. |
| | |
| **Cynllun Dirprwyo** | Adolygwyd y Cynllun Dirprwyo fel rhan o gylch gorchwyl y Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu yn ystod 2021/22.<br><br>Daeth y Grŵp i'r casgliad bod y Cynllun Dirprwyo Swyddogion presennol yn parhau i fod yn addas i'r diben, ac felly ni wnaethpwyd unrhyw argymhelliad ar gyfer newidiadau. |

| | |
|---|---|
| **Cofrestr Buddiannau'r Aelodau** | Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn rhoi gofyniad ar yr Awdurdod i gyhoeddi'r Gofrestr gyfredol o Ddiddordebau / Fuddiant Aelodau ar wefan yr Awdurdod.<br><br>Mae'n gyfrifoldeb ar bob Aelod o'r Awdurdod i ddiweddaru eu cofnod buddiannau ac i adrodd ar unrhyw newidiadau mewn modd amserol. Serch hynny, mae'r Swyddog Gwasanaethau Aelodau yn anfon copi o'u cofnod cyfredol i bob Aelod ar ôl bob Cyfarfod Blynyddol o'r Awdurdod, ac yn gofyn iddynt ei adolygu a'i ddiweddaru os yn berthnasol.<br><br>Yn ei gyfarfod ar yr 28ain o Ebrill 2023, adolygodd y Pwyllgor Safonau ffurflenni datgan buddiannau unigol Aelodau a gwblhawyd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, fel rhan o'u gwaith yn monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad. Adolygwyd Cofrestr Buddiannau'r Aelodau Cyffredinol hefyd. Ni nodwyd unrhyw faterion o bryder. |

**Egwyddor 2:** Sicrhau ein bod yn agored ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gyfrwng dull cynhwysfawr

| | |
|---|---|
| **Cynllun Cydraddoldeb Strategol** | Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 29ain o Dachwedd 2023.<br><br>Adroddwyd ar gynnydd yr Awdurdod gyda'i gynllun gweithredu o ran cyrraedd ei Amcanion Cydraddoldeb, ynghyd â'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yr ymgymerwyd â hwy yn ystod y flwyddyn, data monitro cyflog cyfartal a data cydraddoldeb staff.<br><br>Mabwysiadwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer y cyfnod 2024 – 28 gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 20fed o Fawrth 2023, yn dilyn adolygiad cynhwysfawr ac ymgynghoriad a gynhaliwyd mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus |

| | |
|---|---|
| | eraill ar draws Gogledd Cymru, fel rhan o'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru. |
| | |
| **Ymgynghori Uniongyrchol** | Yn ystod 2023/24 parhaodd yr Awdurdod i ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid lleol trwy amrywiaeth o ddulliau, o ymgynghoriadau ysgrifenedig traddodiadol a holiaduron ar-lein i weminarau, cyfarfodydd ar-lein yn ogystal â chyfarfodydd wyneb yn wyneb, gweithdai a chymorthfeydd ymgynghori.<br><br>Mae ymgynghori yn rhan annatod o'r ystod eang o lifoedd gwaith a phrosiectau yr ydym yn ymgymryd â hwy fel Awdurdod, boed hynny trwy broses statudol ffurfiol, yn anffurfiol gyda chymunedau a rhanddeiliaid neu ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill. Fel Awdurdod bach, mae'n bwysig ein bod yn cynnwys cymunedau a rhanddeiliaid ac yn ystyried eu barn o'r cychwyn cyntaf, os ydym am lwyddo gyda'n prosiectau.<br><br>Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd ymgynghoriadau ynghylch adolygu ein Hamcanion Cydraddoldeb gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru, cyflwyniad a sesiynau cymunedol ar gyfer prosiect Yr Wyddfa Ddi-blastig, gweithdai a sesiynau cymunedol ar gyfer y Prosiect Ardaloedd Cadwraeth, a ddilynwyd drwy hyfforddiant, ac ar ddiwedd y flwyddyn, dechrau ar yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Gyfarwyddyd Erthygl 4, ymhlith pethau eraill.<br><br>Yn ogystal, sefydlwyd prawf ar ddull gwahanol o ymgynghori gyda Chynghorau Cymuned a Thref ar y broses o adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri dros y blynyddoedd nesaf. Cytunodd y Cynghorau Cymuned a Thref mai'r dull gorau o weithredu oedd sesiwn rithiol i'w chynnal cyn pob cam o'r broses ymgynghori. Yn y cyfamser, gellir defnyddio'r broses gytûn hon ar y gwahanol gamau gweithredu sy'n ofynnol gyda Chyfarwyddyd Erthygl 4 dros y flwyddyn i ddod. |
| | |
| **Strategaeth Cyfathrebu a Ymgysylltu** | Mae cyfathrebu ac ymgysylltu yn elfen hanfodol ym mhopeth y mae'r Awdurdod yn ei wneud.  Mae hefyd yn faes lle mae yna wastad le i wella, ac mae strategaeth yr Awdurdod yn adlewyrchu hyn.<br><br>Mae datblygiadau technolegol cyflym a'r twf parhaus mewn llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a lefelau cyfranogi yn golygu bod angen i'r Awdurdod ganolbwyntio'n llawn ar gyfathrebu'n effeithiol trwy'r sianeli cywir ar yr adeg iawn gydag ystod eang o gynulleidfaoedd.<br><br>Yn dilyn ymadawiad y Pennaeth Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn, ad-drefnwyd y Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu a'i rannu'n |

| | |
|---|---|
| | ddau wasanaeth ar wahân. Crëwyd rôl y Pennaeth Cyfathrebu newydd, a gwnaed penodiad mewnol yn ystod hydref 2023. Fodd bynnag, mae'r rôl hon yn cyfuno un o rolau'r Swyddog Cyfryngau, sydd ddim yn arwain at unrhyw adnoddau staffio ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth.<br><br>Oherwydd yr ad-drefnu hwn, ni chyflwynwyd yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2023, sy'n cynnwys canlyniadau dangosyddion perfformiad, i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Mawrth 2024 fel y rhaglenwyd. Fodd bynnag, disgwylir y bydd hwn yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau ym mis Gorffennaf 2024. |
| | |
| **Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol** | Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol y Comisiynydd Gwybodaeth ac wedi cyhoeddi canllaw ar wybodaeth, ac mae'r ddau ohonynt ar gael ar y wefan.<br><br>Yn ystod 2023, derbyniwyd 28 o geisiadau ac o'r rhain derbyniodd 15 yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdani (54%). O'r 13 cais arall, cafodd 5 eu gwrthod neu eu gwrthod yn rhannol oherwydd nad oedd y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn bodoli neu am nad oedd yr awdurdod yn cadw'r wybodaeth, gwrthodwyd 2 gais yn rhannol gan y byddai'r wybodaeth wedi adnabod aelodau o'r cyhoedd a ddygodd sylw at achosion posibl o dor-reolaeth cynllunio. Gwrthodwyd 2 gais yn rhannol gan eu bod yn cynnwys data personol trydydd parti, gwrthodwyd 1 cais gan y byddai datgelu'r wybodaeth wedi effeithio'n andwyol ar gwrs cyfiawnder, gwrthodwyd 1 cais oherwydd bwriadwyd cyhoeddi'r wybodaeth yn y dyfodol, gwrthodwyd 1 cais, gan fod y wybodaeth a yn cael ei chadw at ddibenion achos troseddol a fyddai wedi bod yn niweidiol pe bai'n cael ei rhyddhau, a gwrthodwyd 1 cais yn rhannol gan ei fod yn ymwneud ag ymateb yr Awdurdod i gais am gyngor cyn-cais cynllunio, nad oedd wedi arwain at gais cynllunio. Mae'n bolisi gan yr Awdurdod i gadw'r rhain yn gyfrinachol hyd nes y cyflwynir cais cynllunio, ac felly yn cael ei ddosbarthu fel eithriedig o dan Reoliad 12(5)(f) o Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.<br><br>O'r 28 cais, ni chafodd 1 ei ateb o fewn y terfyn amser o 20 diwrnod gwaith.<br><br>Ni chyflwynwyd unrhyw gwynion yn ystod y flwyddyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch unrhyw gais am wybodaeth. |
| | |
| **Rhaglenni Pwyllgorau ac Adroddiadau Cysylltiedig** | Mae rhaglenni ac adroddiadau cysylltiedig Pwyllgorau'r Awdurdod yn cael eu cyhoeddi ar y wefan o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn bob cyfarfod, i fodloni gofynion amser statudol.<br><br>Mae archif o raglenni a dogfennau cysylltiedig o bwyllgorau'r gorffennol hefyd ar gael ar y wefan am y 3 blynedd olaf, gyda'r |

| | |
|---|---|
| | rhaglenni hyn ar gael drwy gais. Mae Cyfrol Cofnodion hefyd yn cael eu cyhoeddi yn flynyddol ar y wefan. |

**Egwyddor 3:** Diffinio canlyniadau yn nhermau'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

| | |
|---|---|
| **Cynllun Partneriaeth Yr Wyddfa** | Mae'r broses o adolygu Cynllun Partneriaeth Yr Wyddfa wedi dechrau, a rhagdybir y cymer y broses tua blwyddyn gyda'r bwriad o lansio cynllun diwygiedig cyn haf 2025.<br><br>Un o flaenoriaethau Cynllun Yr Wyddfa yw ymdrin â heriau yn ymwneud â pharcio a thrafnidiaeth yn ardal Yr Wyddfa ac Ogwen. Y math o welliannau sydd wedi eu gweithredu hyd yn hyn ydyw system parcio a theithio yn Ogwen, rheolaeth parcio well ar yr A5 yn Ogwen ac yn Nant Gwynant, cyflwyno'r gwasanaeth rheolaidd T10 drwy Ddyffryn Ogwen, gwelliannau i wasanaeth Sherpa'r Wyddfa, a negeseuon teithio cynaliadwy ar wefannau cyfryngau cymdeithasol Awdurdod y Parc Cenedlaethol.<br><br>Yn ogystal â'r uchod, sefydlwyd Grŵp Gweithredu i ymdrin â materion strategol yn ymwneud â pharcio a thrafnidiaeth sy'n cynnwys y partneriaid allweddol (Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri). Mae'r grŵp hwn wedi cyfarfod yn rheolaidd ers ei sefydlu yn ystod 2022.<br><br>Yn arwain tuag at Wythnos Llysgennad Cymru 2023, cyrhaeddwyd y garreg filltir arbennig o gael 1000 o Lysgenhadon Eryri. Yn ystod yr wythnos, cynhaliwyd gweithgareddau ledled Cymru i ddathlu gwaith y Llysgenhadon.<br><br>Diffiniwyd Parth Di-blastig ar gyfer prosiect Yr Wyddfa ym mis Ionawr 2023, ac mae'n cwmpasu'r mynydd a'i bentrefi porth (Llanberis, Waunfawr, Beddgelert).<br><br>Mae prosiect Yr Wyddfa Di-blastig yn ymrwymiad 'gweithio tuag at' ac mae byrder a heriau unigryw'r prosiect yn golygu y bydd yn cynnwys sawl ymgyrch brawf, gan ganiatáu i'r Awdurdod fesur effeithiolrwydd gwahanol syniadau a dulliau newydd. Mae'r egwyddorion arweiniol y tu ôl i'r ymgyrchoedd yn cyd-fynd ag egwyddorion cyffredinol y prosiect: cynnal a pharchu ein hamgylchedd, cymunedau cynaliadwy, a chenedlaethau'r dyfodol. |

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| **Cynllun Eryri** (Cynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol Eryri) | Mabwysiadwyd Cynllun Eryri gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol fel ei Gynllun Rheoli (Partneriaeth) statudol ym mis Hydref 2020 ac fe'i lansiwyd yn swyddogol ym mis Tachwedd 2020. Mae'r trydydd adroddiad cynnydd blynyddol sy'n dal mewnbwn gan yr holl Bartneriaid yn ystod 2023 ar ffurf drafft ar hyn o bryd.<br><br>Er bod 2023 wedi parhau i fod yn heriol i'r holl Bartneriaid, wrth gasglu gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn mae'n amlwg bod enghreifftiau rhagorol o nodau Cynllun Eryri sy'n cael eu datblygu yn parhau i gynyddu'n gyflym ar draws y rhanbarth.<br><br>Yn y drydedd flwyddyn o weithredu, mae cynnydd sylweddol wedi ei wneud ar Gynllun Gweithredu Cynllun Eryri. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw Ganlyniadau sydd wedi'u hasesu fel rhai 'Heb eu symud ymlaen a/neu mewn peryg'l. Mae'n deg casglu felly bod cynnydd wedi'i gyflawni ym mhob maes o Gynllun Gweithredu Cynllun Eryri yn y flwyddyn 2023.<br><br>Bydd yr Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2023 yn cael ei drafod yng nghyfarfod Fforwm Eryri ar 7 Mai 2024 a'r gobaith yw y caiff ei gyflwyno i aelodau'r Awdurdod yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 12 Mehefin 2024 i'w fabwysiadu. |
| | |

| | |
|---|---|
| **Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031** | Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 (CDLl) diwygiedig ar y 6ed o Chwefror 2019.<br><br>Cymeradwywyd yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2022-23 gan y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ar y 18fed o Hydref 2023, a'i gyflwyno wedyn i Lywodraeth Cymru.<br><br>Cyn hyn, cymeradwywyd Adroddiad Adolygu gan y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ar yr 28ain o Fehefin 2023, yn dilyn cyfnod ymgynghori â rhanddeiliaid a oedd yn rhedeg rhwng y 7fed o Ebrill a 12fed o Fai 2023. Yna cyflwynwyd yr Adroddiad i Lywodraeth Cymru.<br><br>Amlygodd yr adolygiad fod newidiadau cyd-destunol cenedlaethol a lleol sylweddol wedi digwydd sydd angen eu hystyried yn awr. Roedd angen hefyd adolygu Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLl, gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol, ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, ynghyd ag asesiadau effaith eraill. Yn ogystal, nid oedd ffigurau gofyniad tai yn cael eu bodloni. Bydd angen ailystyried y gofyniad tai i adlewyrchu anghenion ardal y Cynllun yn y dyfodol. Felly, bydd angen ailystyried dosbarthiad y gofyniad tai drwy'r Strategaeth Datblygu Gofodol hefyd.<br><br>Daeth yr adolygiad i'r casgliad mai'r weithdrefn Adolygu Llawn yw'r ffurf fwyaf priodol o adolygu ar gyfer CDLl Eryri.<br>Fodd bynnag, arweiniodd penderfyniad dilynol yr Awdurdod i Gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 (gweler isod), a'r gofynion adnoddau cysylltiedig y byddai hyn yn ei olygu, at yr Aelodau'n cytuno i ohirio'r adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri am y tro, ym Mhwyllgor Cynllunio a Mynediad ar y 6ed o Ragfyr 2023. |
| | |
| **Cyfarwyddyd Erthygl 4** | Yn dilyn trafodaethau ac ystyriaethau blaenorol gan yr Aelodau, cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad yn gofyn am gymeradwyaeth ffurfiol i Gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4.<br><br>Yn dilyn cyhoeddi is-ddeddfwriaeth cynllunio yn yr Hydref 2022, cyflwynwyd 3 Dosbarth Defnydd Cynllunio newydd (Tŷ Annedd, Tŷ Annedd na chaiff ei ddefnyddio fel unig neu brif breswylfa, a Llety ar Osod Tymor Byr), a byddai newidiadau rhwng y dosbarthiadau hyn bellach yn cael eu hystyried yn 'ddatblygiad'. Fodd bynnag, ar yr un pryd, diwygiwyd y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir i ganiatáu newidiadau a ganiateir rhwng y dosbarthiadau defnydd newydd h.y. ni fyddai angen caniatâd cynllunio. |

| | |
|---|---|
| | Gellir tynnu'r hawliau datblygu a ganiateir hyn yn ôl o fewn ardal benodol drwy Gyfarwyddyd Erthygl 4 a wneir gan awdurdod cynllunio lleol ar sail tystiolaeth leol gadarn. Byddai dileu'r hawliau datblygu a roddwyd gan Gyfarwyddyd Erthygl 4 wedyn yn ei gwneud yn angenrheidiol i gyflwyno cais cynllunio ar gyfer newidiadau rhwng y 3 Dosbarth Defnydd newydd.<br><br>Mae gan y rhan fwyaf o gynghorau cymuned yn y Parc Cenedlaethol dros 10% o osodiadau gwyliau ac ail gartrefi, gyda bron i hanner y cymunedau â 15%. Mae gan 12 cymuned dros 20%. Oherwydd hyn, mae pryder sylweddol cynyddol ynglŷn â hygyrchedd cartrefi i bobl leol, a'r materion cysylltiedig o ran hyfywedd cymunedau lleol y gall hyn arwain atynt.<br><br>Felly cymeradwyodd y pwyllgor yr adroddiad a oedd yn cyfiawnhau Cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 a chymeradwyodd hefyd ymgysylltiad ar y cyflwyniad arfaethedig, yn ei gyfarfod ar y 6ed o Fawrth 2024. Ni fydd y Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn dod i rym tan 12 mis yn ddiweddarach h.y. Gwanwyn 2025. |
| | |
| **Cynllun Strategol ar gyfer Economi Ymwelwyr Cynaliadwy** | Ers mabwysiadu'r Cynllun Strategol ar gyfer Economi Ymwelwyr Cynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri (2035) gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar yr 8fed o Chwefror 2023, mae swyddogion APC a Chyngor Gwynedd wedi bod yn ffurfioli strwythurau gweithredu.<br><br>Ar yr 17eg o Ebrill 2024, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Partneriaeth Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri, a ddaeth am y tro cyntaf â chynrychiolwyr o'r sector twristiaeth a'r gymuned ynghyd i drafod yn ffurfiol yr economi ymwelwyr yn yr ardal am y flwyddyn i ddod. Mae Cynllun Gweithredu wedi'i ddrafftio, a'r nod yw ei fabwysiadu yn ystod y mis nesaf. Mae'r Bartneriaeth wedi ethol Cyd-Gadeiryddion i gynrychioli'r sectorau busnes a chymunedol, ac Is-Gadeiryddion yn yr un model.<br><br>At hynny, mae Bwrdd Strategol sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn a grŵp Cyflawni Partneriaeth yn ogystal â grwpiau Tasg a Gorffen a fydd yn cael eu sefydlu i arwain ar brosiectau penodol.<br><br>Ar hyn o bryd nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi mabwysiadu'r Cynllun yn ffurfiol, ond maent yn mynd ag ef drwy eu prosesau democrataidd gyda'r bwriad o lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ystod 2024. |

| | |
|---|---|
| | |
| **Rhaglen Waith Corfforaethol** | Gan fod yr Awdurdod bellach wedi mabwysiadu Datganiad Llesiant sy'n cynnwys ei Amcanion Llesiant am gyfnod o bum mlynedd o 2021-26; ni fydd angen adolygiad blynyddol.<br><br>Bydd y camau y cytunwyd arnynt yn y Rhaglen Waith Gorfforaethol yn awr yn ddigon i alluogi'r Awdurdod i asesu ei gynnydd o ran cyflawni'r Amcanion Llesiant ac felly ni fydd angen adroddiad Dangosyddion Perfformiad ar wahân. Ystyriwyd yr adroddiad terfynol ar y Rhaglen Waith Gorfforaethol ar gyfer 2022/23 gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 12fed o Orffennaf 2023.<br><br>Mabwysiadwyd y Rhaglen Waith Gorfforaethol ar gyfer 2023/24 yn ffurfiol gan yr Awdurdod ar y 14eg o Fehefin 2023.<br><br>Rhoddwyd diweddariadau i'r Aelodau ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Amcanion Llesiant, a amlinellwyd yn y Rhaglen Waith Gorfforaethol ar gyfer 2023/24.<br><br>Adroddwyd ar gynnydd dau chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 29ain o Dachwedd 2023. Cyflwynwyd adroddiad cynnydd y trydydd a'r pedwerydd chwarter (lle'r oedd ar gael) i'r un pwyllgor ar yr 20fed o Fawrth 2024. Disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2024. |

**Egwyddor 4:** Penderfynu ar ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r canlyniadau a fwriedir

| | |
|---|---|
| **Strategaeth y Gyllideb 2023-24** | Cadarnhawyd cyllideb refeniw'r Awdurdod ar gyfer 2023/24 gan y Prif Swyddog Cyllid yn ei adroddiad i'r Awdurdod ar y 8fed o Chwefror 2023. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cadarnhau'r lefi ar awdurdodau cyfansoddol.<br><br>Cyflwynwyd diweddariad i'r Gyllideb i'r Awdurdod ar y 13eg o Fedi 2023 ac i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 29ain o Dachwedd 2023 a'r 20fed o Fawrth 2024.<br><br>Cadarnhaodd y Gyllideb Refeniw Sylfaenol ar gyfer 2024/25 a gyflwynwyd i'r Aelodau yng nghyfarfod mis Tachwedd, y rhagamcanwyd y byddai'r diffyg yn y gyllideb tua 10% o gyfanswm cyllideb yr Awdurdod.<br><br>Roedd adroddiad mis Mawrth yn amlinellu'r sefyllfa refeniw a chyfalaf rhagamcanol ar gyfer diwedd y flwyddyn. Cadarnhaodd yr adroddiad hefyd y dyraniad grant refeniw a chyfalaf o £2 filiwn ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gwrdd â'r heriau a wynebir gan bwysau cyllidebol presennol yr Awdurdod. Mae hyn yn galluogi'r Awdurdod i leihau'r diffyg gweithredu yn y gyllideb yn ogystal â lleddfu'r pwysau cyfalaf presennol.<br><br>Cadarnhaodd yr adroddiad fod y sefyllfa o ran gwariant net ar wasanaethau yn parhau i gymharu'n ffafriol â gwariant net o'r un cyfnod yn 2022/23, fodd bynnag roedd pwysau chwyddiant yn parhau i fod yn heriol.<br><br>Mae gwariant yn parhau i fod yn uwch ar elfennau sy'n cael eu heffeithio gan chwyddiant, yn enwedig ar ynni, fodd bynnag cafwyd cadarnhad bod y gyllideb ar gyfer 2023/24 yn ddigonol. Gan nad oedd lefel chwyddiant wedi gostwng mor sydyn ag a ragwelwyd, arhosodd cyfraddau llog yn uchel. Mae hyn yn parhau i arwain at incwm llog sylweddol i'r Awdurdod. Cynyddwyd y gyllideb/targed incwm llog i £120k i adlewyrchu hyn a rhagorwyd ar y targed hwn eisoes gyda dros £190k o incwm wedi ei dderbyn hyd yma yn 2023/24. |

| | |
|---|---|
| **Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2024/25 – 2027/28** | Adroddwyd yn Natganiad y llynedd bod y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid, yn ei gyfarfod ar y 26ain o Ebrill 2023, wedi cyflwyno'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig diwygiedig ar gyfer 2023/24 – 2026/27 i'r Awdurdod, sy'n amlinellu ystod o sefyllfaoedd ariannol a allai wynebu'r Awdurdod dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r Cynllun yn amlinellu model o'r adnoddau ariannol sydd eu hangen ar yr Awdurdod ar gyfer y lefelau gwasanaeth y mae'n gobeithio eu darparu yn y tymor canolig.<br><br>Ymhellach at hyn, cyflwynodd y Prif Weithredwr drosolwg o heriau ariannol yr Awdurdod ar gyfer y 2 flynedd ariannol nesaf (2025 – 2027) mewn cyfarfod o'r Gweithgor Aelodau ar yr 17eg o Ebrill 2024.<br><br>Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r pwysau chwyddiant a ragwelir (yn seiliedig ar ragdybiaethau Banc Lloegr) ar yr Awdurdod am y 3 blynedd ariannol nesaf i fod yn £903,000.<br><br>Nodwyd chwyddiant cyflog hefyd fel rhywbeth anhysbys. Gall leihau'r her neu gynyddu'r pwysau ariannol ar yr Awdurdod, a bydd angen ei asesu pan fydd hynny'n hysbys. Daeth y Prif Weithredwr i'r casgliad nad oedd angen ystyried unrhyw addasiadau sylweddol (ac eithrio Plas Tan y Bwlch) yn y flwyddyn ariannol hon, ond mae angen gwneud gwaith paratoadol i'w ystyried yn y dyfodol.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau i swyddogion wneud gwaith pellach ar gynhyrchu incwm, gwariant cyfalaf a refeniw gan gynnwys cadw staff a recriwtio mewn meysydd allweddol; ac i ystyried ymhellach sefyllfa ariannol yr Awdurdod cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon ac ystyried camau gweithredu posibl i'w rhoi ar waith yn ystod 2025/26 a 2026/27.<br><br>Oherwydd yr adroddiad uchod a'r camau gweithredu a gymeradwywyd, nid oedd angen cyflwyno'r Cynllun Ariannol Canol Tymor ar gyfer 2024/25 – 2027/28 yn ffurfiol i'r Awdurdod ym mis Ebrill 2024, fel mewn blynyddoedd blaenorol. Bydd hwn nawr yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau mis Gorffennaf 2024. |

| | |
|---|---|
| **Rheoli Perfformiad** | Cafodd y mecanwaith ar gyfer adolygu perfformiad mewn perthynas â Datganiad Llesiant yr Awdurdod a'r Rhaglen Waith Gorfforaethol eu nodi'n ffurfiol yn 2021/22.<br><br>Mae'n cadarnhau y bydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn craffu perfformiad ar y camau gweithredu a gynhwysir yn y Rhaglen Waith Gorfforaethol sy'n rhoi cipolwg ar gynnydd bob chwarter.<br><br>Roedd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022/23 a gymeradwywyd i'w fabwysiadu a'i gyhoeddi gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar yr 13eg o Fedi 2023, yn adrodd ar gynnydd Blwyddyn 2 o ran cyflawni Amcanion Llesiant yr Awdurdod. |

**Egwyddor 5:** Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo

| | |
|---|---|
| **Rôl Disgrifiadau Aelodau** | Cafodd y disgrifiadau diwygiedig ar gyfer rôl Aelodau a'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd eu mabwysiadu gan yr Awdurdod ar yr 27ain o Ebrill 2022.<br><br>Gwnaethpwyd newidiadau i gryfhau pwyslais rôl aelodau wrth osod cyfeiriad strategol ac uchelgais ar gyfer yr Awdurdod, gan ddarparu cyflwyniad trosfwaol gan gynnwys pwrpas Parciau Cenedlaethol a rôl yr Awdurdod wrth gyflawni'r dibenion hyn, a chryfhau'r adran ar ddatblygiad personol a rôl. |
| | |
| **Presenoldeb Aelodau** | Mae platfform ar-lein Zoom ar gyfer cynnal cyfarfodydd pwyllgor a chyfarfodydd eraill bellach yn mynd i mewn i'w bedwaredd flwyddyn o weithredu. Mae'r buddsoddiad technolegol newydd ar gyfer cynnal cyfarfodydd hybrid wedi gwreiddio'n dda, ac mae bellach wedi'i hen sefydlu.<br><br>Gall aelodau'r cyhoedd arsylwi'r pwyllgorau yn bersonol ym Mhlas Tan y Bwlch neu gallant gofrestru ymlaen llaw i gael mynediad trwy Zoom. Gellir gweld recordiadau pwyllgorau yn ddiweddarach hefyd drwy sianel YouTube yr Awdurdod. |

| | |
|---|---|
| | Roedd presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd yn ystod 2023/24 yn 85%, o'i gymharu ag 81% a 82% yn y ddwy flynedd flaenorol, sef 2022/23 a 2021/22. |
| | |
| **Hyfforddiant Aelodau** | Yn 2023/24, roedd presenoldeb aelodau mewn digwyddiadau hyfforddi yn 53.5% (70% yn 2022/23).<br><br>Yn ogystal â rhaglen hyfforddi Aelodau'r Awdurdod, eleni darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer sesiynau hyfforddi Aelodau ar y canlynol:<br>➢ Llywodraethu;<br>➢ Tirweddau i Bawb (Cyflwyniad i Amrywiaeth a Chynhwysiant; a<br>➢ Argyfyngau Natur a Hinsawdd.<br><br>Mae deunyddiau cwrs ar gael ar wefan Tirweddau Cymru, sy'n galluogi Aelodau nad oeddent yn gallu bod yn bresennol i gael mynediad at y wybodaeth.<br><br>Bydd hyfforddiant pellach yn ymwneud â llywodraethu yn cael ei ddarparu yn 2024-25 yn dilyn cadarnhad bod cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer hyn. Mae sesiynau wedi'u trefnu ar gyfer Mehefin 2024 ar:<br>➢ System lywodraethu APC – gwahaniaethau a thebygrwydd â chyrff llywodraeth leol eraill;<br>➢ Cyflwyniad i lywodraethu da; a<br>➢ Arfer llywodraethu da. |
| | |
| **Gwerthusiadau Perfformiad a Hyfforddiant Staff** | Nodir anghenion dysgu a datblygu mewn adolygiadau gwerthuso perfformiad blynyddol, sy'n amlinellu blaenoriaethau hyfforddi ar gyfer y flwyddyn i ddod.<br><br>Er na dderbyniodd yr holl staff arfarniad yn ystod y cyfnod, o ganlyniad i gyfarwyddyd a gyflwynwyd gan y ddau Gyfarwyddwr i annog rheolwyr i arfarnu eu staff, bu cynnydd o 32% yn nifer y staff a oedd yn cael eu harfarnu yn ystod 2023/24.<br><br>Bydd ffocws pellach yn parhau i sicrhau bod cymaint o staff â phosibl yn cael eu harfarnu'n flynyddol. |

| | |
|---|---|
| **Strategaeth Adnoddau Dynol** | Yn 2022/23 roedd absenoldeb salwch staff yn 6.95 diwrnod ar gyfartaledd. Yn ystod 2023/24 y cyfartaledd absenoldeb salwch staff oedd 9.1 diwrnod.<br><br>Mae'r cynnydd hwn wedi ysgogi adolygiad gan y tîm AD mewn perthynas â sut mae'r Awdurdod yn rheoli absenoldeb yn gyffredinol. Bydd yr adolygiad yn edrych ar resymau dros absenoldeb, hyd absenoldebau, absenoldebau cylchol ac effaith ariannol gyffredinol absenoldeb ar yr Awdurdod.<br><br>Yn absenoldeb parhaus Rheolwr Tŷ ym Mhlas Tan y Bwlch, mae'r pennaeth AD wedi parhau i oruchwylio staff yno bob dydd, gan effeithio ar ei gallu i ganolbwyntio'n llawn ar swyddogaethau AD.<br><br>Hefyd wynebodd y Tîm AD newidiadau sylweddol yn ystod y cyfnod adrodd hwn oherwydd ymddeoliad swyddog AD profiadol ac absenoldeb mamolaeth y Gweinyddwr AD. Yn ystod Ionawr 2024, cymeradwyodd y tîm rheoli adolygiad o strwythur y Tîm Adnoddau Dynol a'r diwygiadau a gyflwynwyd.<br><br>Un o'r newidiadau allweddol oedd y penderfyniad i ddisodli'r rôl Gweinyddwr AD blaenorol gyda swydd dan hyfforddiant i i gynghorydd AD am ddwy flynedd. Bydd y strwythur diwygiedig gyda'r holl swyddi wedi'u llenwi yn cynyddu effeithlonrwydd o fewn y tîm ac yn caniatáu mwy o ffocws ar adolygu polisïau a gweithdrefnau, lles staff, a diweddaru'r strategaeth AD.<br><br>Er gwaethaf y gostyngiad dros dro yn nifer aelodau'r tîm, roedd cynnydd sylweddol yn dal i gael ei wneud mewn perthynas â chreu nifer o bolisïau newydd, gan gynnwys 'Menopôs,' 'Gweithio Hyblyg' a 'Fflecsi Hynod Hyblyg'.<br><br>At hynny, rhoddodd y tîm Raglen Cymorth i Weithwyr newydd ar waith a lansiodd y Fforwm Ymgysylltu a Lles Staff. |

**Egwyddor 6:** Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref

| | |
|---|---|
| **Datganiadau Ariannol** | Adroddwyd yn Natganiad Llywodraethu'r llynedd nad oedd y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2021/22 wedi'i ardystio a'i gymeradwyo'n ffurfiol eto. Roedd hyn oherwydd anawsterau a oedd wedi codi oherwydd yr angen i ailwerthuso asedau'r Awdurdod bob 5 mlynedd.<br><br>Nid yw'r Datganiad Cyfrifon Terfynol ar gyfer 2021/22 a 2022/23 wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo'n ffurfiol eto; ac felly nid yw Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol yr Archwilydd Penodedig oddi wrth Archwilio Cymru yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiedig) 2018 wedi dod i law eto.<br><br>Adeg paratoi'r adroddiad, rhagwelir y bydd y Datganiad o Gyfrifon Terfynol ar gyfer 2021/22 yn cael ei gyflwyno i Gyfarfod Blynyddol yr Awdurdod ar yr 12fed o Fehefin 2024.<br><br>Yn dilyn hyn, bydd cyflwyno'r Cyfrifon Terfynol ar gyfer 2022/23 a 2023/24 yn dibynnu ar yr amserlen archwilio a fydd yn cael ei phennu gan Archwilio Cymru. |
| | |
| **Rheoli Risg** | Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n chwarterol gan Benaethiaid Gwasanaeth a'r Tîm Rheoli.<br><br>Fel y nodir yn y Gofrestr Risg, mae'r cyfrifoldeb dros y risgiau a adnabuwyd yn cael eu dyrannu i swyddogion a enwir ac mae dyddiad targed yn cael ei osod ar gyfer mesurau lliniaru. Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu gan Aelodau ym mhob Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ac mae unrhyw risgiau sy'n cael eu tynnu i ffwrdd o'r Gofrestr yn cael ei gadarnhau yn flynyddol yng nghyfarfod yr Awdurdod. |
| | |
| **Archwilio Allanol** | Mae'n arferol i Archwilio Cymru gyflwyno Cynllun Archwilio i'r Awdurdod bob blwyddyn. Mae'r adroddiad yn nodi'r risgiau archwilio a'r ymateb archwilio arfaethedig i'w gynnal yn ystod y flwyddyn, ynghyd â chadarnhad o feysydd archwilio perfformiad a'r ffioedd archwilio sy'n daladwy. Ni dderbyniwyd Cynllun Archwilio ar gyfer 2023 gan Archwilio Cymru.<br><br>Ar ddechrau 2023, cychwynnodd Archwilio Cymru adolygiad ar lywodraethu o fewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru, a oedd yn cynnwys craffu effeithiol, partneriaethau, |

| | |
|---|---|
| | cefnogi adferiad a gwytnwch, penodi aelodau a gwneud y mwyaf o'u cyfraniad drwy gydbwyso materion cenedlaethol a lleol. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar yr 25ain o Ebrill 2024, a bydd yn cael ei gyflwyno'n ffurfiol i Aelodau a Swyddogion yng Nghyfarfod Blynyddol yr Awdurdod ar y 12fed o Fehefin 2024.<br><br>Yn ystod haf 2023 cyhoeddodd Archwilio Cymru friff ar eu harchwiliad arfaethedig ar 'Hyrwyddo Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Mynediad', a chyflwynodd Swyddogion y dystiolaeth y gofynnwyd amdani yn briodol. Hyd yn hyn, nid yw cynnydd pellach ar yr archwiliad yn hysbys.<br><br>Yn dilyn astudiaeth a gynhaliwyd ar Arallgyfeirio Incwm ar draws tri Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru, cyflwynodd Archwilio Cymru eu canfyddiadau i Aelodau yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 12fed o Orffennaf 2023. Dilynodd Archwilio Cymru'r adroddiadau unigol gydag adroddiad tri Pharc Cenedlaethol ar y cyd a chyhoeddwyd ef ym mis Medi 2023.<br><br>Adroddodd y Prif Weithredwr ar gynnydd i'r Aelodau ar argymhellion yr adroddiad yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 29ain o Dachwedd 2023, a hefyd mewn adroddiad i'r Gweithgor Aelodau ar yr 17eg o Ebrill 2024, fel rhan o'r trosolwg ar Her Ariannol yr Awdurdod ar gyfer y ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae manylion llawn y canfyddiadau a'r argymhellion wedi'u nodi o dan Adran 6 (Materion Llywodraethu Arwyddocaol) yn y Datganiad hwn. |
| | |

| | |
|---|---|
| **Archwiliad Mewnol** | Mae'r Rheolwr Archwilio Mewnol yn adrodd ar waith y flwyddyn ariannol flaenorol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau. Eleni, adroddwyd ar hyn a yr 29ain o Dachwedd 2023.<br><br>Roedd tri archwiliad mewnol i'w cynnal yn ystod 2023/24, sef Trefniadau Gweithredu y Gwasanaeth Cynllunio, Partneriaeth Tirweddau'r Carneddau, a Chefnogaeth i Aelodau.<br><br>Ni chynhaliwyd archwiliad Partneriaeth Tirweddau'r Carneddau, ac yn lle hynny cynhaliwyd archwiliad ar Brosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE. |

| | |
|---|---|
| | Rhoddwyd gradd "Digonol" i'r ddau archwiliad ar Drefniadau Gweithredu y Gwasanaeth Cynllunio a Phrosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE - mae camau mewn lle i gyflawni'r amcanion ond mae agweddau lle gellir tynhau'r trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.<br><br>O ganlyniad i hyn, rhoddwyd argymhellion ar gyfer gwelliant fel rhan o'r adroddiadau. Bydd Archwilio Mewnol yn gofyn am ddiweddariad ar gynnydd gweithredu'r argymhellion hyn maes o law.<br><br>Graddiwyd yr archwiliad Cefnogaeth i Aelodau fel "Uchel" - gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol sydd mewn lle i gyflawni amcanion. |
| | |
| **Iechyd a Diogelwch** | Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 29ain o Dachwedd 2023 gan y Pennaeth Adnoddau Dynol, yn manylu ar ddigwyddiadau / damweiniau a gofnodwyd gan gynnwys digwyddiadau y dylid cyflwyno gwybodaeth amdanynt i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan yr adran 'Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Rheoliadau Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR)'.<br><br>Ar y 23ain o Ionawr 2024 penododd yr Awdurdod Swyddog Iechyd a Diogelwch llawn amser a fydd yn berson cymwys ar gyfer pob mater yn ymwneud ag Iechyd a Diogelwch wrth symud ymlaen. |
| | |

| | |
|---|---|
| **Canolfannau Gwybodaeth** | Mae gan yr Awdurdod 3 Canolfan Gwybodaeth, sef ym Metws y Coed, Beddgelert ac Aberdyfi, sydd yn cael eu rheoli gan Reolwr Twristiaeth Gynaliadwy, gyda'r prif nod i sicrhau bod y canolfannau yn fasnachol hyfyw / hunangynhaliol.<br><br>Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Canolfannau Croeso i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 29ain o Dachwedd 2023. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r flwyddyn 2023/24 hyd yma, a daeth i'r casgliad y byddai'r Canolfannau yn diweddu'r flwyddyn ariannol o fewn eu cyllideb weithredu osodedig.<br><br>Y prif faterion i'w nodi oedd y cynnydd yn y trosiant ariannol a welwyd ym mhob un o'r 3 Canolfan, a'r rheswm am hyn, |

| | |
|---|---|
| | ymhlith pethau eraill, oedd gwell recriwtio a chadw staff, ehangu cyflenwyr, a chyfradd cyfnewid ariannol ffafriol ar gyfer ymwelwyr tramor. Adroddwyd hefyd bod achosion o ddwyn o'r canolfannau yn uwch na'r cyfartaledd yn ystod y prif dymor, ond bod uwchraddio a gosod systemau teledu CCTV wedi bod yn werthfawr o ran canfod dwyn. |
| | |
| **Strategaethau Benthyca a Buddsoddi / Rheoli'r Trysorlys** | Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol sy'n darparu'r gweithgaredd Rheoli Trysorlys gwirioneddol (benthyca a buddsoddi) yr Awdurdod yn ystod 2022/23, i gyfarfod yr Awdurdod ar y 13eg o Fedi 2023.<br><br>Yn ystod 2022/23 arhosodd gweithgarwch yr Awdurdod o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. Ni fu unrhyw fenthyca.<br><br>Yn 2022/23, cyfanswm y llog a dderbyniwyd o fuddsoddiadau oedd £135,616. Mae llog a dderbyniwyd o fenthyciadau ceir o £331 yn cynyddu'r cyfanswm i £135,947 yn erbyn cyllideb o £8,000.<br><br>Mae swm llog banc a chymdeithas adeiladu o £135,616 ar gyfer 2022/23 yn gynnydd sylweddol i'r swm o £10,902 dderbyniwyd yn 2021/22. Mae'r cynnydd yn ganlyniad uniongyrchol i chwyddiant a'r effaith ar gyfraddau llog sydd wedi cynyddu sawl gwaith yn ystod y flwyddyn ac sy'n parhau i gynyddu.<br><br>Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Cyllid y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2024/25 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 7fed o Chwefror 2024.<br><br>Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgarwch rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at gyflawni gwasanaethau'r Parc Cenedlaethol ynghyd â throsolwg o sut y caiff y risg gysylltiedig ei reoli a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.<br><br>Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod yr Awdurdod yn cychwyn 2024/25 yn ddiddyled. Cymeradwyodd yr Aelodau 'dim newid' i'r cyfyngiad benthyca awdurdodedig a'r ffin weithredol, a chymeradwywyd y Strategaeth Benthyca Cyfalaf a'r Strategaeth Buddsoddi ar gyfer 2024/25, a nodi'r cynnwys sy'n ymwneud a'r Cod Darbodus.<br><br>Ymhellach, dywedodd y Prif Swyddog Cyllid efallai y bydd yn rhaid i'r Awdurdod fenthyca yn y dyfodol yn y tymor byr i gyflawni'r Prosiect LIFE oherwydd galwadau llif arian posibl. |

| | |
|---|---|
| | Roedd hyn oherwydd estyniad 18 mis i'r prosiect a allai fod angen cyllid yn y tymor byr. |
| | |
| **Canolfan Astudio Plas Tan y Bwlch** | Yn ei adroddiad i'r Awdurdod ar y 7fed o Chwefror 2024, dywedodd y Prif Weithredwr fod Bwrdd Plas Tan y Bwlch wedi dod i'r casgliad na ellir datblygu busnes hyfyw sy'n gysylltiedig â chyflawni dibenion statudol yr Awdurdod o fewn yr adnoddau presennol sydd ar gael.<br><br>Yn ogystal, roedd adroddiad Archwilio Cymru ar Arallgyfeirio Incwm wedi argymell bod yr Awdurdod, o fewn 12 mis, yn adolygu ei fodel gweithredu ym Mhlas Tan y Bwlch i gynnal gwerthusiad cost a budd o'r cyfleuster er mwyn pennu ei strategaeth ar gyfer y safle yn y dyfodol.<br><br>Roedd yr adroddiad yn amlinellu sefyllfa ariannol yr Awdurdod a'r goblygiadau adnoddau cysylltiedig mewn manylder. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod angen i'r Awdurdod leihau'r costau refeniw a chyfalaf sy'n deillio o reolaeth weithredol Plas Tan y Bwlch ac mae angen i'r Awdurdod ystyried modelau amgen sy'n cynnwys ffurfio partneriaethau neu werthu ar y farchnad agored, fel busnes gweithredol yn ddelfrydol. |
| | |
| **Yr Ysgwrn** | Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Yr Ysgwrn ar gyfer 2022/23 i'r Awdurdod ar yr 14eg o Fehefin 2023.<br><br>Nodwyd yn yr adroddiad y llwyddodd Yr Ysgwrn i ddenu cefnogaeth ariannol ar gyfer rhaglen weithgareddau a digwyddiadau gan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru a Llywodraeth Cymru drwy'r rhaglen Haf o Hwyl. Mae data incwm yn dangos fod incwm uwch ar y dyddiau pan gynhelir gweithgareddau a digwyddiadau ac mae cynnal rhaglen o safon yn hanfodol er mwyn meithrin bwrlwm.<br><br>Roedd y cynnydd yng nghostau rhedeg Yr Ysgwrn yn ystod y flwyddyn yn her, gan adlewyrchu'r argyfwng costau byw ehangach. Mae'r cynnydd mewn costau wedi effeithio ar bob agwedd ar y busnes ac yn arbennig, costau gwresogi. Roedd y broblem yn fwy amlwg yn 2022/23 oherwydd effaith cost uwch pelenni coed a phrisiau nwy a dibyniaeth uwch ar nwy wrth gwblhau gwaith cynnal a chadw ar y boeler biomas.<br><br>Arweiniodd y cyfuniad hwn o ffactorau at fwlch o tua £50,000 yn y gyllideb. Sefydlwyd cronfa wrth gefn Yr Ysgwrn er mwyn cwrdd â bwlch o'r fath. |

| | |
|---|---|

**Egwyddor 7:** Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

| | |
|---|---|
| **Datganiad Polisi Tâl** | Mae gofyniad ar Awdurdodau Lleol i baratoi datganiadau polisi tâl o dan Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011. Er bod Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn ystyriwyd ei fod yn arfer da mabwysiadu datganiad o'r fath, ac yn unol â hynny gwneir hyn yn flynyddol gan y Pennaeth Adnoddau Dynol.<br><br>Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol Polisi Tâl ar gyfer 2022/23 a Datganiad Polisi Tâl yr Awdurdod ar gyfer 2023/24 gerbron y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 12fed o Orffennaf 2023 gan sicrhau tryloywder o ran y taliadau cydnabyddiaeth ariannol i staff yn yr Awdurdod. |
| | |
| **Adroddiad Blynyddol 2022/23** | Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022/23 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 13eg o Fedi 2023, cyn iddo gael ei gyhoeddi ar y wefan a'i ddosbarthu i brif ganolfannau'r Awdurdod, llyfrgelloedd cyhoeddus ac ati, o fewn y Parc Cenedlaethol.<br><br>Mae'n cynnwys Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn, sy'n nodi'r hyn a gyflawnwyd, beth na chafodd ei gyflawni ac unrhyw broblemau a wynebwyd.<br><br>Mae hefyd yn cynnwys manylion am Flaenoriaethau Gwasanaeth yr Awdurdod ac Amcanion yr Awdurdod a osodir yn flynyddol sy'n bwydo i mewn ac yn dangos sut y bwriedir mynd â'r Parc Cenedlaethol yn ei flaen er mwyn gwireddu gweledigaeth yr Awdurdod; gwerthusiad cryno o'r cynnydd a wnaed o ran cwrdd ag Amcanion yr Awdurdod, y gweithgareddau gwaith allweddol ar gyfer 2022/23, a rheoli perfformiad. |
| | |
| **Pwyllgorau Hybrid a Darlledu** | Mae cyfarfodydd hybrid bellach wedi'u hen sefydlu yn yr Awdurdod yn dilyn buddsoddiad yn y dechnoleg sydd ei hangen i hwyluso'r cyfarfodydd. Mae gan Aelodau a Swyddogion y dewis i fynychu'n bersonol ym Mhlas Tan y Bwlch neu ymuno ar-lein trwy Zoom.<br><br>Mae cyfarfodydd yr Awdurdod a'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad hefyd yn cael eu gweddarlledu'n fyw ar sianel YouTube yr Awdurdod, yn ogystal â hynny mae recordiad o'r cyfarfod i'w weld ar unrhyw adeg. Felly gall aelodau'r |

| | |
|---|---|
| | cyhoedd naill ai fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor yn bersonol neu gallant gael mynediad o bell.<br><br>Mae hyn nid yn unig yn gwella mynediad i Aelodau a Swyddogion ond hefyd yn gwella mynediad, tryloywder ac adrodd ar fusnes yr Awdurdod i aelodau'r cyhoedd. |
| | |
| **Cyllido Grant** | Ariennir y rhan fwyaf o waith prosiect yr Awdurdod trwy gyllid grant allanol.<br><br>Rhoddir diweddariadau Cyllid Grant, gan gynnwys unrhyw ailbroffilio a newidiadau i ddyddiadau gorffen lle bo'n berthnasol, i Aelodau drwy'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau bob chwe mis. Rhoddir gwybodaeth fanwl am brosiectau a ariennir gan gyfalaf yn ogystal â phrosiectau byw.<br><br>Mae'r Awdurdod yn adolygu ei flaenoriaethau'n flynyddol, gan sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r amserlenni sy'n gysylltiedig â rhai rhwymedigaethau grant, ac o ganlyniad yn cadarnhau'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer bidiau yn y dyfodol.<br><br>Mae'r aelodau wedi cadarnhau'n flaenorol bod angen eu cymeradwyaeth ar gyfer prosiectau o dan yr amgylchiadau canlynol:<br>• Unrhyw brosiectau aml-flwyddyn.<br>• Unrhyw gynnig nad yw'n cyd-fynd â'r hyn y cytunwyd arno fel blaenoriaeth strategol.<br>• Unrhyw gynnig a gyfeiriwyd at aelodau gan y Cadeirydd neu Brif Swyddog Gweithredol.<br>• Unrhyw gynnig yn ystod y flwyddyn uwchlaw'r terfyn cyllid y cytunwyd arno (cytunwyd ar £150,000)<br><br>Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd diweddariadau i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 12fed o Orffennaf 2023 ac ar yr 20fed o Fawrth 2024. |
| | |

## Materion Llywodraethu Arwyddocaol a Chamau y Bwriedir eu Cymryd ar gyfer 2024/25

<u>Archwilio Cymru: Arallgyfeirio Incwm</u>
Yn ystod y cyfnod rhwng Tachwedd 2022 a Mawrth 2023, cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad a oedd yn ceisio asesu a oedd gan yr Awdurdod y weledigaeth a'r systemau cywir ar waith i amrywio ei ffrydiau incwm, gan sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu cynllunio, eu rheoli a'u cyflawni'n effeithiol heb gyfaddawdu ar ei allu i gyflawni ei ddibenion a'i ddyletswyddau statudol. Cynhaliwyd yr adolygiad ym mhob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru.

Wrth adrodd ar y canlyniad yn benodol ar gyfer yr Awdurdod hwn ym mis Gorffennaf 2023, nododd Archwilio Cymru yn ei adroddiad fod "angen mwy o gydnerthedd ariannol ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i gyflawni'n effeithiol yn erbyn yr agenda uchelgeisiol a osodwyd gan Weinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru. Er mwyn gwneud hyn mae angen i Aelodau a swyddogion yr Awdurdod feddu ar y weledigaeth, y sgiliau a'r arbenigedd cywir i osod strategaeth ar gyfer arallgyfeirio incwm. Ochr yn ochr â hyn, rhaid i drefniadau llywodraethu cadarn ddarparu cyfleon craffu priodol ac effeithiol i helpu i arfarnu risgiau a buddion unrhyw weithgarwch newydd arfaethedig".

Daeth yr adolygiad i'r casgliad "Yn Eryri, canfuom fod gan yr Awdurdod hanes cryf o godi arian a rheoli adnoddau. Er mwyn mynd i'r afael â diffygion yn y gyllideb yn y dyfodol i sicrhau bod ei ddibenion statudol yn parhau i gael eu cyflawni a rheoli asedau allweddol, mae angen i'r Awdurdod osod gweledigaeth glir".

Cafodd adroddiad dilynol 'Arallgyfeirio Incwm ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru' a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023, ei ystyried yn fanwl gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 29ain o Dachwedd 2023. Nododd yr adroddiad 6 bloc adeiladu allweddol, pob un ohonynt yn hanfodol ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol pan fyddant yn amrywio eu ffrydiau incwm. Daeth yr adroddiad i ben gydag argymhellion i Lywodraeth Cymru:

"Mae hefyd yn amlwg bod yna faterion cyffredin a phwysig y mae angen mynd i'r afael â nhw os yw Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol am sicrhau incwm newydd yn llwyddiannus. Gyda hyn mewn golwg, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r adroddiad hwn i ddeall yr heriau a'r rhwystrau presennol sy'n wynebu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol sy'n ceisio amrywio eu ffrydiau incwm. Ar sail y canfyddiadau hyn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried a diffinio'n glir:
- ei weledigaeth a'i uchelgais ar gyfer cynhyrchu incwm gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru ar lefel genedlaethol;
- lefel y risg y mae'n gyfforddus i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru ei chymryd, a pharamedrau eraill ar gyfer dilyn ffrydiau incwm newydd;
- y gefnogaeth y bydd yn ei darparu i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol o ran y sgiliau sydd eu hangen i fynd ar drywydd arallgyfeirio incwm, a chraffu arno; a
- sut y bydd yn hwyluso cydweithio rhwng Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru er mwyn gallu dilyn mentrau cynhyrchu incwm ar y cyd."

Cynigion ar gyfer Gwella

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella ar gyfer yr Awdurdod yn benodol, sef y rhai a nodwyd gan Archwilio Cymru wrth gynnal yr adolygiad ynghyd ag ymateb yr Awdurdod.

<table>
<tr><td colspan="2">Argymhelliad</td></tr>
<tr><td>R1</td><td>Dull Strategol o arallgyfeirio incwm<br><br>Mae ymgymryd ag arallgyfeirio incwm yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gael digon o gapasiti, y sgiliau cywir a systemau cadarn ond ystwyth i fod ar waith. Rydym yn argymell bod yr Awdurdod yn:<br>➢ defnyddio ei offer hunanarfarnu i nodi ei gryfderau a'i wendidau presennol, a datblygu strategaeth ar gyfer arallgyfeirio incwm; ac<br>➢ fel rhan o'i strategaeth ar gyfer arallgyfeirio incwm yn gosod mesurau perfformiad CAMPUS a systemau llywodraethu priodol i sicrhau monitro a chraffu digonol ar gyflawni'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno ac sy'n deillio o'i hunanwerthusiad.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ymateb 12.07.23</td></tr>
<tr><td></td><td>Mae'r Awdurdod yn cytuno i ddefnyddio'r offeryn hunanwerthuso i ddatblygu strategaeth ar gyfer arallgyfeirio incwm.<br><br>Gall arallgyfeirio incwm fod yn ddwys o ran adnoddau gyda chyfleoedd cyfyngedig, a bydd angen i unrhyw strategaeth sicrhau bod ein hadnoddau prin yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol posibl.<br><br>Gyda'r cafeat a nodir uchod, cytunir y bydd y strategaeth yn mesur perfformiad ac yn asesu a oes angen newidiadau i'n model llywodraethu.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ymateb wedi'i Ddiweddaru 29.11.23</td></tr>
<tr><td></td><td>Mae'r adroddiad ei hun yn amlygu'r chwe bloc adeiladu ar gyfer arallgyfeirio cynhyrchu incwm ynghyd â'r offeryn hunanwerthuso. Mae swyddogion wedi ystyried y rhain ond mae cynnydd ar unrhyw waith pellach wedi cael ei gyfyngu oherwydd yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad ar y cyd a oedd yn herio Llywodraeth Cymru i ddeall ac ystyried y materion penodol sy’n wynebu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol o ran arallgyfeirio incwm ac i Lywodraeth Cymru ddarparu canllawiau ar y materion hynny.<br><br>Nododd adroddiad Archwilio Cymru hefyd yr angen am un strategaeth gorfforaethol ar arallgyfeirio incwm. Nid yw’r Awdurdod yn cynhyrchu un ddogfen o’r fath ond yn hytrach mae’n rhoi mwy o fanylion am feysydd cyflawni sy’n darparu cyfleoedd masnachol e.e., cynlluniau busnes a thargedau incwm ar gyfer meysydd fel Plas Tan y Bwlch, Yr Ysgwrn, Meysydd Parcio a Chanolfannau Croeso. Mae perfformiad gweithgareddau gyda chyfleoedd masnachol yn cael ei fonitro ar lefel swyddogion, byrddau swyddogion/aelodau penodol ac adroddir yn</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | achlysurol naill ai i'r Awdurdod neu'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau. |
| **Ymateb wedi'i Ddiweddaru 17.04.24** | |
| | Rhoddodd y Prif Weithredwr drosolwg o'r her ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod dros y ddwy flynedd ariannol nesaf, yn ei adroddiad i'r Gweithgor Aelodau ar yr 17eg o Ebrill 2024.<br><br>Roedd yr adroddiad yn nodi y disgwylir mewnbwn pellach gan Lywodraeth Cymru ynghylch arallgyfeirio incwm. Er gwaethaf hyn, cadarnhawyd y gall Swyddogion symud ymlaen ar y meysydd a ganlyn wrth baratoi, i gynghori a darparu opsiynau i Aelodau ar unrhyw gamau gweithredu y gallai fod eu hangen ar gyfer blynyddoedd ariannol 2025/26 a 2026/27:<br>➢ Incwm meysydd parcio<br>➢ Ffioedd cynllunio<br>➢ Canolfannau Croeso<br>➢ Yr Ysgwrn<br>➢ Nawdd masnachol |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad** | |
| R2 | **Plas Tan y Bwlch**<br><br>Argymhellwn fod yr Awdurdod, o fewn y 12 mis nesaf, yn adolygu ei fodel gweithredu ym Mhlas Tan y Bwlch i gynnal gwerthusiad cost a budd o'r cyfleuster er mwyn pennu ei strategaeth ar gyfer y safle yn y dyfodol. |
| **Ymateb 12.07.23** | |
| | Mae'r adolygiad hwn eisoes wedi cychwyn ac rydym yn y broses o gasglu'r wybodaeth. |

| **Ymateb wedi'i Ddiweddaru 07.02.24** | |
|---|---|
| | Roedd y Bwrdd wedi ystyried y sail resymegol weithredol ar gyfer Plas Tan y Bwlch, gan gwmpasu modelau busnes posibl a sut mae hynny'n cefnogi cyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol, a daeth i'r casgliad bod angen i'r Awdurdod leihau'r costau refeniw a chyfalaf sy'n deillio o reolaeth weithredol Plas Tan y Bwlch ac mae angen i'r Awdurdod ystyried modelau amgen ar gyfer Plas Tan y Bwlch sy'n cynnwys ffurfio partneriaethau neu ei werthu ar y farchnad agored, fel busnes gweithredol, yn ddelfrydol.<br><br>Penderfynodd yr Awdurdod:<br>1. Parhau gyda'r model busnes presennol am gyfnod hyd nes y gall yr Awdurdod ystyried yn ffurfiol ei opsiynau ar gyfer rheoli Plas Tan y Bwlch yn y dyfodol.<br>2. Gwahodd diddordeb gan bartneriaid posibl ar gyfer rheolaeth weithredol/datblygu Plas Tan y Bwlch.<br>3. Cynnig Plas Tan Y Bwlch ar y farchnad agored i brynwyr posibl.<br>4. Hyrwyddo Plas Tan y Bwlch yn weithredol fel busnes gweithredol i unrhyw bartner/prynwr posibl.<br>5. Caniatáu cyfnod o hyd at 6 mis ar gyfer dod o hyd i bartner neu werthu ar y farchnad agored.<br>6. Y Tîm Rheoli a Bwrdd y Plas i fonitro cynnydd ac adrodd yn ôl i'r aelodau yn ôl yr angen ond erbyn mis Medi 2024 fan bellaf gydag argymhellion tymor hir yn seiliedig ar ganlyniad unrhyw drafodaethau.<br>7. Defnyddio'r gronfa a nodwyd i bontio unrhyw bwysau/anghenion ariannol. |

<u>Proffil Risg yr Awdurdod</u>

Mae'r tair risg uchaf i'r Awdurdod fel y cawsant eu diweddaru ym mis Mawrth 2023, fel a ganlyn:

| **Risg** | **Canlyniad** | **Gweithred a Nodwyd / Cynnydd hyd yma** |
|---|---|---|
| Diffyg arian cyllido craidd digonol. | Torri Gwasanaethau. | Cafodd y Gyllideb ar gyfer 2024/25 ei chymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 7 Chwefror 2024, ac fe'i sefydlwyd ar sail dim newid i Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25. Roedd hyn yn parhau'r cynnydd sero yn lefel cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Grant y Parc Cenedlaethol, er bod yr Awdurdod yn profi lefelau chwyddiant na welwyd ers y 1980au. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Ar adeg pennu'r gyllideb, rhagwelir y bydd cyllideb 2024/25 yn cynnwys cyfraniad net o £1,061,760 o gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod, sy'n cynnwys £731,330 o gyllid refeniw a £330,430 o gyfalaf. Mae hon yn lefel ddigynsail o ddefnydd cronfeydd wrth gefn, ac er bod rhywfaint o hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â'r defnydd o grant a dderbyniwyd mewn blynyddoedd blaenorol, nid yw'r defnydd o gronfeydd eraill yn gynaliadwy yn y tymor hir.<br><br>Mewn blynyddoedd blaenorol, mae APCE wedi gallu cadw hyblygrwydd gyda'i gronfeydd wrth gefn ac mae wedi cadw lefel ddoeth o arian i allu cydbwyso'r gyllideb heb weithredu toriadau brys. Fodd bynnag, ystyriwyd arbedion ar gyfer 2024/25 a bydd yn rhaid i hyn barhau yn y blynyddoedd i ddod, gydag effaith niweidiol ar wasanaethau, oni bai bod y Llywodraeth yn cynyddu'r grant.<br><br>Yn dilyn adroddiad gan Archwilio Cymru, mae nifer o argymhellion wedi eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i nodi opsiynau ar gyfer codi incwm - ac egluro'r risgiau cysylltiedig - ond mae'r gwaith hwn wedi'i ohirio nes bod canllawiau wedi'u derbyn gan Lywodraeth Cymru.<br><br>**Graddfa Risg:**<br>**Effaith 4 x Tebygolrwydd 4 = 16 (Uchel)** |
| Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch). | Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod. | Yn dilyn y pandemig a'r nifer o gyfnodau clo mae Plas Tan y Bwlch wedi bod yn gweithredu model busnes hybrid sy'n cynnwys ceisio gwneud y gorau o'r farchnad dwristiaid trwy gynnig pecyn Gwely a Brecwast i ymwelwyr, cynnal digwyddiadau arbennig fel cynadleddau a phriodasau, a chroesawu rhywfaint yn ôl o'r hyn y gellid ei ddisgrifio fel defnyddwyr craidd blaenorol Plas Tan y Bwlch.<br><br>At ei gilydd, mae hyn wedi cwrdd â chanlyniadau cymysg. Er bod incwm wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, yn anffodus mae'r costau cyffredinol wedi cynyddu hefyd, yn enwedig pan fydd rhywun yn ystyried y pwysau chwyddiant sy'n wynebu |

| | | |
|---|---|---|
| | | Plas Tan y Bwlch. Gyda'r pwysau ariannol yn wynebu'r Awdurdod yn gyffredinol mae angen cynyddol i fynd i'r afael â'r diffyg. Mae Bwrdd Plas Tan y Bwlch yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod y diffyg ac ystyried opsiynau tuag at y dyfodol.<br><br>Mae Archwilio Cymru wedi argymell bod Cynllun Busnes yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod o fewn 12 mis. Mae Bwrdd Plas Tan y Bwlch wedi cael y dasg o lunio opsiynau ar gyfer dyfodol Plas Tan y Bwlch. Cyflwynodd y Prif Weithredwr bapur i'r Gweithgor Aelodau ym mis Ionawr 2024 ac ystyriodd yr Awdurdod y mater yn ffurfiol yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2024, pan gytunodd i fabwysiadu dull deuol er mwyn lleihau'r risg i'r Awdurdod yn y dyfodol. Bydd yr Awdurdod yn ystyried y mater nesaf ym mis Medi 2024.<br><br>**Graddfa Risg:**<br>**Effaith 4 x Tebygolrwydd 5 = 20 (Uchel)** |

Yn ogystal, diweddarwyd yr ail risg ynglŷn â Phlas Tan y Bwlch ym mis Mawrth fel yr amlinellir hynny yn y tabl isod. Gofynnodd yr Aelodau a chytunwyd arnynt yng nghyfarfod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau dyddiedig yr 20fed o Fawrth 2024, i'r ddwy risg gael eu cyfuno i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol, ac i gynnwys mwy o fanylion mewn perthynas â'r risg i enw da'r Awdurdod, y risgiau ariannol, y risgiau i'r adeilad ei hun etc.

| Risg | Canlyniad | Gweithred a Nodwyd / Cynnydd hyd yma |
|---|---|---|
| Sicrhau dyfodol tymor hir i Blas Tan y Bwlch. | Risg i enw da'r Awdurdod wrth reoli Plas Tan y Bwlch. Y Plas yn gorfod cau gyda staff yn colli eu bywoliaeth. Effaith andwyol ar yr economi leol ac enw da'r Awdurdod yn dioddef. | Fel yr adroddwyd yn flaenorol, er bod incwm yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, mae diffyg sylweddol y mae angen mynd i'r afael ag ef.<br><br>Mae Archwilio Cymru wedi argymell bod Cynllun Busnes yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod o fewn 12 mis. Mae Bwrdd Plas Tan y Bwlch wedi cael y dasg o lunio opsiynau ar gyfer dyfodol Plas Tan y Bwlch. Cyflwynodd y Prif Weithredwr bapur i'r Gweithgor Aelodau ym mis Ionawr 2024 ac ystyriodd yr Awdurdod y mater yn ffurfiol yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2024, pan gytunodd i fabwysiadu dull deuol er mwyn lleihau'r risg i'r Awdurdod yn y dyfodol. Bydd yr Awdurdod yn ystyried y mater nesaf ym |

| | | |
|---|---|---|
| | | mis Medi 2024.<br><br>Mae hefyd wedi dod yn amlwg bod nifer o broblemau gyda'r adeilad ei hun megid tamprwydd cynyddol a cholli ystafelloedd gosod yn sgil hynny. Rydym ar hyn o bryd yn ymchwilio i'r sefyllfa ac mae gennym Arolwg o Gyflwr yr adeilad. Mae'r adroddiad hwn wedi ei drafod yn y Bwrdd ac rydym wedi gofyn am fanylion y gwaith brys angenrheidiol, gyda golwg ar ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno cais am arian grant ar gyfer gweddill y gwaith. Gellir penderfynu wedyn os a sut i fuddsoddi ymhellach yn y Plas gyda'r arian eisoes i law. Yn y cyfamser cafwyd caniatâd adeilad rhestredig i wneud gwaith brys a gwaith y gellir ei wneud ar y cyd â gwaith arall a fydd yn lleddfu'r broblem o ddŵr yn dod i mewn gan achosi tamprwydd.<br><br>**Graddfa Risg:**<br>**Effaith 3 x Tebygolrwydd = 12 (Canolig)** |

Yn wyneb y ceisiadau uchod, bydd y Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu'n ffurfiol a'i chyflwyno i'w chymeradwyo yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau nesaf ym mis Gorffennaf 2024.

## Barn

Rydym yn bwriadu cymryd camau i ymdrin â'r materion y cyfeiriwyd atynt yn rhan 6 yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r anghenion gwella a bennwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.



**EMYR WILLIAMS**

**PRIF WEITHREDWR**
**AWDURDOD PARC**
**CENEDLAETHOL ERYRI**

**DYDDIAD: 12.06.2024**



**EDGAR WYN OWEN**

**CADEIRYDD**
**AWDURDOD PARC**
**CENEDLAETHOL ERYRI**

**DYDDIAD: 12.06.2024**

# RHESTR TERMAU

**CRONIADAU**

Y cysyniad fod incwm a gwariant yn cael ei gydnabod fel y mae'n cael ei ennill neu ei wneud, nid pan fo arian yn cael ei dderbyn neu ei dalu.

**TÂL CYFALAF**

Taliad i gyfrifon refeniw gwasanaeth i adlewyrchu cost yr asedau sefydlog a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth.

**GWARIANT CYFALAF**

Gwariant ar gaffael ased sefydlog neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased sefydlog presennol, nid ei gynnal yn unig.

**DERBYNIADAU CYFALAF**

Derbyniadau o ddim llai na £10,000 o werthiant asedau sefydlog. Gellir eu defnyddio ar gyfer cyllido gwariant cyfalaf o'r newydd neu ad-dalu dyled. Ni ellir eu defnuyddio i gyllido gwariant refeniw "dydd i ddydd" arferol.

**ASEDAU CYMUNEDOL**

Asedau y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu dal am byth, nad oes ganddynt oes ddefnyddiol y gellir ei phennu, ac sydd o bosib â chyfyngiadau ar gael gwared â hwy.

**RHWYMEDIGAETHAU / ASEDAU AMODOL**

Mae'r rhain yn deillio o ddigwyddiad hanesyddol ac sy'nm ddibynnol ar ddigwyddiadau ac amseriad heb sicrwydd iddynt yn y dyfodol cyn y gellir eu cynnwys yn y cyfrifon.

**GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF O DAN STATUD**

Gwariant a ddyrennir fel cyfalaf i bwrpasau ariannu ond nad yw'n arwain at i wariant gael ei gario yn y fantolen fel ased sefydlog . Yn gyffredinol grantiau yw'r rhain a gwariant ar eiddo nad yw'n perthyn i'r Awdurdod.

**CYNLLUN BUDDIANT DIFFINIEDIG**

Cynllun pensiwn ble bo rheolau'r cynllun yn diffinio'r buddiannau'n annibynnol ar y cyfraniadau sy'n daladwy, ac nad yw'r buddiannau'n uniongyrchol gysylltiedig â buddsoddiadau'r cynllun.

**PRYDLES GYLLID**

Prydles sy'n trosglwyddo holl risgiau a gwobrwyon perchnogaeth ased sefydlog i'r prydleswr.

**PRYDLES WEITHREDOL**

Prydles heblaw prydles ariannol

**ASEDAU SEFYDLOG**

Asedau diriaethol sy'n rhoi buddiannau i'r awdurdod a'r gwasanaethau y mae'n ddarparu am ragor nag un flwyddyn.

**OES DDEFNYDDIOL**

Y cyfnod y mae'r awdurdod yn cael buddiannau o ddefnydd ased sefydlog.

**BYRFODDAU**

| | |
|---|---|
| **CIPFA** | Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifo |
| **LASAAC** | Local Authority (Scotland) Accounts Advisory Committee |
| **IFRS** | Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol |
| **IAS** | Safon Cyfrifeg Rhyngwladol |

# Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2026



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cynnwys | 2 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Cipolwg ar eich archwiliad | 5 |
| Perthnasedd | 6 |
| Canfyddiadau Archwilio | 7 |
| Tîm archwilio a chydymffurfio moesegol | 9 |
| Atodiad 1 – Risgiau archwilio a'r canlyniadau | 10 |
| Atodiad 2 – Crynodeb o gywiriadau a wnaed | 15 |
| Atodiad 3 – Adroddiad archwilio arfaethedig | 20 |
| Atodiad 4 – Llythyr sylwadau | 26 |
| Ansawdd archwilio | 29 |
| Eich cefnogi chi | 30 |

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw’r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru’n derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth ar y ddogfen hon nac unrhyw ddefnydd arall ohoni gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o’n cyhoeddiadau mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu drwy anfon neges e-bost i post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cyflwyniad



**Adrian Crompton**

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae’n dda gennyf rannu fy Adroddiad ar yr Archwiliad o’r Cyfrifon. Mae’r Adroddiad yn crynhoi prif ganfyddiadau fy archwiliad o’ch adroddiad blynyddol a chyfrifon ar gyfer 2023-24. Mae fy nhîm eisoes wedi trafod y canfyddiadau hyn gyda’r Pennaeth Cyllid a'i thîm.

Mae fy nhîm wedi cwblhau y gwaith archwilio yn unol a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio dyddiedig Rhagfyr 2025.

Ers fy Nghynllun Archwilio, rwyf wedi diweddaru perthnasedd i adlewyrchu cyfrifon 2023-24. Nid wyf wedi adnabod unrhyw risgiau archwilio newydd. Caiff fy ymateb i risgiau a adnabuwyd yn flaenorol ei nodi yn **Atodiad 1**.

Mae’n ofynnol i mi ddarparu barn pa un a yw’r cyfrifon wedi cael eu paratoi’n briodol, a pha un a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg, ym mhob agwedd berthnasol. Caiff fy marn archwilio arfaethedig a’r sail drosti ei hamlinellu ar dudalen 17.

Cyfrifoldeb y rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu, h.y. yr Awdurdod yw mynd i’r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn fy adroddiad a darparu Llythyr Sylwadau ar fy nghyfer.

Hoffwn estyn fy niolchgarwch i swyddogion a staff Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri am eu cydweithrediad trwy gydol y broses archwilio sydd wedi bod yn amhrisiadwy i allu cwblhau’r archwiliad hwn yn effeithiol.

# Cipolwg ar eich archwiliad

Rydym yn bwriadu cyhoeddi **barn ddiamod** ar y cyfrifon.

Gweler **Atodiad 4**

Mae **materion arwyddocaol eraill** i'w nodi.

Gweler y **Canfyddiadau archwilio**

Nid oes unrhyw **gamddatganiadau heb eu cywiro** yn y cyfrifon yr ydym yn dymuno eu dwyn i'ch sylw.

Gweler y **Canfyddiadau archwilio**

Bydd yr argymhellion sy'n codi o'n gwaith yn cael eu nodi mewn Memorandwm ar y Cyfrifon a fydd yn cael ei gyfleu i swyddogion maes o law.

Gweler **Atodiad 5**

Rydym yn anelu at ardystio eich cyfrifon ar **30 Ebrill 2026.**

# Perthnasedd

Rwy’n defnyddio barn proffesiynol i bennu trothwy perthnasedd i adnabod a chywiro camddatganiadau a allai effeithio ar benderfyniadau defnyddwyr, gan ystyried gwallau ariannol a gofynion datgelu yn ôl y fframwaith cyfrifyddu a’r cyfreithiau perthnasol. Mae fy nhîm yn diweddaru perthnasedd trwy gydol yr archwiliad ac yn yr adroddiad hwn rwy’n cynnwys materion sy’n mynd y tu hwnt i’m trothwy adrodd, a nodir isod.

**Perthnasedd**

Pennwyd lefel perthnasedd o 2% o wariant gros yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol drafft 2023-24.

**£236,000**

**Trothwy adrodd (dibwys)**

Pennwyd lefel perthnasedd o 5%.

**£12,000**

Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon. Rydym yn cadarnhau lefelau perthnasedd is ar gyfer y rhain:

**Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol**

£1,000

**Datgeliadau partïon cysylltiedig**

£10,000

# Canfyddiadau Archwilio

## Camddatganiadau

Mae camddatganiad yn codi lle nad yw gwybodaeth yn y cyfrifon yn unol â safonau cyfrifeg.

### Camddatganiadau a gywirwyd

Yn ystod ein harchwiliad, canfuom rhai gamddatganiadau sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i’ch sylw yn ein tyb ni.

Caiff y rhain eu nodi yn **Atodiad 2**.

## Materion arwyddocaol eraill

Mae’r Safon Ryngwladol ar Gyfrifyddu 260 yn ei gwneud hi’n ofynnol i ni gyfathrebu gyda’r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu. Rhaid i ni roi gwybod i chi am ganfyddiadau arwyddocaol o’r archwiliad a materion eraill os ydynt yn arwyddocaol i’ch goruchwyliaeth chi ar broses adrodd ariannol yr Awdurdod.

Nodwyd y materion arwyddocaol canlynol yn ystod yr archwiliad.

### Ansawdd y cyfrifon drafft

Amlygodd ein hadroddiad Archwilio Cyfrifon 2022-23 nifer o faterion gydag ansawdd y cyfrifon drafft a ddarparwyd i'w harchwilio. Yn benodol, fe wnaethom nodi materion sylweddol yn y meysydd canlynol:

a) eiddo, offer a chyfarpar (PPE);
b) datgeliadau pensiwn;
c) partïon cysylltiedig; a
d) credydwyr

Nododd ein harchwiliad o gyfrifon 2023-24 nad oedd angen unrhyw ddiwygiadau i ddatgeliadau credydwyr neu bartïon cysylltiedig, ac roedd angen llai o ddiwygiadau ar gyfer PPE a phensiynau. Mae'r rhan fwyaf o welliannau ar gyfer 2023-24 yn deillio o amrywiadau rhwng y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol, neu o anghysondebau rhwng nodiadau datgelu, yn hytrach nag o wallau cyfrifyddu technegol. Er y byddai gwelliant pellach i

brosesau sicrhau ansawdd yr Awdurdod yn helpu i leihau materion o'r fath, mae ansawdd cyffredinol y cyfrifon drafft a ddarperir ar gyfer archwilio yn dangos gwelliant clir.

Yn ein hadroddiad 2022-23, gwnaethom hefyd adrodd oedi mewn ymatebion i geisiadau am wybodaeth ac ymholiadau archwilio. Mae mwy o gapasiti o fewn y tîm cyllid wedi arwain at well prydlondeb yn gyffredinol, er bod rhai ceisiadau yn parhau i fod heb eu gwneud am sawl wythnos. Rydym yn cydnabod yr ymrwymiadau cystadleuol sy'n wynebu swyddogion, ac yn adeiladu ar lythyr yr Archwilydd Cyffredinol at y Prif Weithredwr ym mis Mawrth 2026 ar y broses gynhyrchu cyfrifon, rydym yn gweithio gyda'r Awdurdod i gytuno ar gynllun adfer realistig ar gyfer yr archwiliad o gyfrifon drafft 2024-25 a 2025-26.

## Barn archwilio arfaethedig

### Barn archwilio

Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch chi wedi darparu Llythyr Sylwadau ar ein cyfer (gweler isod).

Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 3**

### Llythyr sylwadau

Llythyr ffurfiol yw Llythyr Sylwadau ac ynddo rydych yn cadarnhau wrthym ni bod yr wybodaeth a ddarparwyd ar ein cyfer yn ystod yr archwiliad yn gywir ac yn gyflawn. Mae peth o’r wybodaeth hon yn ofynnol yn ôl safonau archwilio; gall gwybodaeth arall ymwneud yn benodol â’ch archwiliad chi.

Mae’r llythyr yr ydym yn gofyn i chi ei lofnodi wedi’i gynnwys yn **Atodiad 4** mae ei gynnwys yn gyson â’n cais safonol am sylwadau.

# Tîm archwilio a chydymffurfio moesegol

Mae prif aelodau fy nhîm a wnaeth y gwaith archwilio, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 1**.

**Arddangosyn 1: fy nhîm archwilio lleol**

| | |
|---|---|
| **Arweinydd Ymgysylltu** | Matthew Edwards<br>matthew.edwards@archwilio.cymru |
| **Rheolwr Archwilio** | Rachel Freitag<br>rachel.freitag@archwilio.cymru |
| **Arweinydd Archwilio** | Daniel Price<br>daniel.price@archwilio.cymru |

## Cydymffurfio â safonau moesegol

Rydym yn cadarnhau:

- ein bod wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol y mae'n ofynnol i ni eu dilyn wrth wneud ein gwaith;
- ein bod wedi aros yn annibynnol oddi arnoch chi;
- nad yw ein gwrthrychedd wedi cael ei beryglu; ac
- nad oes gennym unrhyw berthnasoedd a allai danseilio ein hannibyniaeth neu ein gwrthrychedd.

Fel y nodwyd yn y Cynllun Archwilio, nodwyd un gwrthdaro buddiannau posibl. Mae gan aelod o'n tîm ffrind sy'n gweithio i'r Awdurdod. Mae'r mesurau diogelu ychwanegol a weithredwyd yn sicrhau nad oedd ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn cael eu peryglu.

# Atodiad 1 – Risgiau archwilio a’r canlyniadau

Roedd fy Nghynllun Archwilio’n nodi’r risgiau o gamddatganiad perthnasol ar gyfer yr archwiliad o gyfrifon Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae **Arddangosyn 2** yn rhestru’r risgiau archwilio hyn ac yn nodi sut yr aethpwyd i’r afael â hwy fel rhan o’r archwiliad. Nid adnabuwyd unrhyw risgiau archwilio ychwanegol ers hynny y mae angen eu dwyn i’ch sylw.

**Arddangosyn X: risgiau archwilio a adroddwyd yn flaenorol, gwaith a wnaed a’r canlyniad**

| Risg archwilio | Gwaith a wnaed | Canlyniad |
|---|---|---|
| **Risg o wrthwneud gan reolwyr**<br>Mae’r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau’n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o’r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.32-33]. | Fe wnaeth y tîm archwilio:<br>• brofi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi’r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer gwyrdueddiadau; a<br>• gwerthuso’r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes. | Nid adnabu fy ngwaith unrhyw achosion o wrthwneud rheolaethau gan reolwyr. |

| | | |
|---|---|---|
| **Prisio rhwymedigaeth/gwarged net y gronfa bensiwn**<br>Mae prisiad gwarged / rhwymedigaeth y gronfa bensiwn yn amcangyfrif materol.<br>Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu ei fod yn destun lefel uchel o ansicrwydd amcangyfrif gan ei fod yn sensitif i addasiadau bach yn y rhagdybiaethau a ddefnyddir yn ei gyfrifiad.<br>Mae risg felly bod yr rhwymedigaeth/gwarged yn cael ei gamddatgan yn sylweddol. | Fe wnaeth y tîm archwilio:<br>• gwerthuso'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan y rheolwyr i'w harbenigwyr rheoli (actiwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actiwari;<br>• asesu cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd yr actiwari a gynhaliodd y prisiadau;<br>• asesu cywirdeb a chyflawnrwydd yr wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod i'r actiwari i amcangyfrif yr atebolrwydd;<br>• profi cywirdeb atebolrwydd net y gronfa bensiwn a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol gyda'r adroddiad actiwaraidd gan yr actiwari;<br>• asesu rhesymolrwydd y rhagdybiaethau a wnaed gan yr actiwari trwy adolygu adroddiad yr actiwari ymgynghorol (arbenigwr yr archwilydd) ac ymgymryd ag unrhyw weithdrefnau ychwanegol sydd eu hangen; ac<br>• asesu a allai unrhyw achosion cyfreithiol gael effaith sylweddol ar yr atebolrwydd net, ac os felly, cadarnhau bod hyn wedi'i gydnabod a'i ddatgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol. | Manylir ar ddiwygiadau sy'n deillio o'n harchwiliad o warged net y gronfa bensiwn yn atodiad 2. |

| | | |
|---|---|---|
| **Prisio tir ac adeiladau**<br>Mae gwerth asedau eiddo a adlewyrchir yn y fantolen a'r nodiadau i'r cyfrifon yn amcangyfrifon materol ac yn destun lefel uchel o goddrychedd.<br><br>Mae risg y gallai gwerth cario asedau a gydnabyddir yn y cyfrifon fod yn sylweddol wahanol i werth cyfredol asedau ar 31 Mawrth 2023. | Fe wnaeth y tîm archwilio:<br>• adolygu’r wybodaeth a ddarparwyd i'r prisiwr i asesu ei fod yn gyflawn;<br>• gwerthuso cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd y prisiwr proffesiynol;<br>• profi asedau wedi'u hailbrisio yn ystod y flwyddyn i dystiolaeth ategol i sicrhau bod y sail brisio, y data allweddol a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y broses brisio yn rhesymol; ac<br>• Profi’r cysoni rhwng y cyfriflyfr ariannol a'r gofrestr asedau | Nid oedd angen unrhyw ddiwygiadau mewn perthynas â phrisio tir ac adeiladu. Manylir ar ddiwygiadau eraill, sy'n ymwneud ag Eiddo, Offer a Chyfarpar yn atodiad 2. |
| **Datganiadau Ariannol Drafft**<br>Nid oedd y datganiadau ariannol drafft a gyflwynwyd ar gyfer yr archwiliad yn 2021-22 a 2022-23 o'r ansawdd a ddisgwyliwyd.<br>Nododd ein gwaith archwilio faterion a gwallau sylweddol a arweiniodd at ddiwygiadau i'r datganiad ariannol neu'r angen am waith archwilio ychwanegol.<br>Effeithiodd hyn ar gyflawni ein harchwiliad yn amserol. | Fe wnaeth y tîm archwilio:<br>• gweithio gyda'r tîm cyllid i ddeall y trefniadau a'r prosesau a sefydlwyd i wella ansawdd y datganiadau ariannol drafft;<br>• monitro'r cynllun cau ac adolygu'r datganiadau ariannol drafft a'r papurau gwaith ar ôl eu derbyn i nodi a oedd unrhyw faterion a allai effeithio ar yr amserlen archwilio; ac<br>• adolygu Rhestr Wirio Datgelu CIPFA i sicrhau bod y datganiadau ariannol wedi'u paratoi, sicrhau bod datgeliadau'n gyflawn | Mae ansawdd y cyfrifon drafft a ddarparwyd ar gyfer archwilio wedi gwella ar y blynyddoedd blaenorol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r tîm cyllid i nodi sut y gellir cyflawni gwelliannau pellach wrth i'r Awdurdod geisio mynd i'r afael â'i ôl-groniad paratoi cyfrifon. |

| | | |
|---|---|---|
| **Datgeliadau partïon cysylltiedig**<br>Rhaid i'r datganiadau ariannol ddatgelu unrhyw berthynas partïon cysylltiedig ynghyd â'r trafodion a'r balansau rhwng yr Awdurdod a'r corff neu'r parti arall.<br>Mae gan yr Awdurdod lawer o berthnasoedd y gellid eu hystyried yn barti cysylltiedig. Mae llawer yn adnabyddus er enghraifft, Llywodraeth Cymru fel ariannwr.<br>Pan fo perthnasoedd partïon cysylltiedig yn codi trwy berthnasoedd swyddogion unigol neu aelodau, mae'n debygol y bydd llai o dryloywder ynghylch y perthnasoedd hyn. Mae'r trafodion hyn o ddiddordeb uchel ac yn cael eu hystyried yn perthnasol yn ôl eu natur Mae risg o gamddatganiad parthnasol oherwydd datgeliadau anghyflawn neu anghywir, hyd yn oed pan fo'r rhain o werth cymharol isel | Fe wnaeth y tîm archwilio:<br>• adolygu proses yr Awdurdod ar gyfer nodi perthnasoedd partïon cysylltiedig a thrafodion a balansau cysylltiedig;<br>• ymgymryd â gweithdrefnau i gadarnhau cyflawnrwydd perthnasoedd partïon cysylltiedig; a<br>• sicrhau bod datgeliadau yn gyflawn, yn gywir, yn gyson â thystiolaeth ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023-24 (y Cod). | Nid oedd ein gwaith archwilio yn nodi unrhyw gamddatganiadau yn y datgeliadau partïon cysylltiedig. |

| | | |
|---|---|---|
| **Datgeliadau Tâl**<br>Cafwyd un penodiad newydd i swydd uwch yn ystod 2023-24. Mae risg nad yw'r swydd yn cael ei datgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol gan fod tâl a delir i uwch swyddogion o ddiddordeb uchel ac yn perthnasol yn ôl ei natur. Felly, gallai hyd yn oed gwallau gwerth isel yn y datgeliad arwain at gamddatganiad materol. | Fe wnaeth y tîm archwilio:<br>• deall y symudiadau yn yr uwch dîm rheoli yn ystod 2023-24;<br>• sicrhau bod y tâl a ddatgelir yn gyson â thystiolaeth ategol; a<br>• sicrhau bod y symiau a dalwyd yn gyson â'r rhai a gymeradwywyd gan yr Awdurdod. | Manylir ar ddiwygiadau sy'n deillio o'n profion o'r datgeliadau tâl yn atodiad 2. |
| **Credydwyr Masnach**<br>Nododd profion yn ystod yr archwiliad cyfnod blaenorol fod credydwyr wedi'u gorddatgan. Adroddwyd am faterion tebyg hefyd yn adroddiad Archwiliad Cyfrifon 2021-22. Cododd hyn wrth i nifer o falansau credydwyr, yr oedd yr Awdurdod wedi nodi nad oedd eu hangen mwyach, wedi'u cynnwys yn anghywir yn y fantolen. | Adolygodd y tîm archwilio hen gredydwyr yr Awdurdod i sicrhau mai dim ond rhwymedigaethau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y flwyddyn oedd wedi'u cynnwys yn y fantolen | Nid oedd ein gwaith archwilio yn nodi unrhyw gamddatganiadau mewn credydwyr masnach. |

# Atodiad 2 – Crynodeb o gywiriadau a wnaed

Yn ystod ein harchwiliad, canfuom y camddatganiadau canlynol sydd wedi'u cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni.

| Gwerth y cywiriad | Maes yn y cyfrifon | Eglurhad |
| --- | --- | --- |
| £17,309,000 | **Uchafswm Asedau Pensiwn**<br>Nid oedd y cyfrifiad addasiad uchafswm asedau yn cynnwys gwerthoedd ar gyfer effaith y nenfwd asedau a'r llog cysylltiedig. Cafodd hyn effaith net ar y rhwymedigaeth o £17,309,000.<br><br>Nid oedd y datgeliadau pensiwn yn cynnwys gwerthoedd ar gyfer effaith y uchafswm asedau a'r llog cysylltiedig yn eu cyfrifiad. Cafodd hyn effaith net ar y rhwymedigaeth gloi o £17,309,000 o fewn Nodyn 36. Fodd bynnag, oherwydd effaith yr uchafswm asedau, yr effaith ar y fantolen oedd £278,000.<br><br>Oherwydd natur yr addasiad, gwnaed diwygiadau hefyd i'r CIES, Mantolen, Cronfa Pensiwn, Nodyn 22 a Nodyn 36. | Er mwyn sicrhau bod trafodion yn cael eu cydnabod yn briodol o fewn y cyfrifon. |
| £383,000 | **Nodyn 9 – Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi** | Er mwyn sicrhau bod symudiadau mewn |

| | | |
|---|---|---|
| | Cronfa Grantiau Refeniw<br>Cafodd y gwerth trosglwyddo allan ei gamddatgan o £411,000 ond roedd cyfanswm gwerth y gronfa yn gywir.<br><br>Is-gyfanswm<br>Ni wnaeth y trosglwyddiadau yn y golofn symio yn gywir a arweiniodd at orddatganiad o £11,000.<br><br>Cronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb ei Chymhwyso<br>Cafodd y ffigurau a drosglwyddwyd allan ac i mewn eu camddatgan o £35,000 a £3,000 yn y drefn honno, fodd bynnag, roedd cyfanswm gwerth y gronfa wrth gefn yn gywir. | cronfeydd wrth gefn yn cael eu cydnabod yn gywir o fewn y cyfrifon. |
| £397,000 | **Nodyn 29 - Incwm Grant**<br>Nid oedd y gwerth yn ôl y cyfrifon drafft yn cytuno i bapurau gwaith. Cafodd un grant ei dan-ddatgan a dau eu or-ddatgan, gan arwain at danddatganiad net incwm grant o £397,000. | Er mwyn sicrhau bod trafodion yn cael eu cydnabod yn briodol o fewn y cyfrifon. |
| £200,000 | **Nodyn 12 – Incwm Grant Amhenodol**<br>Gor-ddatganwyd cyfanswm gwerth Grant y Parc Cenedlaethol o £200,000 yn Nodyn 12. Fodd bynnag, roedd cyfanswm gwerth incwm y Grant | Er mwyn sicrhau bod incwm yn cael ei gydnabod yn gywir o fewn y nodyn ac yn gyson â meysydd eraill y cyfrifon. |

| | | |
|---|---|---|
| | Amhenodol yn cytuno â'r CIES a Nodyn 2c. | |
| £96,000 | **Nodyn 15 – Asedau anghyffwrddadwy**<br>Gor-ddatganwyd gwerth llyfr net agoriadol (NBV) y 'Rhaglen Ambassador' o £96,000 ac ni chafodd ei gefnogi gan bapurau gwaith sylfaenol. | Er mwyn sicrhau bod gwerth agoriadol y nodyn yn gytuno â'r cyfrifon archwiliedig cyfnod blaenorol. |
| £46,473 | **Nodyn 32 – Lesoedd**<br>Ailddosbarthwyd ased meddalwedd gwerth £46,473 o brydlesi i asedau anghyffwrddadwy. | Er mwyn sicrhau bod rhwymedigaethau prydles yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yn y cyfrifon yn seiliedig ar ddosbarthiad cywir. |
| £38,000<br><br>£28,000 | **Nodyn 23 - Datganiad Llif Arian**<br>Roedd y gwerth ar gyfer 'Symudiad mewn credydwyr' wedi'i gamddatgan ac nid oedd yn cytuno â'r symudiadau a welwyd mewn nodiadau eraill i'r cyfrifon. Diwygiwyd gwerth y nodyn o £372,000 i £410,000.<br><br>Cafodd gwerth 'Costau darparu gwasanaethau ar gyfer budd-daliadau ôl-gyflogaeth ei gamddatgan hefyd, a diwygiwyd y gwerth o £551,000 i £579,000. | Er mwyn sicrhau bod y symudiadau llif arian yn cael eu hadlewyrchu'n gyson, gwerthoedd a ddatgelwyd mewn mannau eraill yn y cyfrifon. |
| £15,000 | **Nodyn 13 – Eiddo, Offer a Chyfarpar** | Er mwyn sicrhau bod dibrisiant yn cael ei |

| | | |
|---|---|---|
| | Nododd profion 2 adeilad nad oeddent yn cael eu dibrisio. Arweiniodd hyn at y NBV Tir ac Adeiladau yn cael ei or-ddweud o £15,000.<br><br>Roedd hyn yn cynnwys £10,000 o ddibrisiant cronedig a £5,000 o ddibrisiant a godwyd yn ystod y flwyddyn. | gymhwyso'n gywir ar draws pob ased. |
| £12,000 | **Nodyn 14 – Asedau Treftadaeth**<br>Datgelwyd NVB agoriadol Yr Ysgwrn yn anghywir fel £779,000 yn hytrach na £767,000 yn unol â'r gost a ddygwyd ymlaen a'r gwerthoedd dibrisiant cronedig. | Er mwyn sicrhau bod y gwerth agoriadol yn y nodyn yn cytuno i'r cyfrifon archwiliedig cyfnod blaenorol. |
| Amrywiol | **Nodyn 27 – Tâl staff**<br>Roedd swm y gydnabyddiaeth ar gyfer Uwch Swyddog yn wahanol i'r dystiolaeth ategol gan £5,000.<br>Diweddarwyd y nodyn i adlewyrchu cyfanswm y gydnabyddiaeth ar gyfer 2023-24 ac ychwanegwyd troednodyn i ddarparu eglurhad ychwanegol.<br><br>**Cymhareb Tâl**<br>Roedd yr adroddiad a ddefnyddiwyd i lunio'r Gymhareb Tâl yn anghyflawn, gan arwain at ddiwygio'r Gymhareb Tâl o 3.17 i 3.27. | Er mwyn sicrhau bod datgeliadau yn cytuno â chofnodion sylfaenol. |

| | | |
|---|---|---|
| Amrywiol | **Adroddiad Naratif**<br>Gwnaed sawl diwygiad i gywiro gwerthoedd yn yr Adroddiad Naratif ac awgrymwyd naratif ychwanegol i roi eglurder i ddefnyddiwr y cyfrifon | Er mwyn sicrhau cysondeb rhwng y Datganiadau Ariannol a'r Adroddiad Naratif. |
| Amrywiol | Roedd angen nifer o ddiwygiadau trwy gydol y cyfrifon i gywiro materion naratif a chyflwyno, gan gynnwys:<br>• Ffigurau anghywir yn cael eu defnyddio.<br>• Ffigurau cymharol anghywir.<br>• Gwallau gyda chroesgyfeirio rhwng nodiadau.<br>• Camgymeriadau gyda castio.<br>• Gwallau talgrynnu. | Er mwyn sicrhau cyflawnrwydd a chywirdeb y cyfrifon. |

# Atodiad 3 – Adroddiad archwilio arfaethedig

**Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

**Barn ar y datganiadau ariannol**

Rwyf wedi archwilio datganiadau arianno Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cynnwys y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llifoedd Arian Parod, a’r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasedd arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a’r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y’u dehonglwyd ac y’u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023-24.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae’r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar 31 March 2024 ac o’i incwm a’i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a’r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y’u dehonglwyd ac y’u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023-24.

**Sail y farn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â’r gyfraith berthnasol a’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 ‘Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau’r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig’. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o’m hadroddiad sy’n nodi cyfrifoldebau’r archwilydd am archwilio’r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau’n annibynnol ar Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau

ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

### Casgliadau sy’n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio’r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i’r casgliad bod defnyddio’r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi’r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi’i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i barhau i fabwysiadu’r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau’r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o’r adroddiad hwn.

### Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy’n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw’r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â’r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o’r fath neu wybodaeth berthnasol o’r fath sy’n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae’n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi’i wneud, os wyf yn dod i’r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi’i chamddatgan yn berthnasol, mae’n ofynnol i mi nodi’r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i’w nodi yn hyn o beth.

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae’r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â’r

datganiadau ariannol ac yn unol â’r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023-24;

- mae’r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â’r datganiadau ariannol ac yn unol â’r canllawiau.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Yng ngoleuni’r wybodaeth a’r ddealltwriaeth am Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na’r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni sy’n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy; neu
- nid yw’r datganiadau ariannol yn gyson â’r cofnodion a’r ffurflenni cyfrifyddu.

**Cyfrifoldebau’r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol**

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen 9, y swyddog cyllid cyfrifol sy’n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon, sy’n rhoi darlun gwir a theg ac sy’n cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
- asesu gallu Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

**Cyfrifoldebau’r archwilydd am archwilio’r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio’r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy’n dylunio gweithdrefnau yn unol â’m cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau’n cynnwys y canlynol:

- Holi’r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol a’r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sy’n ymwneud ag:
  - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i’r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy’n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o’r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cofnodi siwrnali anarferol;
- Cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a’r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu’r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi’r rheolwyr a’r Awdurdod ynghylch ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i’r afael â’r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw’r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu’n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a gwerthuso’r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy’n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau’r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau’n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy’n cyfathrebu gyda’r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

## Tystysgrif cwblhau’r archwiliad

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau’r archwiliad o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
30 Mai 2026

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

# Atodiad 4 – Llythyr sylwadau

## Llythyr Sylwadau Terfynol

[Pennawd y corff a archwilir]

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd
CF10 4BZ

29 Ebrill 2026

### Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2023-24

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol (gan gynnwys y rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n cael ei harchwilio) Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 at ddiben mynegi barn ynglŷn â'u gwirionedd a thegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

**Sylwadau'r rheolwyr**

### Cyfrifoldebau

Yr ydym ni wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Cod Llywodraeth Lleol CIPFA; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gywir a theg yn unol â hwy;
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

### Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- mynediad llawn at:

  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad digyfyngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac sy'n cynnwys:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol;
- ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt;

## Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau, y data a'r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig, yn briodol i gyflawni cydnabyddiaeth, mesuriad neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau camddatganiadau nas cywirwyd a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unol ac ar y cyd, i'r datganiadau ariannol o'u cymryd yn eu cyfanrwydd.

## Sylwadau gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar 31 Mawrth 2024.

Yr ydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan: | Llofnodwyd gan: |
| | |
| Cynghorydd Edgar Wyn Owen<br>Cadeirydd | Dewi Morgan<br>Prif Swyddog Cyllid |
| Dyddiad: 29 Ebrill 2026 | Dyddiad: 29 Ebrill 2026 |

# Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru'n un llwyr. Rydym ni'n credu bod a wnelo ansawdd archwilio â chael pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlynu a goruchwylio'r trefniadau hynny. Creffir yn annibynnol ar ein gwaith gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae Cadeirydd ein Bwrdd yn gweithredu fel dolen gyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth gweler ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2024.

### Ein Pobl

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- - Goruchwyliaeth ac adolygu

### Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir

- Platfform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol

### Sicrwydd annibynnol

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y broblem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

# Eich cefnogi chi

Mae gan Archwilio Cymru ystod o adnoddau i roi cymorth i graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru, ac i'w cynorthwyo i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

## Ewch at ein gwefan i ganfod:

Ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.

Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.

Offer data i'ch helpu i gael dealltwriaeth well am dueddiadau mewn gwariant cyhoeddus.

Manylion ein gwaith a'n digwyddiadau Arfer Da gan gynnwys rhannu arfer a mewnwelediadau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio.

Ein cylchlythyr sy'n darparu diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

**Eitem Rhif 13**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod |
| **DYDDIAD** | 29 Ebrill 2026 |
| **TEITL** | **Polisi Gwrth-Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| **PWRPAS** | I adolygu a diweddaru'r polisi cyfredol |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu cyfres o bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer cynnal safonau ymddygiad uchel i staff ac Aelodau, ac i sicrhau atebolrwydd i'r cyhoedd.

1.2 Yn dilyn Asesiad Sicrwydd a Risg yr Awdurdod gan Archwilio Cymru llynedd, un o'r canfyddiadau oedd bod yr Awdurdod yn brin o ddull cyson, wedi'i amserlennu o adolygu ei bolisïau corfforaethol a'i ddogfennau llywodraethu, sydd wedyn yn lleihau'r ddibyniaeth y gall yr Awdurdod ei chael bod ei bolisïau a'i ddogfennau llywodraethu yn gyfredol.

1.3 Mewn ymateb i'r canfyddiad hwn, cynhyrchwyd Cofrestr o Bolisïau Corfforaethol gydag amserlen dyddiadau adolygu wedi'u neilltuo i bob polisi.

1.4 Y Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth yw'r cyntaf o'r polisïau i gael ei adolygu.

1.5 Ers mabwysiadu'r polisi hwn yn wreiddiol, nid oes unrhyw newidiadau sylweddol i ddeddfwriaeth a fyddai'n gofyn am newidiadau sylfaenol i'r polisi, gan fod Deddf Twyll 2006 yn dal i gael ei hystyried yn ddarn o ddeddfwriaeth gadarn a hyblyg.

1.6 Fodd bynnag, daeth deddfwriaeth newydd sylweddol sy'n ategu'r Ddeddf, yn benodol y drosedd newydd 'methu ag atal twyll' o dan Ddeddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023, i rym ar y 1af o Fedi 2025.

1.7 Er nad yw'r Awdurdod yn dod o dan y diffiniad o 'gorff mawr' fel y'i diffinnir yn y Ddeddf ac felly nid yw'n ddarostyngedig i'r gofyniad i gael Fframwaith Atal Twyll; gallwn fodd bynnag ymgorffori'r chwech egwyddor sy'n ofynnol mewn fframwaith o'r fath fel arfer gorau (gweler 9.2 yn y polisi).

1.8 Mae'r polisi drafft wedi cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Safonau ar y 27ain o Fawrth 2026.

## 2. ARGYMHELLIAD:

2.1 Trafod ac adolygu'r polisi drafft wedi'i ddiweddaru sydd wedi'i atodi.

2.2 Cymeradwyo'r Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd drafft diwygiedig i'w gyflwyno i Awdurdod y Parc Cenedlaethol i'w fabwysiadu.

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**

# POLISI GWRTH-DWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDIGAETH

## 1.0 PWRPAS

1.1 Diben y ddogfen hon yw egluro beth fydd yr Awdurdod yn ei wneud er mwyn lleihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth, ymchwilio i amheuon, a'r camau a gymerir mewn ymateb.

Mae'r ddogfen hon:

- Yn darparu diffiniad o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth;
- Yn nodi'r safonau y mae'r Awdurdod yn eu disgwyl gan ei Aelodau a'i weithwyr;
- Yn nodi'r camau sy'n annog atal a rhwystro twyll yn weithredol; ac
- Yn nodi sut y bydd yr Awdurdod yn ymchwilio i dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth.

## 2.0 CYFLWYNIAD

2.1 Mae'r polisi hwn yn cwmpasu holl weithwyr ac Aelodau'r Awdurdod. Mae'r ddogfen hon yn disodli'r Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth flaenorol ac yn ymgorffori diweddariadau i ddeddfwriaeth ac arfer da yn y maes hwn.

2.2 Wrth gyflawni ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau, mae'r Awdurdod bob amser wedi mabwysiadu diwylliant o agoredrwydd a thegwch ac wedi disgwyl y bydd ei Aelodau a'i weithwyr ar bob lefel yn mabwysiadu'r safonau uchaf o briodoldeb ac atebolrwydd. Cyflawnwyd hyn drwy arwain drwy esiampl a thrwy ddealltwriaeth o reolau, gweithdrefnau ac arferion cytunedig a glynu wrthynt. Disgwylir y safonau hyn hefyd gan sefydliadau sy'n delio â'r Awdurdod (e.e. cyflenwyr/contractwyr).

2.3 Rydym mewn sefyllfa gref oherwydd y rheolaethau sydd eisoes ar waith, e.e. gorchmynion sefydlog, rheoliadau ariannol a chod ymddygiad yr Aelodau, ond rhaid i ni beidio â bod yn hunanfodlon.

2.4 Felly, rhaid i'r Awdurdod ddangos yn glir ei fod wedi ymrwymo'n gadarn i ddelio â thwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth a bydd yn delio'n gyfartal â throseddwyr o fewn (Aelodau a gweithwyr) a thu allan i'r Awdurdod. Yn ogystal, ni fydd unrhyw wahaniaeth yn cael ei wneud mewn ymchwiliad a chamau gweithredu rhwng achosion sy'n creu buddion ariannol a'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny.

2.5 Fodd bynnag, ni fydd y polisi hwn yn peryglu polisi cyfle cyfartal yr Awdurdod nac unrhyw rwymedigaethau fel cyflogwr o dan y cod ymddygiad ar gyfer gweithwyr llywodraeth leol.

2.6 Mae'r ddogfen bolisi hon yn ymgorffori cyfres o fesurau a gynlluniwyd i rwystro unrhyw ymgais i gyflawni gweithred dwyllodrus neu lygredig a'r camau i'w cymryd os bydd gweithred o'r fath yn digwydd.

2.7 Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y graddau uchel o graffu allanol ar ei faterion gan amrywiaeth o gyrff megis Archwilio Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Tollau Tramor a Chartref EM a Llywodraeth Cymru. Mae'r cyrff hyn yn bwysig wrth amlygu unrhyw feysydd lle gellir gwneud gwelliannau.

## 3.0 DIFFINIADAU

3.1 Yn aml, mae twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth yn cydblethu. Maent yn weithredoedd bwriadol gan unigolion neu grŵp o unigolion sy'n fwriadol ac yn anonest. Bydd rhai gweithredoedd yn dod o dan y diffiniad o fwy nag un categori.

3.2 Twyll

3.3 Mae Deddf Twyll 2006 yn rhoi diffiniad deddfwriaethol o dwyll, y gellir ei grynhoi at ddibenion y polisi hwn fel cael arian, eiddo neu wasanaethau'n anonest drwy wneud cynrychiolaeth ffug neu gamarweiniol, methu â datgelu gwybodaeth, neu gamddefnyddio safle o ymddiriedaeth.

3.4 Mae twyll hefyd yn weithred fwriadol gan unigolyn neu grŵp o unigolion. Felly, mae twyll bob amser yn fwriadol ac yn anonest.

3.5 Dyma rai enghreifftiau:

- Hawliadau teithio a threuliau ffug neu wedi'u gorliwio;
- Cofnodi oriau gwaith anghywir ar y cynllun gweithio hyblyg;
- Anfonebau a gyflwynwyd am wasanaethau na derbyniwyd;
- Methu datgelu euogfarn droseddol berthnasol neu heb ei darfod ar gais am swydd; a
- Contractwyr yn methu â datgelu erlyniadau Iechyd a Diogelwch ar ddogfennau tendr.

3.4 Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth

3.5 Gellir diffinio llwgrwobrwyo fel cynnig, rhoi, ceisio neu dderbyn cymhelliant neu wobr a all ddylanwadu ar weithred unrhyw berson. Llygredigaeth yw camddefnyddio pŵer a ymddiriedir er budd preifat.

3.6 Dyma rai enghreifftiau:

- Derbyn rhodd yn gyfnewid am roi triniaeth ffafriol yn y broses gaffael tendro;
- Darparu triniaeth ffafriol yn y broses gaffael tendro er mwyn galluogi dyfarnu contractau i ffrindiau a / neu aelodau o'r teulu; a
- Derbyn rhodd yn gyfnewid am anwybyddu torri deddfwriaeth;

## 4.0 DIWYLLIANT

4.1 Mae diwylliant yr Awdurdod wedi bod yn un o agoredrwydd erioed ac mae gwerthoedd craidd tegwch, ymddiriedaeth a gwerth yn cefnogi hyn. Felly mae diwylliant yr Awdurdod yn cefnogi'r gwrthwynebiad i dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth.

4.2 Mae atal/canfod twyll/llwgrwobrwyo/llygredigaeth a diogelu pwrs y wlad yn gyfrifoldeb i bawb.

4.3 Mae Aelodau a gweithwyr yr Awdurdod yn chwarae rhan bwysig wrth greu a chynnal y diwylliant hwn. Fe'u hanogir yn gadarnhaol i godi pryderon ynghylch twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth, heb fod o bwys ar eu hynafedd, eu rheng na'u statws, gan wybod y bydd pryderon o'r fath, lle bynnag y bo modd, yn cael eu trin yn gyfrinachol.

4.4 Rhaid codi pryderon pan fydd Aelodau neu weithwyr yn credu'n rhesymol bod un neu fwy o'r canlynol wedi digwydd, yn y broses o ddigwydd neu'n debygol o ddigwydd:

- trosedd;
- methiant i gydymffurfio â rhwymedigaeth statudol neu gyfreithiol;
- defnydd amhriodol o arian cyhoeddus neu gronfeydd ariannol eraill;
- camwedd cyfiawnder;
- camweinyddu, camymddwyn neu esgeulustod;
- peryglu iechyd a diogelwch unigolyn;
- difrod i'r amgylchedd; neu
- cuddio unrhyw un o'r uchod yn fwriadol.

4.5 Bydd yr Awdurdod yn sicrhau y bydd unrhyw honiadau a dderbynnir mewn unrhyw ffordd, gan gynnwys drwy lythyrau neu alwadau ffôn dienw, yn cael eu cymryd o ddifrif a'u hymchwilio mewn modd priodol, yn amodol ar egwyddorion cyfiawnder naturiol a darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998.

4.7 Bydd yr Awdurdod yn delio'n gadarn â'r rhai sy'n twyllo'r Awdurdod, neu sy'n llygredig, neu lle bu camymddygiad ariannol. Wrth gwrs, mae angen sicrhau nad yw unrhyw broses ymchwilio yn cael ei chamddefnyddio ac, felly, gellir delio ag unrhyw gamdriniaeth (megis gweithwyr yn codi honiadau maleisus) fel mater disgyblu.

4.8 Pan fydd twyll, llwgrwobrwyo a/neu lygredd wedi digwydd oherwydd methiant yn systemau neu weithdrefnau'r Awdurdod, bydd y Cyfarwyddwr neu'r Cyfarwyddwyr perthnasol yn sicrhau bod gwelliannau priodol yn y systemau rheoli yn cael eu gweithredu i atal ailadrodd.

## 5.0 **ATAL**

### AELODAU

5.1 **Rôl yr Aelodau**

5.2 Mae gan bob Aelod o'r Awdurdod ddyletswydd i amddiffyn yr Awdurdod rhag pob math o gamdriniaeth.

5.3 Gwneir hyn drwy gyfrwng y polisi gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth a thrwy gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad i Aelodau, rheoliadau ariannol a rheolau sefydlog yr Awdurdod a'r ddeddfwriaeth berthnasol.

5.4 Mae Aelodau'n llofnodi i'r perwyl eu bod wedi darllen a deall y Cod Ymddygiad pan fyddant yn dechrau yn eu swydd. Caiff y materion ymddygiad a moesegol hyn eu dwyn i sylw'r Aelodau'n benodol yn ystod y cyfnod sefydlu ac maent yn cynnwys datgan a chofrestru buddiannau. Mae'r Swyddog Monitro yn cynghori'r Aelodau am ofynion deddfwriaethol neu weithdrefnol newydd.

## GWEITHWYR

5.6 **Rôl Rheolwyr**

5.7 Mae rheolwyr ar bob lefel yn gyfrifol am gyfathrebu a gweithredu'r polisi hwn yn eu maes gwaith. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y gweithwyr yn ymwybodol o reoliadau ariannol a rheolau sefydlog yr Awdurdod, a bod gofynion pob un yn cael eu bodloni yn eu gweithgareddau busnes bob dydd. Yn ogystal, rhaid i reolwyr wneud eu gweithwyr yn ymwybodol o ofynion y Cod Ymddygiad Cenedlaethol ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol drwy'r broses sefydlu.

5.8 Disgwylir i reolwyr ymdrechu i greu amgylchedd lle mae eu staff yn teimlo y gallant gysylltu â nhw gydag unrhyw bryderon a allai fod ganddynt ynghylch afreoleidd-dra a amheuir. Os nad ydynt yn siŵr o'r gweithdrefnau, rhaid iddynt gyfeirio at y wybodaeth ym Mholisi Datgelu Cyfrinachol yr Awdurdod ("Seinio Rhybudd").

5.9 Bydd trefniadau arbennig yn berthnasol lle mae gweithwyr yn gyfrifol am drin arian parod neu'n gyfrifol am systemau ariannol a systemau sy'n cynhyrchu taliadau, er enghraifft cyflogres. Rhaid i reolwyr sicrhau bod hyfforddiant perthnasol yn cael ei ddarparu i weithwyr. Rhaid cynnal gwiriadau o leiaf yn flynyddol i sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn.

5.10 Mae'r Awdurdod yn cydnabod mai mesur ataliol allweddol wrth ymdrin â thwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth yw cymryd camau effeithiol yn ystod y cyfnod recriwtio i sefydlu, cyn belled ag y bo modd, onestrwydd a chywirdeb darpar weithwyr, boed ar gyfer swyddi parhaol, dros dro neu achlysurol. Bydd polisi cyfle cyfartal yr Awdurdod yn cael ei ddilyn yn ystod y broses hon.

5.11 Mae gan yr Awdurdod weithdrefn recriwtio ffurfiol, sy'n cynnwys mesurau diogelwch priodol ar faterion megis geirdaon ysgrifenedig a gwirio cymwysterau a ddelir. Fel gyda chyrff cyhoeddus eraill, cynhelir gwiriadau gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar weithwyr sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed. Cyflwynir gwiriadau pellach mewn meysydd lle mae risg uwch o dwyll a llygredigaeth posibl wedi'i nodi.

5.12 Yn ogystal, mae Rheolwyr yn creu ac yn cynnal eu cofrestr risg penodol i'r gwasanaeth. Fel rhan o hyn, disgwylir i Reolwyr gynnal diwydrwydd dyladwy trwy asesiad dogfenedig cyfnodol, cymesur ac yn seiliedig ar risg o natur a graddfa'r risgiau allanol a mewnol posibl o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth.

5.13 **Cyfrifoldebau Gweithwyr**

5.14 Mae pob gweithiwr yn cael ei lywodraethu yn ei waith gan reolau sefydlog a rheoliadau ariannol yr Awdurdod a chodau ymddygiad a pholisïau eraill (Iechyd a Diogelwch, polisïau TG, diogelwch TG). Maent hefyd yn cael eu llywodraethu gan y Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol. Wedi'u cynnwys yn y rhain mae'r Cod Ymarfer ar Dderbyn Rhoddion a Lletygarwch. Cyhoeddir y rhain i bob gweithiwr pan fyddant yn ymuno â'r Awdurdod neu byddant yn cael eu darparu gan eu rheolwr.

5.15 Yn ogystal â pharagraff 5.14, mae gweithwyr yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn dilyn y cyfarwyddiadau a roddir iddynt gan y rheolwyr, yn enwedig mewn perthynas â chadw asedau'r Awdurdod yn ddiogel.

5.16 Disgwylir i weithwyr fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gallai twyll, llwgrwobrwyo, llygredigaeth neu ladrad fodoli yn y gweithle a bod yn gallu rhannu eu pryderon gyda'r rheolwyr. Os nad ydynt yn gallu siarad â'u rheolwr am unrhyw reswm, rhaid iddynt cyfeirio'r mater at un o'r rhai a enwir isod.

5.17 Rhaid codi pryderon, yn y lle cyntaf, yn uniongyrchol gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth, Pennaeth Cyllid, y Cyfarwyddwr, y Prif Weithredwr neu'r Swyddog Monitro perthnasol, os oes angen, yn ddienw (trwy lythyr neu dros y ffôn), a fydd yn ymateb i bryderon o'r fath yn unol â'r gweithdrefnau a sefydlwyd yn Atodiad 1.

5.18 **Gwrthdaro Buddiannau**

5.19 Rhaid i Aelodau a gweithwyr sicrhau eu bod yn osgoi sefyllfaoedd lle mae potensial ar gyfer gwrthdaro buddiannau. Gall sefyllfaoedd o'r fath godi gydag allanoli gwasanaethau, tendro mewnol, cynllunio a materion tir, ac ati. Bydd gwahanu rolau'n effeithiol yn sicrhau bod penderfyniadau a wneir yn cael eu gweld yn seiliedig ar gyngor diduedd ac yn osgoi cwestiynau am ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol yn amhriodol.

5.20 **Rôl Archwilio Mewnol**

5.21 Mae Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn chwarae rhan ataliol hanfodol wrth geisio sicrhau bod systemau a gweithdrefnau ar waith i atal a chanfod twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth. Mae Gwasanaethau Archwilio yn ymchwilio i bob achos o afreoleidd-dra a amheuir, yn unol â gofynion Deddf Hawliau Dynol 1998. Maent yn cysylltu â'r rheolwyr i argymell newidiadau mewn gweithdrefnau i atal colledion pellach i'r Awdurdod.

5.22 **Rôl Archwilio Allanol**

5.23 Mae archwiliad allanol annibynnol a gynhelir gan Archwilio Cymru yn ddiogelwch hanfodol wrth reoli arian cyhoeddus. Cyflawnir y rôl hon drwy gynnal adolygiadau penodol sydd wedi'u cynllunio i brofi (ymysg pethau eraill) digonolrwydd systemau ariannol yr Awdurdod, a threfniadau ar gyfer atal a chanfod twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth. Nid swyddogaeth yr archwilydd allanol yw atal twyll ac afreoleidd-dra, ond mae uniondeb arian cyhoeddus bob amser yn destun pryder cyffredinol. Mae archwilwyr allanol bob amser yn effro i'r posibilrwydd o dwyll ac afreoleidd-dra a byddant yn gweithredu heb oedi gormodol os daw sail amheuaeth i'w sylw. Mae gan yr archwilydd allanol gyfrifoldeb i adolygu trefniadau'r awdurdod i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra, a threfniadau a gynlluniwyd i gyfyngu ar y cyfle ar gyfer arferion llygredig.

5.24 **Cydweithio ag Eraill**

5.25 Mae Archwilio Mewnol wedi trefnu a bydd yn parhau i adolygu gweithdrefnau a threfniadau i ddatblygu ac annog cyfnewid gwybodaeth am weithgarwch twyll a llygredigaeth cenedlaethol a lleol mewn perthynas ag awdurdodau lleol gydag asiantaethau allanol megis:

- Yr Heddlu
- Awdurdodau Unedol
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Archwilio Cymru
- Adrannau'r llywodraeth.

## 6.0 ATALIAD

6.1 **Camau Disgyblu**

6.2 Mae lladrad, twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth yn droseddau difrifol yn erbyn yr Awdurdod a bydd gweithwyr yn wynebu camau disgyblu os oes tystiolaeth eu bod wedi bod yn rhan o'r gweithgareddau hyn. Cymerir camau disgyblu yn ogystal â, neu yn lle, achosion troseddol, yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos unigol.

6.3 Bydd Aelodau'n wynebu camau priodol o dan y polisi hwn os canfyddir eu bod wedi bod yn rhan o ladrad, twyll, llwgrwobrwyo neu lygredd yn erbyn yr Awdurdod. Cymerir camau yn ogystal â, neu yn lle, achosion troseddol, yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos unigol, ond mewn modd cyson. Pan fo'r gweithgareddau'n cynnwys torri Cod Ymddygiad yr Aelodau, cyfeirir y mater at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## 7. 0 CANFOD AC YMCHWILIO

7.1 Mae Archwilio Mewnol yn chwarae rhan bwysig yn y broses o ganfod twyll a llygredigaeth drwy gynnal adolygiadau o reolaethau ariannol systemau a phrofion twyll a llygredigaeth penodol, gwiriadau ar hap ac ymweliadau heb rybudd.

7.2 Yn ogystal ag Archwilio Mewnol, mae nifer o reolaethau systemau ar waith i atal twyll a llygredigaeth, ond yn aml gwyliadwriaeth gweithwyr ac aelodau'r cyhoedd sy'n cynorthwyo canfod.

7.3 Mewn rhai achosion, darganfyddir twyll trwy siawns neu 'awgrym' ac mae trefniadau ar waith i alluogi delio'n briodol â gwybodaeth o'r fath, yn unol â gofynion Deddf Hawliau Dynol 1998.

7.4 Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Polisi Datgelu Cyfrinachol ("Seinio Rhybudd") sy'n hysbysu ac yn sicrhau staff ynghylch datgelu camymddwyn a amheuir a sut y bydd yr Awdurdod yn ymateb.

7.5 Mae'n ofynnol i bob afreoleidd-dra a amheuir gael ei adrodd (ar lafar neu'n ysgrifenedig) naill ai gan y person y codwyd y pryder cychwynnol gydag ef neu gan y sawl a gyflwynodd y pryder, yn unol â pharagraff 7.4 (polisi datgelu cyfrinachol yr awdurdod). Mae hyn yn hanfodol i'r polisi, ac mae'n:

- sicrhau bod gwybodaeth ynghylch twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth yn cael ei thrin yn gyson; ac
- yn hwyluso ymchwiliad priodol a thrylwyr gan dîm archwilio profiadol, yn unol â gofynion Deddf Hawliau Dynol 1998.

7.6 Mae'r broses y bydd yr ymchwiliad yn cael ei gychwyn drwyddi wedi'i nodi yn Atodiad 1

7.7 Bydd y broses hon yn berthnasol i'r holl feysydd canlynol:

a) twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth gan Aelodau

b) twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth mewnol

c) twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth arall gan weithwyr yr awdurdod

d) twyll gan weithwyr contractwyr

e) twyll allanol (y cyhoedd).

7.8 Fel arfer, byddai achosion o dan a), d) ac e) yn cael eu cyfeirio'n uniongyrchol at Archwilio Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu'r Heddlu i'w hymchwilio.

## 8.0 YMWYBYDDIAETH A HYFFORDDIANT

8.1 Mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd llwyddiant parhaus y polisi hwn a'i hygrededd cyffredinol yn dibynnu'n rhannol ar effeithiolrwydd hyfforddiant rhaglenedig ac ymwybyddiaeth Aelodau a gweithwyr ledled yr Awdurdod.

8.2 Er mwyn hwyluso hyn, gwnaed darpariaeth gadarnhaol a phriodol drwy gyfnod sefydlu ac ar gyfer gweithwyr drwy eu cynlluniau datblygu. Gall hyn gynnwys hyfforddiant arbenigol i rai Aelodau a gweithwyr.

8.3 Dosbarthwyd gwybodaeth am y Polisi Datgelu Cyfrinachol i bob gweithiwr ac Aelod, ac mae copïau llawn o'r polisi hwn ar gael i staff drwy'r Fewnrwyd (Sharepoint).

## 9.0 CASGLIAD

9.1 Mae'r Awdurdod bob amser wedi ymfalchïo mewn gosod a chynnal safonau uchel a diwylliant o agoredrwydd, gyda gwerthoedd craidd tegwch, ymddiriedaeth a gwerth.

Mae'r polisi hwn yn cefnogi'n llawn awydd yr Awdurdod i gynnal Awdurdod gonest, yn rhydd o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth.

9.2 Mae'r polisi hwn yn dilyn arfer gorau drwy ymgorffori'r chwe egwyddor ganlynol sy'n gonglfaen unrhyw bolisi atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth, sef:

- ymrwymiad lefel uchaf;
- asesiad risg;
- gweithdrefnau atal cymesur sy'n seiliedig ar risg;
- diwydrwydd dyladwy;
- cyfathrebu (gan gynnwys hyfforddiant); a
- monitro ac adolygu.

9.3 Mae gan yr Awdurdod rwydwaith o systemau a gweithdrefnau ar waith i'w gynorthwyo i ddelio â thwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth pan fyddant yn digwydd. Penderfynir y bydd y trefniadau hyn yn cadw i fyny ag unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol mewn technoleg i atal a chanfod gweithgaredd twyllodrus neu lygredig a allai effeithio ar ei weithrediad.

9.4 Bydd yr Awdurdod yn cynnal adolygiad parhaus o'r holl systemau a gweithdrefnau hyn drwy'r Gwasanaethau Archwilio.

9.5 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob pum blynedd oni bai bod y Swyddog Monitro o'r farn bod newidiadau mewnol neu allanol sy'n effeithio ar yr Awdurdod yn ei gwneud hi'n ddoeth adolygu'r polisi yn gynharach.

| | |
|---|---|
| Mabwysiadwyd y polisi wedi'i ddiweddaru: | |
| Dyddiad adolgu: | |
| | |

## ATODIAD 1

## YMCHWILIO I HONIADAU O GAMYMDDWYN ARIANNOL

1. Ni fydd swyddogion na deiliaid swyddi sydd â rolau penodol wrth weithredu'r polisi hwn ond sy'n gysylltiedig â'r honiad yn rhan o'r penderfyniadau sy'n ymwneud â'r honiad. Ni fyddant yn cael eu hysbysu na'u hymgynghori ynghylch yr honiad yn rhinwedd eu swydd.

2. Ar ôl derbyn cwyn gan aelod o staff, bydd Pennaeth Cyllid yn cyfarfod â'r unigolyn a gododd y mater i sefydlu sail y pryder. Bydd y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Cyllid, y Swyddog Monitro a'r Archwilwyr Mewnol yn cael gwybod. Hyd nes y bydd y ffeithiau wedi'u sefydlu, bydd pawb sy'n gysylltiedig yn dilyn disgresiwn.

3. Ar ôl sefydlu sail y pryder, bydd y Prif Swyddog Cyllid yn adolygu'r honiadau ac yn sefydlu'r sefyllfa ymddangosiadol. Cytunir ar y penderfyniad ynghylch a ddylid cynnal ymchwiliad ffurfiol gyda'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro. Os yw'r honiad yn ymwneud â'r Prif Weithredwr, yna gwneir y penderfyniad gyda'r Cadeirydd. Os yw'r honiad yn ymwneud â'r Swyddog Monitro, yna gwneir y penderfyniad gyda Chyfreithiwr yr Awdurdod.

4. Os yw'r pryder wedi'i fynegi yn ysgrifenedig, yna bydd yr hysbysydd yn cael gwybod yn ysgrifenedig am ymateb yr Awdurdod yn unol â'r Polisi Datgelu Cyfrinachol.

5. Os sefydlir sail i bryder yna cyfeirir y mater at yr Archwilwyr Mewnol i'w ymchwilio neu, gan ystyried cymal 7.8 o'r Polisi hwn, Archwilio Cymru neu'r Heddlu.

6. Os yw'r honiad yn ymwneud â thorri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau, yna bydd y Swyddog Monitro yn ystyried a ddylid cyfeirio'r mater at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ymchwilio iddo.

7. Os daw'r Prif Swyddog Cyllid i'r casgliad nad yw'n ymddangos bod anghysondeb, a bod yr honiad yn ymddangos yn ddi-sail, bydd adroddiad llawn yn cael ei baratoi ar yr achos i'w ystyried gan Archwilio Mewnol. Oni bai bod yr Archwilwyr Mewnol yn anghytuno â'r casgliad a gyrhaeddwyd gan y Prif Swyddog Cyllid, ystyrir bod yr achos wedi'i gau (ac eithrio i'r graddau y mae Archwilio Mewnol yn penderfynu bod angen mireinio'r gweithdrefnau rheoli ariannol) ar y sail hon.

8. Cynhelir unrhyw ymchwiliad yn unol ag egwyddorion cyfiawnder naturiol, a chan roi sylw dyledus i Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a hawliau statudol pob unigolyn sy'n gysylltiedig â'r achos. Bydd Archwilio Mewnol yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod ymchwiliad yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl.

9. Pan fo'r achos yn ddigon difrifol, gellir gwahardd aelod o staff sydd wedi'i gyhuddo o gamymddwyn ariannol tra bo ymchwiliad ar y gweill, yn unol â Gweithdrefn Ddisgyblu'r Awdurdod.

10. Bydd unrhyw benderfyniad i gyfeirio mater at yr heddlu yn cael ei wneud gan y Rheolwr Archwilio Mewnol ar ôl ymgynghori â'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr perthnasol, y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid. Fel arfer, bydd yr Awdurdod yn dymuno i'r heddlu gael gwybod am droseddwyr lle darganfyddir amhriodoldeb ariannol, ac ymchwilio iddynt yn annibynnol.

11. Gellir cymryd camau o dan Weithdrefn Ddisgyblu'r Awdurdod yn erbyn unrhyw aelod o staff a geir yn euog o gamymddwyn ariannol. Gall unrhyw berson o'r fath hefyd fod yn destun cyhuddiadau troseddol, yn ogystal â chamau cyfreithiol sifil i adennill unrhyw arian a gamddefnyddiwyd gan yr Awdurdod.

12. Ar ôl cwblhau ymchwiliad, cyflwynir adroddiad ffurfiol i'r Awdurdod, a fydd yn adolygu'r adroddiad a'r camau a gymerwyd i ddatrys y mater a gall ofyn am gamau pellach neu fynnu adroddiad pellach i fodloni ei hun bod y mater wedi'i ddatrys yn llawn. Pan gadarnheir honiad o gamymddwyn ariannol, bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod gweithdrefnau rheoli ariannol yn cael eu gwella yn ôl yr angen i leihau'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd eto.

**Eitem Rhif 14**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod |
| **DYDDIAD** | 29 Ebrill 2026 |
| **TEITL** | **Polisi Datgelu Cyfrinachol (Seinio Rhybudd)** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| **PWRPAS** | I adolygu a diweddaru'r polisi cyfredol |

## 1. CEFNDIR

1.1. Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu cyfres o bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer cynnal safonau ymddygiad uchel i staff ac Aelodau, ac i sicrhau atebolrwydd i'r cyhoedd.

1.2 Yn dilyn ymlaen o'r eitem flaenorol, y Polisi Datgelu Cyfrinachol (Seinio Rhybudd) yw'r ail bolisi i gael ei adolygu.

1.3 Mae deddfwriaeth berthnasol sy'n llywio'r polisi hwn wedi'i hadolygu. Yr unig newid sylweddol sy'n effeithio ar yr Awdurdod fydd yn dod i rym ar y 6ed o Ebrill 2026. Bydd Deddf Hawliau Cyflogaeth 2025 yn diwygio'r ddeddfwriaeth seinio rhybudd presennol i gynnwys datgeliadau o aflonyddu rhywiol yn benodol fel "datgeliad cymwys".

1.4 O dan paragraff 5.2 o'r polisi presennol, mae 'cam-drin neu aflonyddu corfforol, rhywiol neu arall' eisoes wedi'i restru fel enghraifft o bryder difrifol briodol sy'n dod o dan y polisi. Oherwydd hyn, ni ystyrir bod angen unrhyw newidiadau pellach i'r polisi.

1.5 Mae'r polisi drafft wedi cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Safonau ar y 27ain o Fawrth 2026.

## 2. ARGYMHELLIAD:

2.1 Trafod ac adolygu'r polisi drafft wedi'i ddiweddaru sydd wedi'i atodi.

2.2 Cymeradwyo'r Polisi Datgelu Cyfrinachol (Seinio Rhybudd) drafft diwygiedig i'w gyflwyno i Awdurdod y Parc Cenedlaethol i'w fabwysiadu.

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**

**POLISI DATGELU CYFRINACHOL**

**(SEINIO RHYBUDD)**

## 1.0 Y DIFFINIAD O SEINIO RHYBUDD

1.1 Seinio rhybudd yw datgelu camymddwyn neu anghyfreithlondeb o fewn Awdurdod i berson sydd â'r gallu i roi terfyn ar gamymddwyn neu anghyfreithlondeb o'r fath. Mae'r Polisi yma yn esbonio sut i "Seinio Rhybudd" ac i bwy.

## 2.0 CEFNDIR

2.1 Gweithwyr yw'r rhai cyntaf yn aml i sylweddoli y gallai fod rhywbeth mawr o'i le o fewn yr Awdurdod. Ond mae'n bosibl na fyddant yn lleisio eu pryderon am eu bod yn ofni cael eu haflonyddu neu eu herlid, neu am eu bod yn teimlo y byddent trwy godi llais yn annheyrngar i'w cydweithwyr neu i'r Awdurdod.

2.2 Mae'r Awdurdod hwn yn ymrwymedig i gadw'r safonau uchaf o ran ei agoredrwydd, ei briodoldeb a'i atebolrwydd. Yn unol â'r ymrwymiad hwnnw mae'r Awdurdod yn annog gweithwyr ac eraill y mae ganddynt bryderon difrifol am waith yr Awdurdod i ddod ymlaen a lleisio'r pryderon hynny o fewn yr Awdurdod. Cydnabyddir y byddai'n rhaid symud ymlaen yn gyfrinachol gyda rhai achosion.

2.3 Rhoddir pwyslais yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 a'i Chodau Ymddygiad ar gyfer Aelodau a Swyddogion, ar yr angen i ddwyn camymddwyn i sylw'r Awdurdod gan ddiogelu'r rhai sy'n gwneud hynny rhag cael eu herlid. Mae mecanwaith seinio rhybudd neu adrodd yn gwahodd gweithwyr i gyd i ymddwyn yn gyfrifol i gynnal enw da eu corff a hyder y cyhoedd. Bydd annog polisi o fod yn agored o fewn corff hefyd yn cynorthwyo'r broses. Nod y polisi hwn yw sicrhau fod pryderon difrifol yn cael eu lleisio'n gywir a'u trin yn briodol o fewn yr Awdurdod.

## 3.0 DEDDF DATGELU BUDDIANT CYHOEDDUS 1998

3.1 Mae'r Ddeddf yn amodi ei bod yn annheg fel mater o drefn i ddiswyddo neu ddewis gweithiwr ar gyfer colli ei swydd os yw hynny'n digwydd am iddo/iddi wneud Datgeliad Cymwys yn ddiffuant i rywun yr oedd ganddo/ganddi hawl i ddweud hynny wrtho/wrthi neu i'w gosbi ef neu hi am wneud hynny.

3.2 Diffinnir Datgeliad Cymwys fel datgeliad sy'n tueddu i ddatgelu un neu fwy o'r canlynol:

- Bod trosedd yn cael ei chyflawni, yn debygol o gael ei chyflawni neu wedi cael ei chyflawni;
- Mae rhywun wedi methu, neu yn methu neu'n debygol o fethu mewn cysylltiad ag unrhyw reidrwydd cyfreithiol y mae ef/hi yn rhwym iddo;

- Mae camweinyddiad cyfiawnder wedi digwydd, yn digwydd neu’n debygol o ddigwydd;
- Mae iechyd a diogelwch unigolyn wedi bod mewn perygl, mewn perygl, neu’n debygol o fod mewn perygl;
- Mae’r amgylchedd wedi cael ei niweidio, yn cael ei niweidio, neu’n debygol o gael ei niweidio; neu
- Mae gwybodaeth sy’n tueddu i ddangos unrhyw fater a ddaw o fewn unrhyw un o’r paragraffau blaenorol wedi ei guddio’n fwriadol neu’n debygol o gael ei chuddio’n fwriadol.

3.3 Nid yw datgeliad yn Ddatgeliad Cymwys os yw’r person sy’n datgelu yn troseddu wrth wneud hynny e.e. defnyddio dulliau anghyfreithlon fel hacio i gael tystiolaeth ar gyfer yr adroddiad.

3.4 Gellid hawlio nad yw datgeliad gwybodaeth mewn perthynas â braint broffesiynol gyfreithiol yn gallu cael ei gynnal pe hawlid hynny gan berson y datgelwyd yr wybodaeth wrtho/wrthi tra oedd yn ceisio cyngor cyfreithiol e.e. Cyfreithiwr.

3.5 Bydd datgeliad cymwys yn cael ei ddiogelu os yw'r gweithiwr yn ei ddatgelu:

- Wrth gael cyngor cyfreithiol;
- I'r cyflogwr;
- Mewn rhai amgylchiadau i Weinidog y Goron;
- I "berson rhagnodedig" sy'n credu'n rhesymol bod y wybodaeth ac unrhyw honiad sydd ynddi yn wir. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhagnodi trwy restr i adnabod y person rhagnodedig (fel arfer corff rheoleiddio) a'i gylch gwaith. Mae'r Adran Arloesi Busnes a Sgiliau wedi cyhoeddi rhestr o bersonau rhagnodedig ynghyd â disgrifiad byr o'r materion y gellir eu hadrodd i bob person rhagnodedig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth, gan gynnwys dolen i'r rhestr o bersonau rhagnodedig, ar wefan GOV.UK: Seinio Rhybudd i Weithwyr; neu
- I unrhyw berson neu gorff ar yr amod bod nifer o amodau manwl yn cael eu bodloni. Mae'r amodau hynny'n cynnwys gofyniad nad yw'r gweithiwr yn gwneud y datgeliad at ddibenion elw personol a gofyniad ei bod yn rhesymol gwneud y datgeliad o dan yr amgylchiadau. Mae adran bellach yn gwneud darpariaeth ar gyfer datgelu methiant eithriadol o ddifrifol i unrhyw berson neu gorff.

## 4.0 NODAU’R POLISI

- Egluro i’r gweithwyr sut i leisio pryderon difrifol.
- Annog gweithwyr i deimlo’n hyderus y gellid codi pryderon gwirioneddol heb ofni dial.
- Sicrhau gweithwyr yr ymchwilir yn deg ac yn drwyadl i bryderon cyfreithlon.
- Sicrhau fod rhai sy’n seinio rhybudd yn cael gwybod am unrhyw gamau a gymerwyd.
- Egluro sut gellir mynd â mater ymhellach os oes anfodlonrwydd ynglŷn ag ymateb yr Awdurdod.

## 5.0 CWMPAS Y POLISI

5.1 Ni fwriedir i'r Polisi Datgelu Cyfrinachol (a elwir hefyd yn Bolisi Seinio Rhybudd) ddisodli'r trefniadau presennol. Er enghraifft mae Trefn Gwyno'r Awdurdod ei hun yn ei lle'n barod, neu'r hawl i aelod o'r cyhoedd gwyno wrth yr Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am yr Awdurdod, neu honni fod Aelod wedi torri Cod Ymddygiad yr Awdurdod. Yn fewnol, mae gweithiwr eisoes yn gallu defnyddio'r Weithdrefn Gwyno a pholisïau cymeradwy eraill mewn perthynas â'u cyflogaeth eu hunain (mae holl bolisïau perthnasol yr Awdurdod ar gael ar Fewnrwyd y staff). Fodd bynnag, bwriedir i'r Polisi Seinio Rhybudd ymdrin â phryderon sydd y tu allan i gwmpas y gweithdrefnau eraill hyn neu sydd o natur mor ddifrifol fel eu bod yn dod o fewn y diffiniad o Ddatgeliad Cymwys a restrir o dan 3.2.

5.2 Byddai enghreifftiau o bryderon difrifol sy'n perthyn yn gywir o fewn y polisi hwn yn gallu cynnwys:

- Gweithred anghyfreithlon boed sifil neu droseddol
- Camweinyddu
- Torri unrhyw God Ymddygiad neu God Ymarfer Statudol
- Torri, neu beidio gweithredu neu gydymffurfio ag unrhyw Reolau Sefydlog neu bolisïau a bennir gan yr Awdurdod
- Twyll neu lygredd
- Ymddwyn yn beryglus mewn ffordd sy'n debygol o achosi niwed corfforol i unrhyw berson/eiddo
- Camdrin neu aflonyddu corfforol neu rywiol neu fel arall
- Peidio â chywiro neu gymryd camau rhesymol i roi gwybod am fater sy'n debygol o beri cost fawr neu golled incwm i'r Awdurdod ac un y gallai fod wedi ei hosgoi neu golli canlyniad neu a fyddai'n niweidio'r Awdurdod mewn rhyw ffordd arall
- Camddefnyddio pŵer neu ddefnyddio pwerau'r Awdurdod i bwrpasau anawdurdodedig neu allanol
- Gwahaniaethau'n annheg wrth weithio i'r Awdurdod neu ddarparu ei wasanaethau

5.3 Darperir y Polisi yn bennaf i weithwyr yr Awdurdod ei ddefnyddio, ond gall eraill ei ddefnyddio hefyd (ee Aelodau a chontractwyr) fel y bo'n briodol. Dylid cymryd fod cyfeiriadau at 'weithwyr' yn cynnwys eraill fel y bo'n briodol. Er hynny mae trefniadau ar wahân ar gyfer cwynion gan Aelodau yn erbyn Aelodau, a chwynion gan aelodau o'r cyhoedd.

## 6.0 MESURAU DIOGELU

6.1 **Aflonyddu neu Fictimeiddio**

- Mae'r Awdurdod yn cydnabod fod y penderfyniad i roi gwybod am bryder yn gallu bod yn un anodd, ac un o'r prif resymau am hynny yw ofn dial gan y rhai sy'n gyfrifol am gamymddwyn. Ni ddylai gweithwyr sy'n gwneud honiad yn ddiffuant fod â dim i'w ofni oherwydd byddant yn cyflawni eu dyletswydd i'w cyflogwr, eu cydweithwyr a'r cyhoedd.
- Ni fydd yr Awdurdod yn goddef aflonyddu nac erlid, ac os byddant yn digwydd gallai'r bobl hynny ddioddef camau disgyblu.

- Pan fo’r pryder a leisir yn ymwneud â Rheolwr Llinell gweithiwr fe wnaiff yr Awdurdod ofalu fod y sefyllfa’n cael ei monitro, yn ystod unrhyw ymchwiliad ac yn dilyn hynny.

6.2 **Cyfrinachedd**

Bydd yr Awdurdod yn gwneud ei orau i beidio â datgelu pwy yw gweithwyr sy’n codi pryderon a phan nad ydynt am i’w henwau gael eu datgelu. Ond rhaid deall y gallai’r broses ymchwilio ddatguddio pwy yw ffynhonnell yr wybodaeth a’i bod yn bosibl y bydd angen datganiad gan y gweithiwr er mwyn gallu symud ymlaen gydag ymchwiliad.

6.3 **Honiadau Dienw**

Mae'r Polisi hwn yn annog gweithwyr i wneud unrhyw honiadau yn ysgrifenedig ac i roi eu henwau wrth yr honiad. Mae pryderon a fynegir yn ddienw yn llawer llai pwerus, ac yn fwy anodd ymchwilio iddynt. Yn ychwanegol at hyn bydd yn fwy anodd diogelu sefyllfa’r sawl sy’n rhoi’r wybodaeth a darparu adborth. Fodd bynnag, bydd hyd yn oed honiadau dienw yn cael eu hystyried a gellir eu dilyn yn ôl disgresiwn yr Awdurdod. Wrth ymarfer disgresiwn, byddai’r ffactorau y byddai’n rhaid cymryd cyfrif ohonynt yn cynnwys:

- Pa mor ddifrifol yw’r materion a godwyd;
- Pa mor gredadwy yw’r pryderon; a’r
- Tebygolrwydd y bydd ffynonellau a briodolir yn cadarnhau’r honiad.

6.4 **Honiadau Di-sail**

Ni chymerir unrhyw gamau yn erbyn gweithiwr os yw’n gwneud honiad yn ddiffuant, hyd yn oed os nad yw’r ymchwiliad yn cadarnhau’r honiad. Er hynny mae’n bwysig fod yr Awdurdod yn diogelu gweithwyr ac Aelodau hefyd all fod yn destun honiadau di-sail. Yn unol â hynny, rhaid deall yn glir y gellir cymryd camau disgyblu yn erbyn gweithwyr sy’n ail adrodd honiadau neu’n gwneud honiadau maleisus neu flinderus.

## 7.0 SUT I LEISIO PRYDER

7.1 Os oes gan weithwyr bryderon ni ddylent gysylltu’n uniongyrchol ag unigolion na’u cyhuddo na cheisio ymchwilio i’r mater eu hunain.

7.2 Cydnabyddir y gall codi pryder fod yn brofiad brawychus i weithiwr. Yn unol â hynny, bydd cynrychiolydd adnoddau dynol enwebedig ar gael o'r dechrau i'r diwedd i roi cyngor ac arweiniad i'r gweithiwr a'r Awdurdod.

7.3 Fel arfer, dylid codi’r pryder gyda rheolwr llinell y gweithiwr, Pennaeth Gwasanaeth neu Gyfarwyddwr. Ond rhaid deall fod hynny yn dibynnu ar ba mor ddifrifol yw’r materion dan sylw, a phwy gredir sy’n ymwneud â’r camymddwyn. Yn unol â hyn, mewn achos addas efallai y bydd yn well gan weithwyr fynd at y Prif Weithredwr (Swyddog y Parc Cenedlaethol), unrhyw Gyfarwyddwr, y Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Cyllid, y Pennaeth Cyllid neu’r Pennaeth Adnoddau Dynol.

7.4 Yn y lle cyntaf fe allwch gysylltu neu drefnu i gyfarfod y swyddog priodol. Ond mae’n llawer gwell nodi’r pryderon yn ysgrifenedig os yw’r mater i gael ei ymchwilio. Gwahoddir gweithwyr i amlinellu cefndir a hanes y pryder gan roi enwau, dyddiadau, lleoedd a manylion eraill os posib a’r rheswm pam eu bod yn pryderu’n arbennig ar y sefyllfa. Cynta’n byd y bydd gweithwyr yn lleisio eu pryderon yna hawsa’n byd fydd cymryd camau gweithredu.

7.5 Er na ddisgwylir i weithwyr brofi gwirionedd eu honiad, bydd angen iddynt fedru dangos i’r person y maent wedi cysylltu ag ef/hi fod digon o sail resymol iddynt bryderu.

7.6 Gall gweithwyr wahodd eu Hundeb Llafur neu gymdeithas broffesiynol i godi pryder ar eu rhan.

7.7 Os oes gennych bryderon nad ydych yn teimlo am ba bynnag reswm ni ellir eu codi o fewn yr Awdurdod, dylech godi'r mater gydag un o'r pwyntiau allanol y cyfeirir atynt ym mharagraff 9.2 ar ddiwedd y ddogfen hon neu drwy gysylltu â pherson penodedig fel y nodir ym mharagraff 3.5 uchod.

## 8. YMATEB YR AWDURDOD

8.1 Bydd yn rhaid gwneud ymholiadau cychwynnol er mwyn amddiffyn unigolion a’r Awdurdod cyn penderfynu a yw ymchwiliad yn briodol, ac os felly, sut ymchwiliad y dylid ei gael. Er hynny nid yw profi eich pryderon yn gyfystyr â’u derbyn na’u gwrthod. Gellir datrys rhai pryderon heb orfod cynnal ymchwiliad.

8.2 Os bernir bod ymchwiliad yn briodol bydd y camau a gymerir gan yr Awdurdod yn dibynnu ar natur a difrifoldeb y pryder. Gallai’r materion a godir:

- Gael eu hymchwilio’n fewnol – e.e. gan y Swyddog Monitro, gan y Prif Swyddog Cyllid, Pennaeth Adnoddau Dynol neu Reolwr priodol.
- Gael eu cyfeirio at Ymchwilwyr Mewnol.
- Gael eu cyfeirio at Archwilio Cymru.
- Gael eu cyfeirio at yr Heddlu.
- Fod yn achos ymchwiliad annibynnol e.e. gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

8.3 Bydd yr Awdurdod yn ymateb yn ysgrifenedig o fewn pum niwrnod gwaith ar ôl derbyn gwybodaeth am bryder yn ysgrifenedig, gan:

- Gydnabod fod y pryder wedi ei dderbyn;
- Nodi sut y bwriedir delio gyda’r mater;
- Rhoi amcan o faint o amser y mae’n debygol o’i gymryd i gael canfyddiadau am y pryder sydd wedi ei godi;
- Nodi a wnaed ymchwiliadau cychwynnol; a
- Nodi a fydd ymchwiliadau pellach yn cael eu cynnal ac os na, nodi’r rhesymau pam.

8.4 Bydd faint o gyswllt a geir rhwng y sawl sy’n codi’r pryder a’r swyddogion sy’n ystyried y mater yn dibynnu ar natur y materion a godir, yr anawsterau cysylltiedig posib, ac eglurder yr wybodaeth a ddarparwyd. Ond beth bynnag bydd yr Awdurdod yn ceisio darparu adborth addas sut bynnag y bydd yn rhaid iddo symud ymlaen.

8.5 Os trefnir cyfarfod, bydd gan weithwyr hawl i gael cynrychiolydd Undeb Llafur neu gydweithiwr yn gwmni iddynt os dymunant.

8.6 Bydd yr Awdurdod yn cymryd camau i leihau i’r eithaf unrhyw drafferthion y gallech eu cael o ganlyniad i leisio pryder. Er enghraifft, os bydd angen i chi roi tystiolaeth mewn achos disgyblu neu achos troseddol bydd yr Awdurdod yn trefnu i chi dderbyn cyngor am y drefn.

8.7 Mae’r Awdurdod yn derbyn fod angen eich sicrhau y bydd y mater yn cael ei drin yn briodol. Ac felly, yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol, byddwn yn rhoi gwybod i chi beth yw canlyniad unrhyw ymchwiliad.

## 9 SUT GELLIR MYND Â'R MATER YMHELLACH / SYMUD PETHAU YMLAEN YN ALLANOL

9.1 Bwriad y polisi hwn yw nodi'r weithdrefn ar gyfer delio'n deg ac yn drwyadl gyda phryderon o fewn yr Awdurdod. Bydd y gweithwyr yn helpu'r Awdurdod i allu gwneud hyn trwy ddilyn y weithdrefn hon.

9.2 Gobeithio y bydd y camau a gymerir gan yr Awdurdod yn bodloni'r gweithwyr. Ond os nad ydynt, ac os teimlant yr angen i godi'r mater y tu allan i'r Awdurdod dyma bwyntiau cyswllt posib:

- Eu Hundeb Llafur
- Cyrff proffesiynol perthnasol neu gyrff rheoleiddio
- Archwilio Cymru
- Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Cyngor Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Y sefydliad elusennol Protect
- Yr Heddlu

9.3 Os bydd gweithwyr yn mynd â'r mater y tu allan i'r Awdurdod, ac felly'n gwneud datgeliad y tu allan i'r Polisi hwn, dylent sicrhau nad ydynt yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol oni bai bod y datgeliad hwnnw'n freintiedig ac yn berthnasol i'r pryder a godwyd. Gall Gwybodaeth Gyfrinachol gynnwys gwybodaeth bersonol am weithwyr. Dylai unrhyw un sy'n cynnig datgeliad allanol geisio cyngor cyfreithiol annibynnol gan fod amodau manwl y mae'n rhaid eu bodloni mewn rhai amgylchiadau os yw datgeliad i fod yn ddatgeliad gwarchodedig.

9.4 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob pum mlynedd oni bai bod y Swyddog Monitro o'r farn bod newidiadau mewnol neu allanol sy'n effeithio ar yr Awdurdod yn ei gwneud hi'n ddoeth adolygu'r polisi yn gynharach.

| | |
|---|---|
| Polisi wedi'i ddiweddaru a'i fabwysiadu: | |
| Dyddiad adolygu nesaf: | |
| | |

**Eitem Rhif 15**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod |
| **DYDDIAD** | 29 Ebrill 2026 |
| **TEITL** | **Llythyr Grant Strategol** |
| **ADRODDIAD GAN** | Prif Weithredwr |
| **PWRPAS** | I ddiweddaru'r Aelodau ar gynnwys y Llythyr Grant Strategol 2026-27 |

**1. CEFNDIR**

2. Fel y gwyddoch, mae'r Awdurdod yn derbyn Llythyr Grant Strategol yn flynyddol er mwyn gosod allan ein blaenoriaethau i gyd fynd gyda Rhaglen Llywodraethu Llywodraeth Cymru. Yn sgil yr etholiad mis nesaf, nid oes Rhaglen Llywodraethu benodol ar gyfer y flwyddyn nesaf eto - felly nid oes y manylder arferol yn y llythyr eleni.

3. Mae'r llythyr (Atodiad 1) felly yn gosod allan blaenoriaethau mwy bras – gan gynnwys manylion am y gyllideb ar gyfer 2026-27 (sydd eisoes wedi ei rannu gyda'r Aelodau), yn ogystal a'r angen i gyfrannu at amcanion llesiant y Llywodraeth, ymateb i'r argyfwng newid yn yr hinsawdd, ymateb i'r argyfwng bioamrywiaeth (gan gynnwys targedau 30x30). Hefyd mae cyfeiriad at gynnal yr economi lleol, cymunedau a'r iaith Gymraeg. Mae cyfeiriad penodol at Ffermio Bro yn y llythyr.

4. Mae Atodiad A o'r llythyr yn rhoi ychydig mwy o fanylder.

**5. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU**

6. Nid oes unrhyw oblygiadau ychwanegol yn codi yn sgil cynnwys y llythyr yma o ran adnoddau'r Awdurdod, ac ar hyn o bryd y byddwn yn parhau gyda'r blaenoriaethau presennol wrth fynd o gwmpas ein gwaith, yn enwedig wrth baratoi'r 2 gynllun statudol.

7. Byddwn wrth gwrs yn ceisio sefydlu perthynas gyda'r Llywodraeth newydd cyn gynted a phosib, i ddeall sut bydd yr Awdurdod yn cyfrannu at unrhyw flaenoriaethau newydd.

**8. ARGYMHELLIAD:**

I Aelodau nodi cynnwys yr adroddiad yn enwedig cynnwys y llythyr sydd wedi ei gynnwys yn Atodiad 1.

**9. PAPURAU CEFNDIROL:**

Llythyr Grant Strategol (Atodiad 1)

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Cynghorydd Edgar Wyn Owen
Cadeirydd APC Eryri

26 Mawrth 2026

Annwyl Edgar,

**Llythyr Grant Strategol yr Awdurdodau Parc Cenedlaethol 2026-27**

Byddwch yn ymwybodol o'r etholiadau i'r Senedd ym mis Mai 2026. Felly, roedd 2025-26 yn nodi blwyddyn olaf ein Rhaglen Lywodraethu bresennol. Rwy'n awyddus i ddarparu rhywfaint o barhad i chi yn 2026-27; fodd bynnag, ni fyddai'n briodol darparu set fanwl o flaenoriaethau cyn i'r llywodraeth nesaf gael ei ffurfio.

Felly, rwy'n nodi yn y llythyr hwn eich dyraniadau ariannol wedi'u cadarnhau ar gyfer 2026-27 yn ogystal â rhai canllawiau ar sut y dylech flaenoriaethu eich gwaith ar hyn o bryd, yn ychwanegol at eich cyfrifoldebau statudol. Gobeithiaf y bydd hyn yn ddefnyddiol ichi. Dylai'r blaenoriaethau hyn aros yn eu lle yn eich sefydliad i lywio eich fframweithiau cyflawni strategol tan y pwynt y bydd llywodraeth newydd yn nodi ei blaenoriaethau i chi ar gyfer y flwyddyn a/neu dymor y Senedd neu'n eich cyfarwyddo fel arall.

**Cyllid yn 2026-27**
Mae'n bleser gennyf gadarnhau eich dyraniadau cyllid ar gyfer 2026-27, ar ôl cwblhau proses gyllidebol Llywodraeth Cymru. Rwyf wedi dyrannu £4,499,000 mewn Grant Refeniw craidd i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn 2026-27. Dylech ddefnyddio'r ffigur hwn i sbarduno'r ardoll gan eich Awdurdodau Lleol sy'n cyfrannu. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 4% ar eich dyraniad grant gwreiddiol ar gyfer 2025-26, i gydnabod y pwysau rydych chi'n eu hwynebu ynghylch costau cynyddol, yn enwedig chwyddiant mewn costau staff.

Yn ogystal â'r dyraniad hwn, byddaf hefyd yn darparu amrediad o gyllid arall ar gyfer mesurau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Cyllid cyfalaf cyffredinol gwerth £330,000 i gael ei ddefnyddio ar gyfer eich blaenoriaethau cyfalaf yn 2026-27
- £500,000 o gronfa cyfalaf Natur a Charbon y cynllun Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy
- £822,847 ar gyfer cynllun Ffermio Bro: Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig

Mae rhagor o wybodaeth am eich dyraniad cyllideb yn Atodiad B.

**Blaenoriaethau**
Dylech barhau i alinio gwaith â'n Hamcanion Llesiant allweddol, gan gynnwys:
- Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni wneud cymaint o gynnydd ag y bo modd tuag at ddatgarboneiddio
- Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn
- Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math
- Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi ein diwydiannau twristiaeth, chwaraeon a chelfyddydau i ffynnu

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a’n pentrefi yn lleoedd gwell byth i fyw a gweithio ynddynt

Rhaid i gyrff Tirweddau Dynodedig barhau i ganolbwyntio ar ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur fel mater o flaenoriaeth gyffredinol a brys. Datganodd y Senedd argyfwng natur yn 2021 ac rydyn ni hefyd wedi ymrwymo i'r nod byd-eang 30x30. Mae gennych rôl allweddol i'w chwarae wrth ein helpu i weithredu dros natur. Bydd eich gwaith yn parhau i gael ei gefnogi gan y grŵp arbenigol Bioamrywiaeth Tirweddau Dynodedig, yr wyf yn disgwyl i chi weithio'n agos gyda nhw. Rydym hefyd wedi sefydlu grŵp Ystâd Natur Cymru yn ddiweddar, sy'n dod â thirfeddianwyr mawr yng Nghymru at ei gilydd. Pwrpas y grŵp fydd cefnogi cydweithio ar lefel uwch ar raddfa tirwedd / dalgylch i helpu i gyflawni targedau hinsawdd a bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru. Byddwn yn eich annog i weithio gyda'r grŵp hwn wrth iddo ddatblygu.

Ein huchelgais yw i'r sector cyhoeddus yng Nghymru gyda’i gilydd fod yn sero net erbyn 2030. Rydych eisoes wedi gwneud cynnydd da o ran lleihau allyriadau eich sefydliadau. Rhaid ichi ddal ati hefyd i edrych ar yr amgylchedd, y cymunedau a’r ymwelwyr sydd y tu hwnt i'ch sefydliadau. Felly, rwy'n disgwyl gweld cynnydd parhaus, a arweinir gan dystiolaeth, wrth leihau allyriadau a galluogi dal a chadw carbon yn y dirwedd.

Mae ffermio cynaliadwy’n rhan annatod o’n tirwedd ac mae'n allweddol i gyflawni ein hamcanion dros natur a'r hinsawdd.  Mae hyn hefyd yn cynnal economïau lleol, cymunedau a'r iaith Gymraeg. Rydym wedi datblygu Ffermio Bro: Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig fel llinyn allweddol o'r haen gydweithredol SFS, ac mewn ymateb i alwadau gan eich sector. Edrychaf ymlaen at iddo barhau i gyflawni canlyniadau mwy a gwell i'r amgylchedd, pobl a chymunedau ar draws ein holl dirweddau dynodedig fel rhan o'r SFS ehangach.

Mae pobl yn dewis ymweld â Chymru i fwynhau ein hamgylchedd naturiol gwych, yn ogystal â phrofi ein diwylliant, gan gynnwys yr iaith Gymraeg. Mae rôl eich cyrff, wrth alluogi rheoli ymwelwyr yn well i leihau effaith twristiaeth ar yr amgylchedd ac ar eich cymunedau, yn hanfodol.

Dylai'r APCau ddod yn esiamplau mewn llywodraethu da, ac mae'r rhaglen lywodraethu barhaus y mae Llywodraeth Cymru yn ei ariannu yn allweddol i hyn. Rwy'n disgwyl gweld y Llawlyfr Llywodraethu APCau wedi'i ymgorffori wrth sefydlu Aelodau newydd ac yn natblygiad yr holl Aelodau presennol a symud ymlaen â'r camau allweddol y cytunwyd arnynt o'n hadolygiad o drefniadau ar gyfer perfformiad, datblygu ac atebolrwydd aelodau.

Fy mwriad yw y bydd ein perthynas yn parhau i fod yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch i'r ddwy ochr, ac ar gyfathrebu agored a gonest. Mae'r llythyr hwn wedi'i gynllunio i roi fframwaith clir i chi weithio ynddo ar gyfer 2026-27. Yn Atodiad A rwyf wedi amlinellu meysydd allweddol lle dylech barhau i gyfrannu.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi a'ch staff a'ch aelodau am eu holl waith caled a'u hymroddiad wrth reoli ein tirweddau mwyaf gwerthfawr a chyfrannu mor effeithiol at gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu 2021-26.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

(cc Prif Swyddog Gweithredol)

**ATODIAD A: Amcanion a Gweithredoedd â Blaenoriaeth ar gyfer tymor y Senedd**

Dylech fapio'r blaenoriaethau a nodir yn yr Atodiad hwn i'ch Cynllun Corfforaethol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am 6 mis, gan ddefnyddio data fel y bo'n briodol, i Lywodraeth Cymru a all fod yn sail i drafodaethau yn eich cyfarfodydd gyda fi a'm swyddogion. Mae fy mlaenoriaethau wedi'u grwpio yn ôl tair thema weithredu: ***Yr Amgylchedd; Pobl a Lle; Llywodraethu a Chydweithredu***.

**Yr Amgylchedd**
Mae Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNARR) CNC a gyhoeddwyd yn 2020 ynghyd â'i adroddiad llinell sylfaen ar Safleoedd Gwarchodedig yn 2020 yn creu darlun enbyd. Dros y 100 mlynedd diwethaf, mae bioamrywiaeth y mwyafrif o fathau o gynefinoedd wedi dirywio, gyda'r dirywiad hwnnw'n prysuro o'r 1970au ymlaen. Ychydig iawn o gynefinoedd Cymru sydd mewn cyflwr da. Er gwaethaf yr amddiffyniad a ddaw o'u dynodi, nid yw cyflwr safleoedd gwarchodedig o fewn Tirweddau Dynodedig fawr gwell na'r rhai y tu allan iddyn nhw. Rhaid newid hynny.

Bydd angen dull systematig ar gyrff rheoli ar gyfer ymdrin â'r ecosystemau a'r safleoedd gwarchodedig ar eu tirwedd a arweinir gan ddata, sy'n galluogi targedu'r ardaloedd sydd â'r potensial mwyaf i gyrraedd y targed 30x30. Oherwydd natur frys y sefyllfa, mae angen gwneud penderfyniadau anodd i wella cysylltiadau, cyflwr, ehangder ac amrywiaeth cynefinoedd, a hefyd i ganolbwyntio mwy ar ffynonellau cyllid amgen.

Ein huchelgais yw i'r sector cyhoeddus yng Nghymru gyda'i gilydd fod yn sero net erbyn 2030. Rydych eisoes wedi gwneud cynnydd da fel sefydliadau i leihau eich allyriadau, a disgwyliaf i hyn barhau. Rhaid ichi ddal ati hefyd i edrych ar yr amgylchedd, y cymunedau a'r ymwelwyr sydd y tu hwnt i'ch sefydliadau.

**Felly, hoffwn i chi:**

- Cefnogi'n weithredol ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu economi ddi-garbon drwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 drwy'ch gwaith bob dydd ac amrywiaeth o ymyriadau datgarboneiddio
- Mynd ati mewn modd rhagweithiol i hwyluso atafaelu carbon drwy gefnogi creu coetiroedd lle bo hynny'n briodol, ac adfer mawndir ar raddfa fawr drwy'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (NPAP)
- Cymryd camau i wella cysylltiadau, cyflwr, maint ac amrywiaeth ecosystemau, a chynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth, gan ymgorffori'r gwaith sydd ei angen i daro'r targedau cenedlaethol sy'n deillio o'r ymrwymiad 30x30
- Cyflawni Cronfa Natur a Charbon Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy a chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru i gyflawni nodau natur a datgarboneiddio.

**Pobl a Lleoedd**
Rwyf am ichi barhau i geisio annog pobl i fwynhau mewn ffordd sy'n sensitif o safbwynt amgylcheddol, economaidd a diwylliannol, ac i chwilio am atebion cynaliadwy lle mae tensiynau a phroblemau.

Rydyn ni wedi ymrwymo i gymryd camau i reoli nifer yr ail gartrefi a gosodiadau gwyliau trwyddedig. Gall Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ddylanwadu ar yr agenda hon drwy eu gwaith fel Awdurdodau Cynllunio Lleol a dylen nhw weithio gyda'r Awdurdod Tai, cymunedau lleol a datblygwyr i sicrhau bod mwy o dai fforddiadwy ar gael.

Mae cynaliadwyedd hirdymor llawer o'n tirweddau mwyaf sensitif a'u cymunedau hefyd yn cydblethu â'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg; hoffwn eich gweld yn parhau i wireddu'n hymrwymiad i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Felly, hoffwn i chi:**

- Parhau i gyflawni cynllun Ffermio Bro
- Gweithio gydag Awdurdodau Tai, Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol a datblygwyr preifat, i ddatblygu atebion arloesol i faterion tai acíwt
- Gan weithio gyda phartneriaid fel Awdurdodau Lleol a Thrafnidiaeth Cymru, gweithredu atebion i bwysau ymwelwyr ar seilwaith lleol, gan gynnwys systemau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, ac ymgyrchoedd cyfathrebu i sicrhau hamdden cyfrifol.
- Cydweithio â phartneriaid allweddol i gyflawni yn erbyn Blaenoriaethau ar gyfer yr Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru i ddiogelu a dehongli'r amgylchedd hanesyddol a'r dreftadaeth ddiwylliannol.
- Datblygu polisïau sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn gallu ffynnu
- Cynyddu cyfleoedd i bobl mewn grwpiau bregus neu dan anfantais a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa o'r tirweddau rydych chi'n eu rheoli
- Cynyddu'r ddarpariaeth o gyfleoedd hyfforddi sgiliau, prentisiaethau a gwirfoddoli.

**Llywodraethu a Chydweithredu**

Rwy'n gwerthfawrogi cyfraniad yr holl benodiadau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Pan fydd yn gweithio'n dda, mae persbectif lleol penodeion ALlau yn ategu'r perspectif cenedlaethol y mae penodiadau Gweinidogol yn ei gynnig. Mae gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol strwythur craffu cadarn eisoes drwy waith Archwilio Cymru, archwilio mewnol a'r trefniadau monitro parhaus gyda Llywodraeth Cymru. Mae sawl maes lle y gallwn wneud mwy o waith gyda'n gilydd i gefnogi aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyfrannu mor effeithiol â phosibl. Dylai cyfranogiad mwy gweithredol a mabwysiadu'r fframwaith rhagoriaeth llywodraethu a gefnogir gan Lywodraeth Cymru fod yn flaenoriaeth.

Rwy'n falch o weld cynnydd partneriaeth Tirweddau Cymru a'i chefnogi wrth iddi ddatblygu fframwaith llywodraethu a chyflawni cryfach ag adnoddau gwell yn 2025.

**Felly, hoffwn i chi:**

- Ceisio rhagoriaeth o ran llywodraethu gan gynnwys rhannu arferion gorau a hyfforddiant rhwng Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a chyrff eraill
- Sicrhau bod amrywiaeth a safbwyntiau amrywiol yn rhan ganolog o'ch strwythurau llywodraethu a'ch prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau
- Cefnogi Tirweddau Cymru i ddatblygu ei uchelgais, ymgorffori cydweithio ar bob lefel o fewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol, a mynd ati mewn ffordd rhagweithiol i ddatblygu a darparu cyfleoedd newydd ar gyfer gweithio ar y cyd
- Ymgorffori'r adnoddau a grëwyd yn ystod rhaglen Cymorth Llywodraethu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, gan gynnwys Llawlyfr Llywodraethu yr Aelodau, fframwaith disgwyliadau, ac arfarniad aelodau mewn trefniadau sefydlu a datblygu Aelodau.

**ATODIAD B: ADNODDAU ARIANNOL AR GYFER 2026-27**

| | | |
|---|---|---|
| **Grant Craidd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol** | **£4,499,000** | **I'w hawlio bob chwarter:**<br>• **£1,124,750 yn Chwarter 1**<br>• **£1,124,750 yn Chwarter 2**<br>• **£1,124,750 yn Chwarter 3**<br>• **£1,124,750 yn Chwarter 4** |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyllid Cyfalaf Cyffredinol** | **£330,000** | **I'w hawlio bob 6 mis:**<br>• **£165,000 ym mis Tachwedd 2026**<br>• **£165,000 ym mis Mawrth 2027** |
| • Pwrpas y cyllid Cyfalaf Cyffredinol yw caniatáu hyblygrwydd i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol wrth fynd i'r afael â'r pwysau o fewn ardal y Parc Cenedlaethol drwy brosiectau wedi'u targedu. Nid yw'n ofynnol cyflwyno cynigion prosiect i uned Tirweddau Dynodedig Llywodraeth Cymru i'w cymeradwyo, ond bydd pob prosiect yn destun adrodd ar ddiwedd y flwyddyn a monitro ad hoc drwy gydol y cyfnod cyllido.<br>• Rhaid gwario'r cyllid yn ystod y flwyddyn o fewn neu gerllaw (parth glustogi) ffin y Parc Cenedlaethol a rhaid iddo ategu'r Dibenion Statudol/Cynllun Rheoli.<br>• Rhaid i'r cyllid gael ei ddefnyddio gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol. Dylid ei wario'n llawn o fewn y flwyddyn ariannol y mae'r grant yn ymwneud â hi.<br>• Ni ddylid defnyddio cyllid fel cynllun grant neu gymorth ar gyfer cyrff y sector preifat, a dim ond ar ôl proses dryloyw ac archwiliadwy y dylid talu unrhyw gyllid i gyrff cymunedol. | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Ffermio Bro: Cyllid Cyfalaf** | **£709,847*** | **Gweler Rheolau Cynllun RPW** |
| **Ffermio Bro: Cyllid Refeniw** | **£113,000*** | **Gweler Rheolau Cynllun RPW** |

* Noder pan fydd hyn yn cynnwys darpariaeth i gyflawni ar ran sawl tirwedd

**Eitem Rhif 16**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod |
| **DYDDIAD** | 29 Ebrill 2026 |
| **TEITL** | **Rhaglen Waith Gorfforaethol 2026-27 (Drafft)** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | Derbyn, trafod a mabwysiadu'r Rhaglen Waith Gorfforaethol (Drafft) fel dogfen weithredol ar gyfer 2026-27 |

## 1. CEFNDIR / CYFLWYNIAD

1.1. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus gyhoeddi Datganiad Llesiant wrth osod eu hamcanion llesiant yn egluro pam eu bod yn teimlo y bydd yr amcan yn eu helpu i gyflawni'r nodau a sut mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Rhaid iddynt hefyd sicrhau eu bod yn cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau a bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth eu hardal.

1.2 Mae'r Datganiad Llesiant a'r Amcanion Llesiant wedi cael eu mabwysiadu fel dogfennau strategol gan yr Awdurdod yn ystod Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 23 Mawrth, 2021. (Fel dogfennau strategol mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sydd bellach hefyd yn cynnwys sylw dyledus i'r Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd, wedi'i baratoi. (Dogfennau ar gael ar gais).

1.3 Yng nghyfarfod Mehefin 2025 o'r Awdurdod ystyriodd a chytunodd yr Aelodau adroddiad gan y Prif Weithredwr yn nodi rhesymeg dros ymestyn yr Amcanion Llesiant presennol i fis Ebrill 2027.

Byddai hyn yn caniatáu i adolygiad parhaus o Gynllun Eryri ystyried Amcanion Llesiant newydd ochr yn ochr â'r cynllun. Yn ogystal, bydd cyfeiriad strategol y Parc Cenedlaethol wedi cael ei drafod yn helaeth gydag amrywiaeth eang o bartneriaid a rhanddeiliaid fel rhan o broses adolygu Cynllun Eryri a bydd hyn yn gosod sylfaen gref a chynhwysol i adolygu ein Hamcanion Llesiant ar y cyd.

1.4 Mae anghymwysiad (gyda chafeatau) Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn caniatáu i'r Awdurdod fabwysiadu amcanion tymor hwy a fydd yn hwyluso gwell aliniad rhwng gwaith yr Awdurdod â Chynllun Eryri, y Cynllun Datblygu Lleol, mecanweithiau adrodd a sefydlu amcanion realistig a CHAMPUS ar gyfer rhaglenni gwaith blynyddol.

## 2. YR AMCANION LLESIANT:

2.1 Mae Datganiad Llesiant ar gyfer yr Awdurdod yn gosod allan Amcanion Llesiant sy'n disgrifio sut y byddant yn ein helpu i gyflawni'r saith nod llesiant i Gymru ac yn sefydlu'r rhesymeg a'r camau y byddwn yn eu cymryd i'w cyflawni.

2.2 Mae'r Amcanion Llesiant sydd wedi eu mabwysiadu yn canolbwyntio ar dri maes gwaith allweddol - Amgylcheddau Cydnerth, Cymunedau Cydnerth a Ffyrdd Cydnerth o Weithio - ynghyd â phump is-thema i ddarparu ffocws.

2.3 Mae'r tri maes gwaith allweddol wedi ei datblygu i Raglen Waith Gorfforaethol blynyddol ac wedi ei diweddaru ar gyfer 2026-27 sy'n amlinellu prosiectau, mentrau a chamau gweithredol penodol a fydd yn cael eu cynnal i gyflawni'r Amcanion Gwelliant a Blaenoriaethau Gwasanaeth.

2.4 Unwaith y cwblheir y prosiectau a'r mentrau, bydd yr Awdurdod yn gallu mesur os yw'r gwelliannu wedi cael eu cyflawni ymhob un o'r tri maes allweddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2026-27.

2.5 Mae'r Awdurdod wedi derbyn y Llythyr Grant Strategol blynyddol sy'n gosod allan yr Amcanion Blaenoriaeth a Gweithredoedd mae'r Llywodraeth gyfredol yn disgwyl i'r Awdurdod weithredu yn ystod y cyfnod 2026-27.

Mae'r blaenoriaethau wedi eu grwpio i dair thema weithredu:

- Yr Amgylchedd
- Pobl a Lleoedd
- Llywodraethu a Chydweithredu

sy'n unioni'n dda gyda'r Amcanion Llesiant sydd wedi'u mabwysiadu gan yr Awdurdod.

2.6 Mae Rhaglen Waith Gorfforaethol yr Awdurdod wedi ei chroesgyfeirio gydag Amcanion y Llythyr Grant Strategol ac mae prosiectau wedi eu nodi bydd, unwaith wedi'u gweithredu/cwblhau, yn cyfrannu tuag at gyflawni Amcanion Blaenoriaethau LlC.

## 3. GOBLYGIADAU ADNODDAU:

3.1 Bydd y Rhaglen Waith Gorfforaethol yn cael effaith ar adnoddau staff a goblygiadau ariannol ill dau ond fe ystyriwyd y ffactorau hyn wrth baratoi'r Rhaglen Waith.

## 4. ARGYMHELLIAD:

Bod yr Aelodau yn mabwysiadu'r Rhaglen Waith Gorfforaethol (Drafft) fel dogfen weithredol ar gyfer 2026-27.

## 5. PAPURAU CEFNDIROL:

Rhaglen Waith Gorfforaethol 2026-27 (Drafft).

**AMCANION LLESIANT 2021-26/27 (Cyfeiriwch hefyd at Ddatganiad Llesiant APCE 2021-26/27)**

# RHAGLEN WAITH GORFFORAETHOL 2026-27

**Yr Amcanion Llesiant, Prosiectau a Mentrau Cyfatebol a Chanlyniadau llwyddiant**
**(Wedi eu croesgyfeirio gyda Blaenoriaethau Strategol Llywodraeth Cymru 2026-27 ar gyfer APCE).**

## 1. AMGYLCHEDDAU CYDNERTH

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 1 | GWELLA RHEOLAETH HAMDDEN AC UNRHYW EFFEITHIAU NEGYDDOL HAMDDEN |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **AC 1.1**<br>**Gweithredu Ymgyrch Cyfathrebu Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2026** | Parhaus | Pennaeth Cyfathrebu |
| **AC 1.2**<br>**Monitro nifer yr ymwelwyr trwy gyfrifwyr pobl i sefydlu effaith defnyddwyr ar draws y Parc Cenedlaethol. Cynhyrchu adroddiad yn seiliedig ar ddata 2025.** | Parhaus. Adroddiad nesaf erbyn Mehefin/ Gorff. 2026 | Pennaeth Partneriaethau |
| **AC 1.3**<br>**Nodi a meintioli gwaith mynediad i liniaru effeithiau pwysau pobl**<br>➢ Cyflwyno adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn | Parhaus<br><br>Awdurdod Rhag. 2026 | Pennaeth Wardeinio a Mynediad (WaM) |
| **AC 1.4**<br>**Cynrhyrchu Strategaeth Llwybrau ar gyfer gwaith llwybrau yn Eryri**<br>**Adrodd i Weithgor**<br>**Awdurdod i Fabwysiadu** | Mai/Mehefin Rhag. 2026 | Pennaeth WaM |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **AC 1.5**<br>**Cynhyrchu canllawiau ar gyfer cyflawni gwaith mynediad yn Eryri** | Rhag. 2026 | Pennaeth WaM |
| **AC 1.6**<br>**Sicrhau fod llwybrau a hyrwyddir yn cael eu harolygu, eu cynnal a'u gwella'n rheolaidd pan fo angen a darparu adroddiad blynyddol i'r Tim Arweinyddiaeth** | Blynyddol | Pennaeth WaM |
| **AC 1.7**<br>**Wardeiniaid Ardal i weithio gyda'r Cymunedau a phartneriaid i nodi a manteisio ar gyfleoedd i ddarparu ystod o lwybrau a hyrwyddir ar gyfer galluoedd amrywiol** | Parhaus | Pennaeth WaM |
| **AC 1.8**<br>**Gweithio ar draws yr Awdurdod i integreiddio rhaglenni gwaith a datblygu Cynlluniau Ardal Wardeiniaid** | Rhag. 2026 | Pennaeth WaM |
| **AC 1.9**<br>**Adolygu, mabwysiadu a gweithredu Strategaeth Gyfathrebu'r Awdurdod fydd yn weithredol ar gyfer 2026-30** | Mehefin 2026 | Pennaeth Cyfathrebu |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 2 | YMATEB I HERIAU NEWID YN YR HINSAWDD |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **AC 2.1**<br>**Sicrhau bod newid yn yr hinsawdd yn cael ystyriaeth lawn wrth fynd ati i ddiwygio CDLl Eryri.** | Adroddiad blynyddol | Pennaeth Polisi Cynllunio (Pen. PC) |
| **AC 2.2**<br>**Creu Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd ar ran Rhinweddau Arbenning y Parc Cenedlaethol ar y cyd gyda Partneriaid a Chymunedau Eryri** | Mawrth 2027 | Swyddog Carbon |
| **AC 2.3**<br>**Datblygu Cynllun Addasu Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol ar y cyd ag adolygu Cynllun Eryri** | Mawrth 2027 | Swyddog Carbon |
| **AC 2.4**<br>**Effeithlonrwydd ynni a lleihau ôl-troed carbon adeiladau APCE i fod yn rhan annatod o'r Cynllun Rheoli Asedau newydd ymochrol gyda Ffyniant i Bawb Cymru – targedau Ystad Gyhoeddus Carbon Isel**<br>➢ Cynnal adolygiad o'r Portffolio Asedau gyda'r Is-Grŵp Asedau gydag argymhellion i'w hystyried gan yr Awdurdod llawn ac unrhyw asedau dros ben i'w hystyried ar gyfer eu gwaredu/trosglwyddo perchnogaeth | Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Newydd o Medi 2026 + ymlaen | Pen. Eiddo |
| **AC 2.5**<br>**Adolygu'r Strategaeth Carbon ac ail gyflwyno i'r Aelodau yn diweddaru ar unrhyw gynnydd/ newid.** | Medi 2026 | Swyddog Carbon (Yn Adrodd i Cyfarwyddwr Gwas. Corfforaethol) |
| **AC 2.6**<br>**Datblygu Cynllun Gweithredu Carbon Isel i Eryri fod yn garbon niwtral erbyn 2030 yn seiledig ar argymhellion adroddiad yr Astudiaeth Garbon, gan sicrhau bod hwn yn cynnwys ymrwymiad i :**<br>➢ Amcanion carbon isel yn y CDLl a Chynllun Eryri<br>➢ Gweithredu'r Strategaeth Coed a Choetiroedd<br>➢ Diweddaru Strategaeth Mawndiroedd | Parhaus | Cyf. Cynllunio a Phartneriaethau (CaP).<br>Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth (Pen. CCA)<br>Swyddog Carbon |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **AC 2.7**<br>**Sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i egwyddorion y "Ras i Sero", drwy fabwysiadu rôl arweinyddiaeth ac eiriolath gref yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd – gan gynnwys ymrwymo i'r 5 prif addewid sydd yn y "Ras i Sero". Gweithio gyda PCyDU/PyPC ar negeseuon strategol newid hinsawdd.** | Parhaus Diweddariad i Weithgor yn ystod 2026 | Swyddog Carbon |
| **AC 2.8**<br>**Cefnogi partneriaeth strategol gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro ar Adfer Natur ac Atafaeliad Carbon yn Nhirweddau Dynodedig Cymru.** | Parhaus | Prif Weithredwr (PW) |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 3 | GWELLA RHEOLAETH A DEALLTWRIAETH O'N TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **AC 3.1**<br>**Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol APCE** | Mawrth 2027 | Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol (TDd) |
| **AC 3.2**<br>**Cyfrannu'n weithredol at raglen waith Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd Tirweddau Llechi Gogledd Orllewin Cymru** | Parhaus | Cyf. Rheoli Tir |
| **AC 3.3**<br>**Cyfrannu'n weithredol at raglen waith barhaus y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol (HEG) dan arweiniad Cadw a'i weithgorau cysylltiedig, gan gynnwys Llesiant, Lliniaru Newid Hinsawdd, llesiant a Threftadaeth Leol** | Parhaus | Pennaeth TDd |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

| | | |
|---|---|---|
| **AC 3.4**<br>**Cynnal a datblygu Yr Ysgwrn fel amgueddfa a chanolfan ddiwylliannol o fri cenedlaethol a cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Aelodau** | Rhag. 2026 | Pennaeth TDd |
| **AC 3.5**<br>**Yn dilyn cwblhau Gwerthusiadau Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli, cyflwyno rhaglen barhaus o hyfforddiant sgiliau traddodiadol a fydd hefyd yn cyd-fyn**d â Chynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd | Parhaus | Pennaeth TDd |
| **AC 3.6**<br>**Cwblhau prosiect Dadgarboneiddio Dolgellau Hanesyddol, i wella effeithiolrwydd adeiladau rhestredig masnachol yn Ardal Gadwraeth Dolgellau.** | Mawrth 2027 | Pennaeth TDd |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 4 | MYND I'R AFAEL Â HERIAU A CHYFLEOEDD SENARIOS RHEOLI TIR Yn SGIL HER HINSODDOL AC CHOLLEDION NATUR |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **AC 4.1**<br>**Cynorthwyo datblygu a chynhyrchu egwyddorion rheoli tir er budd natur, ar y cyd â phartneriaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Tirweddau Cymru , a bod rhain yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Eryri.** | Adroddiad blynyddol i'r Awdurdod Mawrth 2027 | Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth (CAA), |
| **AC 4.2**<br>**Yn dilyn ymgynghoriad LlC, cynnal perthynas waith agos gyda'r sector tir i sicrhau bod gan yr Awdurdod ddealltwriaeth o oblygiadau parhaus effaith cynigion Cynllun Ffermio Cynaliadwy Cymru ar rinweddau arbennig Eryri**<br>➢ Cyflwyno adroddiad blynyddol ar NRAP Eryri i'r Awdurdod | Mawrth 2027 | Pennaeth CCA |
| **AC 4.3**<br>**Darparu Adroddiad blynyddol ar waith amaeth-amgylcheddol i gynnwys Ffermio Bro a'r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig (INRS) Ffermio Adfywiol.** | Adroddiad Blynyddol Mawrth 2027 | Pennaeth CCA |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 5 | MYND I'R AFAEL Â'R DIRYWIAD MEWN NATUR |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **AC 5.1**<br>**Cyflawni cynllun gweithredu Cynllun Adfer Natur**<br>➢ Cynhyrchu Adroddiad Blynyddol | ➢ Parhaus<br>➢ Mawrth 2027 | Pennaeth CCA |
| **AC 5.2**<br>**Sicrhau gwelliannau i bioamrywiaeth Eryri trwy'r broses Rheoli Datblygu** | Adroddiad blynyddol | Pennaeth RhDaCh |
| **AC 5.3**<br>**Unwaith bydd canllawiau Llywodraeth Cymru wedi'u cyhoeddi, sicrhau bod Canllawiau Cynllunio Atodol ar fioamrywiaeth yn cael ei gynhyrchu i gefnogi'r broses Rheoli Datblygu** | Mawrth 2027 | Pennaeth PC |
| **AC 5.4**<br>**Parhau i ddarparu prosiectau cymeradwy sy'n mynd i'r afael â nodau Eryri a datblygu rhaglenni pellach** | Adroddiad diweddaru dwywaith y flwyddyn | Cyf. Rheoli Tir<br>Rheolwyr Prosiectau |
| **AC 5.5**<br>**Parhau â arolygon ledled y Parc Cenedlaethol o safleoedd Coed a Choetiroedd Hynafol (PAWS)** | Mawrth 2027 | Pennaeth CCA |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

## **AMGYLCHEDDAU CYDNERTH:** Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:

**AC1:** Fyddwn wedi datblygu a gweithredu egwyddorion a throthwyon arweiniol mewn perthynas ag effeithiau ymwelwyr ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.1)***

**AC1:** Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2)***

**AC1, 2:** Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4)***

**AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)***

**AC1:** Gan ddefnyddio'r strategaeth marchnata brand fel sylfaen, byddwn wedi datblygu cynllun a rennir gyda phartneriaid ar y wybodaeth a ddarparwn i ymwelwyr, gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid ymddygiad ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.3)***

**AC2, 4:** Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1)***

**AC2, 4:** Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2)***

**AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)***

**AC5:** Mae dirywiad bioamrywiaeth yn cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.2)***

**AC2, 4, 5:** Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol **(yn unol â Chynllun Eryri A4.2)**

**AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol. **(yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3).**

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

## BLEANORIAETHAU STRATEGOL LLYWODRAETH CYMRU: YR AMGYLCHEDD

| Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE 2026-27 | Prosiect/Gwaith APCE |
|---|---|
| Cefnogi'n weithredol ymrwymiad Llywdoraeth Cymru i greu economi ddi-garbon drwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 drwy'ch gwaith bob dydd ac amrywiaeth o ymyriadau datgarboneiddio | **AC 2** |
| Mynd ati mewn modd rhagweithiol i hwyluso atafaelu carbon drwy gefnogi creu coedwigoedd lly bo hynny'n briodol, ac adfer mawndir ar raddfa fawr drwy'r Rhaglen Weithredu'r Genedlaethol ar Fawndiroedd (NPAP) | **AC 2.1 AC 2.2 AC 2.3 AC 2.6 AC 5.1 AC 5.5** |
| Cymryd camau i wella cysylltiadau, cyflwr, maint ac amwyriaeth ecosystemau, a chynnal a gwell a rhwydweithiau ecolegol cydnerth, gan ymgorffori'r gwaith sydd ei angen i daro'r targedau cenedlaethol sy'n deillio o'r ymrwymiad 30x30 | **AC 4 AC 5** |
| Cyflawni Cronfa Natur a Charbon Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy a chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru i gyflawni nodau natur a datgarboneiddio | **AC 2 AC 4 ac AC 5** |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

# 2. CYMUNEDAU CYDNERTH

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 1 | CYNNAL A GWELLA ANSAWDD BYWYD PRESWYLWYR |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol<br>(Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 2.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **CC 1.1**<br>**Datblygu adnoddau digidol sy'n ymwneud â gweithgareddau a llwybrau yn y Parc Cenedlaethol wedi'i dargedu a'i deilwra'n briodol** | Parhaus | Pennaeth Cyfathrebu i arwain |
| **CC 1.2**<br>**Fel rhan o'r Strategaeth Gwirfoddolwyr APCE ac mewn cydweithrediad â phartneriaid:**<br>➢ Parhau i ehangu cyfleoedd gwirfoddoli o fewn y Parc Cenedlaethol sy'n cynnwys gweithgareddau corfforol a diwylliannol.<br>➢ Datblygu'r Strategaeth Gwirfoddoli i gynnwys strategaeth Llesiant ar gyfer trigolion ac ymwelwyr i Eryri | Parhaus<br><br><br>Mawrth 2027 | Pennaeth Partneriaethau<br><br>Swyddog Gwirfoddoli a Lles i arwain |
| **CC 1.3**<br>**Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli i gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, rhai agored i niwed a grwpiau difreintiedig** | Parhaus | Swyddog Gwirfoddoli a Lles i arwain |
| **CC 1.4**<br>**Sicrhau bod cynllunio yn cymryd rôl ragweithiol wrth annog tai fforddiadwy trwy weithio gydag asiantaethau eraill yn y sector hwn, er mwyn ceisio cyflawni'r targed blynyddol a nodir yn y CDLl** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDaCh<br>Pen. PC |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol<br>(Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 2.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **CC 1.5**<br>**Yn dilyn penderfyniad gan yr Awdurdod i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli defnydd o dai fel ail gartrefi a llety gwyliau yn Ardal Parc Cenedlaethol Eryri a ddaeth yn weithredol ar y 1af o Fehefin 2025:**<br>➢ Paratoi fframwaith monitro i adrodd ar effaith cyflwyno Erthygl 4 yn Eryri | Hydref 2026 | Pennaeth PC |
| **CC 1.6**<br>**Gyda arian grant cynllun Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy LlC ar gyfer 2025-27, parhau i ddarparu arian a mesurau i gefnogi cymunedau ac economïau lleol drwy Cronfa Cymunedau Eryri (CCE) gan ffocysu ar ddatcarboneiddio. Hyrwyddo'r ail ffenestr ariannu ar gyfer 2026-27** | Mawrth 2027 | Swyddog Ymgysylltu Cymunedol i arwain |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 2 | CEFNOGI POBL IFANC |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **CC 2.1**<br>**Gweithredu'r Maniffesto Ieuenctid** | Parhaus<br>Mawrth 2027 | Pennaeth Partneriaethau |
| **CC 2.2**<br>**Datblygu'r cynllun Ceidwaid Ifanc er mwyn sicrhau gwaith partneriaeth effeithlon, darparu cyfleoedd eang a dod o hyd i gyllid i gynnal y cynllun** | Parhaus<br>Mawrth 2027 | Pennaeth Partneriaethau<br>Pennaeth WaM |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 3 | HYRWYDDO TWRISTIAETH GYNALIADWY I YCHWANEGU GWERTH I GYMUNEDAU LLEOL |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol<br>(Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 2.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **CC 3.1**<br>**Gweithio gyda Chyngor Gwynedd a CBS Conwy i ddatblygu a gweithredu cynllun strategol Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri. Parhau ar y gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu a thargedau a dangosyddion cysylltiedig.** | Parhaus | Pennaeth Partneriaethau |
| **CC 3.2**<br>**Gweithredu ar Cynllun yr Wyddfa mewn Partneriaeth â'r mudiadau a chyrff sydd yn cael ei cynrychioli ar y Bartneriaeth** | Mawrth 2027 | Rheolwr Prosiect Partneriaethau |
| **CC 3.3**<br>**Peilota Platfform Twristiaeth Gynaliadwy drwy cyd-gynhyrchu Ap gyda cymunedau a busnesau'r Parc Cenedlaethol o dan buddsoddiad arian grant LlC, Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy** | Mawrth 2027 | Pennaeth Partneriaethau |
| **CC 3.4**<br>**Parhau i ddatblygu cynllun Llysgenhadon Eryri.** | Parhaus | Pennaeth Partneriaethau |
| **CC 3.5**<br>**Sicrhau bod y CDLl presennol yn rhoi ei bolisïau ar waith yn gadarnhaol i gyfrannu at dwristiaeth gynaliadwy, sy'n ychwanegu gwerth at gymunedau lleol. Yn ogystal, sicrhau bod twristiaeth gynaliadwy gyda budd gymunedol yn cael ystyriaeth lawn wrth fynd ati i ddiwygio CDLl Eryri** | Adroddiad blynyddol | Pennaeth RhDaCh<br>Pennaeth PC |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 4 | HYRWYDDO A CHEFNOGI'R CYMRAEG YN WEITHREDOL |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 2.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **CC 4.1**<br>**Parhau i ddatblygu Yr Ysgwrn fel canolfan ddiwylliannol sy'n hyrwyddo diwylliant Cymraeg a mynd ati i ddarparu cyfleoedd i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg**<br>➢ Cyflwyno cais adnewyddu statws achrediad Yr Ysgwrn i Lywodraeth Cymru<br>➢ Creu arddangosfa dros dro newydd, Cadeiriau Eugene Van Fleteren | Parhaus<br><br>➢ Haf 2026<br>➢ Haf 2026 | Pennaeth TDd |
| **CC 4.2**<br>**Diogelu a hyrwyddo'r defnydd o enwau lleoedd Cymraeg drwy brosiectau cofnodi, safoni a dehongli enwau lleoedd Eryri a defnydd amodau Cynllunio** | Parhaus | Pennaeth TDd |
| **CC 4.3**<br>**Darparu cyfleoedd ac ennyn diddordeb pobl yn yr iaith Gymraeg, diwylliant a threftadaeth gan gynnwys:**<br>➢ Darparu cyfleoedd i wirfoddolwyr ddysgu a defnyddio'r Gymraeg drwy'r strategaeth wirfoddoli. | Parhaus | Swyddog Gwirfoddoli a Lles |
| **CC 4.4**<br>**Parhau i hysbysu a hyrwyddo pwysigrwydd a gwerth sgiliau iaith Gymraeg wrth alluogi'r Awdurdod, trwy ei staff, i wasanaethu cymuned Eryri.**<br>➢ Fel partner yn Is-grŵp Iaith Gymraeg Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Gwynedd a Môn, cyfrannu, defnyddio a hyrwyddo allbynnau'r Prosiect Chwalu Mythau.<br>➢ Arwyddo fyny i TWF – Siarter y Gymraeg yn y Gwaith. | **Mawrth 2027** | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer<br><br>Pennaeth Adnoddau Dynol |
| **CC 4.5**<br>**Sicrhau bod Polisi Datblygu 18: yr Iaith Gymraeg a gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol yn y broses rheoli datblygu** | Adroddiad blynyddol | Pennaeth RhDaCh |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 5 | DATBLYGU ECONOMI LEOL SY'N CEFNOGI DYNODIAD A RHEOLAETH ERYRI FEL PARC CENEDLAETHOL |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol<br>(Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 2.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| CC 5.1<br>**Sicrhau gweithrediad cadarnhaol polisïau cyfredol y CDLl i ddatblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad y PC** | Adroddiad blynyddol | Pennaeth RhDaCh |
| CC 5.2<br>**Cyflwyno adroddiad monitro blynyddol i'r aelodau i'w drafod ac ystyried yr amserlen ar gyfer dechrau adolygiad o'r CDLl cyfredol** | Adroddiad blynyddol | Pennaeth PC |
| CC 5.3<br>**Hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig Eryri yn gynaliadwy** | Parhaus | Pennaeth Cyfathrebu |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

## CYMUNEDAU CYDNERTH: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwydo i gyflawni'r amcan llesiant pan:

**CC1, 2, 4:** Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl ***(yn unol â Chynllun Eryri B1.2)***

**CC1, 3, 5:** Rydym wedi creu cynllun ac yn canolbwyntio adnoddau ar hyrwyddo, datblygu a chynnal a chadw llwybrau pellter hir wedi'u marcio'n dda, llwybrau hygyrch, llwybrau aml-ddefnyddiwr (yn enwedig llwybrau beicio a llwybrau beicio mynydd), hyrwyddo llwybrau a chysylltiadau a dolenni rhwng trefi a phentrefi. ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B2.1)***

**CC1, 2, 3, 5:** Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2)***

**CC1,3,5:** Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2)***

**CC2, 3, 4:** Rydym wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn llysgenhadon dros iaith a diwylliant yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***)

**CC4, 5:** Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***)

**CC 4:** Rydym wedi gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig sy'n annog datblygiadau newydd i gynnal neu wella datblygiad y Gymraeg ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1)***

**CC4:** Rydym wedi darparu cyfleoedd i ddysgwyr Cymru yn yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.2***)

**CC4:** Fyddwn ni wedi amddiffyn enwau lleoedd Cymreig (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.3***)

**CC1, 2, 4:** Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â materion sylfaenol a datblygu atebion arloesol i ddarparu tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol **(*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C3.1*)**

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: POBL A LLEOEDD

| Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE 2026-27 | Prosiect/Gwaith APCE |
|---|---|
| Parhau i gyflawni Cynllun Ffermio Bro | **AC4.3** |
| Gweithio gydag Awdurdodau Tai, Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol a datblygwyr preifat, i ddatblygu atebion arloesol i faterion tai aciwt | **CC1.4 CC1.5** |
| Gan weithio gyda phartneriaid fel Awdurdodau Lleol a Thrafnidiaeth Cymru, gweithredu atebion i bwysau ymwelwyr ar seilwaith lleol, gan cynnwys systemau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, ac ymgyrchoedd cyfathrebu i sicrhau hamdden cyfriol. | **AC1**<br>**CC 3.1 CC3.2 CC3.3 CC3.5 CC5.3** |
| Cydweithio â phartneriaid allweddol i gyflawni yn erbyn Blaenoriaethau ar gyfer yr Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru i ddiogelu a dehongli'r amgylchedd hanesyddol a'r dreftadaeth ddiwylliannol | **AC 3**<br>**CC 4.1 CC4.2 CC4.3 CC4.5** |
| Datblygu polisiau sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn gallu ffynnu | **CC4.3 CC 4.4 CC 4.5** |
| Cynyddu cyfleoedd i bobl mewn grwpiau bregus neu dan anfantais a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa o'r tirweddau rydych chi'n eu rheoli | **CC1.2 CC1.3** |
| Cynyddu'r ddarpariaeth o gyfleoedd hyfforddi sgiliau, prentisiaethau a gwirfoddoli | **AC 3.6 CC1.2 CC1.3 CC2 CC4.3** |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

# 3. FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 1 | DATBLYGU GWEITHLU MEDRUS |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 3.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **CW 1.1**<br>**Ymgysylltu â'n staff ar bob lefel i gynorthwyo rheoli perfformiad:**<br>**Anelu bydd holl aelodau staff yr Awdurdod yn cael eu gwerthuso o fewn 12 mis:**<br>➢ Edrych ar greu proses haws i'w ddefnyddio, i gynnwys asesiadau cynydd yn chwarterol yn hytrach na blynyddol drwy drefn fwy rhyngweithiol electroneg | Parhaus Mawrth 2027 | Pennaeth Adnoddau Dynol (AD) |
| **CW 1.2**<br>**Anelu cynnal asesiadau anghenion hyfforddi yr holl staff o fewn 12 mis:**<br>➢ Swyddog Iechyd a Diogelwch i weithio gyda phob Pennaeth i greu asesid gofynion hyfforddiant i bob swydd o fewn ei gwasanaeth | Parhaus Mawrth 2027 | Swyddog IaD |
| **CW 1.3**<br>**Cefnogi staff i fynychu grwpiau cymheiriaid y Parc Cenedlaethol i'w hysbysu am ddatblygiadau ac i gynorthwyo rheoli perfformiad a dealltwriaeth o fewn eu priod ddisgyblaethau** | Parhaus Mawrth 2027 | Pennaeth AD<br>Penaethiaid Gwasanaeth |
| **CW 1.4**<br>**Datblygu ein gweithlu ymhellach a rhoi pob cyfle i staff ddatblygu i gwrdd â heriau'r dyfodol** | Parhaus Mawrth 2027 | Penaethiaid Gwas.<br>Pennaeth AD |
| **CW 1.5**<br>**Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Sustemau Gwybodaeth a Strategaeth Ddigidol i arwain yr Awdurdod i'r dyfodol gyda canllawiau a gweledigaeth o ran ei sustemau technegol** | Mehefin 2026 | Pennaeth Syst. Gwybodaeth (SG)<br>Pennaeth Cyfathrebu |
| **CW 1.6**<br>**Datblygu llawlyfr cyfathrebu mewnol newydd ar gyfer holl staff** | Medi 2026 | Pen. Cyfathrebu<br>Pen. SG<br>Pen. GC a Gweinyddol |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 2 | DATBLYGU A HYRWYDDO ARFER GORAU |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 3.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **CW 2.1**<br>**Datblygu prosiectau a rhannu cyflawniadau gwaith Datgarboneiddio yr Ystad/Adeiladau trwy gyllid Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy  gyda chyrff eraill o fewn tirweddau dynodedig a'r ystad gyhoeddus ehangach** | Mawrth 2027 | Pennaeth Eiddo |
| **CW 2.2**<br>**Gwella Ymgysylltiad Staff a Mentrau Lles.  Fel rhan o'n hymrwymiad i feithrin amgylchedd gweithle cefnogol a ffyniannus, rydym yn bwriadu rhoi sawl strategaeth ar waith i sicrhau llesiant ein gweithwyr a hyrwyddo diwylliant o gysylltedd a lles:**<br>➢ **Ymchwilio a Gweithredu Arferion Gorau:** byddwn yn ymchwilio ac yn mabwysiadu arferion gorau o barciau ac awdurdodau eraill mewn perthynas â chynnal gwiriadau gwyliadwriaeth iechyd i staff er mwyn blaenoriaethau eu hiechyd a diogelwch<br><br>➢ **Dadansoddiad o Absenoldebau Salwch:** Deall y ffactorau sy'n cyfrannu at absenoldeb salwch i nodi tueddiadau a gweithredu ymyriadau wedi'u targedu i hyrwyddo lles cyffredinol a lleihau absenoldeb Diweddaru a hailgyfathrebu'r Polisi rheoli Absenoldeb i ail-ymgysylltu â rheolwyr a staff ynghylch cyfrifoldebau, sicrhau cysondeb a chynyddu presenoldeb.  Datblygu dadansoddiad cynhwysfawr o absenoldebau salwch a chynhyrchu adroddiadau sy'n nodi tueddiadau fesul gwasanaeth, tymor ayyb.<br><br>➢ **Mwy o Rwydweithio ymhlith Staff:** Meithrin ymdeimlad o gymuned a chyfeillgarwch ymhlith ein gweithwyr trwy drefnu diwrnodau cyfarfod staff amlach, gan gynnwys cinio a digwyddiadau awyr agored, i ddarparu cyfleoedd ar gyfer ymlacio, cymdeithasu ac adnewyddu | Mawrth 2027 | Pennaeth AD |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 3 | GWEITHIO'N EFFEITHIOL MEWN PARTNERIAETH |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 3.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **CW 3.1**<br>**Cyd-gynhyrchu Cynllun Eryri gyda Partneriaid craidd, staff ac Aelodau'r Awdurdod ar gyfer ei fabwysiadu am y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys ymgorffori Amcanion Llesiant yr Awdurdod yn y Cynllun** | Mawrth 2027 | Pennaeth Partneriaethau |
| **CW 3.2**<br>**Ystyried pa bolisiau newydd sydd angen eu datblygu ar gyfer Cynllun Eryri ee : Perthyn, Cynhwysiant a Mynediad** | Mawrth 2027 | Pennaeth Partneriaethau |
| **CW 3.3**<br>**Cefnogi gwaith y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol (NDLP) yng Nghymru** | Parhaus | Prif Weithredwr |
| **CW 3.4**<br>**Parhau i gefnogi gwaith Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ledled y DU, y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol, Sefydliad Parciau Cenedlaethol a mentrau cydweithredol cysylltiedig eraill** | Parhaus | Prif Weithredwr |
| **CW 3.5**<br>**Cyfrannu at swyddogaeth cynllunio Cyd Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru** | Parhaus | Cyfarwyddwr Cynllunio a Partneriaethau |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 4 | MODERNEIDDIO TREFNIADAU LLYWODRAETHU |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **CW 4.1**<br>**Monitro presenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod** | Mawrth 2027 | Swyddog Gwas. Democrataidd |
| **CW 4.2**<br>**Cefnogi a datblygu Aelodau'r Awdurdod drwy hyfforddiant a datblygu**<br>➢ Cefnogi Llywodraeth Cymru ar y rhaglen: 'Gwella Llywodraethu ac Atebolrwydd Aelodau yng Nghymru'. Rhoi cefnogaeth i swyddogion y Llywodraeth ar weithredu'r gwaith uchod | Parhaus | Cyf. Gwas. Corfforaethol |
| **CW 4.3**<br>**Mae'r Aelodau wedi cael Cyfarfod Adolygu Datblygiad Personol ar eu hanghenion datblygu a chymorth**. | | |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 5 | CYNNAL A GWELLA DEALLTWRIAETH A CHEFNOGAETTH CYMUNEDAU LLEOL I WAITH Y PARC CENEDLAETHOL |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 3.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| CW 5.1<br>**Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli pellach yn Yr Ysgwrn i wella'r garfan bresennol o wirfoddolwyr, gan geisio recriwtio pobl ifanc sy'n awyddus i ddatblygu sgiliau newydd ac ennill profiad, gan ganolbwyntio ar ddarparu gweithgareddau gan wirfoddolwyr yn ogystal â rolau mwy traddodiadol fel tywyswyr ymwelwyr.** | Parhaus | Pennaeth TDd |
| CW 5.2<br>**Adolygu a monitro'r mesurau yn y Strategaeth Ymgysylltu drwy'r adroddiad blynyddol ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol i sicrhau bod cymunedau lleol a rhanddeiliaid yn deall ac yn ymwybodol o waith yr Awdurdod** | Parhaus Mawrth 2027 | Pennaeth Cyfathrebu |
| CW 5.3<br>**Ymgysylltu â chymunedau a'u hysbysu trwy gyfarfodydd â Chynghorau Cymuned** | Parhaus | Pen. Polisi<br>Pen. Partneri.<br>Pen GC a Gwein.<br>Swyddog Ymg. Cymunedol |
| CW 5.4<br>**Parhau gyda cyswllt â pherchnogion tir a phartïon â diddordeb trwy gyfarfodydd Fforymau Mynediad Parc Cenedlaethol Eryri** | Parhaus | Rheolwr Mynediad a Lles |
| CW 5.5<br>**Parhau i gysylltu â'r gymuned ffermio ac undebau ffermio trwy gyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Amaethyddol** | Cyfarfod blynyddol | Pen. Cadwraeth Coed ac Amaeth |
| CW 5.6<br>**Cynnwys ein cymunedau lleol ym mhob agwedd bwysig o waith yr Awdurdod e.e. cyflwyno Cynllun Eryri a'r CDLl, llunio Canllawiau Cynllunio Atodol, Strategaethau Ymgysylltu wrth ddatblygu prosiectau newydd ayb.**<br>➢ Lansio a gweithredu Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol yr Awdurdod | Parhaus<br><br>Haf 2026 | Swyddog Ymg. Cymunedol |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 6 | CYDBWYSO ADNODDAU AC YMDRECHION YR AWDURDOD |
|---|---|---|

| Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 3.) | Amserlen i gwblhau | Swyddog(ion) sy'n Gyfrifol |
|---|---|---|
| **CW 6.1**<br>**Adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig er mwyn ymateb i'r sefyllfa ariannol** Adrodd i : Mabwysiadu gan: | Weithgor 06.26.<br>APCE Medi | PW<br>Pennaeth Cyllid |
| **CW 6.2**<br>**Yn amodol ar benderfyniad(au) terfynol yr Awdurdod 30.04.25. ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch, adrodd ar gynnydd unrhyw benderfyniad(au)** | Adroddiad i'r Awdurdod | PW |
| **CW 6.3**<br>**Sicrhau fod yr adroddiad ar ymateb i'r her ariannol gyflwynwyd i'r Awdurdod ar 10fed o Rhagfyr 2025 yn cael ei weithredu er mwyn cyrraedd ein targedau incwm** | Parhaus<br>Mawrth 2027 | PW |
| **CW 6.4**<br>**Adolygu Blaenoriaethau Gwasanaeth unwaith bydd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Raglen Llywodraethu ar gyfer y cyfnod etholedig 2026 - 2031** | Mawrth 2027 | PW |

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

**FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**CW1, 2:** Rydym wedi buddsoddi yn ein staff i sicrhau bod ganddynt yr arbenigedd a'r sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â heriau'r presennol a'r dyfodol.

**CW2, 3:** Pan fo Cynllun Eryri yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus.

**CW2, 4:** Rydym wedi cynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu presennol i sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i weithredu'n effeithiol ac y bydd yn ddigon addasadwy i gwrdd â heriau yn y dyfodol. Monitro unrhyw newidiadau i sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad.

**CW5:** Mae cyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a difreintiedig ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a dysgu amdanynt, a sut y gallant helpu i ofalu amdanynt wedi cael eu nodi. ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A5.1)***

**CW5:** Rydym wedi cefnogi, hyrwyddo a darparu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n helpu i amddiffyn a gwella'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A5.2***)

**CW5:** Fyddwn yn cynyddu cyfleoedd i ddeialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C4.1)***

**CW6 *:** Fyddwn yn cyflawni o fewn y gyllideb a neilltuwyd a defnyddir cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod mewn modd cynaliadwy.

*Amcan Llesiant Newydd wedi'i Fabwysiadu Mawrth 2024

**Troed nodyn:** Mae llawer o'r Prosiectau a'r Mentrau yn berthnasol i sawl amcan llesiant ond cyfeirir atynt unwaith o dan yr amcan mwyaf priodol yn y Rhaglen Waith

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: LLYWODRAETHU A CHYDWEITHREDU

| Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE 2026-27 | Prosiect/Gwaith APCE |
|---|---|
| Ceisio rhagoriaeth o ran llywodraethu gan gynnwys rhannu arferion gorau a hyfforddiant rhwng Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a chyrff eraill | **CW4.1 CW4.2** |
| Sicrhau bod amrywiaeth a safbwyntiau amrywiol yn rhan ganolog o'ch strwythurau llywodraethu a'ch prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau | **CW5.2 CW5.3 CW5.4 CW5.5 CW5.6** |
| Cefnogi Tirweddau Cymru i ddatblygu ei uchelgais, ymgorffori cydweithio ar bob lefel fewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol, a mynd ati mewn ffordd rhagweithiol i ddatblygu a darparu cyfleoedd newydd ar gyfer gweithio ar y cyd | **CW 3.3 CW 3.4** |
| Ymgorffori'r adnoddau a grewyd yn ystod rhaglen Cymorth Llywdoraethu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, gan gynnwys Llawlyfr Llywodraethu yr Aelodau, fframwaith disgwyliadau, ac arfarniad aelodau mewn trefniadau sefydlu a datblygu Aelodau | **CW 4.2** |

**Eitem Rhif 17**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod |
| **DYDDIAD** | 29 Ebrill 2026 |
| **TEITL** | **Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025-26 ar y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |
| **PWRPAS** | Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol drafft i'w ystyried |

## 1. CEFNDIR

1.1 Nod Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yw rhoi partneriaeth gymdeithasol ar sail statudol yng Nghymru. Mae'n darparu fframwaith i wella lles pobl yng Nghymru drwy wella gwasanaethau cyhoeddus drwy weithio mewn Partneriaeth Gymdeithasol, hyrwyddo Gwaith Teg a Chaffael Cyhoeddus sy'n Gymdeithasol Gyfrifol.

1.2 Mae gweithio mewn Partneriaeth Gymdeithasol yn golygu, pan fydd yr Awdurdod yn datblygu Amcanion Llesiant ac yn gwneud penderfyniadau strategol, fod yn rhaid inni sicrhau bod consensws neu gyfaddawd yn cael ei geisio gydag undebau llafur ynghylch y camau rhesymol yr ydym yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

1.3 Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, adroddiad o'r hyn y mae wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd hon. Rhaid cytuno ar yr adroddiad gydag undebau llafur cydnabyddedig y corff cyhoeddus neu gynnwys datganiad yn egluro pam na chytunwyd arno. Yna rhaid cyhoeddi'r adroddiad ar y wefan a'i gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

1.4 Yn ogystal, mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd gaffael statudol sy'n gymdeithasol gyfrifol ar yr Awdurdod. Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i ni osod a chyhoeddi amcanion caffael sy'n gymdeithasol gyfrifol, sydd wedi'u cynllunio i wneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r Nodau Llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

1.5 Bydd gwaith ar ddatblygu'r dyletswyddau caffael sy'n ofynnol o dan y Ddeddf yn digwydd yn y flwyddyn ariannol nesaf fel rhan o ddatblygu Amcanion Corfforaethol.

1.6 Mae'r Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2025-26 eisoes wedi'i ystyried a'i gymeradwyo gan y Cyd Weithgor Lleol a’r Fforwm Ymgysylltu a Llesiant Staff i'w gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, yn amodol ar gymeradwyaeth yr Awdurdod.

1.7 Atodir yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025-26 ar gyfer eich ystyriaeth.

## 2. GOBLYGIADAU ADNODDAU

2.1 Dim.

## 3. ARGYMHELLIAD:

Bod Aelodau yn trafod cynnwys yr adroddiad hwn ac, os cytunir, y gellir ei gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol fel Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-26.

## 4. PAPURAU CEFNDIROL

Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023
Adroddiad Blynyddol 2025-26.

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
# Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023
# Adroddiad Blynyddol 2025-26

## Cynnwys


Cyflwyniad ....................................................................................4
Cefndir ........................................................................................4
Amcanion Llesiant ........................................................................5
Diwallu'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol .................................5
Casgliad .......................................................................................7
Cymeradwyo'r Adroddiad ..................................................................7

## Cyflwyniad

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (PCCC) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, fel corff cyhoeddus, gynhyrchu adroddiad blynyddol i ddangos sut rydym wedi cydymffurfio â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol. Rhaid cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (CPC) i'w graffu.

Mae'r Ddeddf yn datgan bod:

- yn rhaid i gorff cyhoeddus baratoi, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, adroddiad o'r hyn y mae wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd;

- rhaid i'r adroddiad gael ei gytuno ag undebau llafur cydnabyddedig y corff cyhoeddus neu (lle nad oes undeb llafur cydnabyddedig) cynrychiolwyr eraill ei weithwyr neu dylai gynnwys datganiad yn egluro pam na chytunwyd arno; ac

- mae'n rhaid i'r corff cyhoeddus gyhoeddi'r adroddiad, a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r camau a gymerwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyda'r undebau llafur cydnabyddedig i weithredu'r ddyletswydd.

## Cefndir

Mae Deddf PCCC yn darparu fframwaith i wella lles pobl Cymru drwy wella gwasanaethau cyhoeddus drwy gryfhau rôl partneriaeth gymdeithasol o fewn gwneud penderfyniadau strategol. Bwriedir iddi ategu deddfwriaeth arall, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (DLlCD 2015).

Mae Deddf PCCC 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod, wrth gyflawni datblygu cynaliadwy, cyn belled ag y bo'n rhesymol, geisio consensws neu gyfaddawd gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig, wrth osod eu Hamcanion Llesiant (yn unol â Deddf Llesiant Cymru 2015) a gwneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau rhesymol y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae ceisio consensws neu gyfaddawd yn golygu bod rhaid i gorff cyhoeddus gynnwys ei undebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr eraill ei weithwyr yn y broses o osod amcanion neu wneud penderfyniadau, drwy:

- ymgynghori â nhw yng nghyfnod ffurfiannol y broses, a
- fel arall eu cynnwys drwy gydol y broses drwy:
  - ddarparu digon o wybodaeth i'w galluogi i ystyried yn iawn yr hyn a gynigir, a
  - rhoi digon o amser iddynt ystyried yn ddigonol yr hyn a gynigir ac ymateb.

Bydd ymgorffori egwyddorion partneriaeth gymdeithasol, megis Cydweithrediad, Parch, Ymddiriedaeth, Llais a Chyfranogiad, ac Enillion Cydfuddiannol i mewn i'r

broses hon, yn sicrhau perthnasoedd agored, tryloyw ac ystyrlon gyda'n hundebau llafur.

## Amcanion Llesiant

Mae'r staff wedi bod yn rhan annatod o ddatblygu Amcanion yr Awdurdod erioed. Mabwysiadwyd Amcanion Llesiant cyfredol yr Awdurdod ar gyfer 2021 – 26 yn dilyn cyfres o sesiynau ymgysylltu a hwyluswyd gan Aelodau a Staff ac ymgynghoriadau ffurfiol. Mabwysiadwyd y rhain yn ffurfiol gan yr Awdurdod ar 23 Mawrth 2021.

Ychwanegwyd Cydbwyso Adnoddau ac Ymdrechion yr Awdurdod at Amcanion Llesiant yr Awdurdod o 2024 ymlaen yn dilyn adolygiad o'r Amcanion Llesiant a'r sefyllfa ariannol heriol sy'n wynebu'r Awdurdod.

Mae Datganiad Llesiant yr Awdurdod yn dangos yn glir sut rydym ni, drwy ymgorffori datblygu cynaliadwy ym mhob agwedd ar ein gwaith, yn cynyddu ein cyfraniad i'r eithaf at gyflawni'r Nodau Llesiant Cenedlaethol fel y'u nodir yn y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau’r Dyfodol 2015.

Adroddwyd yn adroddiad blynyddol y llynedd fod yr Awdurdod wedi dechrau'r broses o adolygu Cynllun Eryri - Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, sydd bellach ar y gweill. Gan fod Cynllun Eryri yn bwydo'n uniongyrchol i ddatblygiad Datganiad Llesiant yr Awdurdod, sy'n cynnwys ein Hamcanion Llesiant, cytunodd yr Awdurdod i ohirio adolygiad o Amcanion Llesiant yr Awdurdod er mwyn sicrhau y bydd llinyn aur di-dor yn rhedeg rhyngddynt.

Yn dilyn cyfarfod â swyddogion o Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar yr 16eg o Hydref 2025, gwnaed penderfyniad i gyfuno Amcanion Llesiant Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri â Chynllun Eryri. Yn ogystal, bydd set ar wahân o Amcanion Corfforaethol annibynnol yn cael ei sefydlu, a fydd yn cynnwys amcan caffael fel sy'n ofynnol gan Ddeddf PGCC.

Dechreuodd trafodaethau cychwynnol ar ddatblygu'r rhain ym mis Chwefror 2026, a oedd yn cynnwys y Tîm Arweinyddiaeth a'r Tîm Cyflawni (Penaethiaid Gwasanaeth). Bydd ymgysylltu â staff ac undebau llafur yn dechrau cyn gynted â phosibl yn y flwyddyn ariannol newydd 2026-27, unwaith y bydd egwyddorion drafft ar gyfeiriad y daith wedi'u sefydlu a'u cytuno.

## Diwallu’r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

<u>Cyd-weithgor Lleol</u>

Mae gan yr Awdurdod 2 undeb cydnabyddedig swyddogol - Unison a GMB. Mae gan yr Awdurdod bwyllgor sefydledig o'r enw Cyd-weithgor Lleol, y mae ei gyfansoddiad yn caniatáu 3 Aelod cynrychioliadol o'r Awdurdod a 3 Aelod Staff a benodir yn gynrychiolwyr undebau lleol.

Cynhelir cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn gyda'r prif amcan o sefydlu dull rheolaidd o ymgynghori a negodi rhwng yr Awdurdod a'i weithwyr ynghylch eu telerau penodi, amodau gwasanaeth, iechyd a diogelwch, ac i drafod datblygu polisi cyffredinol.

Yn ei gyfarfod ar y 14eg o Fawrth 2025, ystyriodd a chymeradwyodd y Cyd-weithgor Lleol yr Adroddiad Blynyddol drafft ar y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer 2024-25.

Yn ei gyfarfod ar yr 28ain o Dachwedd 2025, rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod a chadarnhaodd fod cyflwyniad eisoes wedi'i roi ar y 3ydd o Dachwedd 2025 i Gyfarfod Staff yr Awdurdod. Rhoddwyd cyfle i'r staff godi cwestiynau'n uniongyrchol gyda'r Prif Weithredwr yn y cyfarfod hwn.

Yn yr un cyfarfod, adroddodd y Pennaeth Adnoddau Dynol a rhoi diweddariad i'r mynychwyr ar y polisïau a'r trefniadau gwaith a gyflwynwyd yn ddiweddar yn dilyn ymgynghoriad â staff a'r undebau llafur, y sefyllfa ddiweddaraf o ran recriwtio a chadw staff, yr hyfforddiant a datblygu staff a oedd wedi digwydd, a chyflwynodd ddata ac ystadegau allweddol Adnoddau Dynol. Yn ogystal, rhoddwyd trosolwg o gysylltiadau diwydiannol cyffredinol a chydweithio ag undebau llafur a oedd wedi digwydd.

Fforwm Ymgysylltu a Llesiant Staff

Mae'r Fforwm Ymgysylltu a Llesiant Staff yn parhau i hyrwyddo mentrau sy'n cefnogi llesiant staff. Yn ystod y flwyddyn, mae rhai o'r mentrau a gyflwynwyd yn cynnwys trwyddedau parcio staff am ddim ar gyfer meysydd parcio'r Awdurdod, clwb cerdded amser cinio i staff, a chyflwyno PWLS , sef offeryn llesiant digidol a ddatblygwyd ar y cyd gan y tîm Adnoddau Dynol a TG, a gynlluniwyd i helpu staff i wirio eu llesiant emosiynol.

Yn ogystal, mae'r Fforwm wedi cael cyfle i ystyried a rhoi adborth ar ddatblygiad amrywiol bolisïau gan gynnwys:

- Lwfans Cyfrifoldebau Ychwanegol, Honorariwm a Threfniadau Camu i Fyny;
- Polisi Absenoldeb Sabothol;
- Urddas yn y Gwaith: Polisi Gwrth-fwlio, Gwrth-aflonyddu a Gwrth-erledigaeth;
- Polisi Telemateg Cerbydau Fflyd; a
- Polisi a Gweithdrefnau Gyrwyr.

Cynrychiolwyr Undebau'r Staff

Yn ogystal â bod yn rhan o'r Cyd-weithgor Lleol, mae cynrychiolwyr undebau staff wedi'u cynnwys yn y broses o ddatblygu polisïau yn yr un modd â chynrychiolwyr staff ar y Fforwm Ymgysylltu a Llesiant Staff. Maent hefyd yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd Grŵp Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod a gynhelir bob deufis.

Hyfforddiant

Ym mis Mehefin 2025, cytunodd dau gynrychiolydd undeb staff (un Unsain, un GMB) i fod yn Hyrwyddwyr Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer yr Awdurdod.

Er mwyn ymgyfarwyddo â gofynion Deddf PGCC a rôl Hyrwyddwyr Cymdeithasol, cwblhaodd y ddau'r modiwlau hyfforddi ar-lein gofynnol, sef:

Pennod 1: Partneriaeth Gymdeithasol, Y Ffordd Gymreig e-ddysgu
Pennod 2: Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023
Pennod 3: Dyletswydd y Bartneriaeth Gymdeithasol

**Casgliad**

Gwelwyd cynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ran cryfhau dull yr Awdurdod o ymdrin â lles y gweithlu, gwneud penderfyniadau strategol, datblygu polisïau ac ymgysylltu â staff. Mae mabwysiadu polisïau newydd, gwella fframweithiau presennol a chyflwyno offer lles arloesol yn dangos dull rhagweithiol a thosturiol.

Mae'r Awdurdod yn parhau i fod wedi ymrwymo i feithrin diwylliant gweithle sy'n gynhwysol, yn barchus, ac yn cyd-fynd â'n gwerthoedd craidd. Mae cydweithio parhaus â chynrychiolwyr undebau llafur a fforymau staff wedi bod yn allweddol wrth sicrhau bod lleisiau staff yn cael eu clywed.

**Cymeradwyo'r Adroddiad**

1. Cymeradwyodd y Cyd Weithgor Lleol yr adroddiad hwn ar 20.03.26.
2. Cymeradwyodd y Fforwm Ymgysylltu a Llesiant Staff yr adroddiad hwn ar 21.04.26.
3. Cymeradwyodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yr adroddiad hwn ar xxx.

**GWEITHGOR AELODAU**
**PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
Dydd Mercher 21 Ionawr 2026

***YN BRESENNOL:***

**Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorwyr Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, Elfed Powell Roberts, Edgar Wyn Owen, John Pughe Roberts, Einir Wyn Williams;

**Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd (Cadeirydd), Jo Nuttall, Nia Owen;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Tim Jones, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas;

**Swyddogion**
Jon Cawley, Iwan Jones, Keira Sweenie, Angela Jones, Gwenno Jones, Adam Daniel, Eifion Jones.

**Hefyd yn bresennol**
Rhys Wheldon-Roberts, Swyddog Partneriaeth Cwm Idwal

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei gofnodi i gynorthwyo gwirio'r cofnodion.

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Delyth Lloyd Griffiths, Rhys Evans, Salamatu Fada.

2. **Datgan Diddordeb**

   Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

3. **Cofnodion**

   *Cyflwynwyd* cofnodion cyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2025.

   *Mabwysiadwyd* y cofnodion, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

   Materion yn codi o'r cofnodion:

   Eitem 8: Ymateb drafft i Orchymyn (Dynodi) Arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr - Ymgynghoriad Statudol 2025
   Adroddodd y Prif Weithredwr fod cyfnod ymgynghoriad pellach wedi agor ac y byddai'n edrych i weld a fyddai'n rhaid ail gyflwyno'r sylwadau a gyflwynwyd eisoes neu eu diwygio mewn rhyw fodd.

   Eitem 9: Cyflwyniad ar Europarc
   Adroddodd y Prif Weithredwr y byddai'n cyflwyno'r adroddiad yng nghyfarfod mis Chwefror y Gweithgor.

4. **Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Swyddog Ymgysylltu Cymunedol

*Adroddwyd*:

- bod y strategaeth yn ffrwyth gwaith nifer o flynyddoedd;
- nad oedd yn ddogfen statudol, ei bod yn cael ei chreu law yn llaw â Chynllun Eryri, a Chynllun Datblygu Lleol yr Awdurdod i greu fframwaith clir, cynaliadwy a fyddai'n cynorthwyo staff i atal dyblygu ac yn defnyddio terminoleg gyson ar draws yr Awdurdod;
- mai pwrpas y strategaeth oedd cryfhau'r berthynas rhwng y Parc a'i gymunedau

*Trafodwyd* yr adroddiad gan yr Aelodau a *nodwyd*:

- bod y ddogfen yn becyn cymorth yn ogystal â bod yn ddogfen strategol;
- dylid cryfhau'r elfen hyfforddiant ynddi, gan gynnwys hyfforddiant Aelodau;
- mai cyd-gynhyrchu oedd y nod a bod yn rhaid gwylio rhag *consultation fatigue*
- bod gan bobl, yn rhinwedd Confensiwn Aarhus 1998, yr hawl i weld, rhannu a herio gwybodaeth, gan gynnwys mewn archwiliadau cynllunio, a'i fod yn hollbwysig bod yr Awdurdod yn ymwybodol o hyn ac yn galluogi hawliau pobl yn natblygiad y Cynllun Datblygu Lleol.
- byddai'n rhaid mynd yn ôl at y cymunedau i ddweud beth wnaethpwyd yn dilyn yr ymgynghori ac ymgysylltu;
- dylai swyddogion yr Awdurdod ddechrau mynychu marchnad Dolgellau'n achlysurol eto, am ei fod yn ffordd dda i ymgysylltu ag amaethwyr;
- dylid ymwneud mwy gyda'r sector tai cymdeithasol;
- dylid hefyd ymgysylltu'n fwy gydag ymwelwyr o'r tu allan i'r Parc, ac o wledydd tramor, i rannu neges a phwrpas y Parc mor eang â phosib.

*Argymhellwyd*: – bod yr Aelodau'n

1. Nodi unrhyw sylwadau ar gynnwys y Strategaeth fel y mae hi ar hyn o bryd.
2. Darparu argymhellion pellach ynghylch fformat neu gynnwys sydd ar goll.

*Penderfynwyd:*— **derbyn** yr Argymhelliad.

5. **Adroddiad Trosolwg Partneriaeth Cwm Idwal**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan Rhys Wheldon-Roberts, Swyddog Partneriaeth Cwm Idwal, yn rhoi trosolwg o weithgaredd Partneriaeth Cwm Idwal ym mlwyddyn galendr 2025.

*Trafodwyd* yr adroddiad gan yr Aelodau a *nodwyd*:

- bod Prosiect Gwyddoniaeth Gymdeithasol Aethnen yn brosiect ar draws Eryri ond ei fod wedi'i ganoli yng Nghwm Idwal am nad oedd unrhyw ddefaid yno er 1998.

*Argymhellwyd*: – i'r Aelodau dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

*Penderfynwyd:*— **derbyn** yr Argymhelliad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11:45**

**GWEITHGOR AELODAU**
**PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
Dydd Mercher 25 Chwefror 2026

***YN BRESENNOL:***

**Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorwyr Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Elfed Powell Roberts, Edgar Wyn Owen, John Pughe Roberts;

**Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cynghorwyr Jo Nuttall, Nia Owen;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Rhys Evans, Tim Jones, Delyth Lloyd, Wyn Thomas;

**Swyddogion**
Jon Cawley, Iwan Jones, Keira Sweenie, Naomi Jones, Ioan Gwilym, Eifion Jones.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo gwirio'r cofnodion.

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Louise Hughes, Einir Wyn Williams, Ifor Glyn Lloyd, Salamatu Fada, Naomi Luhde-Thompson.

   Yn absenoldeb y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd, cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd Edgar Wyn Owen.

   Adroddodd y Cadeirydd fod y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd yn derbyn triniaeth lawfeddygol y diwrnod hwnnw. Dywedodd hefyd fod y Cynghorydd Louise Hughes wedi rhoi aren i'w merch yn ddiweddar a'i bod yn gwella'n araf. Cytunwyd anfon dymuniadau gorau'r Aelodau at y ddau ohonynt.

2. **Datgan Diddordeb**

   Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

3. **Cofnodion**

   *Cyflwynwyd* cofnodion cyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2026.

   *Mabwysiadwyd* y cofnodion, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. **Diweddariad ar Blas Tan y Bwlch**

   *Cyflwynwyd* adroddiad gan y Cyfarwyddwr Rheoli Tir

   *Adroddwyd*:

   - nad oedd adroddiad ysgrifenedig yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod hwn am fod y sefyllfa'n newid yn gyson;

- cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Gronfa Dreftadaeth ym mis Rhagfyr i drafod cyflwyno'r cais cyfnod datblygu a chynghorwyd yr Awdurdod i oedi cyflwyno'r cais tan fis Mai;
- mai'r egwyddorion arweiniol i'w cyflawni yn y prosiect oedd cost effeithiolrwydd, niwtraliaeth garbon, cynaliadwyedd, adferiad natur, cyfiawnder cymdeithasol a hinsawdd, cydlyniant cymunedol gwych, a chreu esiampl o ymarfer da a chelfyddyd y posibl;
- bod costau rhedeg y pencadlys yn sylweddol lai na chostau'r Plas ac er na fyddai'n bosib lleihau costau'r Plas i fod yn llai na chostau'r pencadlys y bwriad oedd lleihau cyfanswm cost cyfunol rhedeg y pencadlys a'r Plas;
- bod gwaith ymgysylltu wedi bod gyda staff ac Aelodau, a nifer fawr o sefydliadau gwahanol;
- bod sesiynau staff wedi codi heriau, pryderon a chyfleodd;
- bod *Donald Insall Associates*, o dan arweinyddiaeth y pensaer Elgan Jones, wedi eu penodi'n Dîm Dylunio i'r prosiect;
- bod cyllid wedi ei dderbyn gan Cadw i ariannu Cynllun Rheoli Cadwraeth Gerddi Plas Tan y Bwlch,
- bod grant o £50,000 wedi ei dderbyn gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer prosiect 12 mis i ymgysylltu â chymunedau drwy'r celfyddydau;
- mai gweddau'r prosiect bellach oedd:
  - cyflwyno cais Cyfnod Datblygu: Mai / Awst 2026
  - Cyfnod Datblygu: 18 mis i 2 flynedd o Hydref / Gaeaf 2026
  - cyflwyno cais Cyfnod Cyflawni: Hydref / Gaeaf 2028
  - Cyfnod Cyflawni; 5 mlynedd o Aeaf 2028 / Gwanwyn 2029
  - cwblhau'r prosiect erbyn: Gwanwyn 2034
- bod yr Awdurdod wedi derbyn awgrym ei fod yn cynnal oriel ym Mhlas Tan y Bwlch a fyddai'n gartref i gasgliad Peter Lord o gelf hanesyddol Cymru; casgliad o 250 o weithiau celf Gymreig o arwyddocâd cenedlaethol;
- bod nifer o gwestiynau anodd yn codi wrth ystyried hyn: a oedd yn cyd-fynd â'r briff strategol, beth fyddai'r brand, ei gost, pwy fyddai'n ei ariannu;
- bod yna risgiau a chyfleoedd i'w hystyried gyda'r prosiect, ei fod yn ffitio'n dda i egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac i Flaenoriaethau Diwylliant Llywodraeth Cymru ac yn cynnig cyfleoedd da i gynyddu gweithgaredd yn y Plas a chysylltu â phwrpasau'r Parc;
- bod yr Awdurdod wedi trafod y prosiect arfaethedig gyda nifer o bartneriaid, gan gynnwys y Gronfa Dreftadaeth a oedd wedi cefnogi'r prosiect i'r graddau eu bod wedi gwahodd yr Awdurdod i gyflwyno ail ddatganiad o ddiddordeb yn cynnwys prosiect mwy (tros £10 miliwn) iddynt weld a fyddai'n hyfyw;
- bod amcangyfrif costau rhedeg (refeniw) yr oriel arfaethedig + y Plas (ynghyd ag ariannu ychwanegol gan Amgueddfa Cymru) yn dod i oddeutu £250K y flwyddyn.

*Trafodwyd* yr adroddiad gan yr Aelodau a *nodwyd*:

- mai'r bwriad oedd codi adeilad newydd rhwng y stablau a'r anecs a fyddai'n cynnwys yr oriel;
- bod yr Awdurdod yn gwybod beth oedd gofynion cadw oriel am fod Yr Ysgwrn yn amgueddfa wedi ei hachredu, ond byddai'n fwriad hefyd gweithio tuag at y cynllun

*Government Indemnity Scheme* sy'n rhoi yswiriant ar gyfer benthyciadau cenedlaethol;

- bod yr Awdurdod yn cael cyngor cyson gan Lywodraeth Cymru ar y gwahanol scenarios;
- nad oedd partneriaid eraill mewn sefyllfa i gynnal oriel debyg a bod hynny wedi cynnig y cyfle i'r Awdurdod ei ystyried.

5. **Dathliadau Eryri 75**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Pennaeth Cyfathrebu

*Adroddwyd*:

- byddai dathliadau *Eryri 75* yn cael ei lansio ar Fawrth y 1af;
- bod 7 ar grŵp gweithio o wahanol adrannau o'r Awdurdod yn gweithio ar y dathliadau;
- byddai llyfr, *Parc Cenedlaethol Eryri: Etifeddiaeth ar waith*, yn cael ei gyhoeddi, sef cyfrol yn cynnwys cyfraniadau gan nifer o arbenigwyr ar wahanol agweddau o'r Parc;
- ei fod yn fwriad lansio'r llyfr yn Yr Ysgwrn ar ddechrau mis Gorffennaf;
- bod cwmni lleol, Cwrw Nant, yn cynhyrchu cwrw o'r enw "Yr Wyddfa" eleni a bydd logo Eryri 75 ar y poteli hynny, a bod cwmni lleol arall, Pen Wiwar, yn cynhyrchu crysau-t yn dathlu'r 75;
- byddai cystadlaethau barddoni cael eu cynnal – un agored, un i rai dan 18 ac un i rai dan 11; byddai cadair wedi ei cherfio gan Geth Pyrs o Gapel Garmon yn wobr ar gyfer y gystadleuaeth agored;
- byddai seremoni cadeirio'r bardd buddugol yn cael ei chynnal yn Yr Ysgwrn ar 21 Hydref, a bydd Ymryson y Beirdd rhwng Beirdd De Eryri a Beirdd Gogledd Eryri yn dilyn;
- bod ap Pasbort Digidol yn cael ei ddatblygu; bod yr ap yn cynnwys 75 o leoliadau o fewn Parc Eryri a bod modd ticio'r lleoliadau i ffwrdd pan fo person yn ymweld â'r lleoliadau hynny; y gobaith oedd eu lansio diwedd Mehefin / dechrau Gorffennaf;
- bod bwriad cynnal heriau staff ac aelodau, gan gynnwys ras gyfnewid i ddiweddu ym Mhlas Tan y Bwlch, a heriau mewnol i staff;
- bod bwriad cynnal Gŵyl Fawr Eryri – yn unai Yr Ysgwrn neu Harlech
- y bydd digwyddiad mwy ffurfiol rhwng y pedwar parc cenedlaethol oedd yn dathlu 75 eleni yn cael ei gynnal yn y Peak District ar 15fed o Orffennaf;

6. **Adroddiad Cwblhau Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Cyfarwyddwr Rheoli Tir

*Adroddwyd*:

- ei fod wedi bod yn gynllun mawr a heriol, wedi creu partneriaeth fawr a chynhyrchiol ond a oedd ar brydiau yn drwsgl, a bod y strwythur cyllid yn gymhleth;
- er hynny, bod y cynllun yn llwyddiannus iawn, gyda llawer o ganlyniadau ac allbynnau cadarnhaol iawn , gan gynnwys:

- tri pherson ifanc wedi cymryd rhan yn y brentisiaeth ac wedi mynd ymlaen i waith llawn amser mewn cadwraeth;
- geotagio brain coesgoch;
- hyfforddiant mewn gwaredu Jac y Neidiwr;
- 1.5 tunnell o fwyeill Neolithig wedi'u darganfod;
- 66,000 o goed brodorol wedi'u plannu

➢ diolchgarwch a chanmoliaeth arbennig i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac yn benodol i Trystan Edwards, ac i'r Athro Prysor Williams fel Cadeirydd y Bartneriaeth;

➢ yn dilyn cyfarfod gyda Chymuned Llanllechid, derbyniwyd rhestr o bethau yr hoffent gael gan y prosiect, ac fe adroddwyd yn ôl iddynt wedi hynny ar ddatblygiadau a gafwyd;

➢ bod Cynghorwyr Cymuned Llanllechid, yn dilyn hynny, yn y broses o sefydlu cymdeithas merlod a chymdeithas defaid ar gyfer y comin;

➢ bod gan yr Awdurdod gynllun gwaddol ar gyfer Partneriaeth y Carneddau;

➢ ei fod yn bwysig cael gweld diwedd ar gynlluniau o'r fath er mwyn cael adlewyrchu arnynt, i weld eu heffaith a dysgu ohonynt.

7. **Cyflwyniad ar Europarc**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Prif Weithredwr

*Adroddwyd*:

➢ bod cynhadledd Europarc wedi'i chynnal yn 2025 yn Lithuania;

➢ bod gan Lithwania 5 parc cenedlaethol, 6 gwarchodfa natur caeth, a 30 o barciau rhanbarthol;

➢ bod Parc Cenedlaethol Eryri wedi bod yn aelod gwreiddiol o Europarc ynghyd â'r *Dutch National Forest Service*;

➢ cafwyd nifer o gyflwyniadau gwerthfawr, gan gynnwys cyflwyniadau ar:
- yr heriau oedd yn wynebu parciau cenedlaethol Iwerddon,
- ddyfodol cynllun LIFE yr UE,
- *Shifting Baseline Syndrome*, sef y modd y daw cymdeithas i arfer â'r newid yng nghyflwr presennol natur i'w gymharu â sut oedd pethau 100 neu 500 o flynyddoedd yn ôl;
- Ddiwrnod Dathlu Natur yn y Ffindir.

8. **Proses recriwtio ar gyfer apwyntio Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Prif Weithredwr

*Adroddwyd*:

➢ bod Iwan Jones, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, wedi cadarnhau ei fod yn bwriadu ymddeol ym mis Mehefin;

➢ ei fod wedi'i benderfynu y byddai cymhwyster cyfreithiol yn ddewisol yn hytrach na'n orfodol ar gyfer y swydd er mwyn ehangu'r rhwyd wrth recriwtio;

➢ bod y rôl o Swyddog Monitro'n parhau'n rhan o'r swydd;

- mai’r bwriad oedd ceisio cael cyfnod o drosglwyddo tra bod y Cyfarwyddwr presennol yn parhau yn ei swydd;
- mai’r amserlen recriwtio oedd:
  - hysbysebu’r swydd ar 24$^{ain}$ Chwefror,
  - dyddiad cau 12$^{fed}$ o Fawrth,
  - pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau arbennig ar 25$^{ain}$ o Fawrth i dynnu rhestr fer,
  - cyfarfod arbennig o’r Awdurdod ar 15$^{fed}$ o Ebrill i gynnal cyfweliadau a phenodi Cyfarwyddwr newydd.

*Argymhellwyd*: – bod yr Aelodau’n

1. Cadarnhau eu bod yn derbyn yr amserlen recriwtio; a
2. Chadarnhau a ydynt yn gallu mynychu'r Pwyllgor P&A Arbennig ar y 25$^{ain}$ o Fawrth a chyfarfod yr Awdurdod Arbennig ar y 15$^{fed}$ o Ebrill

*Penderfynwyd:*— **derbyn** yr Argymhelliad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12:40**